Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn addasu Erthygl 6 o Gyfarwyddeb 2008/98/EC i'w darllen fel pe bai'r testun a ganlyn wedi'i fewnosod ar ôl paragraff 1:

"1A. Any decision as to whether a substance or object has ceased to be waste must be made—



(a) in accordance with any regulations or retained direct EU legislation (within the meaning given to that expression in the European Union (Withdrawal) Act 2018) setting out detailed criteria on the application of the conditions in paragraph 1 to specific types of waste; and

(b) having regard to any guidance published by the Welsh Ministers or the Natural Resources Body for Wales for the purposes of this Article."

At hyn, mae Erthygl 6 o Gyfarwyddeb 2008/98/EC wedi'i haddasu i ddarllen fel pe bai "Any detailed criteria set out in guidance as referred to in paragraph 1A" yn disodli "Those detailed criteria".

Caiff y Gyfarwyddeb ei haddasu gan reoliadau 2(2)(c), 2(3)(c), 2(4)(a) a 2(5)(b) o'r Rheoliadau hyn.

Gofynnir am esboniad ychwanegol ynghylch y ffaith bod cyfeiriad penodol at feini prawf manwl yn (a) ond nid (b), felly oni ddylid defnyddio'r geiriau "Any detailed criteria set out in regulations or retained direct EU legislation" yn lle "Any detailed criteria set out in guidance".

2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Mae rheoliad 2(3)(a) yn hepgor "(as substituted by regulation 4(2))" o'r diffiniad ar gyfer "cyfleuster gwastraff" a gynhwysir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004. Mae Rheoliad 2(3)(a) yn disodli'r diwygiad a gynhwysir yn rheoliad 7(2) o Reoliadau 2019. Er bod y geiriad sydd wedi'i hepgor wedi'i gynnwys yn rheoliad 7(2) o Reoliadau 2019, nid yw wedi'i gynnwys yn Rheoliadau Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt technegol a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron y Senedd ar gyfer sifftio yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Cytunodd y Pwyllgor mai gweithdrefn negyddol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Sylwn mai 'Diogelu'r Amgylchedd, Cymru' yw pennawd pwnc y Rheoliadau hyn. Mae Rheoliadau 2019, a gaiff eu diwygio gan y Rheoliadau hyn, hefyd yn cynnwys "Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, Cymru" a "Gwastraff, Cymru" fel penawdau pwnc. Gan fod penawdau pwnc yn ei gwneud yn haws i'r darlennydd ddod o hyd i'r maes y mae'r offeryn yn effeithio



arno, byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe bai'r Rheoliadau wedi cynnwys "Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, Cymru" a "Gwastraff, Cymru".

5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Yn yr ail baragraff o Ran 5 o'r Memorandwm Esboniadol, cyfeirir at "Reoliadau'r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020" Mae'n ymddangos yn y fersiwn Gymraeg a Saesneg o'r Memorandwm Esboniadol. Tybir y dylent gyfeirio at y Rheoliadau hyn.

Y goblygiadau yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ac eithrio'r rhai a nodir uchod, ni nodir unrhyw oblygiadau eraill i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran y coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

9 Tachwedd 2020



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1339 (Cy. 296)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Gwastraff (Cymru)
(Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael
â'r UE) 2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan bwerau Gweinidogion Cymru ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Yn benodol, mae'r rheoliadau hyn yn gwneud addasiadau i Reoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/414 (Cy. 96)) ("Rheoliadau 2019").

Mae Rheoliadau 2019, a ddaw i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, yn gwneud addasiadau i Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 (mccc 8), Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004 (O.S. 2004/1490 (Cy. 155)), Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1806 (Cy. 138)) a Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Aildefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011 (O.S. 2011/1014 (Cy. 152)).

O ganlyniad i weithredu deddfwriaeth yr UE ers i Reoliadau 2019 gael eu gwneud, gan gynnwys diwygiadau i amryw o Gyfarwyddebau'r UE a wnaed o dan Becyn Economi Gylchol yr UE, nid yw'r darpariaethau cywiro a wnaed gan Reoliadau 2019 yn mynd i'r afael yn llawn mwyach â'r diffygion yng ngweithrediad cyfraith yr UE a ddargedwir a fydd yn codi o ganlyniad i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ac y bwriadwyd iddynt eu cywiro.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn, sy'n cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, yn gwneud diwygiadau i Reoliadau 2019, er mwyn

sicrhau, pan ddeuant i rym, y bydd yr offerynnau y maent yn eu diwygio yn gweithredu'n effeithiol ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Mae rheoliad 3 yn dirymu mân ddarpariaethau penodol yn Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 a fydd yn peidio â gweithredu'n effeithiol ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1339 (Cy. 296)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Gwastraff (Cymru)
(Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael
â'r UE) 2020**

Gofynion *sifftio* *wedi* *eu*
bodloni *16 Tachwedd 2020*

Gwnaed *23 Tachwedd 2020*

Gosodwyd *gerbron* *Senedd*
Cymru *25 Tachwedd 2020*

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(3) a (4)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1).

Mae gofynion paragraff 4 o Atodlen 2 a pharagraff 4(2) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno wedi eu bodloni.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym yn unol â pharagraffau (3) a (4).

(3) Daw'r rheoliad hwn a rheoliad 2 i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(4) Daw rheoliad 3 i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(1) 2018 p.16, a ddiwygiwyd gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1).

**Diwygio Rheoliadau Gwastraff (Cymru)
(Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019**

2.—(1) Mae Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019⁽¹⁾ wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 6—

(a) yn lle paragraff (2) rhodder—

“(2) Yn adran 9(3) ar y diwedd mewnosoder “, a’i darllen fel pe bai—

(a) yn Erthygl 2—

(i) ym mhwynt (a) y cyfeiriad at y diffiniad o ‘waste’ wedi ei hepgor;

(ii) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl pwynt (a)—

“(aa) ‘Waste’ has the meaning given in Article 3(1) of Directive 2008/98/EC (“the Waste Framework Directive”), as read with Articles 5 and 6 of that Directive.”;

(b) yn Erthygl 3—

(i) ym mharagraff (2) “The” wedi ei roi yn lle “Without prejudice to existing Community legislation the”;

(ii) y canlynol wedi ei roi yn lle paragraff (3)—

“3. The management of extractive waste, within the meaning given in regulation 2(1) of the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2016, is excluded from the scope of this Directive where it falls within the scope of Schedule 20, or paragraph 8(a) or (b) of Schedule 22, to those Regulations.”;

(b) hepgorer paragraff (3);

(c) ym mharagraff (4)—

(i) yn is-baragraff (a), hepgorer “fel y’i diwygir gan reoliad 3(3)”;

(ii) yn is-baragraff (b)—

(aa) yn yr is-adran (3) a fewnosodir, yn lle “y diwrnod ymadael” rhodder “diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu (yn yr ystyr a roddir i’r ymadrodd “IP completion day” yn

(1) O.S. 2019/414 (Cy. 96)

Neddf yr Undeb Ewropeaidd
(Cytundeb Ymadael 2020)”;

(bb) yn lle'r is adrannau (5) i (7) a
fewnosodir rhodder—

“(5) Mae Erthygl 5 i'w darllen fel pe bai—

(a) ym mharagraff 1, “A” wedi ei roi yn lle
“Member States shall take appropriate
measures to ensure that a”;

(b) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl
paragraff 1—

“**1A.** Any decision as to whether a
substance or object is a by-product, must
be made—

(a) in accordance with any
regulations setting out detailed
criteria on the application of the
conditions in paragraph 1 to
specific substances or objects;
and

(b) having regard to any guidance
published by the Welsh
Ministers or the Natural
Resources Body for Wales for
the purposes of this Article.”;

(c) paragraffau 2 a 3 wedi eu hepgor.

(6) Mae Erthygl 6 i'w darllen fel pe bai—

(a) ym mharagraff 1 “Waste” wedi ei roi
yn lle “Member States shall take
appropriate measures to ensure that
waste”;

(b) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl
paragraff 1—

“**1A.** Any decision as to whether a
substance or object has ceased to be
waste must be made—

(a) in accordance with any
regulations or retained direct EU
legislation (within the meaning
given to that expression in the
European Union (Withdrawal)
Act 2018) setting out detailed
criteria on the application of the
conditions in paragraph 1 to
specific types of waste; and

(b) having regard to any guidance
published by the Welsh
Ministers or the Natural
Resources Body for Wales for
the purposes of this Article.”;

(c) ym mharagraff 2—

- (i) yr is-baragraff cyntaf wedi ei hepgor;
 - (ii) yn yr ail is-baragraff, “Any detailed criteria set out in guidance as referred to in paragraph 1A” wedi ei roi yn lle “Those detailed criteria”;
 - (iii) y trydydd a’r pedwerydd is-baragraffau wedi eu hepgor;
 - (d) paragraff 3 wedi ei hepgor;
 - (e) ym mharagraff 4—
 - (i) yn yr is-baragraff cyntaf—
 - (aa) yn y frawddeg gyntaf, “Where criteria have not been set out as referred to in paragraph 1A(a) the Natural Resources Body for Wales” wedi ei roi yn lle’r geiriau o’r dechrau hyd at “Member State”;
 - (bb) yr ail frawddeg wedi ei hepgor;
 - (ii) yn yr ail is-baragraff—
 - (aa) “The Natural Resources Body for Wales” wedi ei roi yn lle “Member States”;
 - (bb) “by competent authorities” wedi ei hepgor.
- (7) Mae Erthygl 7 i’w darllen fel pe bai—
- (a) y canlynol wedi ei fewnosod o flaen paragraff 1—

“A1. In this Article, the “list of waste” means the list contained in the Annex to Commission Decision 2000/532/EC, as that list has effect in Wales.”;
 - (b) ym mharagraff 1—
 - (i) y frawddeg gyntaf a’r ail frawddeg wedi eu hepgor;
 - (ii) “The list of waste shall, except as provided in Commission Decision 2000/532/EC, be binding as regards determination of the waste which is to be considered as hazardous waste or as non-hazardous waste.” wedi ei roi yn lle’r drydedd frawddeg;
 - (c) paragraffau 2, 3, 6 a 7 wedi eu hepgor.”
- (3) Yn rheoliad 7—
- (a) yn lle paragraff (2) rhodder—

“(2) Yn rheoliad 2(1)—

- (a) yn y diffiniad o “cyfleuster gwastraff (“*waste facility*”)", hepgorer “(fel y’i hamnewidir gan reoliad 4(2))”;
- (b) ar ôl y diffiniad o “gwastraff trefol a gasglwyd (“*collected Municipal waste*”)” mewnosoder—
“ystyr “y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff” (“*the Waste Framework Directive*”) yw Cyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a’r Cyngor ar wastraff, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb (EU) 2018/851 gan ei darllen yn unol â pharagraffau (3) i (9).”;
- (b) hepgorer paragraff (3);
- (c) ym mharagraff (4)—
 - (i) yn lle “Ar ôl paragraff (2)” rhodder “Ar ôl rheoliad 2(2)”;
 - (ii) yn y paragraff (3) a fewnosodir, yn lle “y diwrnod ymadael” rhodder “diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu (yn yr ystyr a roddir i’r ymadrodd “IP completion day” yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael 2020))”;
 - (iii) yn lle’r paragraffau (5) i (7) a fewnosodir rhodder—
“(5) Mae Erthygl 5 i’w darllen fel pe bai—
 - (a) ym mharagraff 1, “A” wedi ei roi yn lle “Member States shall take appropriate measures to ensure that a”;
 - (b) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff 1—
“1A. Any decision as to whether a substance or object is a by-product must be made—
 - (a) in accordance with any regulations setting out detailed criteria on the application of the conditions in paragraph 1 to specific substances or objects; and
 - (b) having regard to any guidance published by the Welsh Ministers or the Natural Resources Body for Wales for the purposes of this Article.”;
 - (c) paragraffau 2 a 3 wedi eu hepgor.
- (6) Mae Erthygl 6 i’w darllen fel pe bai—
 - (a) ym mharagraff 1, “Waste” wedi ei roi yn lle “Member States shall take

- appropriate measures to ensure that waste”;
- (b) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff 1—
- “1A. Any decision as to whether a substance or object has ceased to be waste must be made—
- (a) in accordance with any regulations or retained direct EU legislation (within the meaning given to that expression in the European Union (Withdrawal) Act 2018) setting out detailed criteria on the application of the conditions in paragraph 1 to specific types of waste; and
- (b) having regard to any guidance published by the Welsh Ministers or the Natural Resources Body for Wales for the purposes of this Article.”;
- (c) ym mharagraff 2—
- (i) yr is-baragraff cyntaf wedi ei hepgor;
- (ii) yn y ail is-baragraff, “Any detailed criteria set out in guidance as referred to in paragraph 1A” wedi ei roi yn lle “Those detailed criteria”;
- (iii) y trydydd a’r pedwerydd is-baragraffau wedi eu hepgor;
- (d) paragraff 3 wedi ei hepgor;
- (e) ym mharagraff 4—
- (i) yn yr is-baragraff cyntaf—
- (aa) yn y frawddeg gyntaf, “Where criteria have not been set out as referred to in paragraph 1A(a), the Natural Resources Body for Wales” wedi ei roi yn lle’r geiriau o’r dechrau hyd at “Member State”;
- (bb) yr ail frawddeg wedi ei hepgor;
- (ii) yn yr ail is-baragraff—
- (aa) “The Natural Resources Body for Wales” wedi ei roi yn lle “Member States”;
- (bb) “by competent authorities” wedi ei hepgor.
- (7) Mae Erthygl 7 i’w darllen fel pe bai—

- (a) y canlynol wedi ei fewnosod o flaen paragraff 1—

“A1. In this Article, the “list of waste” means the list contained in the Annex to Commission Decision 2000/532/EC, as that list has effect in Wales.”;

- (b) ym mharagraff 1—

(i) y frawddeg gyntaf a’r ail frawddeg wedi eu hepgor;

(ii) “The list of waste shall, except as provided in Commission Decision 2000/532/EC, be binding as regards determination of the waste which is to be considered as hazardous waste or as non-hazardous waste.” wedi ei roi yn lle’r drydedd frawddeg;

- (c) paragraffau 2, 3, 6 a 7 wedi eu hepgor.”

- (d) ym mharagraff (6) hepgorer “(as amended by regulation 4(3))”;

- (e) yn lle paragraff 7 rhodder—

“(7) Ar ôl rheoliad 7(10) mewnosoder—

“(11) At ddibenion rheoliad 7(10) mae Cyfarwydddeb 1999/31/EC i’w ddarllen fel pe bai—

- (a) yn Erthygl 2—

(i) ym mhwynt (a), y cyfeiriad at y diffiniad o ‘waste’ wedi ei hepgor;

(ii) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl pwynt (a)—

“(aa) ‘Waste’ has the meaning given in Article 3(1) of Directive 2008/98/EC (“the Waste Framework Directive”), as read with Articles 5 and 6 of that Directive“;

- (b) yn Erthygl 3—

(i) ym mharagraff (2) “The” wedi ei roi yn lle “Without prejudice to existing Community legislation the”;

(ii) y canlynol wedi ei roi yn lle paragraff (3)—

“(3) The management of extractive waste, within the meaning given in regulation 2(1) of the Environmental

Permitting (England and Wales) Regulations 2016, is excluded from the scope of this Directive where it falls within the scope of Schedule 20, or paragraph 8(a) or (b) of Schedule 22, to those Regulations.””

(4) Yn rheoliad 8—

(a) ym mharagraff (3)—

(i) yn y rheoliad 2A a fewnosodir—

(aa) ym mharagraff (2), yn lle “y diwrnod ymadael” rhodder “diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu (yn yr ystyr a roddir i’r ymadrodd “IP completion day” yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020”;

(bb) hepgorer paragraff (4);

(cc) yn lle paragraffau (5) i (7), rhodder—

“(5) Mae Erthygl 5 i’w darllen fel pe bai—

(a) ym mharagraff 1, “A” wedi ei roi yn lle “Member States shall take appropriate measures to ensure that a”;

(b) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff 1—

“**1A.** Any decision as to whether a substance or object is a by-product must be made—

(a) in accordance with any regulations setting out detailed criteria on the application of the conditions in paragraph 1 to specific substances or objects; and

(b) having regard to any guidance published by the Welsh Ministers or the Natural Resources Body for Wales for the purposes of this Article.”;

(c) paragraffau 2 a 3 wedi eu hepgor.

(6) Mae Erthygl 6 i’w darllen fel pe bai—

(a) ym mharagraff 1, “Waste” wedi ei roi yn lle “Member States shall take appropriate measures to ensure that waste”;

(b) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff 1—

“**1A.** Any decision as to whether a substance or object has ceased to be waste, must be made—

- (a) in accordance with any regulations or retained direct EU legislation (within the meaning given to that expression in the European Union (Withdrawal) Act 2018) setting out detailed criteria on the application of the conditions in paragraph 1 to specific types of waste; and
 - (b) having regard to any guidance published by the Welsh Ministers or the Natural Resources Body for Wales for the purposes of this Article.”;
- (c) ym mharagraff 2—
- (i) yr is-baragraff cyntaf wedi ei hepgor;
 - (ii) yn yr ail is-baragraff “Any detailed criteria set out in guidance as referred to in paragraph 1A” wedi ei roi yn lle “Those detailed criteria”;
 - (iii) y trydydd a’r pedwerydd is-baragraffau wedi eu hepgor;
- (d) paragraff 3 wedi ei hepgor;
- (e) ym mharagraff 4—
- (i) yn yr is-baragraff cyntaf—
 - (aa) yn y frawddeg gyntaf, “Where criteria have not been set out as referred to in paragraph 1A(a), the Natural Resources Body for Wales” wedi ei roi yn lle’r geiriau o’r dechrau hyd at “Member State”;
 - (bb) yr ail frawddeg wedi ei hepgor;
 - (ii) yn yr ail is-baragraff—
 - (aa) “The Natural Resources Body for Wales” wedi ei roi yn lle “Member States”;
 - (bb) “by competent authorities” wedi ei hepgor.
- (7) Mae Erthygl 7 i’w darllen fel pe bai—
- (a) y canlynol wedi ei fewnosod o flaen paragraff 1—

“**A1.** In this Article, the “list of waste” means the list contained in the Annex to Commission Decision 2000/532/EC, as that list has effect in Wales.”;
 - (b) ym mharagraff 1—

- (i) y frawddeg gyntaf a'r ail frawddeg wedi eu hepgor;
- (ii) "The list of waste shall, except as provided in Commission Decision 2000/532/EC, be binding as regards determination of the waste which is to be considered as hazardous waste or as non-hazardous waste." Wedi ei roi yn lle'r drydedd frawddeg;
- (c) paragraffau 2, 3, 6 a 7 wedi eu hepgor.”;
- (ii) yn y rheoliad 2B a fewnosodir—
 - (aa) yn y pennawd, hepgorer “a “Chyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol”;
 - (bb) hepgorer paragraffau (4), (5) a (6);
- (b) ym mharagraff 4(b), yn lle'r diffiniad a fewnosodir o “Cyfarwyddeb Tirlenwi”, rhodder—

“ystyr “y Gyfarwyddeb Tirlenwi” (*the Landfill Directive*) yw Cyfarwyddeb y Cyngor 1999/31/EC ar dirlenwi gwastraff, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb (EU) 2018/850, gan ei darllen fel pe bai—

 - (a) yn Erthygl 2—
 - (i) ym mhwynt (a)—
 - (aa) y cyfeiriad at y diffiniad o ‘waste’ wedi ei hepgor; a
 - (bb) “the Waste Framework Directive” wedi ei roi yn lle “Directive 2008/98/EC”;
 - (ii) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl pwynt (a)—

“(aa) ‘waste’ has the meaning given by regulation 2(1)(b) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005;”
 - (b) yn Erthygl 3—
 - (i) ym mharagraff 2, “The” wedi ei roi yn lle “Without prejudice to existing Community legislation the”;
 - (ii) y canlynol wedi ei roi yn lle paragraff 3—

“3. The management of extractive waste, within the meaning given in regulation 2(1) of the Environmental Permitting Regulations, is excluded from

the scope of this Directive where it falls within the scope of Schedule 20, or paragraph 8(a) or (b) of Schedule 22, to those Regulations.””;

- (c) ym mharagraff (7) hepgorer “(as amended by regulation 5(2) and 5(3)).

(5) Yn rheoliad 9—

- (a) ym mharagraff (2), hepgorer “(*the Waste Framework Directive*)” (as substituted by regulation 6)”;

(b) ym mharagraff (3)—

- (i) yn lle “Ar ôl paragraff (2)” rhodder “Ar ôl rheoliad 2(2)”;

- (ii) yn y paragraff (3) a fewnosodir, yn lle “y diwrnod ymadael” rhodder “diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu (yn yr ystyr a roddir i’r ymadrodd “IP completion day “ yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael 2020)”;

- (iii) yn lle’r paragraffau (5) i (7) a fewnosodir, rhodder—

“(5) Mae Erthygl 5 i’w darllen fel pe bai—

- (a) ym mharagraff 1, “A” wedi ei roi yn lle “Member States shall take appropriate measures to ensure that a”;

- (b) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff 1—

“**1A.** Any decision as to whether a substance or object is a by-product must be made—

- (a) in accordance with any regulations setting out detailed criteria on the application of the conditions in paragraph 1 to specific substances or objects; and

- (b) having regard to any guidance published by the Welsh Ministers or the Natural Resources Body for Wales for the purposes of this Article.”;

- (c) paragraffau 2 a 3 wedi eu hepgor.

(6) Mae Erthygl 6 i’w darllen fel pe bai—

- (a) ym mharagraff 1, “Waste” wedi ei roi yn lle “Member States shall take appropriate measures to ensure that waste”;

- (b) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff 1—

“**1A.** Any decision as to whether a substance or object has ceased to be waste must be made—

- (a) in accordance with any regulations or retained direct EU legislation (within the meaning given to that expression in the European Union (Withdrawal) Act 2018) setting out detailed criteria on the application of the conditions in paragraph 1 to specific types of waste; and
 - (b) having regard to any guidance published by the Welsh Ministers or the Natural resources Body for Wales for the purposes of this Article.”;
- (c) ym mharagraff 2—
- (i) yr is-baragraff cyntaf wedi ei hepgor;
 - (ii) yn yr ail is-baragraff, “Any detailed criteria set out in guidance as referred to in paragraph 1A” wedi ei roi yn lle “Those detailed criteria”;
 - (iii) y trydydd a’r pedwerydd is-baragraffau wedi eu hepgor;
- (d) paragraff 3 wedi ei hepgor;
- (e) ym mharagraff 4—
- (i) yn yr is-baragraff cyntaf—
 - (aa) yn y frawddeg gyntaf, “Where criteria have not been set out as referred to in paragraph 1A(a), the Natural Resources Body for Wales” wedi ei roi yn lle’r geiriau o’r dechrau hyd at “Member State”;
 - (bb) yr ail frawddeg wedi ei hepgor;
 - (ii) yn yr ail is-baragraff—
 - (aa) “The Natural Resources Body for Wales” wedi ei roi yn lle “Member States”;
 - (bb) “by competent authorities” wedi ei hepgor.
- (7) Mae Erthygl 7 i’w darllen fel pe bai—
- (a) y canlynol wedi ei fewnosod o flaen paragraff 1—

“**A1.** In this Article, the “list of waste” means the list contained in the Annex to

Commission Decision 2000/532/EC, as that list has effect in Wales.”;

- (b) ym mharagraff 1—
- (i) y frawddeg gyntaf a'r ail frawddeg wedi eu hepgor;
 - (ii) “The list of waste shall, except as provided in Commission Decision 2000/532/EC, be binding as regards determination of the waste which is to be considered as hazardous waste or as non-hazardous waste.” wedi ei roi yn lle'r drydedd frawddeg;
- (c) paragraffau 2, 3, 6 a 7 wedi eu hepgor.”

Diwygio Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005

3.—(1) Mae Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Hefgorer rheoliadau 6(b), 8(1)(b) a 9(1)(b).

Lesley Griffiths

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,
un o Weinidogion Cymru
23 Tachwedd 2020

(1) O.S. 2005/1806 (Cy. 138) a ddiwygiwyd gan O.S. 2009/2861 (Cy. 250), 2011/971 (Cy. 141), 2013/755 (Cy. 90), 2018/721 (Cy. 140) a 2019/414 (Cy. 96). Ceir diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Gwastraff (Cymru)
(Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020.**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol o fewn Adran yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Gwastraff (Cymru)(Diwygiadau Amrywiol)(Ymadael â'r UE) 2020.

Rwyf wedi gwneud y datganiadau sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae modd gweld y datganiadau hyn yn Rhan 2 o'r atodiad i'r memorandwm hwn.

Lesley Griffiths AS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
25 Tachwedd 2020

RHAN 1

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan bwerau Gweinidogion Cymru ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), er mwyn mynd i'r afael â methiannau yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol, a diffygion eraill sy'n codi oherwydd bod y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Yn benodol, mae'r rheoliadau hyn yn gwneud addasiadau i Reoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/414 (W. 96)) ("Rheoliadau 2019").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae'r offeryn hwn yn cael ei wneud gan ddefnyddio'r pŵer a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("y Ddeddf Ymadael").

Gwnaeth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ystyried fersiwn ddrafft o'r rheoliadau hyn ar 16 Tachwedd 2020, a chytunwyd bod y weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer y rheoliadau hyn. Gallwch weld copi o adroddiad y Pwyllgor drwy'r ddolen ganlynol:

<https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld13815/cr-ld13815-w.pdf>

3. Y cefndir deddfwriaethol

- a) Mae'r offeryn hwn yn cael ei wneud gan ddefnyddio'r pŵer yn Rhan 1 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 er mwyn mynd i'r afael â methiannau yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol neu ddiffygion eraill sy'n codi oherwydd bod y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Yn unol â gofynion y Ddeddf honno, mae'r Gweinidog wedi gwneud y datganiadau perthnasol fel y manylir yn Rhan 2 o Atodiad y Memorandwm Esboniadol hwn.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Beth wnaeth unrhyw gyfraith berthnasol yr UE cyn y diwrnod ymadael?

Mae'r Offeryn Statudol yn diwygio Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019. Mae cyfraith yr UE yn gosod rheolau a fframweithiau ar gyfer rheoli gwastraff. Mae'r rheolau hyn yn cael eu gweithredu yng Nghymru drwy ddeddfwriaeth ddomestig yn bennaf. Mae Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019") yn diwygio'r ddeddfwriaeth ddomestig bresennol honno o dan bwerau yn y Ddeddf Ymadael (ac eithrio Rhan 2, gweler paragraff 5.10 isod) i wneud y newidiadau technegol angenrheidiol i sicrhau y bydd yn parhau i weithredu'n

effeithiol ar ôl i'r DU adael yr UE, fel y nodir isod. Daw'r rhain i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ac maent yn gwneud addasiadau i Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 (mccc 8), Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004 (O.S. 2004/1490 (W. 155)), Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1806 (W. 138)) a Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011 (O.S. 2011/1014 (W. 154)).

Pam mae'n cael ei newid?

O ganlyniad i weithredu deddfwriaeth yr UE ers i Reoliadau 2019 gael eu gwneud, gan gynnwys diwygiadau i amrywiol Gyfarwyddebau'r UE a wnaed o dan Becyn Economi Gylchol yr UE, nid yw'r darpariaethau cywiro a wnaed gan Reoliadau 2019 bellach yn mynd i'r afael yn llawn â'r diffygion yng ngweithrediad cyfraith yr UE a ddargedwir a fydd yn codi o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd, ac y bwriadwyd iddynt eu cywiro.

Mae'r mân newidiadau a'r newidiadau technegol a wneir gan yr offeryn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth yr UE a ddargedwir a deddfwriaeth ddomestig yr UE sy'n ei gorfodi yn parhau i weithredu'n effeithiol.

Beth fydd yn ei wneud nawr?

Nid yw Cyfarwyddebau'n cael eu hymgorffori mewn cyfraith ddomestig o dan y Ddeddf Ymadael ac ni fyddant yn rhan o Gyfraith yr UE a Ddargedwir. Felly, roedd Rheoliadau 2019 yn gwneud darpariaeth fel bod y ddeddfwriaeth ddomestig sy'n croesgyfeirio at y gwahanol gyfarwyddebau'n cael ei diwygio (ee bod y cyfarwyddebau'n cael eu haddasu, lle bo angen, at ddibenion y ddeddfwriaeth honno) er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i weithredu fel y bwriadwyd ar ôl ymadael â'r UE. Mae'r mân newidiadau a'r newidiadau technegol a wneir gan yr offeryn hwn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth mae'n ei diwygio yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae Rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn, sy'n effeithiol yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, yn gwneud diwygiadau i Reoliadau 2019, er mwyn sicrhau pan fyddant yn dod i rym, y bydd yr offerynnau y maent yn eu diwygio, yn gweithredu'n effeithiol ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Mae Rheoliad 3 yn dirymu mân ddarpariaethau penodol yn Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 a fydd yn peidio â gweithredu'n effeithiol ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Nid oes unrhyw newid o ran polisi a dim newid o ran safonau amgylcheddol.

5. Ymgynghori

Gan nad oes newid o ran polisi, ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus. Unig bwrpas yr offeryn yw galluogi'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi presennol i aros yr un fath wrth i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd.

Ymgynghorwyd â'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 gan gyflawni'r gofyniad ym mharagraff 4, Atodlen 2 i Ddeddf yr UE (Deddf Ymadael) 2018. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Gwladol ar 17 Tachwedd gan nodi bod y darpariaethau wedi'u dwyn ymlaen ac nad oes ganddynt unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r diwygiad hwn.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gynnal gan mai mân newidiadau technegol yw'r rhain sy'n angenrheidiol oherwydd bod y DU yn gadael yr UE. Nid oedd angen cynnal ymgynghoriad cyhoeddus oherwydd nid oes newidiadau polisi'n cael eu gwneud drwy'r offeryn statudol hwn. Gan fod yr offeryn hwn yn ymwneud â chynnal y ddeddfwriaeth bresennol ar ôl Ymadael â'r UE, nid oes effaith, neu ddim llawer o effaith, ar fusnes, elusennau na chyrrff gwirfoddol. Nid oes effaith, neu ddim llawer o effaith, ar y sector cyhoeddus.

Atodiad 2

Datganiadau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Rhan 1

Tabl o Ddatganiadau o dan Ddeddf 2018

Mae'r tabl hwn yn nodi'r datganiadau a all fod yn ofynnol o Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 2018. Mae'r tabl hefyd yn nodi'r datganiadau a all fod yn ofynnol o Weinidogion y Goron o dan Ddeddf 2018, y mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i'w darparu hefyd pan fo angen. Mae modd gweld y datganiadau gofynnol yn Rhan 2 o'r atodiad hwn.

Datganiad	Lle mae'r gofyniad wedi'i osod	I bwy mae'n berthnasol	Beth sydd ei angen arno
Sifftio	Paragraffau 3(7) a 4(3), Atodlen 7 <i>Paragraff 3(7) (disgwyllir y bydd yn ofyniad ar Weinidogion Cymru mewn Rheolau Sefydlog)</i>	Gweinidogion Cymru sy'n arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 i wneud OS Negyddol Mae paragraff 3(7) yn gymwys i Weinidogion y Goron, ond mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad	Datganiad i esbonio pam y dylai'r offeryn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac, os yw'n berthnasol, pam eu bod yn anghytuno ag argymhelliad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (fel pwyllgor sifftio)
Priodolrwydd	Is-baragraff (2) o baragraff 28, Atodlen 7	Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad nad yw'r OS yn gwneud mwy nag sy'n briodol.
Rhesymau Da	Is-baragraff (3) o baragraff 28, Atodlen 7	Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a	Datganiad i esbonio'r rhesymau da dros wneud yr offeryn a bod yr hyn sy'n cael ei wneud yn ffordd resymol i

		23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	weithredu.
Cydraddoldeb	Is-baragraffau (4) a (5) o baragraff 28, Atodlen 7	Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad i egluro pa ddiwygiadau, diddymiadau neu ddirymiadau, os o gwbl, sy'n cael eu gwneud i Ddeddfau Cydraddoldeb 2006 a 2010 a'r ddeddfwriaeth a wnaed oddi tanynt. Datganiad bod y Gweinidog wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu ac ymddygiad o fath arall sydd wedi'i wahardd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
Esboniadau	Is-baragraff (6) o baragraff 28, Atodlen 7	Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad i egluro'r offeryn, nodi'r gyfraith berthnasol cyn y diwrnod ymadael, esbonio effaith yr offeryn ar gyfraith yr UE a ddargedwir a rhoi gwybodaeth am ddiben yr offeryn, ee a fwriedir gwneud mân newidiadau neu newidiadau technegol yn unig i gyfraith yr UE a ddargedwir.
Troseddau	Is-baragraffau (3) a (7) o baragraff 28, Atodlen 7	Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad yn nodi'r 'rhesymau da' dros greu trosedd, a'r gosb sydd ynghlwm â hynny.
Is-ddirprwyo	Paragraff 30, Atodlen 7	Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron	Datganiad i esbonio pam ei bod yn briodol creu pŵer is-

		<p>sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a pharagraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol na ellir ei arfer gan Weinidog y Goron neu Awdurdod Datganoledig.</p> <p>Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 neu baragraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol na ellir ei arfer gan Weinidog y Goron neu Awdurdod Datganoledig</p>	ddirprwyedig o'r fath.
Brys	Is-baragraff (2) a (8) o baragraff 7, Atodlen 7	Gweinidogion Cymru sy'n arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 ond yn defnyddio'r weithdrefn frys ym mharagraff 7 o Atodlen 7	Datganiad bod Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr OS gan ddefnyddio'r weithdrefn frys a'r rhesymau dros y farn honno.

Rhan 2

Datganiadau angenrheidiol wrth ddefnyddio pwerau galluogi o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

1. Datganiad(au) sifftio

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths AS, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Yn fy marn i, dylai Rheoliadau Gwastraff (Cymru)(Diwygiadau Amrywiol)(Ymadael â'r UE) 2020 fod yn ddarostyngedig i'w dirymu yn unol â phenderfyniad Senedd Cymru (hy y weithdrefn negyddol). Mae hyn yn wir oherwydd bod y newidiadau sy'n cael eu gwneud yn dechnegol eu natur ac nid ydynt yn gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i gyfraith gwastraff yng Nghymru”.

2. Datganiad addasrwydd

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths AS, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Yn fy marn i, nid yw Rheoliadau Gwastraff (Cymru)(Diwygiadau Amrywiol)(Ymadael â'r UE) 2020 yn gwneud mwy nag sy'n briodol”. Mae hyn yn wir oherwydd bod yr offeryn yn gwneud diwygiadau technegol yn unig sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol ar ôl y diwrnod ymadael”.

3. Rhesymau da

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths AS, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Yn fy marn i, mae rhesymau da dros y darpariaethau yn yr offeryn hwn, ac rwyf wedi dod i'r casgliad ei bod yn ffordd resymol i weithredu”. Mae hyn oherwydd bod y darpariaethau'n sicrhau bod yr amddiffyniadau a ddarperir gan deddfwriaeth Cymru sy'n cael ei diwygio yn parhau i gael eu gweithredu ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd.

4. Cydraddoldeb

- 4.1 Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths AS, wedi gwneud y datganiad(au) canlynol “Nid yw'r offeryn yn

diwygio, yn diddymu nac yn dirymu darpariaeth neu ddarpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2006 na Deddf Cydraddoldeb 2010 nac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau hynny.

- 4.2 Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths AS wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:
- 4.3 “Mewn perthynas â'r offeryn hwnnw, rwyf i, Lesley Griffiths AS, wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, annhegwch ac unrhyw ymddygiad o fath arall sydd wedi'i wahardd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.”].

5. Esboniadau

Mae'r datganiad esboniadau wedi'i wneud ym mharagraff 4 (Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael) o brif gorff y memorandwm esboniadol hwn.

6. Troseddau

Nid yw'n berthnasol/angenrheidiol.

7. Is-ddirprwyo deddfwriaethol

Nid yw'n berthnasol/angenrheidiol.

8. Brys

Nid yw'n berthnasol/angenrheidiol.

Eitem 3.2

SL(5)684 – Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2020

Cefndir a Diben

Mae’r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau i’r Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc.) (Cymru) 2004. Yn unol â’r Cytundeb Ymadael, mae’r diwygiadau yn newid cyfeiriadau at y “Diwrnod Ymadael” i “Diwrnod Cwblhau’r Cyfnod Gweithredu” o ran hawl cleifion penodedig o Wladwriaethau’r UE/AEE a’r Swistir, a oedd yn derbyn presgripsiynau penodol ar gyfer trin camweithredu ymgodol ers 14 Medi 1998, i barhau i dderbyn y presgripsiynau hynny ar ôl Diwrnod Cwblhau’r Cyfnod Gweithredu.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Gall y Senedd ddirymu’r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i’r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.

Gosodwyd drafft o’r Rheoliadau hyn gerbron y Senedd ar gyfer sifftio yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Cytunodd y Pwyllgor mai gweithdrefn negyddol yw’r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.



Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Bydd y Rheoliadau hyn yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ddiwedd y cyfnod pontio ar 31 Rhagfyr 2020.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

8 Rhagfyr 2020



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee

Tudalen y pecyn 55

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1396 (Cy. 309)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd
Gwladol (Contractau Gwasanaethau
Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi
Cyffuriau etc.) (Cymru) (Diwygio)
(Ymadael â'r UE) 2020

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau ym mharagraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc.) (Cymru) 2004.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1396 (Cy. 309)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd
Gwladol (Contractau Gwasanaethau
Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi
Cyffuriau etc.) (Cymru) (Diwygio)
(Ymadael â'r UE) 2020

Gofynion *sifftio* *wedi* *eu*
bodloni *16 Tachwedd 2020*

Gwnaed *1 Rhagfyr 2020*

Gosodwyd *gerbron* *Senedd*
Cymru *2 Rhagfyr 2020*

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pŵerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1).

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno (sy'n ymwneud â'r weithdrefn graffu briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

Fel sy'n ofynnol gan baragraff 4(a) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, ymgynghorwyd â'r Ysgrifennydd Gwladol wrth lunio'r Rheoliadau hyn.

(1) 2018 p. 16. Diwygiwyd Atodlen 2 gan adran 27 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1).

Enwi, cychwyn a chymhwys

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc.) (Cymru) 2004

2.—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc.) (Cymru) 2004(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2 (cyffuriau neu feddyginiaethau i'w harchebu o dan amgylchiadau penodol yn unig), yn y cofnod yng ngholofn 2 o'r tabl sy'n cyfateb i'r cofnod yng ngholofn 1 sy'n ymwneud â chyffuriau ar gyfer trin camweithredu ymgodol—

(a) yn lle paragraff (1)(b) (gan gynnwys yr "or" ar y diwedd) rhodder—

“(b) a man who is a national of an EEA State who—

- (i) immediately before IP completion day was entitled to treatment by virtue of Article 7(2) of Council Regulation 1612/68 as extended by the EEA Agreement or was entitled to treatment by virtue of any other enforceable EU right,
- (ii) has erectile dysfunction and was on 14th September 1998 receiving a course of treatment under a national health insurance system of an EEA State for that condition with any of the drugs listed in subparagraph (a), and

(1) O.S. 2004/1022 (Cy. 119); gwnaed diwygiadau perthnasol gan O.S. 2011/1043, O.S. 2014/109 (Cy. 09) ac O.S. 2019/777.

- (iii) immediately before IP completion day was receiving a course of treatment as part of the health service for the condition mentioned in paragraph (ii) of this sub-paragraph with any of the drugs listed in sub-paragraph (a), or”; a
- (b) yn lle paragraff (c) (gan gynnwys yr “or” ar y diwedd) rhodder –

“(c) a man who is not a national of an EEA State but who is the member of the family of such a national and who—

- (i) immediately before IP completion day had an enforceable EU right to be treated no less favourably than the national in the provision of medical treatment,
- (ii) has erectile dysfunction and was on 14th September 1998 receiving a course of treatment for that condition with any of the drugs listed in sub-paragraph (a), and
- (iii) immediately before IP completion day was receiving a course of treatment as part of the health service for the condition mentioned in paragraph (ii) of this sub-paragraph with any of the drugs listed in sub-paragraph (a), or”.

Vaughan Gething

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
1 Rhagfyr 2020

Explanatory Memorandum to the National Health Service (General Medical Services Contracts) (Prescription of Drugs etc.) (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2020

This Explanatory Memorandum has been prepared by Health and Social Services Group and is laid before Senedd Cymru in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

Minister's Declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the National Health Service (General Medical Services Contracts) (Prescription of Drugs etc.) (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2020.

I have made the statements required by the European Union (Withdrawal) Act 2018. The statements can be found in Part 2 of the annex to this memorandum.

Vaughan Gething AS/MS

Minister for Health and Social Services

2 December 2020

PART 1

1. Description

These Regulations amend the National Health Service (General Medical Services Contracts) (Prescription of Drugs Etc.) (Wales) Regulations 2004 (SI 2004/1022 (W)119) (the Principal Regulations).

The Principal Regulations make provision as to the drugs, medicines or other substances that may be ordered for patients in the provision of medical services under a general medical services contract within the meaning of section 42 of the National Health Service (Wales) Act 2006.

These Regulations are being made in consequence of the UK's withdrawal from the European Union (EU). Amendments to the Principal Regulations are required to correct EU references to ensure the SI remains operable at the end of the transition period following the UK's exit from the EU.

2. Matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee

This instrument is being made using the powers conferred by paragraph 1(1) of Schedule 2 to the European Union (Withdrawal) Act 2018 ("the 2018 Act").

As set out in the Ministerial statement in Part 2 of this Explanatory Memorandum, it is proposed that this instrument be subject to negative resolution procedure. This instrument makes minor and technical amendments and therefore should be subject to annulment.

The instrument has been subject to scrutiny by the Legislation, Justice and Constitution Committee (LJCC). Sifting took place on 16 November 2020, whereby the LJCC agreed the appropriate procedure for the instrument is the negative resolution procedure. The report laid by the LJCC can be found at: <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld13815/cr-ld13815-e.pdf>

3. Legislative background

The Regulations are made in exercise of the powers in paragraph 1(1) of Schedule 2 and paragraph 21 of Schedule 7 to the European Union (Withdrawal) Act 2018 (c. 16) in order to address failures of retained EU law to operate effectively and other deficiencies arising from the withdrawal of the United Kingdom from the European Union.

4. Purpose and intended effect of the legislation

The Regulations make amendments to the National Health Service (General Medical Services Contracts) (Prescription of Drugs etc.) (Wales) Regulations 2004. In line with the Withdrawal Agreement, the amendments change references from "Exit Day" to "IP Completion Day" with regard to the right of specified patients from EU/EEA States and Switzerland, who were receiving

specified prescriptions for erectile dysfunction since 14th September 1998, to continue to receive those prescriptions post IP Completion Day.

5. Consultation

As there is no policy change, no public consultation was undertaken. The purpose of the instrument is to enable the current legislative and policy approach to remain unchanged by the withdrawal of the UK from the EU.

As required by paragraph 4(a) of Schedule 2 to the European Union (Withdrawal) Act 2018, the Secretary of State has been consulted during the preparation of these Regulations. No comments or objections were received from the Secretary of State for Health.

No amendments to this Instrument were made as a consequence of the consultation.

6. Regulatory Impact Assessment

The Welsh Ministers' Regulatory Impact Assessment Code for Subordinate Legislation ("the Code") was considered in relation to these Regulations.

The Regulations make minor technical amendments in line with the Withdrawal Agreement. The amendments have no, or no significant, impact on business, charities or voluntary bodies, and have no significant impact on the public sector.

They are of a technical nature to ensure an updated and functioning statute book and do not introduce new novel or contentious policy.

In accordance with Section 4.2 of the Code, it was therefore not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

Annex 1

Statements under the European Union (Withdrawal) Act 2018

Part 1

Table of Statements under the 2018 Act

This table sets out the statements that may be required of the Welsh Ministers under the 2018 Act. The table also sets out those statements that may be required of Ministers of the Crown under the 2018 Act, which the Welsh Ministers have committed to also provide when required. The required statements can be found in Part 2 of this annex.

Statement	Where the requirement sits	To whom it applies	What it requires
Sifting	Paragraphs 3(7) and 4(3), Schedule 7 <i>Paragraph 3(7) (anticipated to be a requirement on Welsh Ministers in Standing Orders)</i>	The Welsh Ministers exercising powers in Part 1 of Schedule 2 to make a Negative SI Paragraph 3(7) applies to Ministers of the Crown, but Welsh Ministers have committed to make the same statement	A statement to explain why the instrument should be subject to the negative procedure and, if applicable, why they disagree with the recommendation of the LJC Committee (as sifting committee)
Appropriateness	Sub-paragraph (2) of paragraph 28, Schedule 7	Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2. Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2	A statement that the SI does no more than is appropriate.
Good Reasons	Sub-paragraph (3) of paragraph 28, Schedule 7	Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2. Welsh Ministers have	A statement to explain the good reasons for making the instrument and that what is being done is a reasonable course of action.

		committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2	
Equalities	Sub-paragraphs (4) and (5) of paragraph 28, Schedule 7	Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2. Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2	<p>A statement to explain what, if any, amendment, repeals or revocations are being made to the Equalities Acts 2006 and 2010 and legislation made under them.</p> <p>A statement that the Minister has had due regard to the need to eliminate discrimination and other conduct prohibited under the Equality Act 2010.</p>
Explanations	Sub-paragraph (6) of paragraph 28, Schedule 7	Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2. Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2	A statement to explain the instrument, identify the relevant law before exit day, explain the instrument's effect on retained EU law and give information about the purpose of the instrument, e.g. whether minor or technical changes only are intended to the EU retained law.
Criminal offences	Sub-paragraphs (3) and (7) of paragraph 28, Schedule 7	Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2. Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2	A statement setting out the 'good reasons' for creating a criminal offence, and the penalty attached.
Sub-delegation	Paragraph 30, Schedule 7	Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and paragraph 1 of Schedule 4 to create a legislative power exercisable not by a Minister of the Crown or a Devolved Authority.	A statement to explain why it is appropriate to create such a sub-delegated power.

		Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2 or paragraph 1 of Schedule 4 to create a legislative power exercisable not by a Minister of the Crown or a Devolved Authority	
Urgency	Sub-paragraph (2) and (8) of paragraph 7, Schedule 7	Welsh Ministers exercising powers in Part 1 of Schedule 2 but using the urgent procedure in paragraph 7 of Schedule 7	A statement that the Welsh Ministers are of the opinion that it is necessary to make the SI using the urgent procedure and the reasons for that opinion.

Part 2

Statements required when using enabling powers under the European Union (Withdrawal) 2018 Act

1. Sifting statement

The Minister for Health and Social Services, Vaughan Gething has made the following statement regarding use of legislative powers in the European Union (Withdrawal) Act 2018:

“In my view the National Health Service (General Medical Services Contracts) (Prescription of Drugs etc.) (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2020 should be subject to annulment in pursuance of a resolution of Senedd Cymru (i.e. the negative procedure)”. This is the case because the changes being made are minor and technical in nature. There is no change to policy.

2. Appropriateness statement

The Minister for Health and Social Services, Vaughan Gething has made the following statement regarding use of legislative powers in the European Union (Withdrawal) Act 2018:

“In my view the National Health Service (General Medical Services Contracts) (Prescription of Drugs etc.) (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2020 does no more than is appropriate”. This is the case because the changes being made are solely in order to address inoperabilities arising from EU exit. There is no change to policy.

3. Good reasons

The Minister for Health and Social Services, Vaughan Gething, has made the following statement regarding use of legislative powers in the European Union (Withdrawal) Act 2018:

“In my view there are good reasons for the provisions in this instrument, and I have concluded they are a reasonable course of action”. These are that it ensure that the law is operable and clear following implementation completion day.

4. Equalities

The Minister for Health and Social Services, Vaughan Gething has made the following statement(s) “The draft instrument does not amend, repeal or revoke a provision or provisions in the Equality Act 2006 or the Equality Act 2010 or subordinate legislation made under those Acts”.

The Minister for Health and Social Services, Vaughan Gething has made the following statement regarding use of legislative powers in the European Union (Withdrawal) Act 2018:

“In relation to the instrument, I, Vaughan Gething have had due regard to the need to eliminate discrimination, harassment, victimisation and any other conduct that is prohibited by or under the Equality Act 2010.”

5. Explanations

The explanations statement has been made in paragraph 4 (Purpose & intended effect of the legislation) of the main body of this explanatory memorandum.

6. Criminal offences

Not applicable/required.

7. Legislative sub-delegation

Not applicable/required.

8. Urgency

Not applicable/required.

Eitem 4

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir 14 Rhagfyr 2020

SL(5)679 – Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2020

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 1992 ("Rheoliadau 1992").

O dan Ran 2 o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae'n ofynnol i awdurdodau bilio (yng Nghymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau 1992 yn cynnwys rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau hynny ar gyfer awdurdodau bilio Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy ddefnyddio Atodlen 4 newydd (Ffigurau'r Boblogaeth Oedolion).

Rhiant-Ddeddf: Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

Fe'u gwnaed ar: 27 Tachwedd 2020

Fe'u gosodwyd ar: 30 Tachwedd 2020

Yn dod i rym ar: 31 Rhagfyr 2020

SL(5)680 – Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol) (Cymru) 2020

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adran 56 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("y Ddeddf") ac maent yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chynnwys sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yn y rhestr a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 56(2) o'r Ddeddf.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Fe'u gwnaed ar: 26 Tachwedd 2020

Fe'u gosodwyd ar: 30 Tachwedd 2020

Yn dod i rym ar: 04 Ionawr 2021



SL(5)687 – Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) (Diwygio) (Cymru) 2020

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) (Diwygio) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau") yn diwygio Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 2007 o ran Cymru. Mae'r Rheoliadau hynny'n gosod rhwymedigaeth ar gynhyrchwyr i adennill ac ailgylchu gwastraff deunydd pacio er mwyn cyrraedd y targedau adennill ac ailgylchu a nodir yn Erthygl 6(1) o Gyfarwyddeb 94/62/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddeunydd pacio a gwastraff deunydd pacio.

Gwneir y Rheoliadau drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 93 a 94 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ("y Ddeddf"), sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â gosod targedau adennill ac ailgylchu gwastraff deunydd pacio lleiaf ar gyfer busnesau sydd o dan rwymedigaeth yng Nghymru. Trosglwyddwyd swyddogaethau cymwys yr Ysgrifennydd Gwladol yn Neddf 1995 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Mae'r Rheoliadau yn ddarostyngedig i weithdrefn ddirymu yn unol ag adran 93(11) a (12) o Ddeddf 1995.

Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli targedau adennill ac ailgylchu'r UE â thargedau ailgylchu yn unig ar gyfer cynhyrchwyr. Maent hefyd yn amrywio'r targedau ailgylchu deunydd penodol ar gynhyrchwyr sydd o dan rwymedigaeth ar gyfer papur, plastig, gwydr, alwminiwm, dur a phren yn ogystal â'r targed ail-doddi penodol ar gyfer gwydr. Mae'r dyraniad ailgylchu ar gyfer cynhyrchwyr bach ar gyfer 2018 i 2020 yn cael ei newid ar gyfer 2021 a 2022.

Nid oes dim targedau adennill yn cael eu pennu y tro hwn, sy'n golygu bod yn rhaid i gynhyrchwyr gyrraedd targedau ailgylchu yn unig ar gyfer gwastraff deunydd pacio i gyflawni eu rhwymedigaethau fel cynhyrchwyr cyfrifol. Bwriad hyn yw symud rheolaeth gwastraff i fyny'r hierarchaeth wastraff ac ar dargedau ailgylchu, fel ffordd o ddangos bod y rhwymedigaethau o ran cyfrifoldeb cynhyrchwyr yn cael eu cyflawni. Ystyrir bod canlyniad amgylcheddol gwell yn sgîl hwn ac mae'n dileu'r cymhelliant i ddeunydd fynd i weithgareddau sy'n is o ran yr hierarchaeth gwastraff. Mae dileu'r targed adennill hefyd yn cynnwys diwygiadau canlyniadol yn y Rheoliadau 2007 drwyddynt draw.

Rhiant-Ddeddf: Deddf yr Amgylchedd 1995

Fe'u gwnaed ar: 01 Rhagfyr 2020

Fe'u gosodwyd ar: 03 Rhagfyr 2020

Yn dod i rym ar: 01 Ionawr 2021



SL(5)688 – Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ("Gorchymyn 2007") yn nodi'r rheolau manwl ar gyfer cynnal etholiadau i Senedd Cymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 2007 i adlewyrchu newidiadau polisi a deddfwriaethol sydd wedi digwydd ers etholiad cyffredinol y Senedd yn 2016 i baratoi at etholiad cyffredinol y Senedd yn 2021.

Yn benodol, mae'r Gorchymyn hwn:

- yn gweithredu newidiadau sy'n codi o ganlyniad i'r newid enw, estyn yr etholfraint a'r meini prawf anghymhwysu a gyflwynwyd gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020,
- yn rhoi'r opsiwn i ymgeiswyr beidio â chyhoeddi eu cyfeiriad cartref yn etholiadau'r Senedd,
- yn gwneud newidiadau i'r modd y gwneir taliad i swyddogion canlyniadau ar gyfer gwasanaethau a roddwyd.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Fe'u gwnaed ar:

Fe'u gosodwyd ar:

Yn dod i rym ar: 17 Rhagfyr 2020



SL(5)681 – Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Priso) (Cymru) 2020

Cefndir a Diben

Gwneir y Gorchymyn hwn gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 2(3)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a daw i rym ar 23 Rhagfyr 2020.

Mae'r Gorchymyn yn pennu 1 Ebrill 2021 fel y diwrnod y mae'n rhaid cyfeirio ato i bennu gwerthoedd cyfraddau ardrethu annomestig (a elwir yn gyfraddau busnes) nesaf yng Nghymru, a drefnwyd ar gyfer 1 Ebrill 2023.

Felly bydd yr ailbrisiad yn seiliedig ar asesiad o werth ardrethol eiddo annomestig ar 1 Ebrill 2021.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd.

Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cafodd ei osod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Bydd Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) (Rhif 2) Llywodraeth y DU, os caiff ei ddeddfu, yn gohirio'r ailbrisiadau sydd i ddod o gyfraddau annomestig yng Nghymru a Lloegr hyd at 1 Ebrill 2023 (o 1 Ebrill 2022 mewn perthynas â Chymru).

Mewn datganiad ysgrifenedig ar 11 Awst 2020, nododd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd:

"Bydd gohirio'r cylch ailbrisiad tan 2023 yn golygu y bydd y gwerthoedd ardrethol, y mae biliau ardrethi yn seiliedig arnynt, yn adlewyrchu effaith COVID-19 yn well. Bydd



y newid hefyd yn golygu y bydd y cylch ailbrizio nesaf yng Nghymru yn dod i rym yr un pryd ag yn Lloegr, gan sicrhau na fydd busnesau a thalwyr ardrethi eraill yng Nghymru o dan anfantais o'u cymharu â'r rhai mewn manau eraill."

Y goblygiadau yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

4 Rhagfyr 2020



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 72

Legislation, Justice and Constitution Committee

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1378 (Cy. 305)

**ARDRETHU A PHRISIO,
CYMRU**

**Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu
(Dyddiad Prisio) (Cymru) 2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae adrannau 41(2) a 52(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (“Deddf 1988”), fel y’u darllenir gyda Gorchymyn Rhestrau Ardrethu (Gohirio Gwneud Rhestrau) (Cymru) 2014 (O.S. 2014/1370 (Cy. 139)) a wnaed o dan adran 54A o Ddeddf 1988, yn darparu bod rhestrau ardrethu annomestig ar gyfer Cymru i’w llunio ar 1 Ebrill 2017 a phob pumed flwyddyn wedi hynny.

Mae paragraff 2(3)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988 yn darparu, at ddibenion llunio rhestrau o’r fath, fod gwerth ardrethol hereditament annomestig i’w bennu drwy gyfeirio at y diwrnod y mae rhaid llunio’r rhestrau neu ar unrhyw ddiwrnod cyn y diwrnod hwnnw a bennir drwy orchymyn.

Mae erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn yn pennu 1 Ebrill 2021 fel y diwrnod hwnnw at ddibenion llunio’r rhestrau ardrethu annomestig lleol a chanolog nesaf pan fydd y Gorchymyn hwn wedi dod i rym.

Mae erthygl 3 o’r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/1001 (Cy. 204)) (“Gorchymyn 2018”), a oedd wedi pennu 1 Ebrill 2019 fel y diwrnod at ddibenion llunio’r rhestrau ardrethu annomestig lleol a chanolog nesaf ar ôl i Orchymyn 2018 ddod i rym.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Gorchymyn hwn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1378 (Cy. 305)

**ARDRETHU A PHRSIO,
CYMRU**

**Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu
(Dyddiad Prisio) (Cymru) 2020**

<i>Gwnaed</i>	<i>27 Tachwedd 2020</i>
<i>Gosodwyd Cymru</i>	<i>gerbron Senedd 1 Rhagfyr 2020</i>
<i>Yn dod i rym</i>	<i>23 Rhagfyr 2020</i>

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraff 2(3)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(1), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2020 a daw i rym ar 23 Rhagfyr 2020.

Dyddiad prisio

2. 1 Ebrill 2021 yw'r diwrnod a bennir fel y diwrnod y mae rhaid cyfeirio ato i bennu gwerthoedd ardrethol hereditamentau annomestig at ddibenion y rhestrau ardrethu annomestig lleol a chanolog pan fyddant yn cael eu llunio nesaf ar gyfer Cymru ar ôl i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

(1) 1988 p. 41.

(2) Trosglwyddwyd pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oedd yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Dirymu

3. Mae Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Priso) (Cymru) 2018(1) wedi ei ddirymu.

Rebecca Evans

Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, un o Weinidogion

Cymru

27 Tachwedd 2020

(1) O.S. 2018/1001 (Cy. 204).

Explanatory Memorandum to The Rating Lists (Valuation Date) (Wales) Order 2020

This Explanatory Memorandum has been prepared by Local Government Strategic Finance Division and is laid before the Senedd Cymru in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

Minister's Declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of The Rating Lists (Valuation Date) (Wales) Order 2020.

Rebecca Evans MS
Minister for Finance and Trefnydd
1 December 2020

Description

1. The Rating Lists (Valuation Date) (Wales) Order 2020 (the Order) is a technical piece of legislation which sets 1 April 2021, as the reference date for the next revaluation of non-domestic properties in Wales.
2. The next revaluation of Non-Domestic Rates (NDR) in Wales is currently scheduled to take place on 1 April 2023. A Written Statement on 11 August 2020 confirmed the intention to postpone the revaluation from 1 April 2022 until 1 April 2023:
<https://gov.wales/written-statement-non-domestic-rates-revaluation-wales>
3. In compiling the rating lists to take effect in 2023, the Valuation Office Agency (VOA) will assess the rateable value of non-domestic properties in Wales based on their market rental value by reference to a specific date, the Antecedent Valuation Date (AVD). Setting the AVD at a point before the rating lists come into effect allows the VOA to consider market performance retrospectively at the valuation date based on evidence and market intelligence to ensure a property's rental value at the AVD is accurately represented.
4. For all previous revaluations since 1990, the AVD has been set two years ahead of the new lists coming into effect, for example 1 April 2015 for the 2017 list.
5. The making of the Order to set the AVD is required to enable the VOA to undertake the necessary preparatory work for the revaluation which will take effect on 1 April 2023.

Matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee

6. There are no matters of special interest to bring to the attention of the Committee.

Legislative background

7. Sections 41 and 52 of the Local Government Finance Act 1988 (the 1988 Act) make provision for the VOA to compile non-domestic rating lists. Previously, new lists had to be compiled every five years starting on 1 April 1990. However, section 54A of the 1988 Act (inserted by section 30 of the Growth and Infrastructure Act 2013) provides that the Welsh Ministers may, by order, provide that the local and central lists must be compiled on a date specified in that order rather than on 1 April 2015. Section 54A(4) further provides orders taking effect under that section, apply sections 41 and 52 as if they required a list to be compiled on the specified date and on 1 April in every fifth year afterwards. The

Rating Lists (Postponement of Compilation) (Wales) Order 2014¹, changed the date of the following revaluation to 1 April 2017 (rather than 1 April 2015), consequently, the next revaluation in Wales would be scheduled for 1 April 2022.

8. Primary legislation will therefore be required to change the date of the next revaluation. The Non-Domestic Rating (Lists) (No.2) Bill covering England and Wales was introduced into Parliament on 8 September, and contains provision to set the next revaluation date as 1 April 2023.
9. Sections 42(4) and 53(3) of the 1988 Act provide that non-domestic rating lists must also contain the rateable values (RV) of the properties listed. Schedule 6 to the 1988 Act contains provisions setting out how RV is to be determined. Paragraph 2(3) of that Schedule provides, that for the purposes of compiling a list, the RV should be determined by reference to the day on which the list is to be compiled or on a preceding day specified by the Secretary of State in an order. That date is known as the AVD.
10. The power of the Secretary of State under paragraph 2(3)(b) of Schedule 6 to the 1988 Act, so far as it is exercisable in relation to Wales, was transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999. Those functions were subsequently transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006.
11. Section 143(3) of the 1988 Act provides that an order setting the AVD under paragraph 2(3)(b) of Schedule 6 to the 1988 Act, is to be made using the negative resolution procedure.

Purpose and intended effect of the legislation

12. During a rates revaluation, the VOA assesses each non-domestic property to determine its RV and compiles the rating lists (central and local lists). For most non-domestic properties, the RV is based on the estimated open market rental value on a specific date, the AVD. The AVD is set by the Welsh Ministers making an order under paragraph 2(3)(b) of Schedule 6 to the 1988 Act.
13. The purpose of the AVD is (a) to ensure all properties are valued on the same basis, so the distribution of the rates liability is fair between different properties, and (b) to allow valuation officers to collect all available rental and other information so they can accurately assess RV for the purposes of compiling lists.
14. The AVD is normally set at two years prior to the new list taking effect. For the next revaluation, the lists take effect on 1 April 2023. Therefore, an order under

¹ (S.I. 2014/1370 (W. 139) <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/1370/contents/made>

Schedule 6 to the 1988 Act should specify 1 April 2021 as the day by reference to which, the RV of a non-domestic hereditament is to be determined for the purposes of the local and central rating lists taking effect on 1 April 2023.

15. The AVD order is a technical piece of legislation required to enable the VOA to undertake the necessary preparatory work for the revaluation. A similar order has already been made in England and it is a routine consequence of the decision to postpone the revaluation until 2023.

16. The Order also revokes the Rating Lists (Valuation Date) (Wales) Order 2018 which set the AVD for the planned, but cancelled 2021 revaluation as 1 April 2019.

Consultation

17. An AVD has been set for each previous revaluation since 1990 and, as with these previous exercises, the date has been agreed with the VOA without further consultation on what is a technical piece of legislation. In each case, all previous AVDs have been set two years before the date each respective list has come into force. The Order follows the same established practice.

Regulatory Impact Assessment

18. The Order only makes a necessary technical change resulting from the policy decision to carry out a non-domestic rates revaluation on 1 April 2023. As such, no regulatory impact assessment has been prepared.

Eitem 5.2

SL(5)683 – Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Dibenion Maethol Penodol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth ym maes hylendid a diogelwch bwyd anifeiliaid er mwyn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354 sy'n sefydlu rhestr o'r defnydd y bwriedir ei wneud o fwyd anifeiliaid a fwriedir at ddibenion maethol penodol, ac yn diddymu Cyfarwyddeb 2008/38/EC, a fydd yn dod i rym ar 25 Rhagfyr 2020 ochr yn ochr â phan ddaw'r offeryn hwn i rym.

Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016 a Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016, sy'n darparu ar gyfer gorfodi yng Nghymru (gan gynnwys troseddau) ddeddfwriaeth yr UE yn y maes hwn. Mae'r offeryn hwn yn cyflwyno darpariaethau ar gyfer gorfodi Rheoliad (UE) 2020/354 yn lle'r darpariaethau cyfredol sy'n gweithredu Cyfarwyddeb 2008/38/EC, a ddiddymir o 25 Rhagfyr 2020.

Mae'r offeryn hwn yn ymdrin â phob busnes bwyd anifeiliaid sy'n cynhyrchu, cyflenwi neu'n defnyddio bwyd anifeiliaid, at ddibenion maethol penodol.

Gweithdrefn

Negyddol

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r sylwadau yn y Memorandwm Esboniadol ynghylch asesiad yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) am beidio â chynhyrchu Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.



"Mae'r ASB o'r farn y bydd effaith yr offeryn hwn ar fusnesau ac awdurdodau gorfodi yn fach iawn. Nid yw'r ASB wedi nodi unrhyw newid sylweddol i'r gofynion ar gyfer busnesau, nac yn y dull rheoleiddio a gymerir. Mae Rheoliad (UE) 2020/354 yn cynnwys mesurau pontio a fydd yn caniatáu ar gyfer defnyddio stociau presennol o gynnyrch a labelwyd cyn 25 Mawrth 2022 o dan y rheolau presennol. Felly, nid oes asesiad effaith wedi'i gynhyrchu."

Y goblygiadau yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Bydd y Rheoliadau hyn yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (h.y. diwedd y cyfnod gweithredu, ar 31 Rhagfyr 2020).

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

7 Rhagfyr 2020



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1381 (Cy. 307)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

**Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid
(Dibenion Maethol Penodol a
Diwygiadau Amrywiol) (Cymru)
2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth ym maes hylendid a diogelwch bwyd anifeiliaid er mwyn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354 sy'n sefydlu rhestr o'r defnydd y bwriedir ei wneud o fwyd anifeiliaid a fwriedir at ddibenion maethol penodol, ac yn diddymu Cyfarwyddeb 2008/38/EC (OJ Rhif L67, 5.3.2020, t. 1.).

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016 (O.S. 2016/386 (Cy. 120)), gan ddileu cyfeiriadau at Gyfarwyddeb 2008/38/EC sydd wedi ei diddymu a darparu ar gyfer gorfodi'r Rheoliad (EU) 2020/354 newydd. Mae rheoliad 2(2)(c) yn diweddarau'r cyfeiriadau yn y Rheoliadau hynny at offerynnau UE penodedig.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016 (O.S. 2016/387 (Cy. 121)), er mwyn ychwanegu Rheoliad (EU) 2020/354 at y rhestr o ddeddfwriaeth a ddiffinnir fel "cyfraith bwyd anifeiliaid benodedig" at ddibenion y Rheoliadau hynny. Mae rheoliad 3(2) yn diweddarau'r cyfeiriadau yn y Rheoliadau hynny at offerynnau UE penodedig.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1381 (Cy. 307)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

**Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid
(Dibenion Maethol Penodol a
Diwygiadau Amrywiol) (Cymru)
2020**

Gwnaed 30 Tachwedd 2020

Gosodwyd gerbron *Senedd*
Cymru 2 Rhagfyr 2020

Yn dod i rym 25 Rhagfyr 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1), a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi.

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd, neu sy'n cael ei fwydo i anifeiliaid o'r fath(2),

-
- (1) 1972 p. 68. Diddymwyd Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ("Deddf 1972") gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) ("Deddf 2018") gan gael effaith o'r diwrnod ymadael. Mae "exit day" wedi ei ddiffinio yn adran 20 o Ddeddf 2018 fel 31 Ionawr 2020 am 11pm. Er gwaethaf y diddymiad hwnnw mae Deddf 1972 yn parhau i gael effaith gydag addasiadau hyd ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, yn rhinwedd adran 1A o Ddeddf 2018. Mewnosodwyd adran 1A gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) ("Deddf 2020"). Mae "IP completion day" wedi ei ddiffinio yn adran 1A fel 31 Rhagfyr 2020 am 11pm (yr ystyr a roddir yn adran 39 o Ddeddf 2020). Diwygiwyd adran 2(2) o Ddeddf 1972 yn flaenorol hefyd gan adran 27(1) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen iddi. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf 1972 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 ac fe'i diwygiwyd gan Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 ac O.S. 2007/1388.
- (2) O.S. 2005/1971, a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/2766. Mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffytoiechydol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd(1), a mesurau mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeidd(2).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau at offerynnau'r UE a grybwyllir yn rheoliad 2(3) o Reoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016(3) (fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn) a rheoliad 2(5) o Reoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016(4) (fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn) gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr offerynnau UE hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

Ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio'r Rheoliadau hyn yn unol â gofynion Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(5).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Dibenion Maethol Penodol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 a deuant i rym ar 25 Rhagfyr 2020.

gan y dynodiad hwn wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi. Nid yw'r dynodiad yn estyn i fesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys cynhyrchion meddyginiaethol (gan gynnwys rheolyddion twf) na chynhyrchion meddyginiaethol y bwriedir eu defnyddio mewn bwyd anifeiliaid ac eithrio darpariaeth sy'n ymwneud â sylweddau gwella gallu treuliadwyedd, sefydlogyddion fflora'r perfedd, neu sylweddau sy'n cael effaith ffafriol ar yr amgylchedd. Mae O.S. 2005/1971 wedi ei ddirymu'n rhagolygol gan O.S. 2018/1011 o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

- (1) O.S. 2008/1792, sydd wedi ei ddirymu'n rhagolygol gan O.S. 2018/1011 o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.
- (2) O.S. 2010/2690. Nid yw'r dynodiad yn estyn i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys cynhyrchion meddyginiaethol y bwriedir eu defnyddio mewn bwyd anifeiliaid ac eithrio darpariaeth sy'n ymwneud â sylweddau sy'n cael effaith ffafriol ar yr amgylchedd, sylweddau gwella treuliadwyedd, neu sefydlogyddion fflora'r perfedd. Mae O.S. 2010/2690 wedi ei ddirymu'n rhagolygol gan O.S. 2018/1011 o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.
- (3) O.S. 2016/386, a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/806.
- (4) O.S. 2016/387, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/1482.
- (5) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) 2019/1243 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L198, 25.7.2019, t. 241).

Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016

2.—(1) Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli a chwmpas)—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) hepgorer y diffiniad o “Cyfarwyddeb 2008/38”;

(ii) yn y man priodol mewnosoder—

“ystyr “Rheoliad 2020/354” (“*Regulation 2020/354*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354 sy’n sefydlu rhestr o’r defnydd y bwriedir ei wneud o fwyd anifeiliaid a fwriedir at ddibenion maethol penodol, ac yn diddymu Cyfarwyddeb 2008/38/EC(2);”

(b) yn lle paragraff (3) rhodder—

“(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at offeryn UE a ddiffinnir ym mharagraff (1) yn gyfeiriad at yr offeryn UE hwnnw fel y’i diwygir o bryd i’w gilydd.”

(3) Yn lle Rhan 7 (gweithredu Cyfarwyddeb 2008/38) rhodder—

“Rhan 7

Gorfodi Rheoliad 2020/354

Dehongli’r Rhan hon

16. Yn y Rhan hon mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn Rheoliad 2020/354.

Y drosedd o fethu â chydymffurfio ag Erthygl 1 o Rheoliad 2020/354

17. Mae person sy’n mynd yn groes i Erthygl 1 (amodau ar farchnata), fel y’i darllenir gydag Erthygl 2 (rhanddirymiad ar gyfer bwyd anifeiliaid sy’n cydymffurfio â darpariaethau Cyfarwyddeb 2008/38/EC) ac Erthygl 3 (darpariaethau trosiannol ar gyfer bwyd anifeiliaid a labelir cyn 25 Mawrth 2022 yn unol â’r rheolau sy’n gymwys cyn 25 Mawrth 2020), neu sy’n methu â chydymffurfio â hi, yn cyflawni trosedd.”

(1) O.S. 2016/386 (Cy. 120), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/806 (Cy. 162).

(2) OJ Rhif L67, 5.3.2020, t. 1.

(4) Yn rheoliad 18 (cosbau am droseddau o dan y Rheoliadau hyn), ym mharagraff (1), yn lle “17(1)” rhodder “17”.

(5) Yn rheoliad 19 (dyletswyddau i orfodi), ar ôl “Rheoliad 767/2009” mewnosoder “, Rheoliad 2020/354”.

Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016

3.—(1) Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli a chwmpas), yn lle paragraff (5) rhodder—

“(5) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at Rheoliad UE a bennir yn Atodlen 1 yn gyfeiriad at y Rheoliad UE hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.”

(3) Yn Atodlen 1 (cyfraith bwyd anifeiliaid benodedig), yn y tabl, yn y man priodol ychwaneger y cofnod a ganlyn—

“Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354 sy'n sefydlu rhestr o'r defnydd y bwriedir ei wneud o fwyd anifeiliaid a fwriedir at ddibenion maethol penodedig, ac yn diddymu Cyfarwyddeb 2008/38/EC(2)”.

Eluned Morgan

Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg,
un o Weinidogion Cymru
30 Tachwedd 2020

(1) O.S. 2016/387 (Cy. 121), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/40 (Cy. 12), 2018/806 (Cy. 162) a 2019/1482 (Cy. 266).

(2) OJ Rhif L67, 5.3.2020, t. 1.

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Bwyd Anifeiliaid (Dibenion Maethol Penodol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020.

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a chaiff ei osod gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Dibenion Maethol Penodol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg
2 Rhagfyr 2020

Rhan 1

Disgrifiad

1. Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Dibenion Maethol Penodol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 yn diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Marchnata, Cyfansoddiad a Defnydd) (Cymru) 2016 a Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu ac ati a Gorfodi) (Cymru) 2016 ("Rheoliadau 2016") i ddarparu ar gyfer gorfodi Rheoliad (UE) 2020/354 yng Nghymru (gan gynnwys troseddau) gan sefydlu rhestr o'r defnyddiau bwriadedig ar gyfer bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol neilltuol. Mae'r offeryn hwn yn amnewid darpariaethau ar gyfer gorfodi Rheoliad (UE) 2020/354 am y darpariaethau presennol sy'n gweithredu Cyfarwyddeb 2008/38/EC, sy'n cael ei diddymu ar 25 Rhagfyr 2020.
2. Mae'r offeryn hwn hefyd yn diweddarau'r cyfeiriadau yn Rheoliadau 2016 at offerynnau eraill yr Undeb Ewropeaidd (UE).
3. Mae Rheoliad (UE) 2020/354:
 - (a) Yn disodli darpariaethau cyffredinol Cyfarwyddeb 2008/38/EC â'r rhai a nodir yn Rheoliad (UE) 2020/354
 - (b) Yn diweddarau'r rhestr o ddefnyddiau bwriadedig at ddibenion maethol neilltuol trwy; ychwanegu a dileu defnyddiau bwriadedig, diweddarau'r golofn nodweddion maethol hanfodol, y datganiadau labelu, y darpariaethau amser a'r gofynion yn y golofn 'darpariaethau eraill'.
 - (c) Yn caniatáu am gyfnod pontio ar gyfer bwyd anifeiliaid a fwriedir at ddibenion maethol neilltuol sydd wedi'i labelu cyn 25 Mawrth 2022 yn unol â'r rheolau sy'n berthnasol cyn 25 Mawrth 2020 (hynny yw, yn cydymffurfio â Chyfarwyddeb 2008/38/EC). Efallai y bydd y stoc hon yn parhau i gael ei rhoi ar y farchnad a'i defnyddio nes ei bod wedi dod i ben.

Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad

4. Dim

Y cefndir deddfwriaethol

5. Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn wrth arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) a pharagraff 1A Atodlen 2 Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 ("ECA 1972"). Dynodir Gweinidogion Cymru mewn perthynas â:
 - a. mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu sy'n cael ei fwydo iddynt (gweler Gorchymyn Cymunedau Ewropeaidd (Dynodiad) (Rhif 2) 2005/1971).
 - b. mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffytoiachydol ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd (gweler Gorchymyn Cymunedau Ewropeaidd (Dynodiad) (Rhif 2) 2008/1792); a
 - c. mesurau mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd (gweler Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodiad) (Rhif 5) 2010/2690).
6. Diddymwyd ECA 1972 gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 gan ddod i rym ar y diwrnod ymadael. Er gwaethaf y diddymiad hwnnw, mae adran 2(2) o Ddeddf 1972 yn parhau i fod mewn grym gydag addasiadau tan ddaw'r cyfnod gweithredu i ben yn rhinwedd adran 1A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).
7. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o ECA 1972, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn fuddiol dehongli cyfeiriadau at offerynnau'r UE o fewn Rheoliadau 2016 fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd.
8. Mae adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 (fel y'i darllenir gydag adran 59(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) yn cynnig dewis rhwng gweithdrefnau negyddol a chadarnhaol. Mae'r offeryn hwn yn gwneud darpariaeth gyfyngedig, sy'n dechnegol ei natur ac sy'n rhoi effaith i gyfraith yr UE (gan gynnwys diweddarau cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yr UE), y mae gan Weinidogion Cymru ddisgresiwn cyfyngedig mewn perthynas â hwy. O'r herwydd, mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

Pwrpas y ddeddfwriaeth a'i heffaith fwriededig

9. Pwrpas yr Offeryn hwn yw gweithredu Rheoliad (UE) 2020/354 a dileu cyfeiriadau at Gyfarwyddeb 2008/38/EC sydd wedi'i diddymu. Mae'r offeryn hwn hefyd yn diweddarau'r cyfeiriadau yn Rheoliadau 2016 at offerynnau eraill yr UE.

10. Bydd Rheoliad y Comisiwn (UE) 2020/354 yn dod i rym ar 25 Rhagfyr 2020. Felly mae angen diwygiad i Reoliadau Bwyd Anifeiliaid (Marchnata, Cyfansoddiad a Defnydd) (Cymru) 2016 a Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu ac ati a Gorfodi) (Cymru) 2016, sy'n darparu ar gyfer gorfodi yng Nghymru (gan gynnwys troseddau) deddfwriaeth yr UE yn y maes hwn. Mae'r offeryn hwn yn amnewid darpariaethau ar gyfer gorfodi Rheoliad (UE) 2020/354 am y darpariaethau presennol sy'n gweithredu Cyfarwyddeb 2008/38/EC, sy'n cael ei diddymu ar 25 Rhagfyr 2020.
11. Mae'r Offeryn hwn yn ymdrin â phob busnes bwyd anifeiliaid sy'n cynhyrchu, yn cyflenwi neu'n defnyddio bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol neilltuol.
12. Mae deddfwriaeth weithredu gyfatebol yn cael ei llunio mewn perthynas â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Ymgynghoriad

13. Cynhaliwyd ymgynghoriad chwe wythnos rhwng 2 Hydref 2020 a 13 Tachwedd 2020 ar y cynnig i ddrafftio deddfwriaeth ddomestig i ddarparu ar gyfer gorfodi Rheoliad (UE) 2020/354 yng Nghymru gan sefydlu rhestr o'r defnyddiau bwriadedig ar gyfer bwyd anifeiliaid a fwriedir at ddibenion maethol neilltuol a diddymu Cyfarwyddeb 2008/38/EC. Cafodd yr ymgynghoriad ei dynnu at sylw rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid ac awdurdodau lleol.
14. Daeth un ymateb i law gan grŵp diwydiant a oedd yn cefnogi'r cynllun i ddrafftio deddfwriaeth ddomestig yn gorfodi Rheoliad (UE) 2020/354 yng Nghymru. Nid ystyriwyd bod angen gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r Rheoliadau drafft.
15. Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr ASB o fewn tri mis ar ôl i'r Rheoliadau gael eu gosod.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

16. Mae'r ASB o'r farn y bydd effaith yr offeryn hwn ar fusnesau ac awdurdodau gorfodi yn fach iawn. Nid yw'r ASB wedi nodi unrhyw newid sylweddol i'r gofynion ar gyfer busnesau, nac yn y dull rheoleiddio a gymerir. Mae Rheoliad (UE) 2020/354 yn cynnwys mesurau pontio a fydd yn caniatáu ar gyfer defnyddio stociau presennol o gynnyrch a labelwyd

cyn 25 Mawrth 2022 o dan y rheolau presennol. Felly, nid oes asesiad effaith wedi'i gynhyrchu.

17. Mae'r ASB yn rhagweld cost ymgyfarwyddo untro fechan iawn i awdurdodau lleol yng Nghymru yn sgil gorfod darllen ac ymgyfarwyddo â Rheoliadau'r UE ac yna eu lledaenu i swyddogion gorfodi.
18. Nid yw Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Dibenion Maethol Penodol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 yn cael unrhyw effaith ar ddyletswyddau statudol na phartneriaid statudol Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Eitem 5.3

SL(5)686 - Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2020

Cefndir a Diben

Gohiriodd Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020 yr is-etholiadau ar gyfer prif gynghorau a chynghorau cymunedol a oedd i fod i gael eu cynnal yn ystod y cyfnod rhwng 16 Mawrth 2020 a 31 Ionawr 2021, a'i gwneud yn ofynnol i'r is-etholiadau gael eu cynnal rhwng 1 Chwefror 2021 a 16 Ebrill 2021.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i ddelio â materion atodol i sicrhau bod yr is-etholiadau gohiriedig yn cael eu cynnal yn unol â chyfraith etholiadol ac arfer da, a bod Swyddogion Canlyniadau yn gallu cyflawni eu dyletswyddau.

Mae rheoliad 4 yn darparu nad yw unrhyw bleidlais drwy'r post a fwriwyd mewn perthynas ag is-etholiad a ohiriwyd gan Rheoliadau 2020 i gyfrif at ddibenion yr isetholiad hwnnw sydd wedi ei ail-drefnu, ac mae'n darparu nad yw pleidleisiwr drwy'r post yn cael ei atal rhag bwrw pleidlais drwy'r post arall mewn is-etholiad a ad-drefnir

Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch sut y mae rhaid i'r swyddog canlyniadau ymdrin â'r ddogfennaeth y gellid bod wedi ei chreu cyn is-etholiad a ohiriwyd, gan gynnwys ei hanfon ymlaen at y swyddog cofrestru

Mae rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog cofrestru gadw'r dogfennau hynny am flwyddyn cyn eu dinistrio (yn ddarostyngedig i orchymyn llys).

Mae rheoliad 7 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phersonau a oedd yn ymgeiswyr mewn is-etholiad a ohiriwyd. Mae'n darparu nad yw person a oedd yn ymgeisydd yn ymgeisydd mwyach, a'i fod yn cael ei drin yn gyffredinol fel pe na bai wedi bod yn ymgeisydd.

Mae rheoliad 8 yn darparu sail ychwanegol i geiswyr wneud cais am bleidleisiau drwy ddirprwyon brys mewn cysylltiad ag is-etholiadau llywodraeth leol penodol.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu



Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol o dan adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 y dylai offeryn gweithdrefn negyddol gael ei osod gerbron y Senedd o leiaf 21 diwrnod cyn y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol, a roddwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 3 Rhagfyr 2020.

Yn benodol, nodwn y paragraff canlynol yn y llythyr:

"Mae torri'r confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym ar 4 Rhagfyr 2020. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod gan Swyddogion Canlyniadau ddigon o amser i baratoi ar gyfer yr is-etholiadau cyntaf a ohirwyd y bwriedir iddynt gael eu cynnal ddechrau mis Chwefror. Rhaid i Swyddog Canlyniadau gyhoeddi hysbysiad o etholiad heb fod yn hwyrach na 25 o ddiwrnodau gwaith cyn dyddiad yr etholiad. Felly, pe bai is-etholiad yn cael ei gynnal ar y cyfle cyntaf posibl, ar 4 Chwefror 2021, byddai angen cyhoeddi'r hysbysiad o etholiad erbyn 31 Rhagfyr 2020 fan hwyraf. Pe ufuddheir i'r rheol 21 diwrnod ar gyfer y Rheoliadau hyn, ni fyddent mewn grym erbyn y byddai angen i'r Swyddog Canlyniadau osod yr hysbysiad o etholiad er mwyn cynnal yr is-etholiad."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r ddau droednodyn yn rheoliad 7(5) yn cyfeirio at ddiwygiadau a wnaed gan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009. Fodd bynnag, nid yw'r darpariaethau perthnasol yn Neddf 2009 wedi dod i rym eto ac ni phennwyd dyddiad eto ynghylch pryd y deuant i rym. Felly'r sefyllfa bresennol yw nad yw'r darpariaethau y cyfeirir atynt yn rheoliad 7(5) wedi cael eu diwygio (eto) yn y modd a ddisgrifir yn y troednodiadau.

Derbynnir nad yw troednodyn yn rhan o'r gyfraith. Fodd bynnag, os mai diben ei gynnwys yw cynorthwyo darllynydd, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r cyfeiriadau'n cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:



"Oherwydd natur frys y Rheoliadau hyn, ni wnaeth Llywodraeth Cymru gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn i'r Rheoliadau ddod i rym. Gofynnwyd am farn rhanddeiliaid fel y Comisiwn Etholiadol, Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru a Chymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA)."

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r Nodyn Esboniadol yn darparu bod Gweinidogion Cymru wedi ystyried y Cod Ymarfer ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ac wedi dod i'r casgliad:

"nid ystyriwyd ei bod yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o ran costau a buddiannau tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn."

Fodd bynnag, mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gynnwys ar dudalen 6 o'r Memorandwm Esboniadol.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad 8 Rhagfyr 2020



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1399 (Cy. 310)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**CYNYRCHIOLAETH Y BOBL,
CYMRU**

**Rheoliadau Llywodraeth Leol
(Coronafeirws) (Gohirio
Etholiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag is-etholiadau llywodraeth leol penodol a ohiriwyd o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Gohiriwyd yr is-etholiadau llywodraeth leol hyn gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau 2020").

Mae rheoliad 4 yn darparu nad yw unrhyw bleidlais drwy'r post a fwriwyd mewn perthynas ag is-etholiad a ohiriwyd gan Reoliadau 2020 i gyfrif at ddibenion yr is-etholiad hwnnw sydd wedi ei ail-drefnu. Mae hefyd yn darparu nad yw pleidleisiwr drwy'r post yn cael ei atal rhag bwrw pleidlais drwy'r post arall mewn is-etholiad a ad-drefnir.

Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch sut y mae rhaid i'r swyddog canlyniadau ymdrin â'r ddogfennaeth y gellid bod wedi ei chreu cyn is-etholiad a ohiriwyd, gan gynnwys ei hanfon ymlaen at y swyddog cofrestru.

Mae rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog cofrestru gadw'r dogfennau hynny am flwyddyn cyn eu dinistrio (yn ddarostyngedig i orchymyn llys). Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch gorchmynion llys i gael mynediad at y dogfennau hynny mewn cysylltiad ag erlyniad.

Mae rheoliad 7 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phersonau a oedd yn ymgeiswyr mewn is-etholiad a ohiriwyd. Mae'n darparu nad yw person a

oedd yn ymgeisydd yn ymgeisydd mwyach, a'i fod yn cael ei drin yn gyffredinol fel pe na bai wedi bod yn ymgeisydd. Mae effeithiau hyn yn cynnwys y ffaith nad yw'n ofynnol i'r person lenwi datganiadau penodol sy'n ymwneud â threuliau ymgeisydd a rhoddion o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Yn lle hynny, ymdrinnir â rhoddion penodol i roddeion rheoleiddiedig o dan y rheolau yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, ond mae'r terfynau amser ar gyfer cydymffurfio â'r rheolau hynny wedi eu hymestyn.

Mae rheoliad 8 yn diwygio Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001, er mwyn darparu sail ychwanegol i geiswyr wneud cais am bleidleisiau drwy ddirprwyon brys mewn cysylltiad ag is-etholiadau llywodraeth leol penodol. Mae'r sail ychwanegol hon yn ymwneud â phersonau nad ydynt yn gallu mynd i orsaf bleidleisio yn bersonol o ganlyniad i ddilyn deddfwriaeth berthnasol neu ganllawiau neu gyngor meddygol perthnasol mewn perthynas â'r pandemig COVID-19..

Mae rheoliad 9 yn addasu effaith Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â'r gofyniad i roi hysbysiad cyhoeddus pan fo person yn cael ei gyfethol i fod yn aelod o gyngor cymuned yng Nghymru. O ganlyniad i'r pandemig COVID-19, nid yw ond yn ofynnol i'r hysbysuadau cyhoeddus hynny gael eu rhoi ar ffurf electronig.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1399 (Cy. 310)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**CYTRYCHIOLAETH Y BOBL,
CYMRU**

Rheoliadau Llywodraeth Leol
(Coronafeirws) (Gohirio
Etholiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2020

Gwnaed 1 Rhagfyr 2020

Gosodwyd gerbron *Senedd*
Cymru 3 Rhagfyr 2020

Yn dod i rym 4 Rhagfyr 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 68 o Ddeddf y Coronafeirws 2020(1).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2020.

2. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 4 Rhagfyr 2020.

Dehongli

3. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “amlen berthnasol sydd wedi ei hagor” (“*opened relevant envelope*”) yw—

(a) prif amlen sydd wedi ei hagor, neu

(b) amlen (ac eithrio prif amlen) sy'n dod i law'r swyddog canlyniadau neu'r swyddog cyfrif ac sydd, pan gaiff ei hagor, yn cynnwys amlen

(1) 2020 p. 7.

papur pleidleisio, datganiad pleidleisio drwy'r post neu bapur pleidleisio;

mae i “amlen papur pleidleisio”, “prif amlen”, “pleidleisiwr drwy'r post”, “daliodydd ar gyfer amlenni papurau pleidleisio” a chyfeiriadau eraill at ddaliodyddion penodedig yr un ystyron ag sydd i'r ymadroddion Saesneg cyfatebol yn Rhan 5 o Reoliadau 2001;

mae i “ardal etholiadol” yr un ystyr ag a roddir i “electoral area” yn adran 203(1) o Ddeddf 1983;

ystyr “y cyfnod perthnasol” (“*the relevant period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau ar 16 Mawrth 2020 ac yn dod i ben ar 31 Ionawr 2021;

ystyr “Deddf 1983” (“*the 1983 Act*”) yw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(1);

ystyr “Deddf 2000” (“*the 2000 Act*”) yw Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(2);

ystyr “Deddf 2020” (“*the 2020 Act*”) yw Deddf y Coronafeirws 2020;

ystyr “is-etholiad perthnasol” (“*relevant by-election*”) yw—

- (a) etholiad ar gyfer cynghorydd i lenwi swydd cynghorydd sy'n digwydd dod yn wag ar gyfer unrhyw brif ardal yng Nghymru; neu
- (b) etholiad ar gyfer cynghorydd i lenwi swydd cynghorydd cymuned sy'n digwydd dod yn wag mewn unrhyw gyngor cymuned yng Nghymru,

pan fwriadwyd i'r bleidlais ar gyfer unrhyw etholiad o'r fath gael ei chynnal yn ystod y cyfnod perthnasol ac na chynhaliwyd y bleidlais yn ystod y cyfnod hwnnw o ganlyniad i Reoliadau 2020;

ystyr “pleidlais ohiriedig” (“*a postponed poll*”) yw unrhyw bleidlais a fydd, o ganlyniad i Reoliadau 2020, yn disodli is-etholiad perthnasol ac yn cael ei chynnal o fewn y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Chwefror 2021 ac yn dod i ben ar 16 Ebrill 2021;

mae i “prif ardal” yr un ystyr ag a roddir i “principal area” yn adran 270(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (darpariaethau cyffredinol ynghylch dehongli)(3);

ystyr “Rheoliadau 2001” (“*the 2001 Regulations*”) yw Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001(4);

(1) 1983 p. 2.

(2) 2000 p. 41.

(3) 1972 p. 70; diwygiwyd adran 270(1) gan baragraff 8 o Atodlen 16 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1985 (p. 51).

(4) O.S. 2001/341; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2006/752, 2006/2910 a 2013/3198.

ystyr “Rheoliadau 2020” (“*the 2020 Regulations*”) yw Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020(1);

mae i “rhestr o bleidleiswyr drwy’r post” a “rhestr o bleidleiswyr drwy’r post fel dirprwyon” yr un ystyr ag a roddir i “postal voters list” a “proxy postal voters list” yn adran 202(1) o Ddeddf 1983(2);

mae i “rhoddai rheoleiddiedig” yr un ystyr ag a roddir i “regulated donee” ym mharagraff 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 2000;

mae i “swyddog cofrestru perthnasol”—

(a) yn achos is-etholiad perthnasol—

(i) pan oedd yr etholiad ar gyfer cynghorydd i lenwi swydd cynghorydd sy’n digwydd dod yn wag ar gyfer unrhyw brif ardal yng Nghymru, yr ystyr a roddir i “relevant registration officer” gan reol 52(2) o Atodlen 2 neu (yn ôl y digwydd) reol 52(3) o Atodlen 3 i Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru a Lloegr) 2006(3);

(ii) pan oedd yr etholiad ar gyfer cynghorydd i lenwi swydd cynghorydd cymuned sy’n digwydd dod yn wag mewn unrhyw gyngor cymuned yng Nghymru, yr ystyr a roddir i “relevant registration officer” gan reol 52(2) o Atodlen 2 neu (yn ôl y digwydd) reol 52(3) o Atodlen 3 i Reolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Cymru a Lloegr) 2006(4);

mae i “ymgeisydd” yr ystyr a roddir i “candidate” gan adran 118A o Ddeddf 1983(5).

Pleidleisiau drwy’r post: cyffredinol

4.—(1) Nid yw papur pleidleisio drwy’r post a ddychwelwyd gan bleidleisiwr drwy’r post mewn perthynas ag is-etholiad perthnasol yn cael unrhyw effaith at ddibenion pleidlais ohiriedig.

(2) Nid yw’r ffaith y bu i bleidleisiwr drwy’r post fwrw pleidlais drwy’r post mewn cysylltiad ag is-etholiad perthnasol yn atal y person hwnnw rhag bwrw pleidlais drwy’r post mewn cysylltiad â phleidlais ohiriedig.

(1) O.S. 2020/461 (Cy. 105).

(2) Diwygiwyd adran 202(1) gan baragraff 128 o Atodlen 1 i Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (p. 22).

(3) O.S. 2006/3304, y mae iddo ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(4) O.S. 2006/3305, y mae iddo ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(5) Mewnosodwyd adran 118A gan adran 135 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p. 41).

(3) Pan fo unrhyw restr wedi ei chreu o dan reoliad 87(1) o Reoliadau 2001 mewn perthynas ag is-etholiad perthnasol, nid yw rheoliad 61C(2) o'r Rheoliadau hynny (hysbysu ynghylch datganiad pleidleisio drwy'r post a wrthodwyd) yn gymwys mewn cysylltiad â phleidleisiwr absennol sy'n ymddangos ar y rhestr honno.

(4) Nid yw rheoliad 84A(3) o Reoliadau 2001 (cadarnhau bod datganiadau pleidleisio drwy'r post wedi dod i law) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw bleidleisiau drwy'r post a ddosbarthwyd mewn perthynas ag is-etholiad perthnasol.

Pleidleisiau drwy'r post: gwaredu dogfennau gan y swyddog canlyniadau neu'r swyddog cyfrif

5.—(1) Mewn perthynas â'r swyddog canlyniadau ar gyfer is-etholiad perthnasol—

- (a) yn ddarostyngedig i baragraff (2), ni chaiff gymryd unrhyw gamau neu unrhyw gamau pellach i agor prif amlen, nac i ymdrin â chynnwys amlen berthnasol sydd wedi ei hagog, yn unol â Rhan 5 o Reoliadau 2001;
- (b) rhaid iddo drin y canlynol fel pe bai'n bapur pleidleisio sydd wedi ei gyfrif—
 - (i) unrhyw brif amlen nad yw wedi ei hagog;
 - (ii) cynnwys unrhyw amlen berthnasol sydd wedi ei hagog; a
 - (iii) unrhyw beth a gynhwysir yn y blwch pleidleisio drwy'r post.

(2) Pan fwriadwyd i'r pleidleisiau ar gyfer un is-etholiad perthnasol neu ragor gael eu cynnal gyda'i gilydd—

- (a) caiff y swyddog canlyniadau agor unrhyw brif amlenni neu amlenni papurau pleidleisio er mwyn gwahanu'r cynnwys yn ôl yr etholiad at ddibenion paragraff (4);
- (b) nid yw gofynion Rhan 5 o Reoliadau 2001 yn gymwys i unrhyw agor amlenni o'r fath.

(3) Rhaid i'r swyddog canlyniadau—

- (a) selio mewn pecynnau—
 - (i) unrhyw beth a gynhwysir yn y daliedydd ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd;
 - (ii) unrhyw beth a gynhwysir yn y daliedydd ar gyfer amlenni papurau pleidleisio;
 - (iii) unrhyw beth a gynhwysir yn y daliedydd ar gyfer amlenni papurau pleidleisio a wrthodwyd;

(1) Diwygiwyd rheoliad 87 gan O.S. 2006/2910 ac O.S. 2013/3198.

(2) Mewnosodwyd rheoliad 61C gan reoliad 28 o O.S. 2013/3198.

(3) Mewnosodwyd rheoliad 84A gan reoliad 52 o O.S. 2006/2910.

- (iv) unrhyw restr o bapurau pleidleisio a ddifethwyd, a gollwyd neu y cawsant eu canslo yn unol â rheoliadau 77(8), 78(4) neu 78A(3) o Reoliadau 2001;
 - (v) unrhyw beth a gynhwysir yn y daliedydd ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd (gweithdrefn wirio);
 - (vi) unrhyw beth a gynhwysir yn y daliedydd ar gyfer datganiadau pleidleisio drwy'r post (gweithdrefn wirio);
 - (vii) unrhyw beth sy'n cael ei drin fel pe bai'n bapur pleidleisio sydd wedi ei gyfrif o dan baragraff (1)(b) na fyddai fel arall yn cael ei gynnwys mewn pecyn yn unol ag is-baragraffau (i) i (vi);
 - (viii) y copïau wedi eu marcio o'r rhestr o bleidleiswyr drwy'r post a'r rhestr o bleidleiswyr drwy'r post fel dirprwyon;
- (b) anfon y pecynnau hynny ymlaen at y swyddog cofrestru perthnasol, ynghyd ag—
- (i) unrhyw becynnau wedi eu selio a ddisgrifir yn rheoliadau 75(1), 77(6), 78(2C) a 78A(2)(c) o Reoliadau 2001 (rhestrau rhif cyfatebol wedi eu cwblhau a phapurau pleidleisio a ddifethwyd, a gollwyd neu y cawsant eu canslo);
 - (ii) unrhyw restr y mae'n ofynnol ei llunio yn unol â rheoliad 87(4) o Reoliadau 2001 (rhestrau o bapurau pleidleisio a wrthodwyd).

(4) Rhaid i'r swyddog canlyniadau arnodi pob pecyn a ddisgrifir ym mharagraff (4) ag—

- (a) disgrifiad o'i gynnwys;
- (b) dyddiad y bleidlais ar gyfer yr is-etholiad perthnasol; ac
- (c) enw'r ardal (neu'r ardaloedd) etholiadol y mae'r is-etholiad perthnasol yn ymwneud â hi neu â hwy.

(5) Mae adran 36(4) neu (5A) o Ddeddf 1983 (etholiadau lleol yng Nghymru a Lloegr: talu am wariant)(1) yn gymwys i'r holl wariant y mae swyddog canlyniadau yn mynd iddo yn briodol mewn perthynas ag arfer swyddogaethau'r swyddog o dan y rheoliad hwn fel y mae'n gymwys i wariant yr eir iddo yn briodol mewn perthynas â chynnal etholiad.

(1) Diwygiwyd adran 36(4) a (5A) gan Atodlen 17 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1985 (p. 51); a chan baragraffau 68(9) a (10) o Atodlen 16 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19).

Pleidleisiau drwy'r post: cadw, dangos a dinistrio dogfennau gan y swyddog cofrestru perthnasol

6.—(1) Rhaid i'r swyddog cofrestru perthnasol—

- (a) cadw'r dogfennau a anfonir ymlaen at y swyddog yn unol â rheoliad 5(3)(b) am gyfnod o flwyddyn; a
- (b) ar ôl y cyfnod hwnnw, beri i'r dogfennau hynny gael eu dinistrio, oni bai bod gorchymyn gan lys sirol, Llys y Goron neu lys ynadon yn cyfarwyddo fel arall.

(2) Ni chaniateir i berson edrych ar unrhyw un neu ragor o'r dogfennau a ddisgrifir yn rheoliad 5(3)(a)(i) i (iii), (v) i (vii) a (b)(ii) sydd ym meddiant y swyddog cofrestru perthnasol, ac eithrio yn unol â gorchymyn a wneir gan lys ar gyfer edrych ar unrhyw ddogfen neu ddangos unrhyw ddogfen at ddiben cychwyn neu gynnal erlyniad am drosedd mewn perthynas â phapurau pleidleisio.

(3) Mewn perthynas â gorchymyn a ddisgrifir ym mharagraff (2)—

- (a) pan fo'n ymwneud ag etholiad ar gyfer cynghorydd i lenwi swydd cynghorydd sy'n digwydd dod yn wag ar gyfer unrhyw brif ardal yng Nghymru, mae paragraffau (3) i (7) o reol 53 o Atodlen 2 neu (yn ôl y digwydd) o Atodlen 3 i Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru a Lloegr) 2006(1) yn gymwys yn unol â pharagraff (4); a
- (b) pan fo'n ymwneud ag etholiad ar gyfer cynghorydd i lenwi swydd cynghorydd cymuned sy'n digwydd dod yn wag, mae paragraffau (3) i (7) o reol 53 o Atodlen 2 neu (yn ôl y digwydd) o Atodlen 3 i Reolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Cymru a Lloegr) 2006(2) yn gymwys yn unol â pharagraff (4).

(4) Mae'r darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (3) yn gymwys i orchymyn a ddisgrifir ym mharagraff (2) yn yr un modd ag y maent yn gymwys i orchymyn a wneir o dan y darpariaethau hynny, ac eithrio y dylid darllen cyfeiriadau yn y darpariaethau hynny at "counted ballot papers" fel cyfeiriadau at y dogfennau a ddisgrifir yn rheoliad 5(3)(a)(i) i (iii), (v) i (vii) a (b)(ii).

(5) Mae adran 176 o Ddeddf 1983 (terfyn amser ar gyfer erlyniadau)(3) yn gymwys mewn cysylltiad â dogfennau a gedwir gan y swyddog cofrestru perthnasol o dan baragraff (1) a dylid darllen

(1) O.S. 2006/3304.

(2) O.S. 2006/3305.

(3) Diwygiwyd adran 176 gan adrannau 24 a 28 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 (p. 50), paragraff 61 o Atodlen 4 iddi ac Atodlen 5 iddi.

cyfeiriadau at “rule 57 of the parliamentary elections rules” yn is-adrannau (2C) a (2D) fel cyfeiriad at reoliad 6(1) o’r Rheoliadau hyn.

(6) Mae adran 54 o Ddeddf 1983 (talw treuliau cofrestru)(1) yn gymwys i arfer swyddogaethau’r swyddog cofrestru perthnasol o dan y rheoliad hwn fel y mae’n gymwys i arfer swyddogaethau’r swyddog cofrestru o dan Ddeddf 1983.

Ymgeiswyr mewn is-etholiadau perthnasol

7.—(1) Nid yw person (“P”) a oedd yn ymgeisydd mewn is-etholiad perthnasol i’w ystyried yn ymgeisydd mwyach, ac mae’n cael ei drin fel pe na bai wedi bod yn ymgeisydd cyn i’r rheoliad hwn ddod i rym.

(2) Nid yw person (gan gynnwys P) yn atebol mewn cysylltiad ag unrhyw weithred neu anweithred (pa bryd bynnag y bo’n digwydd) mewn perthynas ag ymgeisyddiaeth P mewn is-etholiad perthnasol cyn i’r rheoliad hwn ddod i rym (gan ddiystyru paragraff (1)), o dan—

- (a) adran 71A o Ddeddf 1983 (rheoli rhoddion i ymgeiswyr)(2) ac Atodlen 2A iddi; a
- (b) adrannau 73 i 90D o Ddeddf 1983 (darpariaethau ynghylch treuliau etholiad ymgeiswyr)(3), ac Atodlen 4 iddi, gan

(1) Diwygiwyd adran 54 gan baragraff 14 o Atodlen 4 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985; a chan baragraffau 1 a 17 o Atodlen 4 i Ddeddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013 (p. 6).

(2) Mewnosodwyd adran 71A gan adran 130 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (“Deddf 2000”). Mewnosodwyd Atodlen 2A gan Atodlen 16 i Ddeddf 2000.

(3) Diwygiwyd adrannau 73 a 74 gan adran 14 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 (“DCB 1985”); gan baragraffau 1, 17 a 18 o Atodlen 3 i Ddeddf Awdurdod Llundain Fwyaf 1999 (p. 29) (“DALIF 1999”); gan baragraffau 1, 3 a 4 o Atodlen 18 i Ddeddf 2000; a diwygiwyd adran 73 hefyd gan baragraffau 104, 111 a 133 o Atodlen 1 i Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (p. 22) (“DGE 2006”). Mewnosodwyd adran 74A gan baragraffau 1 a 5 o Atodlen 18 i Ddeddf 2000 ac fe’i diwygiwyd gan baragraffau 104, 112 a 133 o Atodlen 1 i DGE 2006. Diwygiwyd adran 75 gan baragraff 24 o Atodlen 4 i DCB 1985; gan baragraffau 1 a 19 o Atodlen 3 i DALIF 1999; gan adran 131 o Ddeddf 2000; gan adran 25 o DGE 2006 a pharagraffau 104 a 113 o Atodlen 1 iddi; a chan adran 36(1) o Ddeddf Tryloywder Lobio, Ymgyrchu Amhleidiol a Gweinyddu Undebau Llafur 2014 (p. 4) (“Deddf 2014”). Mewnosodwyd adrannau 75ZA a 75ZB gan adran 36(2) o Ddeddf 2014. Diwygiwyd adran 76 gan baragraff 25 o Atodlen 4 i DCB 1985; gan Atodlen 17 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1985 (p. 51); gan Ran 1 o Atodlen 13 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p. 40); gan adran 6(1) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1989 (p. 28); gan baragraffau 1 ac 20 o Atodlen 3 i DALIF 1999; gan baragraffau 1 a 18 o Atodlen 1 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p. 2); gan adran 132 o Ddeddf 2000; gan baragraffau 69 a 71 o Atodlen 1 i DGE 2006; gan adran 37(1) o Ddeddf 2014 a chan O.S. 2014/1870. Mewnosodwyd adran 76ZA gan adran 21(1) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009 (p. 12) (“DPGE 2009”), ac fe’i diwygiwyd gan baragraffau 6 a 7 o’r Atodlen i Ddeddf Seneddau Tymor Penodol 2011 (p. 14), a chan O.S. 2014/1870. Mewnosodwyd adran 76A gan adran 14 o DCB 1985, ac fe’i diwygiwyd gan adran 133(1) o Ddeddf 2000, a chan baragraff 6 o Atodlen 6 i DPGE 2009. Diwygiwyd adran 77 gan baragraffau 1 a

gymwys cymhwyso'r darpariaethau hynny i ethol cynghorwyr cymuned yng Nghymru gan adran 90 o'r Ddeddf honno.

(3) Mae paragraffau (4) i (6) yn gymwys mewn perthynas â rhodd a fyddai i'w chynnwys mewn datganiad ynghylch treuliau etholiad mewn cysylltiad â P yn unol â Rhan 3 o Atodlen 2A i Ddeddf 1983(1) pe bai'r is-etholiad perthnasol wedi ei gynnal (gan ddiystyru paragraff (2)).

(4) At ddibenion paragraff 4(3)(a) o Atodlen 7 i Ddeddf 2000 (rhoddion: diystyru rhoddion i ymgeisydd) nid yw rhodd y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddi i'w thrin fel rhodd sydd i'w chynnwys mewn datganiad ynghylch treuliau etholiad mewn cysylltiad â P.

(5) Pan fo'n ofynnol i roddai rheoleiddiedig gymryd camau mewn cysylltiad â rhodd y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddi o dan adran 56(2) o Ddeddf 2000 (derbyn neu ddychwelyd rhoddion)(2), fel y'i cymhwysir gan baragraff 8 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno(3), mae'r ddarpariaeth honno i'w darllen fel pe bai'n ei gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd erbyn 31 Ionawr 2021 (yn hytrach nag o fewn y cyfnod a bennir yn y ddarpariaeth).

(6) Pan fo'n ofynnol, mewn perthynas â rhodd y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddi, i roddai rheoleiddiedig lunio adroddiad o dan baragraff 10(1) neu 11(1)(a) o Atodlen 7 i Ddeddf 2000 (adroddiadau

22 o Atodlen 3 i DALIF 1999. Diwygiwyd adrannau 78 a 79 gan baragraff 26 o Atodlen 4 i DCB 1985; gan baragraffau 1, 6 a 18 o Atodlen 18 i Ddeddf 2000, a diwygiwyd adran 78 hefyd gan baragraff 52(1)(b) a (2) o Atodlen 9 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22). Diwygiwyd adrannau 81, 82 a 85 gan baragraffau 27 i 29 o Atodlen 4 i DCB 1985; gan baragraffau 1 a 23 i 25 o Atodlen 3 i DALIF 1999; a chan baragraffau 1, 7, 8 a 19 o Atodlen 18 i Ddeddf 2000, a diwygiwyd adran 81 hefyd gan adran 26 o DGE 2006 a pharagraffau 104, 114 a 133 o Atodlen 1 iddi. Mewnosodwyd adran 85A gan baragraffau 1 a 26 o Atodlen 3 i DALIF 1999. Diwygiwyd adran 86 gan baragraff 30 o Atodlen 4 i DCB 1985; gan baragraffau 1 a 18 o Atodlen 18 i Ddeddf 2000, gan baragraffau 48 a 49 o Atodlen 21 i Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 (p. 29), a chan baragraff 52 o Atodlen 9 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013. Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 31 o Atodlen 4 i DCB 1985, a chan O.S. 2015/664. Mewnosodwyd adran 87A gan baragraffau 1 a 9 o Atodlen 18 i Ddeddf 2000. Diwygiwyd adran 88 gan baragraff 32 o Atodlen 4 i DCB 1985, a chan baragraffau 1 a 27 o Atodlen 3 i DALIF 1999. Diwygiwyd adran 89 gan baragraff 33 o Atodlen 4 i DCB 1985; gan baragraffau 1 a 10 o Atodlen 18 i Ddeddf 2000; a chan baragraffau 104 a 115 o Atodlen 1 i DGE 2006. Diwygiwyd adran 90 gan baragraffau 1 ac 11 o Atodlen 18 i Ddeddf 2000, a chan baragraffau 104 a 116 o Atodlen 1 i DGE 2006. Mewnosodwyd adran 90ZA gan adran 27(1) a (2) o DGE 2006, ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 7 o Atodlen 6 i DPGE 2009. Mewnosodwyd adrannau 90A i 90D gan adran 134 o Ddeddf 2000. Diddymwyd adrannau 90A a 90B gan adran 27(1), (3) a (4) o DGE 2006. Diwygiwyd adrannau 90C a 90D gan baragraffau 104, 117, 118 a 133 o DGE 2006.

(1) Mewnosodwyd Atodlen 2A gan Atodlen 16 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p. 41).

(2) Diwygiwyd adran 56(2) gan adran 9 o DPGE 2009.

(3) Diwygiwyd paragraff 8 gan baragraff 2 o Atodlen 4 a pharagraff 28 o Atodlen 6 i DPGE 2009.

ar roddion: rhoddwyr a ganiateir a rhoddwyr nas caniateir⁽¹⁾, mae paragraff 10(2) neu 11(1)(b) (yn ôl y digwydd) o'r Atodlen honno⁽²⁾ i'w ddarllen fel pe bai'n ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiad gael ei ddanfôn i'r Comisiwn Etholiadol erbyn 31 Ionawr 2021 (yn hytrach nag o fewn y cyfnod a bennir yn y ddarpariaeth).

(7) Nid yw person yn atebol am unrhyw fethiant i gydymffurfio â gofyniad y cyfeirir ato ym mharagraffau (5) a (6) rhwng yr adeg ar gyfer cydymffurfio a nodir mewn perthynas â'r gofyniad (cyn i'r addasiadau a wneir gan baragraffau (5) a (6) gael effaith) a'r adeg y mae'r rheoliad hwn yn dod i rym.

(8) Nid oes unrhyw beth yn y rheoliad hwn yn effeithio ar ba un a yw P yn ymgeisydd mewn cysylltiad â phleidlais ohiriedig nac ar unrhyw ofynion a fyddai'n gymwys mewn perthynas â P fel ymgeisydd mewn cysylltiad â phleidlais ohiriedig.

Diwygio Rheoliadau 2001

8.—(1) Mae Rheoliadau 2001 wedi eu diwygio yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 56 (y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau)⁽³⁾—

(a) ym mharagraff (3) yn lle'r geiriau “Subject to paragraph (3A),” rhodder “Subject to paragraphs (3A) and (3B),”;

(b) Ar ôl paragraff (3A) mewnosoder—

“(3B) Where an application is made under paragraph 4(2) of Schedule 4 in relation to a relevant Welsh by-election—

(a) on the ground that the applicant cannot reasonably be expected to vote in person at a polling station as a result of complying with relevant legislation, Welsh Government advice or the advice of a registered medical practitioner in relation to coronavirus; or

(b) on the ground that any person appointed as a proxy to vote for an applicant under paragraph 6 of Schedule 4 is unable to attend a polling station and vote for that applicant as a result of complying with relevant

⁽¹⁾ Diwygiwyd paragraff 10(1) gan baragraffau 138 a 154 o Atodlen 1 i DGE 2006, a chan baragraff 2 o Atodlen 3 i DPGE 2009. Diwygiwyd paragraff 11(1) gan baragraff 3 o Atodlen 3 i DPGE 2009.

⁽²⁾ Diwygiwyd paragraff 10(2) gan adran 20 o DPGE 2009.

⁽³⁾ Diwygiwyd rheoliad 56 gan O.S. 2001/1700, O.S. 2006/752, O.S. 2006/2910 ac O.S. 2013/3198.

legislation, Welsh Government advice or the advice of a registered medical practitioner in relation to coronavirus,

the application, or an application under paragraph 6(8) of that Schedule made by virtue of that application, shall be refused if it is received after 5pm on the day of the poll at the election for which it is made.

(3C) In paragraph (3B) the term relevant Welsh by-election means—

- (a) an election of a councillor to fill a casual vacancy in the office of councillor for any county council or county borough council in Wales; or
- (b) the election of a councillor to fill a casual vacancy in the office of community councillor in any community council in Wales,

where the poll for such an election was postponed as a result of the Local Government (Coronavirus) (Postponement of Elections) (Wales) Regulations 2020”.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r diwygiadau a wneir i Reoliadau 2001 gan y rheoliad hwn o leiaf unwaith bob blwyddyn, gyda'r adolygiad cyntaf yn cael ei gynnal erbyn 1 Hydref 2021.

(4) Bydd y rheoliad hwn yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 2 flynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r rheoliad hwn yn dod i rym.

Hysbysiadau sy'n ofynnol er mwyn cyfethol cynghorwyr cymuned ar gyfer swyddi sy'n digwydd dod yn wag

9.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â hysbysiad cyhoeddus sy'n ofynnol yn rhinwedd adran 116(2) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011(1) (“Mesur 2011”) mewn cysylltiad â swydd neu swyddi sy'n digwydd dod yn wag rhwng 16 Mawrth 2020 ac 31 Ionawr 2021.

(2) Nid yw adran 232 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(2) yn gymwys.

(3) Rhaid i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi ar ffurf electronig.

(4) Mae'r cyfeiriad at swyddogaethau yn adran 117(1) o Fesur 2011 yn cynnwys cyfeiriad at swyddogaethau o dan y rheoliad hwn mewn perthynas

(1) 2011 mccc 4.

(2) 1972 p.70. Gwnaed ddiwygiadau perthnasol gan adran 56 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (2013 dccc 4).

â hysbysiad y mae'n ofynnol ei roi o dan adran 116(2)
o'r Mesur.

Julie James

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o
Weinidogion Cymru
1 Rhagfyr 2020

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2020. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Julie James AS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
3 Rhagfyr 2020

RHAN 1

1. Disgrifiad

- 1.1. O dan Reoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020, mae'n ofynnol cynnal is-etholiadau ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol neu chynghorau tref a chymuned a ohiriwyd, y bwriadwyd eu cynnal rhwng y cyfnod sy'n dechrau ar 16 Mawrth 2020 ac sy'n dod i ben ar 31 Ionawr 2021, rhwng 1 Chwefror 2021 ac 16 Ebrill 2021.
- 1.2. Mae'r Rheoliadau Rhif 2 hyn yn darparu ar gyfer materion ychwanegol i sicrhau bod yr is-etholiadau a ohiriwyd yn cael eu cynnal yn unol â chyfraith etholiadol ac arfer da, a bod Swyddogion Canlyniadau yn gallu cyflawni eu dyletswyddau. Maent yn gwneud darpariaeth ynghylch pleidleisiau drwy'r post a fwriwyd eisoes, pobl a oedd yn ymgeiswyr a'u treuliau a rhoddion, pleidleisio drwy ddirprwy i'r rheini sy'n dilyn cyngor y Llywodraeth, a chaniatáu i hysbysiadau cyhoeddus am swyddi gwag gael eu cyhoeddi'n electronig.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1. Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r Llywydd wedi cael ei hysbysu y daw'r Rheoliadau i rym lai na 21 diwrnod o'r dyddiad gosod.
- 2.2. Daw'r Rheoliadau i rym ar 4 Rhagfyr. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod gan Swyddogion Canlyniadau ddigon o amser i baratoi ar gyfer yr is-etholiadau cyntaf a ohiriwyd y bwriedir iddynt gael eu cynnal ddechrau mis Chwefror. Rhaid i Swyddog Canlyniadau gyhoeddi hysbysiad o etholiad heb fod yn hwyrach na 25 o ddiwrnodau gwaith cyn dyddiad yr etholiad. Mae llawer o Swyddogion Canlyniadau wedi mynegi y byddai'n well ganddynt gynnal eu his-etholiadau ddechrau mis Chwefror 2021 er mwyn osgoi gorgyffwrdd â'r cyfnod rheoleiddio ar gyfer etholiad y Senedd ym mis Mai 2021. Felly, pe bai is-etholiad yn cael ei gynnal ar y cyfle cyntaf posibl, ar 4 Chwefror 2021, byddai angen cyhoeddi'r hysbysiad o etholiad erbyn 31 Rhagfyr 2020 fan hwyraf. Pe ufuddheir i'r rheol 21 diwrnod ar gyfer y Rheoliadau hyn, ni fyddent mewn grym erbyn y byddai angen i'r Swyddog Canlyniadau osod yr hysbysiad o etholiad er mwyn cynnal yr is-etholiad. Gan ystyried yr amgylchiadau hyn, credir yn yr achos hwn, ei bod yn angenrheidiol lleihau'r cyfnod a bod modd cyfiawnhau gwneud hynny.
- 2.3. Mae'r Rheoliadau hyn yn cael effaith ôl-weithredol yn rhannol oherwydd eu bod yn newid statws ymgeiswyr a oedd yn bwriadu sefyll mewn is-etholiadau a ohiriwyd gan y rheoliadau blaenorol o ganlyniad i bandemig y coronafeirws. Maent yn darparu na ddylid ystyried mwyach fod ymgeiswyr wedi sefyll mewn is-etholiad o'r fath, ac na ddylent fod yn atebol am unrhyw weithred neu anweithred mewn perthynas â

rhoddion neu dreuliau a hawliwyd a ddeilliai o'u hymgeisyddiaeth. Mae adran 68 o Ddeddf y Coronafeirws 2020, sy'n darparu'r pŵer i wneud y Rheoliadau hyn, yn galluogi'n benodol i ddarpariaeth ôl-weithredol gael ei gwneud.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1. Mae'r pwerau i wneud y Rheoliadau hyn yn adran 68 o Ddeddf y Coronafeirws 2020. Mae'r Ddeddf yn galluogi Llywodraethau'r DU i ymateb i argyfwng a rheoli effeithiau pandemig COVID-19.
- 3.2. Mewn perthynas ag etholiadau, mae Adran 68 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud, drwy reoliadau, unrhyw ddarpariaethau canlyniadol, atodol, cysylltiedig, trosiannol neu arbed mewn cysylltiad ag adran 66 neu reoliadau a wneir o dan adran 67 o'r Ddeddf. Mae'r ddarpariaeth y gellir ei gwneud yn cynnwys darpariaeth ynghylch gweithgarwch etholiadol cyn gohirio pleidlais, cynnal etholiadau, y dull pleidleisio mewn etholiadau sydd wedi cael eu gohirio, cyfnodau swydd deiliaid swyddi presennol, enwebiadau ymgeiswyr, treuliau a ysgwyddwyd mewn perthynas â'r etholiad gan y rheini heblaw am awdurdodau lleol, ac iawndal i awdurdodau lleol neu ymgeiswyr o ganlyniad i'r darpariaethau yn y Ddeddf.

4. Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1. Mae Deddf y Coronafeirws 2020 yn galluogi Llywodraethau'r DU i ymateb i argyfwng a rheoli effeithiau pandemig COVID-19.
- 4.2. Mae'r Ddeddf yn cynnwys mesurau dros dro a gynlluniwyd naill ai i ddiwygio'r darpariaethau deddfwriaethol presennol neu gyflwyno pwerau statudol newydd a gynlluniwyd i liniaru'r effeithiau hyn. Ceir cyfyngiad amser o ddwy flynedd ar gyfer y darpariaethau. Mae'r Ddeddf yn cynnwys nifer o ddarpariaethau ynghylch etholiadau a phwerau gwneud rheoliadau ar gyfer Gweinidogion Cymru.
- 4.3. Crëwyd ansicrwydd a bylchau mewn cyfraith etholiadol yn sgil gohirio etholiadau o ganlyniad i COVID-19. Nid yw cyfraith etholiadol yn darparu ar gyfer senarios lle mae etholiadau yn cael eu gohirio yn yr un ffordd ag y gwnaed eleni. Felly, rhaid i Lywodraeth Cymru ddiwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer pleidlais y gallai fod wedi cael ei gohirio i fynd i'r afael â'r canlyniadau gweinyddol. Mae'r Offeryn Statudol hwn yn gwneud darpariaeth mewn pedwar maes:

Pleidleisiau drwy'r post a fwriwyd eisoes

- 4.4. Mae'r offeryn hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch pleidleisiau drwy'r post a anfonir at etholwyr ar gyfer is-etholiadau cyngor sir neu fwrdeistref sirol a chynghorau cymuned penodol a ohiriwyd gan

reoliadau a wnaed o dan Ddeddf y Coronafeirws 2020. Y rhain yw'r unig bleidleisiau lle y gellid bod wedi anfon papurau pleidleisio drwy'r post oherwydd amseriad y gohiriad. Bydd y papurau pleidleisio drwy'r post hyn wedi cael eu hanfon ac efallai fod rhai ohonynt wedi cael eu cwblhau a'u dychwelyd.

- 4.5. Mae'r offeryn yn darparu nad yw papur pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd gan bleidleisiwr drwy'r post yn cael unrhyw effaith at ddibenion y bleidlais a ohiriwyd ar gyfer yr is-etholiad lleol pan fydd yn digwydd yn y pen draw. Mae hyn yn golygu y bydd angen i'r pleidleisiwr fwrw pleidlais newydd yn y bleidlais a ohiriwyd. Wedi hynny, mae'r offeryn yn gwneud darpariaeth ynghylch yr hyn y mae'n rhaid i Swyddog Canlyniadau ei wneud â phleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd a dogfennau eraill a allai fod wedi cael eu creu cyn i'r bleidlais gael ei gohirio.
- 4.6. Mae'r offeryn yn gwneud darpariaeth sy'n dilyn yn agos y rheolau presennol ar gyfer pryd na chynhelir pleidlais oherwydd marwolaeth ymgeisydd. Nid yw'n ofynnol i'r Swyddog Canlyniadau agor na phrosesu fel arall unrhyw bleidlais drwy'r post a ddychwelwyd nad ymdriniwyd â hi eisoes yn unol â'r rheolau statudol perthnasol. Yn hytrach, mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Canlyniadau selio unrhyw bleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd a dogfennau eraill, megis y copïau wedi eu marcio o'r rhestr o bleidleiswyr drwy'r post a'r rhestr o bleidleiswyr drwy'r post fel dirprwyon, a'u hanfon ymlaen, i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, a fydd yn cadw'r dogfennau am flwyddyn cyn eu dinistrio. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth sy'n caniatáu i lys (trwy orchymyn) ganiatáu i ddogfennau o'r fath gael eu gweld mewn perthynas ag erlyniad.

Pobl a oedd yn ymgeiswyr a'u treuliau a rhoddion

- 4.7. Gohiriwyd rhai o'r is-etholiadau y bwriadwyd iddynt ddigwydd ar ôl y pwynt lle y datganwyd bwriad unigolion i sefyll fel ymgeiswyr ac y daethant yn ymgeiswyr o dan y gyfraith etholiadol. O ganlyniad i amgylchiadau anarferol y bleidlais ohiriedig, nid yw'n glir sut y dylid cymhwyso nifer o reolau sy'n ymwneud ag ymgeisyddiaeth yr unigolion hyn. Mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau bod y rheolau yn glir ac yn briodol ar gyfer yr amgylchiadau hynny.
- 4.8. Mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau nad yw ymgeiswyr yn parhau fel ymgeiswyr mewn perthynas ag is-etholiad a ohiriwyd; er nad yw, wrth reswm, yn eu hatal rhag sefyll eto ar gyfer yr etholiad a aildrefnwyd yn y ffordd arferol os byddant yn dymuno gwneud hynny. Mae'r rheoliadau yn sicrhau nad ydynt mwyach yn ymgeiswyr a'u bod yn cael eu trin fel pe na baent erioed wedi bod yn ymgeiswyr ar gyfer y bleidlais ohiriedig. Fel arall, byddent yn ddarostyngedig i'r rheolaethau mewn perthynas â gwariant a rhoddion am gyfnod llawer hwy nag arfer.
- 4.9. Mae'r Rheoliadau hefyd yn ymdrin â'r rheolau ar roddion i ymgeiswyr. Fel arfer byddai'n rhaid ymdrin â'r rhain yn natganiadau'r ymgeiswyr, ond mae'r ddarpariaeth a drafodir uchod yn dileu'r gofyniad am

ddatganiadau (gan nad yw unigolion yn cael eu trin fel ymgeiswyr mwyach mewn perthynas ag is-etholiadau a ohiriwyd). O ganlyniad, bydd unrhyw roddion a dderbynnir yn cael eu cwmpasu yn hytrach gan y rheolau ar gyfer rhoddion i 'roddeion rheoleiddiedig' o dan Atodlen 7 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, sy'n golygu y gallai fod angen adrodd amdanynt i'r Comisiwn Etholiadol. Bydd hyn yn wir pan fo derbynnydd y rhodd eisoes yn ddeiliad swydd etholedig.

- 4.10. Pan adroddir am y rhoddion hynny i'r Comisiwn Etholiadol, bydd y derbynwyr yn debygol o fod wedi methu'r terfynau amser o dan y gyfundrefn rhoddai rheoleiddiedig. Mae hyn o ganlyniad i'r oedi a achoswyd gan yr is-etholiadau a ohiriwyd. Mae'r offeryn hwn yn ymestyn y terfynau amser ar gyfer adrodd am y rhoddion hyn hyd at 31 Ionawr 2021 er mwyn sicrhau na fydd unrhyw un yn cyflawni trosedd o ganlyniad i ohirio'r etholiadau.

Pleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer y rheini sydd yn eu gwarchod eu hunain

- 4.11. Mae paragraff 4 o Atodlen 4 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 yn gwneud darpariaeth ar gyfer pleidleisio absennol mewn etholiad penodol. Mae paragraff 4(2)(a) yn darparu'n benodol y bydd y Swyddog Canlyniadau yn caniatáu cais i bleidleisio drwy ddirprwy os ydyw yn fodlon y bydd amgylchiadau'r ymgeisydd ar ddyddiad y bleidlais yn golygu na ellir disgwyl yn rhesymol i'r ymgeisydd bleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio berthnasol, neu fod yr amgylchiadau yn debygol o fod felly. Byddai amgylchiadau unigolion sy'n hunanynysu yn dod o dan y categori hwn.
- 4.12. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 56 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001, gyda'r effaith bod y categorïau o bobl a all wneud cais am bleidleisiau drwy ddirprwyon brys yn cael eu hymestyn i gynnwys unigolion na allant bleidleisio'n bersonol am eu bod yn dilyn deddfwriaeth berthnasol, canllawiau Llywodraeth Cymru neu gyngor meddygol mewn perthynas â'r coronafeirws a hunanynysu.
- 4.13. Newidiadau dros dro ydynt a dim ond i etholiadau a ohiriwyd gan y Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020 blaenorol y byddant yn gymwys.
- 4.14. Rhaid i gais am ddirprwy brys ar sail feddygol gael ei ategu gan ardystiad gan weithiwr proffesiynol perthnasol. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gosod gofyniad ardystio ar unigolion na allant bleidleisio'n bersonol am eu bod yn dilyn cyngor gan Lywodraeth Cymru neu gyngor meddygol i hunanynysu. Mae hyn yn adlewyrchu'r anhawster y gallai rhywun sy'n hunanynysu neu sy'n ei warchod ei hun ei gael i gael ardystiad gan berson annibynnol addas.

Caniatáu i hysbysiadau cyhoeddus ar gyfer swyddi gwag gael eu cyhoeddi'n electronig

- 4.15. Mae adran 116 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi, os bydd aelodau cyngor cymuned yn ceisio llenwi swydd wag drwy gyfethol, fod yn rhaid iddynt roi hysbysiad cyhoeddus yn unol ag adran 232 (“Public notices”) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae hon yn nodi “Save as otherwise expressly provided, a public notice required to be given by a local authority shall be given— (a) by posting the notice in some conspicuous place or places within the area of the local authority; and (b) in such other manner, if any, as appears to the local authority to be desirable for giving publicity to the notice.”
- 4.16. Yng ngoleuni mesurau cadw pellter cymdeithasol, nid yw'n ymarferol i swyddogion cyngorau cymuned gyhoeddi hysbysiadau mewn mannau amlwg ac felly mae'r Rheoliadau hyn ddiwygio adrannau 116 a 117 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i ganiatáu i hysbysiadau cyhoeddus a roddir mewn perthynas â phenderfyniad i gyfethol aelod o gyngor tref neu gymuned oherwydd nad oes digon o enwebiadau neu i swydd sy'n dod yn wag gael ei chyhoeddi'n electronig ar wefan cyngor cymuned. Dim ond i swyddi gwag sy'n codi ar gynghorau cymuned yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y rheoliadau gohirio cychwynol (16 Mawrth 2020 – 31 Ionawr 2021) y bydd y rheoliad hwn yn berthnasol.

5. Ymgynghori

- 5.1. Oherwydd natur frys y Rheoliadau hyn, ni wnaeth Llywodraeth Cymru gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn i'r Rheoliadau ddod i rym. Gofynnwyd am farn rhanddeiliaid fel y Comisiwn Etholiadol, Bwrdd Cydlynw Etholiadol Cymru a Chymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Rhagymadrodd

Mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn a'r is-etholiadau a ohiriwyd, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ceisiadau am ad-dalu costau rhesymol a ysgwyddwyd gan Swyddog Canlyniadau ar wariant gwirioneddol cyn deddfu Deddf y Coronafeirws 2020 mewn perthynas ag is-etholiad a ohiriwyd.

Ni chyfeirir at dalu ad-daliadau o'r fath yn y Rheoliadau hyn gan y gellid eu gwneud o dan bwerau presennol Gweinidogion Cymru o dan adran 58A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, neu ar y cyd â phwerau eraill sy'n ymwneud ag etholiadau llywodraeth leol. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ysgrifennu at awdurdodau lleol gyda manylion y meini prawf cymwys ar gyfer ad-daliadau, gan wahodd ceisiadau priodol.

Opsiwn 1 – Gwneud dim. Ni fyddai unrhyw gostau yn cael eu had-dalu i Swyddogion Canlyniadau.

Opsiwn 2 – Ad-dalu Swyddogion Canlyniadau am gostau gwirioneddol a ysgwyddwyd mewn etholiadau a ohiriwyd. Dyma'r opsiwn a ffefrir.

Dadansoddiad cost a budd

Opsiwn 1 – Gwneud dim

Mae'n ofynnol i gynghorau sir a bwrdeistref sirol benodi Swyddog Canlyniadau i gynnal etholiadau ar eu rhan. Mae'r Swyddog Canlyniadau wedyn yn bersonol gyfrifol am reoli etholiadau. Mae'n ofynnol i bob gynghorau sir a bwrdeistref sirol gynnig gwasanaeth ei staff i'r Swyddog Canlyniadau i helpu i gynnal yr etholiad. Cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau tref a chymuned sy'n llwyr gyfrifol am gost cynnal etholiadau lleol.

Mae adran 36(4) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Deddf 1983) yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor dalu'r holl wariant a ysgwyddir gan y swyddog canlyniadau wrth gynnal etholiad ar gyfer pob un o'i sedd neu unrhyw un o'r seddi. Caiff y Cyngor bennu graddfeydd gwariant na ddylai'r Swyddog Canlyniadau ragori arnynt.

Yn achos costau etholiadau cynghorau chymuned mae Deddf 1983 hefyd yn rhagnodi o dan Adran 36(5A) fod yr holl wariant a dynnir yn briodol gan swyddog canlyniadau mewn perthynas ag ethol cynghorydd cymuned i gael ei dalu gan y prif gyngor; ac os yw hynny yn ofynnol gan y prif gyngor, bydd unrhyw wariant a ysgwyddir felly yn cael ei ad-dalu iddynt gan y cyngor cymuned.

Mae costau cynnal etholiad yn deillio o orfod talu ystod o ffioedd, taliadau a threuliau a ysgwyddir wrth dalu staff, costau argraffu hysbysiadau ac (ar gyfer etholiadau a ymleddir), papurau pleidleisio, ffurflenni pleidleisio drwy'r post etc, llogi gorsafoddd pleidleisio a chynnal y cyfrifiadau.

Pan ddechreuodd pandemig y coronafeirws ym mis Mawrth 2020, roedd rhai awdurdodau lleol wedi cyhoeddi hysbysiadau o is-etholiadau ar gyfer llenwi swyddi gwag ar gynghorau sir a bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned.

Gohiriwyd yr is-etholiadau hyn gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020. Gohiriodd y Rheoliadau is-etholiadau y bwriadwyd eu cynnal yn ystod y cyfnod rhwng 16 Mawrth 2020 a 31 Ionawr 2021.

Byddai'r gwaith paratoi ar gyfer cynnal rhai is-etholiadau wedi dechrau cyn y gohiriad. Byddai hyn wedi arwain at ysgwyddo rhai costau megis argraffu hysbysiadau, argraffu cardiau pleidleisio a phapurau pleidleisio a llogi gorsafoddd pleidleisio.

Byddai gwneud dim yn golygu y byddai'r awdurdod lleol wedi ysgwyddo costau wrth baratoi ar gyfer pleidlais a ohiriwyd wedi hynny. Bydd yr un costau yn cael eu hysgwyddo eto pan gaiff yr etholiad ei aildrefnu.

Opsiwn 2 – Ad-dalu Swyddogion Canlyniadau am Wariant Gwirioneddol

Nodwyd bod o leiaf bum awdurdod lleol wedi gorfod dechrau paratoi ar gyfer is-etholiadau ym mis Mawrth a mis Ebrill 2020 a gafodd eu gohirio wedi hynny.

Mae prif gynghorau eisoes o dan bwysau ariannol oherwydd y coronafeirws. Mae swyddogion canlyniadau yn debygol o wynebu costau uwch ar gyfer cynnal y bleidlais ohiriedig oherwydd gofynion iechyd a diogelwch yng ngoleuni'r sefyllfa sy'n parhau i sicrhau diogelwch staff gorsafoedd pleidleisio a phleidleiswyr.

Byddai ad-dalu'r costau gwirioneddol a ysgwyddir ar gyfer pleidleisiau gohiriedig yn cefnogi cynghorau yn ystod y cyfnod ariannol anodd hyn.

Mae'r costau sy'n debygol o fod wedi'u hysgwyddo ac a gaiff eu had-dalu yn cynnwys argraffu a phostio cardiau pleidleisio, papurau pleidleisio a pheynnau pleidleiswyr drwy'r post. Ni fwriedir cynnwys costau staff gan ei bod yn ofynnol i gynghorau sir neu fwrdeistref sirol sicrhau bod staff ar gael i'r swyddog canlyniadau ar gyfer etholiadau. Hefyd, nid oes darpariaeth mewn deddfwriaeth presennol i dalu ffi bersonol i swyddogion canlyniadau am gynnal etholiadau lleol. Mae costau hysbysiadau yn debygol o fod yn amherthnasol gan y byddai'r rhan fwyaf wedi'u paratoi yn fewnol.

Yn seiliedig ar ddata gan y pum awdurdod lleol y nodwyd eu bod wedi gohirio etholiadau ym mis Mawrth a mis Ebrill, tua £16,302 yw cyfanswm y costau a ysgwyddwyd wrth baratoi ar gyfer y bleidlais.

Fodd bynnag, efallai y bydd cynghorau sir neu fwrdeistref sirol eraill, nad ydynt wedi'u nodi eto, sydd hefyd wedi gohirio is-etholiadau, felly mae'n debygol bod yr uchafswm i'w ad-dalu oddeutu £25,000

Bydd treuliau yn cael eu talu ar y costau gwirioneddol a ysgwyddwyd. Disgwylir i dderbynebau neu dystiolaeth o gostau a ysgwyddwyd gael eu darparu.

Asesu Cystadleuaeth

Asesu Cystadleuaeth Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau effeithio ar lefel y gystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd cwmnïau o Gymru.



Ein cyf/Our ref: MA/JJ/3927/20

Elin Jones MS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

03 Tachwedd 2020

Annwyl Llwywdd,

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n eich hysbysu y bydd *Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2020* yn dod i rym ymhen llai na 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Cyflwynwyd Deddf y Coronafeirws 2020 yn Senedd San Steffan ar 19 Mawrth ac roedd yn cynnwys sawl darpariaeth amrywiol ynghylch etholiadau. Gohiriodd Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020 a ddaeth i rym ar 5 Mai 2020 unrhyw is-etholiadau a oedd bod cael eu cynnal yn y dyfodol agos, gan bennu dyddiad newydd ar gyfer cynnal yr is-etholiadau hyn erbyn 16 Ebrill 2021 ac nid cyn 1 Chwefror 2021.

Nid yw cyfraith etholiadol yn darparu ar gyfer gohirio etholiadau yn y ffordd yr oeddent yn gynharach eleni ac mae angen darpariaeth ddeddfwriaethol i ddelio â materion atodol megis statws ymgeiswyr, sut i ymdrin â phleidleisiau post sydd eisoes wedi'u bwrw, sicrhau bod yr is-etholiadau gohiriedig yn cael eu cynnal yn unol â chyfraith etholiadol ac arfer da, a bod Swyddogion Canlyniadau yn gallu cyflawni eu dyletswyddau. Ysgrifennodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at y Comisiwn Etholiadol a Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru i ofyn am eu barn ar y dull sy'n cael ei ddefnyddio. Ystyriwyd eu barn wrth ddrafftio'r Rheoliadau.

Mae torri'r confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym ar 4 Rhagfyr 2020. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod gan Swyddogion Canlyniadau ddigon o amser i baratoi ar gyfer yr is-etholiadau cyntaf a ohirwyd y bwriedir iddynt gael eu cynnal ddechrau mis Chwefror. Rhaid i Swyddog Canlyniadau gyhoeddi hysbysiad o etholiad heb

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

fod yn hwyrach na 25 o ddiwrnodau gwaith cyn dyddiad yr etholiad. Felly, pe bai is-etholiad yn cael ei gynnal ar y cyfle cyntaf posibl, ar 4 Chwefror 2021, byddai angen cyhoeddi'r hysbysiad o etholiad erbyn 31 Rhagfyr 2020 fan hwyraf. Pe ufuddheir i'r rheol 21 diwrnod ar gyfer y Rheoliadau hyn, ni fyddent mewn grym erbyn y byddai angen i'r Swyddog Canlyniadau osod yr hysbysiad o etholiad er mwyn cynnal yr is-etholiad. Cyn trefnu'r is-etholiad gohiriedig, bydd y Swyddog Canlyniadau yn dymuno sicrhau yn gyntaf yr ymdrinnir ag unrhyw faterion sy'n weddill a gododd o'r gohiriad yn ogystal ag ymgeiswyr sy'n dymuno sefyll eto.

Oherwydd yr amgylchiadau, credir felly ei bod yn angenrheidiol lleihau'r cyfnod yn yr achos hwn a bod modd cyfiawnhau hynny. Mae Memorandwm Esboniadol wedi cael ei baratoi a'i osod, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,



Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

SL(5)670 – Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddwyd gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawriad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag iechyd planhigion. Mae Rhan 2 yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth ddomestig sy'n ymwneud ag iechyd planhigion. Mae Rhan 3 yn cynnwys dirymiad.

Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Ceir gofyniad o dan baragraff 4(a) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch rheoliadau sydd i ddod i rym cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu. Daw Rhan 1 a Rhan 3 o'r rheoliadau hyn i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Yn unol â'r gofyniad hwn, ymgynghorwyd â'r Ysgrifennydd Gwladol mewn llythyr ar wahân ar 20 Tachwedd 2020.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd



Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi ac yn diwygio rheolau cymhleth a manwl ar iechyd planhigion. Nid ydym wedi gallu deall y rhesymeg dros rai o'r newidiadau, yn enwedig newidiadau i ffioedd amrywiol o dan reoliadau 2(7) a 2(8). Byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru esbonio'n fras pam mae'r ffioedd penodol hyn yn cael eu hepgor o Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Rheolaethau Swydddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020 sy'n rhoi effaith i Reoliad (UE) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fesurau diogelu yn erbyn plâu planhigion ac agweddau ar iechyd planhigion yn Rheoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swydddogol. Maent hefyd yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018.

Bydd y Rheoliadau hyn a Rheoliadau'r UE yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (h.y. diwedd y cyfnod gweithredu, ar 31 Rhagfyr 2020).

Ymateb Llywodraeth Cymru

Craffu ar Rinweddau

Pwynt 2

Mae'r Pwyllgor yn ceisio esboniad am y rheswm dros hepgor rheoliad 6A (tatws sy'n tarddu o Libanus: ffi) a'r cofnodion sy'n ymwneud â Citrus, Mangifera a Passiflora yn y tabl yn Atodlen 2 (ffioedd arolygu mewnforio: cyfraddau gostyngol) i Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 ('y Rheoliadau Ffioedd') a wneir gan reoliadau 2(7) a 2(8) o Reoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020.

Mae rheoliad 6A o'r Rheoliadau Ffioedd yn adlewyrchu Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1614 sy'n awdurdodi Aelod-wladwriaethau i ddarparu ar gyfer rhanddirymu darpariaethau penodol yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC o ran tatws, ac eithrio tatws a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o ranbarthau Akkar a Bekaa yn Libanus. Gan fod tatws wedi eu diogelu i lefel uwch yn y DU ni ddefnyddiwyd y rhanddirymiad, ac felly, nid yw'n cael ei gadw.

Mae'r cofnodion sy'n ymwneud â Citrus, Mangifera a Passiflora yn y tabl yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau Ffioedd yn arwydd fod cynydau a dyfir yn yr UE ac sy'n berthnasol iddi wedi eu diogelu. Cânt eu hepgor am fod deddfwriaeth ddomestig yn cael ei diwygio i ganolbwyntio'n fwy ar y risgiau i gynydau a dyfir ym Mhrydain Fawr ac sy'n berthnasol iddi.

Mae Llywodraeth y DU yn cynnig darpariaethau cyfatebol, a gellir dod o hyd iddynt yn rheoliad 4 o Reoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020 drafft (darperir dolen iddynt isod er hwylustod i'r Pwyllgor).

<https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348214949/regulation/4>



Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
9 Rhagfyr 2020



Rheoliadau a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2020 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

Rheoliadau Iechyd Planhigion
(Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael
â'r UE) 2020

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill (yn enwedig y diffygion y cyfeirir atynt ym mharagraffau (a), (d) ac (g) o adran 8(2)) sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth ym maes iechyd planhigion. Mae Rhan 2 yn diwygio deddfwriaeth ddomestig sy'n ymwneud ag iechyd planhigion. Mae Rhan 3 yn cynnwys dirymiad.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2020 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

Rheoliadau Iechyd Planhigion
(Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael
â'r UE) 2020

Gwnaed

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1).

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad yn unol â pharagraff 1(8) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno(2).

Yn unol â pharagraff 4(a) o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch y darpariaethau

-
- (1) 2018 p. 16; gweler adran 20(1) o'r Ddeddf honno am y diffiniad o "devolved authority". Diwygiwyd paragraff 21 o Atodlen 7 gan adran 41(4) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1), a pharagraff 53(2) o Atodlen 5 iddi.
- (2) Mae'r cyfeiriad yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

yn y Rheoliadau hyn sy'n dod i rym cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

RHAN 1

Cyflwyniad

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Deuant i rym fel a ganlyn—

- (a) daw'r Rhan hon a Rhan 3 i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu;
- (b) daw Rhan 2 i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

RHAN 2

Diwygio is-ddeddfwriaeth

Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018

2.—(1) Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

- (a) ym mharagraff (1), yn lle “Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE” rhodder “y Rheoliad Iechyd Planhigion”;
- (b) ym mharagraff (2), yn lle “Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE” rhodder “y Rheoliad Iechyd Planhigion”, a hepgorer “UE” yn yr ail le y mae'n digwydd.

(3) Yn rheoliad 3—

- (a) ym mharagraff (1), yn lle'r geiriau o “rhestrau” hyd at “yr UE”, rhodder “Rhan A o Atodiad 11, neu Atodiad 12, i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2072 sy'n sefydlu amodau unffurf ar gyfer gweithredu Rheoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor, o ran mesurau gwarchod rhag plâu planhigion”;
- (b) ym mharagraff (3)—

(1) O.S. 2018/1179 (Cy. 238), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/1378 (Cy. 244), O.S. 2020/44 (Cy. 5) ac O.S. 2020/69 (Cy. 10); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(i) yn is-baragraff (a), yn lle'r diffiniad o “pla planhigion a reolir” rhodder—

“ystyr “pla planhigion a reolir” yw pla cwarantín Prydain Fawr, pla cwarantín Prydain Fawr dros dro, pla cwarantín PFA, neu bla Prydain Fawr a reoleiddir nad yw'n destun cwarantín;”;

(ii) hepgorer is-baragraff (aba).

(4) Yn rheoliad 4(6)(a), ar ôl “pasbortau planhigion” mewnosoder “y DU”.

(5) Yn rheoliad 5A(5), yn y diffiniad o “gwasanaeth cyn-allforio”—

(a) hepgorer “i drydedd wlad”;

(b) yn lle “gofynion ffytoiechydol y drydedd wlad” rhodder “gofynion mewnfario ffytoiechydol perthnasol o fewn ystyr Erthygl 99a o'r Rheoliad Iechyd Planhigion”.

(6) Yn rheoliad 6—

(a) ym mharagraff (1), hepgorer y geiriau o “, at” hyd at “Penderfyniad,”;

(b) hepgorer paragraff (2).

(7) Hpgorer rheoliad 6A.

(8) Yn Atodlen 2, yn y tabl, hepgorer y cofnodion yn y golofn gyntaf, yr ail golofn a'r drydedd golofn sy'n ymwneud â *Citrus*, *Mangifera* a *Passiflora*.

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020

3. Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 4 i 22.

Rhan 1

4.—(1) Mae Rhan 1 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) Ym mharagraff (1)—

(i) yn y diffiniad o “llwyth a reolir”—

(aa) yn lle “diriogaeth yr Undeb”, ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder “Brydain Fawr”;

(bb) ym mharagraff (a)(i), yn lle “o Reoliad Iechyd Planhigion yr UE” rhodder “o'r Rheoliad Iechyd Planhigion”;

(1) O.S. 2020/206 (Cy. 48), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1134 (Cy. 259), mae offeryn diwygio arall ond nid yw'n berthnasol.

- (cc) hepgorer paragraff (a)(ii);
 - (dd) ym mharagraff (a)(iii), yn lle “o reolau iechyd planhigion yr UE” rhodder “o’r rheolau iechyd planhigion”, ac yn lle “o Reoliad Iechyd Planhigion yr UE” rhodder “o’r Rheoliad Iechyd Planhigion”;
- (ii) yn y diffiniad o “pla planhigion a reolir”—
- (aa) ym mharagraff (a), ar ôl “2,” mewnosoder “2A,”;
 - (bb) hepgorer paragraff (b);
 - (cc) ym mharagraff (c), yn lle “o reolau iechyd planhigion yr UE” rhodder “o’r rheolau iechyd planhigion”;
- (iii) hepgorer y diffiniad o “penderfyniad brys gan yr UE”;
- (iv) yn y diffiniad o “Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE”, ar y diwedd mewnosoder “fel y mae’n cael effaith yng nghyfraith yr UE”;
- (v) hepgorer y diffiniad o “un o reolau iechyd planhigion yr UE”;
- (vi) yn y diffiniad o “Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”, yn lle “i reolau iechyd planhigion yr UE” rhodder “i’r rheolau iechyd planhigion”;
- (vii) yn y lle priodol mewnosoder—
- “ystyr “rheol iechyd planhigion” (“*plant health rule*”) yw rheol o’r fath a grybwyllir yn Erthygl 1(2)(g) o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol;”;
- “ystyr “Rheoliad Iechyd Planhigion” (“*Plant Health Regulation*”) yw Rheoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar fesurau gwarchod rhag plâu planhigion(1);”;
- (viii) yn y diffiniad o “pla planhigion”, yn lle “o Reoliad Iechyd Planhigion yr UE” rhodder “o’r Rheoliad Iechyd Planhigion”;
- (ix) yn y diffiniad o “eitem a reoleiddir”, yn lle “o reolau iechyd planhigion yr UE” rhodder “o’r rheolau iechyd planhigion”;
- (b) ym mharagraff (2), yn lle “Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “y Rheoliad Iechyd Planhigion”.

(3) Hpgorer rheoliadau 3 a 4.

(1) EUR 2016/2031.

(4) Yn rheoliad 5—

- (a) yn y pennawd, yn lle “**o Reoliad Iechyd Planhigion yr UE**” rhodder “**o’r Rheoliad Iechyd Planhigion**”;
- (b) ym mharagraffau (1) a (2), yn lle “o Reoliad Iechyd Planhigion yr UE”, ym mhob lle y mae’n digwydd, rhodder “o’r Rheoliad Iechyd Planhigion”.

Rhan 2

5.—(1) Mae Rhan 2 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 6(2), yn y diffiniad o “gweithredwr proffesiynol coedwigaeth”—

- (a) yn y geiriau o flaen paragraff (a), yn lle “o Reoliad Iechyd Planhigion yr UE” rhodder “o’r Rheoliad Iechyd Planhigion”;
- (b) ym mharagraff (b), yn lle “diriogaeth yr Undeb”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “Brydain Fawr neu un o Dirioogaethau Dibynnol y Goron”;
- (c) ar ôl paragraff (c) mewnosoder—
“*(ca) cyflwyno deunydd coedwigaeth i Ogledd Iwerddon o Gymru;*”.

Rhan 3

6.—(1) Mae Rhan 3 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 7—

- (a) ym mharagraff (1), ar ôl “drwy’r awyr” mewnosoder “neu i borthladd RoRo yng Nghymru”;
- (b) ym mharagraff (4)—
 - (i) yn y diffiniad o “gweithredwr cyfrifol”, yn lle “yr Undeb” rhodder “Prydain Fawr”;
 - (ii) yn y lle priodol mewnosoder—
“ystyr “porthladd RoRo” (“*RoRo port*”) yw lleoliad RoRo a restrir o fewn ystyr “RoRo listed location” yn rheoliad 130 o Reoliadau Tollau (Tollau Mewnforio) (Ymadael â’r UE) 2018(1);”.

(3) Yn rheoliad 8—

- (a) ym mharagraff (1), yn lle “o reolau iechyd planhigion yr UE” rhodder “o’r rheolau iechyd planhigion”;
- (b) ym mharagraff (2)(b), yn lle “diriogaeth yr Undeb” rhodder “Brydain Fawr”.

(1) O.S. 2018/1248, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(4) Yn rheoliad 10(1)—

- (a) yn is-baragraffau (a) a (b), yn lle “o reolau iechyd planhigion yr UE”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “o’r rheolau iechyd planhigion”;
- (b) yn is-baragraff (c), yn lle “diriogaeth yr Undeb” rhodder “Brydain Fawr”.

(5) Yn rheoliad 11(1)(c), yn lle “diriogaeth yr Undeb” rhodder “Brydain Fawr”.

Rhan 4

7.—(1) Mae Rhan 4 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 14(2), yn y diffiniad o “deunydd gwaharddedig”—

- (a) ym mharagraff (b)—
 - (i) yn lle “diriogaeth yr Undeb neu i Gymru” rhodder “Brydain Fawr”;
 - (ii) yn lle “o reolau iechyd planhigion yr UE” rhodder “o’r rheolau iechyd planhigion”;
- (b) ym mharagraff (c)—
 - (i) hepgorer “o fewn tiriogaeth yr Undeb, neu”;
 - (ii) yn lle “o reolau iechyd planhigion yr UE” rhodder “o’r rheolau iechyd planhigion”.

(3) Yn rheoliad 16(4), hepgorer “(gan gynnwys cynrychiolwyr y Comisiwn Ewropeaidd)”.

Rhan 5

8. Hefgorer rheoliad 18.

Rhan 6

9.—(1) Mae Rhan 6 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 19, yn lle “o Reoliad Iechyd Planhigion yr UE” rhodder “o’r Rheoliad Iechyd Planhigion”.

(3) Yn rheoliad 20—

- (a) ym mharagraff (1)—
 - (i) yn is-baragraff (b), yn lle “Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE” rhodder “y Rheoliad Iechyd Planhigion”;
 - (ii) yn is-baragraff (c)—
 - (aa) yn lle’r coma rhodder “neu”;
 - (bb) hepgorer “neu dystysgrif cyn-allforio”;
- (b) ym mharagraff (2), yn y diffiniad o “gweithgaredd perthnasol”—

- (i) yn lle “Reoliad Iechyd Planhigion yr UE” rhodder “y Rheoliad Iechyd Planhigion”;
 - (ii) hepgorer “, penderfyniad brys gan yr UE”;
 - (iii) yn lle “un arall o reolau iechyd planhigion yr UE” rhodder “reol iechyd planhigion arall”.
- (4) Yn rheoliad 21—
- (a) ym mharagraff (1)(c)—
 - (i) ar ôl “o dan” mewnosoder “, neu yn rhinwedd,”;
 - (ii) yn lle “Reoliad Iechyd Planhigion yr UE” rhodder “y Rheoliad Iechyd Planhigion”;
 - (iii) ar ôl “Swyddogol” mewnosoder “, unrhyw reoliadau a wneir o dan y Rheoliad Iechyd Planhigion neu’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol,”;
 - (b) ym mharagraff (3)—
 - (i) yn y diffiniad o “rhanddirymiad iechyd planhigion”—
 - (aa) ym mharagraff (a), yn lle “Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE” rhodder “y Rheoliad Iechyd Planhigion”, ac yn lle “Reoliad Iechyd Planhigion yr UE” rhodder “y Rheoliad Iechyd Planhigion”;
 - (bb) ym mharagraff (a), yn lle “mewn act weithredu neu act ddirprwyedig a fabwysiadwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd” rhodder “yng nghyfraith yr UE a ddargedwir neu reoliadau a wneir”;
 - (cc) hepgorer paragraff (b), a’r “neu” o’i flaen;
 - (ii) yn y diffiniad o “pla planhigion cwarantin posibl”, yn lle’r geiriau o “yr Undeb” hyd at “yr UE”, rhodder “Prydain Fawr neu’n bla cwarantin Prydain Fawr dros dro”.
- (5) Yn rheoliad 22(1)—
- (a) yn lle “Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE” rhodder “y Rheoliad Iechyd Planhigion”;
 - (b) yn lle’r coma rhodder “neu”;
 - (c) yn lle “neu’r Rheoliadau hyn” rhodder “neu at ddibenion y Rheoliadau hyn, neu oddi tanynt,”.

Rhan 8

10.—(1) Mae Rhan 8 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Hefgorer rheoliadau 24 a 25.

(3) Yn rheoliad 26—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) hepgorer “unrhyw un neu ragor o’r planhigion neu’r cynhyrchion planhigion a ganlyn”;

(ii) ar ôl “sy’n dod ag” mewnosoder “unrhyw bren tanwydd solet o drydedd wlad nad yw Erthygl 47(1) o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol yn gymwys iddo”;

(iii) hepgorer is-baragraffau (a) i (c);

(b) ym mharagraff (2)—

(i) yn is-baragraff (c), hepgorer “planhigion neu’r”;

(ii) yn is-baragraff (d)—

(aa) hepgorer “planhigion neu’r”;

(bb) yn y testun Saesneg, yn lle “have been, or are” rhodder “has been, or is”;

(iii) hepgorer is-baragraff (e);

(iv) yn lle is-baragraff (f) rhodder—

“(f) cyfeiriad y traddodwr, ac

(g) manylion unrhyw driniaethau ffytoiechydol a roddwyd i’r pren.”

Rhan 9

11.—(1) Mae Rhan 9 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 27(1) a (2), yn lle “o Reoliad Iechyd Planhigion yr UE”, ym mhob lle y mae’n digwydd, rhodder “o’r Rheoliad Iechyd Planhigion”.

(3) Yn rheoliad 28—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn is-baragraff (a)—

(aa) ym mharagraff (ii), yn lle “â Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE” rhodder “â’r Rheoliad Iechyd Planhigion”;

(bb) ym mharagraff (iv), yn lle’r geiriau o “o reolau iechyd” hyd at y diwedd rhodder “o’r rheolau iechyd planhigion yn cydymffurfio â’r rheol honno”;

(ii) yn is-baragraffau (b), (c) ac (e), yn lle “Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE”, ym mhob lle y mae’n digwydd, rhodder “y Rheoliad Iechyd Planhigion”;

(b) ym mharagraff (6), yn lle is-baragraff (a) rhodder—

“(a) dod ag unrhyw bersonau y mae’r arolygydd yn ystyried eu bod yn angenrheidiol; a”;

(c) hepgorer paragraff (7);

(d) ym mharagraff (8), yn y geiriau cyn is-baragraff (a), hepgorer “(ii)”.

(4) Yn rheoliad 31(4)—

(a) hepgorer “eraill”;

(b) hepgorer “(gan gynnwys cynrychiolwyr y Comisiwn Ewropeaidd)”.

(5) Yn rheoliad 34(1), yn lle “Reoliad Iechyd Planhigion yr UE” rhodder “y Rheoliad Iechyd Planhigion”.

(6) Yn rheoliad 35(1)—

(a) yn lle “mewn rhan arall o diriogaeth yr Undeb” rhodder “yn y Deyrnas Unedig neu i awdurdod Tiriogaeth Ddibynnol y Goron”;

(b) yn lle “Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE” rhodder “y Rheoliad Iechyd Planhigion”.

Rhan 11

12.—(1) Mae Rhan 11 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 38(1)—

(a) yn is-baragraff (a), hepgorer “24(1), 25(1) neu”;

(b) hepgorer is-baragraff (b);

(c) yn is-baragraff (d), yn lle “Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE” rhodder “y Rheoliad Iechyd Planhigion”;

(d) yn is-baragraff (e), yn lle “o reolau iechyd planhigion yr UE” rhodder “o’r rheolau iechyd planhigion”;

(e) yn is-baragraff (f), ar ôl “ddeddfwriaeth” mewnosoder “uniongyrchol” ac ar ôl “yr UE” mewnosoder “a ddargedwir”;

(f) hepgorer is-baragraff (g).

(3) Yn rheoliad 41, ar ôl “pasbort planhigion” mewnosoder “y DU”;

(4) Yn rheoliad 42—

(a) yn y pennawd, ar ôl “**planhigion**” mewnosoder “**y DU**”;

(b) ym mharagraff (1), yn is-baragraffau (a) i (c), ar ôl “pasbort planhigion”, ym mhob lle y mae’n digwydd, mewnosoder “y DU”.

(5) Yn rheoliad 43—

(a) ym mharagraff (1)(a) ac (c), yn lle “Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “y Rheoliad Iechyd Planhigion”;

(b) yn lle paragraff (2) rhodder—

“(2) Ym mharagraff (1)—

(a) ystyr “person awdurdodedig” yw person a awdurdodwyd gan awdurdod priodol;

(b) mae cyfeiriad at y Rheoliad Iechyd Planhigion neu'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol yn cynnwys cyfraith yr UE a ddargedwir a fabwysiedir, neu reoliadau a wneir, o dan y Rheoliad Iechyd Planhigion neu'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol ac unrhyw gyfraith iechyd planhigion arall yr UE a ddargedwir.”

Atodlen 1

13. Hepgorer Atodlen 1.

Atodlen 2

14. Mae Atodlen 2 wedi ei diwygio yn unol â rheoliadau 15 i 20.

Rhan 1

15.—(1) Mae Rhan 1 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 1—

(a) hepgorer y diffiniadau o “Cyfarwyddeb 93/85/EEC”, “Cyfarwyddeb 98/57/EC” a “Cyfarwyddeb 2007/33/EC”;

(b) yn y lle priodol mewnosoder—

“ystyr “EPPO PM 7/21” (*EPPO PM 7/21*) yw'r safon sy'n disgrifio protocol diagnostig ar gyfer *Ralstonia solanacearum*, *R. pseudosolanacearum* ac *R. syzygii* a gymeradwyir gan Sefydliad Diogelu Planhigion Ewrop a Glannau'r Canolfor⁽¹⁾;

(1) Cymeradwywyd am y tro cyntaf gan Sefydliad Diogelu Planhigion Ewrop a Glannau'r Canolfor ym mis Medi 2003 ac mae ar gael oddi wrth ei Ysgrifenyddiaeth yn 21 Boulevard Richard Lenoir, 75011, Paris, Ffrainc ac ar https://www.eppo.int/RESOURCES/eppo_standards/pm7_diagnosics

ystyr “EPPO PM 7/40” (“*EPPO PM 7/40*”) yw’r safon sy’n disgrifio protocol diagnostig ar gyfer *Globodera rostochiensis* a *Globodera pallida* a gymeradwyir gan Sefydliad Diogelu Planhigion Ewrop a Glannau’r Canolfor(1);

ystyr “EPPO PM 7/59” (“*EPPO PM 7/59*”) yw’r safon sy’n disgrifio protocol diagnostig ar gyfer *Clavibacter michiganensis* subsp. *sepedonicus* a gymeradwyir gan Sefydliad Diogelu Planhigion Ewrop a Glannau’r Canolfor(2);

ystyr “EPPO PM 7/119” (“*EPPO PM 7/119*”) yw’r safon sy’n disgrifio’r gweithdrefnau ar gyfer echdynnu nematodau a gymeradwyir gan Sefydliad Diogelu Planhigion Ewrop a Glannau’r Canolfor(3);”.

Rhan 2

16.—(1) Mae Rhan 2 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 2—

- (a) yn is-baragraff (1)(a), yn lle “, heblaw’r Swistir” rhodder “y mae’r gwaharddiad yn Erthygl 40(1) o’r Rheoliad Iechyd Planhigion yn gymwys iddynt”;
- (b) yn is-baragraff (2)—
 - (i) ym mharagraff (a), yn lle “raglen a gymeradwywyd yn swyddogol yn yr Undeb Ewropeaidd neu’r Swistir” rhodder “raglen ar gyfer ardystio tatws a gymeradwywyd yn swyddogol gan awdurdod cymwys neu awdurdod Tiriogaeth Ddibynnol y Goron”;
 - (ii) ym mharagraff (b), yn lle “Atodiad 1 i Gyfarwyddeb 93/85/EEC” rhodder “EPPO PM 7/21”;

-
- (1) Cymeradwywyd am y tro cyntaf gan Sefydliad Diogelu Planhigion Ewrop a Glannau’r Canolfor ym mis Medi 2003 ac mae ar gael oddi wrth ei Ysgrifenyddiaeth yn 21 Boulevard Richard Lenoir, 75011, Paris, Ffrainc ac ar https://www.eppo.int/RESOURCES/eppo_standards/pm7_diagnosics.
 - (2) Cymeradwywyd gan Sefydliad Diogelu Planhigion Ewrop a Glannau’r Canolfor ym mis Medi 2005 ac mae ar gael oddi wrth ei Ysgrifenyddiaeth yn 21 Boulevard Richard Lenoir, 75011, Paris, Ffrainc ac ar https://www.eppo.int/RESOURCES/eppo_standards/pm7_diagnosics.
 - (3) Cymeradwywyd gan Sefydliad Diogelu Planhigion Ewrop a Glannau’r Canolfor ym mis Medi 2013 ac mae ar gael oddi wrth ei Ysgrifenyddiaeth yn 21 Boulevard Richard Lenoir, 75011, Paris, France and at https://www.eppo.int/RESOURCES/eppo_standards/pm7_diagnosics.

- (iii) ym mharagraff (c), yn lle “Atodiad 2 i Gyfarwyddeb 98/57/EC” rhodder “EPPO PM 7/59”.

Rhan 4

17.—(1) Mae Rhan 4 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 7—

(a) yn y diffiniad o “cae”, yn lle “Erthygl 3 o Gyfarwyddeb 2007/33/EC” rhodder “y Rhan hon”;

(b) yn y lle priodol mewnosoder—

“ystyr “mesurau penodedig” (*“specified measures”*) yw—

(a) at ddibenion paragraff 9(2), ail-samplu swyddogol y cae a chynnal profion swyddogol ar y samplau, a gynhelir o leiaf bob tair blynedd ar ôl gweithredu mesurau rheoli priodol a gymeradwywyd yn swyddogol yn y cae neu, yn unrhyw achos arall, o leiaf bum mlynedd ar ôl y flwyddyn y canfuwyd Llyngyr tatws neu y tyfwyd tatws ddiwethaf yn y cae ynddi;

(b) at ddibenion paragraffau 11(3) a 15—

(i) dadheigio’r bylbiau neu’r planhigion drwy ddulliau priodol sy’n sicrhau nad oes unrhyw risg adnabyddadwy o ledaenu Llyngyr tatws;

(ii) symud pridd oddi ar y bylbiau neu’r planhigion drwy eu golchi neu eu brwsio hyd nes eu bod yn rhydd rhag pridd i bob pwrpas, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw risg adnabyddadwy o ledaenu Llyngyr tatws;”.

(3) Ar ôl paragraff 7 mewnosoder—

“Profion swyddogol

7A. Rhaid cynnal unrhyw brofion swyddogol ar samplau at ddibenion y Rhan hon yn unol ag EPPO PM 7/40 ac EPPO PM 7/119.”

(4) Ym mharagraff 8—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle “ag Erthyglau 4 a 5 o Gyfarwyddeb 2007/33/EC” rhodder “â’r Rhan hon”;

(b) yn is-baragraff (b), yn lle “ag Erthygl 6 o Gyfarwyddeb 2007/33/EC” rhodder “â’r Rhan hon”.

(5) Mae paragraff 8 yn dod yn baragraff 8(1) ac ar ôl yr is-baragraff hwnnw mewnosoder—

“(2) Rhaid i ymchwiliad swyddogol i gae at ddibenion paragraff 8(1)(a) gael ei gynnal—

- (a) cyn y plannu neu storio arfaethedig, a
- (b) oni bai bod tystiolaeth ddogfennol o ymchwiliad swyddogol blaenorol sy'n cadarnhau na chanfuwyd unrhyw Lyngyr tatws yn ystod yr ymchwiliad ac nad oedd tatws na phlanhigion cynhaliol yn bresennol ar adeg yr ymchwiliad hwnnw ac nad ydynt wedi eu tyfu yn y cae ers yr ymchwiliad hwnnw, rhwng cynaeafu'r cnwd diwethaf yn y cae a'r gwaith arfaethedig o blannu tatws hadyd neu ddeunydd arall sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau.

(3) Yn achos cae lle y mae tatws hadyd neu blanhigion cynhaliol, y bwriedir eu defnyddio i gynhyrchu planhigion ar gyfer eu plannu, i'w plannu neu eu storio, rhaid i ymchwiliad swyddogol at ddibenion paragraff 8(1)(a) gynnwys samplu pridd y cae ar y gyfradd samplu pridd briodol a chynnal profion swyddogol ar y samplau.

(4) Yn achos cae lle y mae bylbiau sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau neu blanhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, y bwriedir eu defnyddio i gynhyrchu planhigion ar gyfer eu plannu, i'w plannu neu eu storio, rhaid i ymchwiliad swyddogol at ddibenion paragraff 8(1)(a) gynnwys—

- (a) samplu pridd y cae ar y gyfradd samplu pridd briodol a chynnal profion swyddogol ar y samplau, neu
- (b) gwirio, ar sail canlyniadau profion priodol a gymeradwywyd yn swyddogol, na fu Llyngyr tatws yn bresennol yn y cae yn ystod y 12 mlynedd flaenorol neu wirio, ar sail hanes cynyddio hysbys y cae, na thyfwyd unrhyw datws na phlanhigion cynhaliol yn y cae yn ystod y 12 mlynedd flaenorol.

(5) Rhaid i arolwg swyddogol at ddibenion paragraff 8(1)(b) gynnwys samplu pridd y cae ar y gyfradd samplu briodol ar o leiaf 0.5% o'r erwau a ddefnyddir i gynhyrchu tatws yn y flwyddyn berthnasol a chynnal profion swyddogol ar y samplau.

(6) Nid yw paragraff 8(1)(a) yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau nad oes unrhyw risg o ledaenu Llyngyr tatws ac—

- (a) bod unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau y bwriedir ei

ddefnyddio i gynhyrchu planhigion ar gyfer eu plannu i'w ddefnyddio o fewn yr un man cynhyrchu sydd wedi ei leoli o fewn ardal sydd wedi ei diffinio yn swyddogol,

- (b) bod tatws hadyd i'w defnyddio o fewn yr un man cynhyrchu sydd wedi ei leoli o fewn ardal sydd wedi ei diffinio yn swyddogol, neu
 - (c) yn achos unrhyw fylbiau sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau neu blanhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau y bwriedir eu defnyddio i gynhyrchu planhigion ar gyfer eu plannu, bod y planhigion a gynaeafir i fod yn destun mesurau a gymeradwywyd yn swyddogol.
- (7) At ddibenion is-baragraffau (3) i (5)—
- (a) “y gyfradd samplu briodol”, mewn perthynas â chae, yw'r gyfradd samplu ofynnol a bennir yn y tabl a ganlyn—

<i>Is-baragraff</i>	<i>Cae</i>	<i>Y Gyfradd</i>	
(3) a (4)	Cae \leq 8 hectar	1,500 ml o bridd fesul hectar a gesglir o 100 craidd/hectar o leiaf	
	Cae $>$ 8 hectar	Yr 8 hectar cyntaf	1,500 ml o bridd fesul hectar
		Pob hectar ychwanegol	400 ml o bridd fesul hectar
	Cae \leq 4 hectar sy'n bodloni un maen prawf o leiaf ym mharagraff (b)	400 ml o bridd fesul hectar	
	Cae $>$ 4 hectar sy'n bodloni un maen prawf o leiaf ym mharagraff (b)	Y 4 hectar cyntaf	400 ml o bridd fesul hectar
Pob hectar ychwanegol		200 ml o bridd fesul hectar	
(5)	Cae \leq 4 hectar	Unrhyw un neu ragor o'r cyfraddau a ganlyn: —400 ml o bridd fesul hectar —gwaith samplu wedi ei dargedu ar o leiaf 400 ml o bridd yn dilyn cynnal archwiliad gweledol o wreiddiau sydd â symptomau gweledol, neu —pan fo'n bosibl olrhain y tatws a gynaeafwyd i'r cae lle y'u tyfwyd, 400 ml o bridd sy'n gysylltiedig â'r tatws a gynaeafwyd.	

(b) y meini prawf yw—

- (i) bod tystiolaeth ddogfennol yn bodoli i ddangos nad yw tatws na phlanhigion cynhaliol wedi eu tyfu yn y cae yn y chwe mlynedd cyn yr ymchwiliad swyddogol, neu nad oeddent yn bresennol yn y cae yn ystod y cyfnod hwnnw;
- (ii) nad oes unrhyw Lyngyr tatws wedi eu canfod yn ystod y ddau ymchwiliad swyddogol olynol diweddaraf mewn samplau o 1,500 ml o bridd/hectar, ac nad oes unrhyw datws na phlanhigion cynhaliol, ac eithrio'r rhai y mae'r ymchwiliad swyddogol yn ofynnol ar eu cyfer, wedi eu tyfu yn y cae ers y cyntaf o'r ddau ymchwiliad hynny;
- (iii) nad oes unrhyw Lyngyr tatws na Llyngyr tatws heb gynnwys byw wedi eu canfod yn yr ymchwiliad swyddogol diweddaraf a oedd ar ffurf maint sampl o 1,500 ml o bridd/hectar o leiaf, ac nad oes unrhyw datws na phlanhigion cynhaliol, ac eithrio'r rhai y mae'r ymchwiliad swyddogol yn ofynnol ar eu cyfer, wedi eu tyfu yn y cae ers yr ymchwiliad swyddogol diweddaraf."

(6) Ym mharagraff 9(2), yn lle'r geiriau o "a gymeradwywyd yn swyddogol" hyd at "2007/33/EC" rhodder "penodedig perthnasol".

(7) Ym mharagraffau 11(3) a 15, yn lle "y mesurau a nodir yn Adran 3(A) o Atodiad 3 i Gyfarwyddeb 2007/33/EC" rhodder "un o'r mesurau penodedig perthnasol".

Rhan 5

18.—(1) Mae Rhan 5 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 17—

- (a) yn y diffiniadau o "blwyddyn dyfu gyntaf" a "halogedig", yn lle "at ddibenion Erthygl 5(1)(a) o Gyfarwyddeb 93/85/EEC" rhodder "yn unol â pharagraff 19(1)(a)";
- (b) yn y diffiniad o "halogedig o bosibl", yn lle "at ddibenion Erthygl 5(1)(b) o Gyfarwyddeb 93/85/EEC" rhodder "yn unol â pharagraff 19(1)(b)".

(3) Ym mharagraff 18—

- (a) yn is-baragraff (1), hepgorer "y", yn unol ag Erthygl 2(1) o Gyfarwyddeb 93/85/EEC";

(b) ar ôl is-baragraff (1) mewnosoder—

“(1A) Yn achos cloron *Solanum tuberosum* L., rhaid i’r arolygon hynny gynnwys cynnal profion swyddogol ar samplau o datws hadyd a thatws eraill yn unol ag EPPO PM 7/59.

(1B) Yn achos planhigion *Solanum tuberosum* L., rhaid cynnal yr arolygon hynny yn unol â dulliau priodol, a rhaid iddynt gynnwys cynnal profion swyddogol priodol ar samplau.

(1C) Rhaid i’r gwaith o gasglu samplau at ddibenion is-baragraffau (1A) ac (1B) fod yn seiliedig ar egwyddorion gwyddonol ac ystadegol cadarn a bioleg Pydredd cylch tatws, ac ystyried systemau cynhyrchu tatws perthnasol.”;

(c) yn is-baragraff (2)(a), yn lle’r geiriau o “Atodiad”, yn y lle cyntaf y mae’n digwydd, hyd at “93/85/EEC”, yn yr ail le y mae’n digwydd, rhodder “EPPO PM 7/59”.

(4) Ym mharagraff 19(1)—

(a) ym mharagraff (b), yn lle “ystyried y materion a nodir ym mhwynt 1 o Atodiad 3 i Gyfarwyddeb 93/85/EEC” rhodder—

“roi sylw i’r ffactorau a ganlyn—

- (i) y deunydd sy’n dueddol o gael plâu neu glefydau a dyfir yn y man cynhyrchu halogedig;
- (ii) y manau cynhyrchu sydd ag unrhyw gysylltiad cynhyrchu â’r deunydd hwnnw sy’n dueddol o gael plâu neu glefydau, gan gynnwys y rhai sy’n rhannu cyfarpar a chyfleusterau cynhyrchu yn uniongyrchol neu drwy gontractwr sy’n gyffredin rhyngddynt;
- (iii) cynhyrchu deunydd arall sy’n dueddol o gael plâu neu glefydau yn y man cynhyrchu halogedig, neu bresenoldeb deunydd o’r fath yn y man hwnnw;
- (iv) y mangreoedd sy’n trafod tatws o’r man cynhyrchu halogedig a’r manau cynhyrchu a grybwyllir yn is-baragraff (ii);
- (v) unrhyw wrthrych a allai fod wedi dod i gysylltiad â’r deunydd halogedig sy’n dueddol o gael plâu neu glefydau;
- (vi) unrhyw ddeunydd sy’n dueddol o gael plâu neu glefydau a gaiff ei storio mewn unrhyw wrthrych cyn iddo gael ei ddiheintio, neu

ddeunydd o'r fath sydd wedi dod i gysylltiad ag unrhyw wrthrych o'r fath;

(vii) unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau sy'n perthyn fel chwaer neu riant drwy glonio i'r deunydd halogedig sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau a manau cynhyrchu'r deunydd hwnnw;”;

(b) ym mharagraff (c), yn lle “y materion a nodir ym mhwynt 2 o Atodiad 3 i Gyfarwyddeb 93/85/EEC” rhodder “agosrwydd manau cynhyrchu eraill sy'n tyfu tatws neu blanhigion cynhaliol eraill a chynhyrchu a defnyddio stociau tatws hwyd ar y cyd”;

(c) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

“(1A) Wrth wneud dynodiad neu benderfyniad o dan is-baragraff (1), rhaid i arolygydd roi sylw i egwyddorion gwyddonol cadarn, bioleg Pydredd cylch tatws a systemau cynhyrchu, marchnata a phrosesu perthnasol.”

(5) Ym mharagraff 20—

(a) yn is-baragraff (2)—

(i) ym mharagraff (a), yn lle “unrhyw fesur arall sy'n cydymffurfio â phwynt 1 o Atodiad 4 i Gyfarwyddeb 93/85/EEC” rhodder “ddull gwaredu a gymeradwywyd yn swyddogol sy'n sicrhau nad oes unrhyw risg adnabyddadwy o ledaenu Pydredd cylch tatws”;

(ii) ym mharagraff (b), yn lle “yn unol â phwynt 2 o Atodiad 4 i Gyfarwyddeb 93/85/EEC” rhodder “mewn modd sy'n sicrhau nad oes unrhyw risg adnabyddadwy o ledaenu Pydredd cylch tatws”;

(b) yn is-baragraff (3), yn lle “Cyfarwyddeb 93/85/EEC” rhodder “y Rhan hon”.

(6) Ym mharagraff 21—

(a) yn is-baragraffau (2)(c), (3)(c) a (4)(d), yn lle “Atodiad 1 i Gyfarwyddeb 93/85/EEC” rhodder “EPPO PM 7/59”;

(b) yn is-baragraff (8), yn lle “Erthygl 2 o Gyfarwyddeb 93/85/EEC” rhodder “EPPO PM 7/59”.

(7) Ym mharagraff 23(7)(b), yn lle “Erthygl 2 o Gyfarwyddeb 93/85/EEC” rhodder “EPPO PM 7/59”.

Rhan 6

19.—(1) Mae Rhan 6 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 24—

- (a) yn y diffiniadau o “blwyddyn dyfu gyntaf” a “halogedig”, yn lle “at ddibenion Erthygl 5(1)(a)(ii) o Gyfarwyddeb 98/57/EC” rhodder “yn unol â pharagraff 26(2)(c)”;
- (b) yn y diffiniad o “halogedig o bosibl”, yn lle “at ddibenion Erthygl 5(1)(a)(iii) neu (c)(iii) o Gyfarwyddeb 98/57/EEC” rhodder “yn unol â pharagraff 26(2)(d)”.

(3) Ym mharagraff 25—

- (a) yn is-baragraff (1), hepgorer “yn unol ag Erthygl 2 o Gyfarwyddeb 98/57/EC”;
- (b) ar ôl is-baragraff (1) mewnosoder—

“(1A) Rhaid i’r arolygon hynny fod yn seiliedig ar asesiad risg i nodi ffynonellau halogi posibl eraill sy’n peryglu cynhyrchu deunydd sy’n dueddol o gael plâu neu glefydau a chynnwys arolygon swyddogol wedi eu targedu mewn ardaloedd cynhyrchu, yn seiliedig ar yr asesiad risg perthnasol, i nodi presenoldeb Pydredd coch tatws ar—

- (a) deunydd perthnasol, ac eithrio deunydd sy’n dueddol o gael plâu neu glefydau,
- (b) dŵr wyneb a ddefnyddir ar gyfer dyfrhau neu chwistrellu deunydd sy’n dueddol o gael plâu neu glefydau, ac
- (c) gollyngiadau gwastraff hylifol o fangre brosesu neu becynnu diwydiannol sy’n trafod deunydd sy’n dueddol o gael plâu neu glefydau.

(1B) Rhaid i’r arolygon hynny hefyd fod yn seiliedig ar fioleg Pydredd coch tatws a’r systemau cynhyrchu perthnasol, a rhaid iddynt gynnwys—

- (a) yn achos deunydd sy’n dueddol o gael plâu neu glefydau sy’n cynnwys planhigion *Solanum tuberosum* L., cynnal arolygiadau gweledol o’r cnwd sy’n tyfu, ar adegau priodol, neu samplu tatws hadyd a thatws eraill yn ystod y tymor tyfu neu wrth eu storio, a rhaid i hynny gynnwys cynnal arolygiad gweledol swyddogol o gloron drwy eu torri;
- (b) yn achos tatws hadyd a, phan fo’n briodol, thatws eraill, cynnal profion swyddogol ar samplau gan ddefnyddio’r dull a nodir yn EPPO PM 7/21;
- (c) yn achos deunydd sy’n dueddol o gael plâu neu glefydau sy’n cynnwys planhigion *Solanum lycopersicum* L., cynnal arolygiadau gweledol, ar adegau

priodol, o leiaf o'r cnwd o blanhigion sy'n tyfu y bwriedir eu defnyddio i'w hailblannu at ddefnydd proffesiynol;

- (d) ar gyfer planhigion cynhaliol, ac eithrio deunyddiau sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, ac ar gyfer dŵr gan gynnwys gwastraff hylifol, cynnal profion swyddogol.

(1C) Rhaid i'r gwaith o gasglu samplau at ddibenion is-baragraff (1B) fod yn seiliedig ar egwyddorion gwyddonol ac ystadegol cadarn a bioleg Pydredd coch tatws, ac ystyried systemau cynhyrchu tatws perthnasol o ran deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau a phlanhigion cynhaliol eraill Pydredd coch tatws.”;

(c) yn is-baragraff (2)—

- (i) ym mharagraff (a)(i), yn lle'r geiriau o “Atodiad”, yn y lle cyntaf y mae'n digwydd, hyd at y diwedd rhodder “EPPO PM 7/21”;
- (ii) ym mharagraff (b), yn lle'r geiriau o “a bennir” hyd at “98/57/EC” rhodder “y cyfeirir atynt yn EPPO PM 7/21”.

(4) Ym mharagraff 26—

(a) yn is-baragraff (2)—

- (i) ym mharagraff (a), yn lle “yn unol ag Atodiad 4 i Gyfarwyddeb 98/57/EC” rhodder—

“sy'n cynnwys cynnal ymchwiliad i'r pethau a ganlyn—

- (i) tatws sy'n tyfu neu a gynaeafwyd sy'n perthyn drwy glonio i unrhyw datws halogedig;
- (ii) tomatos sy'n tyfu neu a gynaeafwyd sydd o'r un ffynhonnell ag unrhyw domatos halogedig;
- (iii) tatws neu domatos sy'n tyfu neu a gynaeafwyd sydd o dan reolaeth swyddogol ac yr amheuir eu bod wedi eu halogi â Phydredd coch tatws;
- (iv) tatws sy'n tyfu neu a gynaeafwyd sy'n perthyn drwy glonio i unrhyw datws a dyfwyd yn y man cynhyrchu halogedig;
- (v) tatws neu domatos sy'n tyfu gerllaw'r man cynhyrchu halogedig, gan gynnwys y rhai sy'n rhannu cyfarpar a chyfleusterau cynhyrchu yn uniongyrchol neu drwy gontractwr sy'n gyffredin rhyngddynt;

- (vi) dŵr wyneb a ddefnyddir ar gyfer dyfrhau a chwistrellu o unrhyw ffynhonnell y cadarnheir neu yr amheuir ei bod wedi ei halogi a Phydredd coch tatws;
 - (vii) dŵr wyneb a ddefnyddir ar gyfer dyfrhau a chwistrellu o ffynhonnell a ddefnyddir ar y cyd â'r manau cynhyrchu halogedig a'r manau cynhyrchu sy'n halogedig o bosibl;
 - (viii) manau cynhyrchu sydd wedi eu gorlifo, neu a oedd wedi eu gorlifo, â dŵr wyneb halogedig neu ddŵr wyneb sy'n halogedig o bosibl;
 - (ix) dŵr wyneb a ddefnyddir ar gyfer dyfrhau neu chwistrellu'r man cynhyrchu halogedig neu gaeau sydd wedi eu gorlifo yn y man cynhyrchu halogedig;"
 - (ii) ym mharagraff (e), yn lle "yn unol â phwynt 2(i) o Atodiad 5 i Gyfarwyddeb 98/57/EC" rhodder "gan ystyried y ffactorau perthnasol";
- (b) yn is-baragraff (3)—
- (i) ym mharagraff (a), yn lle "yn unol ag Atodiad 4 i Gyfarwyddeb 98/57/EC" rhodder "sy'n cynnwys cynnal ymchwiliad i'r pethau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (2)(a)(i) i (ix)";
 - (ii) ym mharagraff (d), yn lle "yn unol â phwynt 2(i) o Atodiad 5 i Gyfarwyddeb 98/57/EC" rhodder "gan ystyried y ffactorau perthnasol";
- (c) yn is-baragraff (4)(d), yn lle "yn unol â phwynt 2(ii) o Atodiad 5 i Gyfarwyddeb 98/57/EC" rhodder "gan ystyried y ffactorau perthnasol";
- (d) ar ôl is-baragraff (4) mewnosoder—
- "(5) Y "ffactorau perthnasol" yw—
- (a) at ddibenion is-baragraffau (2)(e) a (3)(d)—
 - (i) agosrwydd manau cynhyrchu eraill sy'n tyfu deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau;
 - (ii) cynhyrchu a defnyddio stociau tatws hadyd ar y cyd;
 - (iii) manau cynhyrchu sy'n defnyddio dŵr wyneb i ddyfrhau neu chwistrellu deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau pan fo

risg o ddŵr wyneb ffo o'r man cynhyrchu halogedig;

(b) at ddibenion is-baragraff (4)(d)—

- (i) mannau cynhyrchu sy'n cynhyrchu deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau sy'n gyfagos i ddŵr wyneb halogedig, neu sy'n wynebu risg o orlifo gan ddŵr o'r fath;
- (ii) unrhyw fasn dyfrhau ar wahân sy'n gysylltiedig â'r dŵr wyneb halogedig;
- (iii) crynofeydd dŵr sy'n gysylltiedig â'r dŵr wyneb halogedig, gan roi sylw i gyfeiriad a chyfradd llif y dŵr wyneb halogedig a phresenoldeb planhigion cynhaliol mochlysaidd gwyllt."

(5) Ym mharagraff 27—

(a) yn is-baragraff (2)—

- (i) ym mharagraff (a), yn lle "fesur sy'n cydymffurfio â phwynt 1 o Atodiad 6 i Gyfarwyddeb 98/57/EC" rhodder "ddull gwaredu a gymeradwywyd yn swyddogol sy'n sicrhau nad oes unrhyw risg adnabyddadwy o ledaenu Pydredd coch tatws";
- (ii) ym mharagraff (b), yn lle "yn unol â phwynt 2 o Atodiad 6 i Gyfarwyddeb 98/57/EC" rhodder "drwy ddull gwaredu a gymeradwywyd yn swyddogol sy'n sicrhau nad oes unrhyw risg adnabyddadwy o ledaenu Pydredd coch tatws";

(b) yn is-baragraff (3), yn lle "Cyfarwyddeb 98/57/EC" rhodder "y Rhan hon".

(6) Ym mharagraff 28, yn is-baragraffau (2)(c), (3)(c) a (4)(g), yn lle "Atodiad 2 i Gyfarwyddeb 98/57/EC", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "EPPO PM 7/21".

(7) Ym mharagraff 30—

(a) yn is-baragraff (7)—

- (i) ym mharagraff (a), yn lle "Erthygl 5(1)(a)(iv) o Gyfarwyddeb 98/57/EC" rhodder "paragraff 26(3)(d)";
- (ii) ym mharagraff (b), yn lle "Erthygl 5(1)(c)(iii) o Gyfarwyddeb 98/57/EC" rhodder "paragraff 26(4)(d)";

(b) yn is-baragraff (8)(b), yn lle "Erthygl 2 o Gyfarwyddeb 98/57/EC" rhodder "EPPO PM 7/21".

Rhan 7

20. Ym mharagraff 31—

- (a) yn lle'r pennawd rhodder “**Mesurau ychwanegol ynglŷn â thatws o'r Aiff**”;
- (b) yn is-baragraff (1)—
 - (i) yn lle “dirioaeth yr Undeb” rhodder “Brydain Fawr”;
 - (ii) yn lle “Benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2011/787/EC” rhodder “Erthygl 41(1) o'r Rheoliad Iechyd Planhigion”.

Atodlen 3

21.—(1) Mae Atodlen 3 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y pennawd, yn lle “Rheoliadau'r UE” rhodder “neddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir”.

(3) Yn Rhan 1—

- (a) yn y pennawd, yn lle “Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE” rhodder “Y Rheoliad Iechyd Planhigion”;
- (b) yn y tabl—
 - (i) yn y pennawd i'r golofn gyntaf, yn lle “*Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE*” rhodder “*y Rheoliad Iechyd Planhigion*”;
 - (ii) yn y cofnod sy'n ymwneud ag Erthygl 5(1)—
 - (aa) yn lle “cwarantín Undeb”, ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder “cwarantín Prydain Fawr”;
 - (bb) yn lle “dirioaeth yr Undeb” rhodder “Brydain Fawr”, ac yn lle “tíriogaeth yr Undeb” rhodder “Prydain Fawr”;
 - (iii) yn y cofnod sy'n ymwneud ag Erthygl 9(3)—
 - (aa) yn lle “Undeb”, yn y lle cyntaf y mae'n digwydd, rhodder “Prydain Fawr”;
 - (bb) yn lle “bla sy'n destun mesurau a fabwysiadwyd yn unol ag Erthygl 30(1)” rhodder “bla cwarantín Prydain Fawr dros dro”;
 - (cc) yn lle “dirioaeth yr Undeb”, yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder “Brydain Fawr”;
 - (dd) yn lle “parth gwarchodedig” rhodder “PFA”;

- (ee) yn lle “priod barth gwarchodedig” rhodder “ardal sy’n rhydd rhag plâu Prydain Fawr a sefydlwyd mewn cysylltiad â’r pla hwnnw”;
- (iv) yn y cofnod sy’n ymwneud ag Erthygl 14(1)—
 - (aa) yn lle’r geiriau o “Undeb” hyd at “Erthygl 30(1)” rhodder “Prydain Fawr neu bla cwarantyn Prydain Fawr dros dro”;
 - (bb) yn lle “parth gwarchodedig” rhodder “PFA”;
 - (cc) yn lle “y priod barth gwarchodedig” rhodder “yr ardal sy’n rhydd rhag plâu Prydain Fawr a sefydlwyd mewn cysylltiad â’r pla hwnnw”;
- (v) yn y cofnod sy’n ymwneud ag Erthygl 14(3), yn lle “Undeb” rhodder “Prydain Fawr”;
- (vi) yn y cofnod sy’n ymwneud ag Erthygl 15(1)—
 - (aa) yn lle “Undeb” rhodder “Prydain Fawr”;
 - (bb) yn lle “parth gwarchodedig” rhodder “PFA”;
 - (cc) yn lle “y priod barth gwarchodedig” rhodder “yr ardal sy’n rhydd rhag plâu Prydain Fawr a sefydlwyd mewn cysylltiad â’r pla hwnnw”;
- (vii) yn y cofnod sy’n ymwneud ag Erthygl 32(2)—
 - (aa) yn lle “parth gwarchodedig”, ym mhob lle y mae’n digwydd, rhodder “PFA”;
 - (bb) yn lle “y priod barth gwarchodedig”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “yr ardal sy’n rhydd rhag plâu Prydain Fawr a sefydlwyd mewn cysylltiad â’r pla hwnnw”, ac yn lle “i’r priod barth gwarchodedig” rhodder “i’r ardal sy’n rhydd rhag plâu Prydain Fawr a sefydlwyd mewn cysylltiad â’r pla hwnnw”;
- (viii) yn y cofnod sy’n ymwneud ag Erthygl 37(1)—
 - (aa) yn lle “diriogaeth yr Undeb” rhodder “Brydain Fawr”, ac yn lle “tiriogaeth yr Undeb” rhodder “Prydain Fawr”;

- (bb) yn lle “Undeb”, yn yr ail le a’r trydydd lle y mae’n digwydd, rhodder “Prydain Fawr”;
- (ix) yn y cofnod sy’n ymwneud ag Erthygl 40(1), yn lle “diriogaeth yr Undeb” rhodder “Brydain Fawr”;
- (x) yn lle’r cofnod sy’n ymwneud ag Erthygl 41(1) rhodder—

<p>“Erthygl 41(1) (fel y’i darllenir gydag Erthyglau 47 a 48(1))</p>	<p>Yn gwahardd cyflwyno i Brydain Fawr blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau penodol eraill o drydydd gwledydd oni bai bod y gofynion arbennig mewn cysylltiad â’r planhigion, y cynhyrchion planhigion neu’r gwrthrychau eraill hynny wedi eu cyflawni.</p>
<p>Erthygl 41(1A) (fel y’i darllenir gydag Erthygl 48(1))</p>	<p>Yn gwahardd cyflwyno i Brydain Fawr blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau penodol eraill o diriogaethau Dibynnol y Goron oni bai bod y gofynion arbennig mewn cysylltiad â’r planhigion, y cynhyrchion planhigion neu’r gwrthrychau eraill hynny wedi eu cyflawni.</p>

Erthygl 41(1B) (fel y'i darllenir gydag Erthygl 48(1))	Yn gwahardd symud o fewn Prydain Fawr blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau penodol eraill oni bai bod y gofynion arbennig mewn cysylltiad â'r planhigion, y cynhyrchion planhigion neu'r gwrthrychau eraill hynny wedi eu cyflawni.”;
--	--

- (xi) yn y cofnodion sy'n ymwneud ag Erthyglau 42(2) a 43(1), yn lle “diriogaeth yr Undeb”, yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder “Brydain Fawr”;
- (xii) yn y cofnod sy'n ymwneud ag Erthygl 53(1)—
 - (aa) yn lle “barthau gwarchoddedig penodol”, yn y lle cyntaf y mae'n digwydd, rhodder “ardaloedd sy'n rhydd rhag plâu Prydain Fawr”;
 - (bb) yn lle “fewn tiriogaeth yr Undeb i barthau gwarchoddedig penodol” rhodder “Brydain Fawr neu diriogaeth Ddibynnol y Goron i ardaloedd sy'n rhydd rhag plâu Prydain Fawr”;
- (xiii) yn y cofnod sy'n ymwneud ag Erthygl 54(1)—
 - (aa) yn lle “i barthau gwarchoddedig penodol” rhodder “i ardaloedd sy'n rhydd rhag plâu Prydain Fawr”, ac yn lle “mewn parthau gwarchoddedig penodol” rhodder “mewn ardaloedd sy'n rhydd rhag plâu Prydain Fawr”;
 - (bb) yn lle “parthau gwarchoddedig hynny”, yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder “ardaloedd hynny sy'n rhydd rhag plâu Prydain Fawr”;
- (xiv) yn y cofnod sy'n ymwneud ag Erthygl 59—

- (aa) yn lle “diriogaeth yr Undeb”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “Brydain Fawr”;
- (bb) yn lle’r geiriau o “cwarantín Undeb” hyd at “Erthygl 30(1)” rhodder “cwarantín Prydain Fawr neu blâu cwarantín Prydain Fawr dros dro”;
- (cc) yn lle “parthau gwarchoddedig” rhodder “ardaloedd sy’n rhydd rhag plâu Prydain Fawr”;
- (dd) yn lle “barthau gwarchoddedig” rhodder “ardaloedd sy’n rhydd rhag plâu Prydain Fawr”;
- (ee) yn lle “priod barth gwarchoddedig” rhodder “PFA”;
- (ff) ar y diwedd mewnosoder “sy’n ymwneud â’r ardaloedd hynny”;
- (xv) yn y cofnod sy’n ymwneud ag Erthygl 62(1), yn lle’r geiriau o “Undeb” hyd at y diwedd, rhodder “Prydain Fawr a phlâu cwarantín Prydain Fawr dros dro”;
- (xvi) yn y cofnod sy’n ymwneud ag Erthygl 62(2), yn lle’r geiriau o “Undeb” hyd at y diwedd rhodder “Prydain Fawr neu bla cwarantín Prydain Fawr dros dro”;
- (xvii) yn y cofnod sy’n ymwneud ag Erthyglau 72(1) a 73, yn lle “diriogaeth yr Undeb” rhodder “Brydain Fawr”;
- (xviii) yn y cofnod sy’n ymwneud ag Erthygl 74(1), yn lle “barthau gwarchoddedig penodol” rhodder “ardaloedd penodol sy’n rhydd rhag plâu Prydain Fawr”;
- (xix) yn y cofnod sy’n ymwneud ag Erthygl 79(1)—
 - (aa) yn y golofn gyntaf, yn lle “a 83” rhodder “, 83 a 92a”;
 - (bb) yn yr ail golofn, yn lle “tiriogaeth yr Undeb heb basbort planhigion” rhodder “Prydain Fawr neu gyflwyno planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau penodol eraill i Brydain Fawr o diriogaeth Ddibynnol y Goron heb basbort planhigion y DU”;
- (xx) yn y cofnod sy’n ymwneud ag Erthygl 80(1)—
 - (aa) yn y golofn gyntaf, yn lle “a 83” rhodder “, 83 a 92a”;
 - (bb) yn yr ail golofn, yn lle “barthau gwarchoddedig penodol” a “parthau gwarchoddedig penodol” rhodder

“ardaloedd sy’n rhydd rhag plâu Prydain Fawr”, ac ar y diwedd, mewnosoder “y DU”;

- (xxi) yn y cofnodion sy’n ymwneud ag Erthygl 84(1) ac Erthygl 84(3), ar ôl “pasbortau planhigion”, ym mhob lle y mae’n digwydd, mewnosoder “y DU”;
- (xxii) yn y cofnod sy’n ymwneud ag Erthygl 85, ar ôl “pasbortau planhigion” mewnosoder “y DU”;
- (xxiii) yn y cofnod sy’n ymwneud ag Erthygl 86(1)—
 - (aa) ar ôl “pasbortau planhigion” mewnosoder “y DU”;
 - (bb) yn lle “barth gwarchoddedig” rhodder “ardal sy’n rhydd rhag plâu Prydain Fawr”;
- (xxiv) ar ôl y cofnod sy’n ymwneud ag Erthygl 86(1) mewnosoder—

“Erthygl 86a	Yn gwahardd gweithredwyr proffesiynol awdurdodedig rhag dyroddi pasbortau planhigion y DU ar gyfer planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill i’w cyflwyno i diriogaeth Ddibynnol y Goron, oni bai bod y gofynion penodol wedi eu cyflawni mewn cysylltiad â’r planhigion, y cynhyrchion planhigion neu’r gwrthrychau eraill hynny.”;
--------------	---

- (xxv) yn y cofnod sy’n ymwneud ag Erthygl 88, ar ôl “pasbortau planhigion” mewnosoder “y DU”;
- (xxvi) yn y cofnod sy’n ymwneud ag Erthygl 90(1), ar ôl “pasbort planhigion” mewnosoder “y DU”;
- (xxvii) yn y cofnodion sy’n ymwneud ag Erthygl 93(1) ac Erthygl 93(5), ar ôl “pasbortau planhigion” mewnosoder “y DU”;
- (xxviii) yn y cofnod sy’n ymwneud ag Erthygl 96(1), yn lle “tiriogaeth yr Undeb” rhodder “Prydain Fawr”.

(4) Yn Rhan 2, yn y cofnodion sy'n ymwneud ag Erthyglau 47(5) a 56(4), yn lle "i'r Undeb", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "i Brydain Fawr", ac yn y cofnod sy'n ymwneud ag Erthygl 56(4), yn lle "yr Undeb" rhodder "Prydain Fawr".

(5) Yn Rhan 3, yn y cofnod sy'n ymwneud ag Erthygl 22(4) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2124, yn lle "diriogaeth yr Undeb" rhodder "Brydain Fawr".

Atodlen 4

22. Hepgorer Atodlen 4.

RHAN 3

Dirymu

Dirymu

23. Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019(1) wedi eu dirymu.

Enw

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,
un o Weinidogion Cymru

Dyddiad

(1) O.S. 2019/674 (Cy. 130).

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Datblygu Gwledig a Deddfwriaeth o fewn Adran yr Amgylchedd, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020.

Rwyf wedi gwneud y datganiadau sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae modd gweld y datganiadau hyn yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm hwn.

Lesley Griffiths AS

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

24 Tachwedd 2020

Rhan 1

1. Disgrifiad

Bydd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (y "offeryn") yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth, sy'n gymwys i Gymru mewn perthynas ag iechyd planhigion.

Daw Rhan 1 a Rhan 3 o'r offeryn hwn i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu, a daw Rhan 2 o'r offeryn hwn i rym ar ddiwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae'r offeryn hwn yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru wrth arfer y pwerau a roddir ym mharagraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (y 'Ddeddf Ymadael'), er mwyn mynd i'r afael â methiannau yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol, a diffygion eraill sy'n codi oherwydd bod y Deyrnas Unedig (DU) yn gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE).

Fel y nodir yn y datganiad gan y Gweinidog yn Rhan 2 y Memorandwm Esboniadol hwn, cynigir y bydd yr offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

Mae'n ofynnol o dan baragraff 4(a) o Atodlen 2 i'r Ddeddf Ymadael i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch rheoliadau sydd i fod i ddod i rym cyn diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu. Yn unol â'r gofyn hwn, ymgynghorwyd â'r Ysgrifennydd Gwladol mewn llythyr ar wahân a gyhoeddwyd ar 20 Tachwedd 2020.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae angen diwygio deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o gyfraith yr UE i sicrhau bod modd defnyddio'r llyfr statud yn effeithlon ac yn effeithiol ar ôl i'r DU adael yr UE.

Mae'r Ddeddf Ymadael yn trosi'r rhan fwyaf o gyfraith uniongyrchol berthnasol yr UE, fel y mae'n sefyll yn union cyn diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu, yn gyfraith ddomestig ac yn cadw deddfau a wneir yn y DU sy'n gweithredu rhwymedigaethau'r UE. Mae'r Ddeddf Ymadael hefyd yn creu pwerau dros dro i wneud is-ddeddfwriaeth i ddelio â diffygion a fyddai'n codi oherwydd bod y DU yn gadael yr UE. Mae Adran 11 o'r Ddeddf Ymadael a pharagraff 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru fynd i'r afael â diffygion.

Yn unol â gofynion y Ddeddf Ymadael, mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, wedi gwneud y datganiadau perthnasol fel y manylir yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm Esboniadol hwn.

Mae'r gyfundrefn iechyd planhigion yn cael ei sefydlu, ar lefel Ewropeaidd, gan Reoliad (UE) 2016/2031) ar fesurau diogelu yn erbyn plâu planhigion a Rheoliad (UE) 2017/625) ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau bod materion sy'n cynnwys iechyd planhigion ("Rheoliadau'r UE") a deddfwriaeth weithredu gysylltiedig yn cael eu defnyddio.

Mae Rheoliadau'r UE yn rhan o becyn rheoliadau Rheolau Doethach yr UE ar gyfer Bwyd Mwy Diogel. Bwriad y pecyn hwn oedd moderneiddio, symleiddio a gwella'r safonau iechyd a diogelwch presennol ar gyfer y gadwyn fwyd-amaeth, gan ddilyn dull sy'n seiliedig ar risg o ran diogelu anifeiliaid, planhigion ac iechyd y cyhoedd a chyflwyno mesurau rheoli plâu a chlefydau mwy effeithlon.

Mae Rheoliadau'r UE, a'r deddfwriaeth weithredu a wnaed o dan y Rheoliadau hyn, fel Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/2072, yn uniongyrchol berthnasol (hynny yw, nid oedd angen deddfwriaeth weithredu genedlaethol er mwyn iddynt gael effaith yng nghyfraith y DU). Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddu a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2019 (O.S. 2020/206) (Cy. 48) ("Rheoliadau 2020") yn cynnwys darpariaethau domestig atodol i alluogi Gweinidogion Cymru i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan Reoliadau'r UE, gorfodi Rheoliadau'r UE hyn a gweithredu rhanddirymiaid i amrywiol ddarpariaethau yn Rheoliadau'r UE sydd ar gael i Aelod-wladwriaethau. Mae deddfwriaeth ddomestig ar wahân ond cyfochrog yn berthnasol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r offeryn hwn yn gwneud newidiadau o ran gweithrediad a diwygiadau canlyniadol eraill i is-ddeddfwriaeth ddomestig, gan gynnwys Rheoliadau 2020, i sicrhau bod rheolaethau sicrhau iechyd planhigion yn parhau i weithredu ym Mhrydain Fawr a rhwng Prydain Fawr a'r UE ar ddiwedd y cyfnod pontio ar 31 Rhagfyr 2020.

4. Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Diben yr offeryn hwn yw diogelu bioddiogelwch a chefnogi masnach drwy sicrhau bod rheolaethau sicrhau iechyd planhigion effeithiol yn parhau i weithredu ym Mhrydain Fawr a rhwng Prydain Fawr a'r UE ar ddiwedd y cyfnod pontio.

Mae'r diwygiadau i weithrediad Rheoliadau 2020 yn cyfrannu at greu 'marchnad sengl' ar gyfer Prydain Fawr a Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron. Bydd yr UE yn dod yn drydedd wlad ac, o ganlyniad, bydd yn

ddarostyngedig i reolaethau mewnforio trydydd gwledydd. Bydd mesurau rheoli iechyd planhigion ar ddeunyddiau sy'n cael eu mewnforio o drydydd gwledydd yn dal i gael eu cymhwyso. Bydd rheolaethau mewnol hefyd yn parhau i fod yn berthnasol i symud nwyddau o fewn marchnad fewnol Prydain Fawr.

Bydd y polisi presennol o reolaethau iechyd planhigion sy'n seiliedig ar risg, a ddefnyddir o dan ddeddfwriaeth yr UE, yn parhau. Fodd bynnag, bydd y drefn nawr yn canolbwyntio ar risgiau i Brydain Fawr, yn hytrach na risgiau i'r UE, er mwyn sicrhau bod cyfiawnhad technegol dros hyn yn unol â rhwymedigaethau Sefydliad Masnach y Byd a Rheoliadau'r UE. Bydd proses asesu risg Prydain Fawr yn dilyn yr un egwyddorion a dull gweithredu a dderbynnir yn rhyngwladol ag a ddefnyddiwyd mewn Dadansoddiad o Risg Pla blaenorol o dan drefn yr UE. Mae'r Dadansoddiad o Risg Pla yn gwerthuso tystiolaeth fiolegol a thystiolaeth wyddonol ac economaidd arall i benderfynu a yw organeb yn bla planhigion neu'n bathogen sy'n peri risg sylweddol i blanhigion ym Mhrydain Fawr. Mae'n penderfynu a ddylid ystyried rheoleiddio pla ac yn nodi mesurau rheoli penodol i'w cymryd yn ei erbyn. Bydd yr egwyddorion hyn sy'n seiliedig ar risg, fel y'u defnyddir yng ngweithdrefn yr UE, yn parhau ond ar gyfer lefelau risg Prydain Fawr.

Bydd y dull diwygiedig ar gyfer mewnforio o'r UE yn cael ei gyflwyno fesul cam dros gyfnod o 6 mis, o 1 Ionawr 2021, er mwyn rhoi rheolaethau ar gynnyrch yr UE ar waith fesul cam er mwyn caniatáu i fasnach barhau i lifo tra bydd busnesau'n addasu i ddefnyddio rheolaethau mewnforio trydydd gwledydd. Trefniant pontio dros dro a seiliedig ar risg fydd hwn, gyda'r nod o sicrhau rheolaethau mewnforio cyson sydd wedi'u cyfiawnhau'n dechnegol ac sy'n berthnasol i bob gwlad sy'n allforio i Brydain Fawr.

Beth mae'r offeryn yn ei wneud

Mae'r offeryn hwn yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth ym maes iechyd planhigion. Mae'n diwygio ac yn dirymu is-ddeddfwriaeth ddomestig sy'n ymwneud ag iechyd planhigion.

Mae'r offeryn hwn yn dirymu Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (ac mae elfennau o ddeddfwriaeth gywir wedi'i dirymu ers hynny) ac yn diwygio'r ddeddfwriaeth ganlynl:

- Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 - mae'r Rheoliadau hyn yn pennu ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru mewn perthynas â gwasanaethau iechyd planhigion ac ardystio tatws hadyd, planhigion ffrwythau a deunyddiau sy'n lluosogi planhigion ffrwythau; a
- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020 - mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi effaith i Reoliad (UE) 2016/2031 Senedd

Ewrop a'r Cyngor ar fesurau diogelu yn erbyn plâu planhigion, ac agweddau ar iechyd planhigion Rheoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol.

Pe na bai'r is-ddeddfwriaeth ddomestig hon yn cael ei diwygio, byddai'n cynnwys diffygion a fyddai'n atal Gweinidogion Cymru rhag gallu cyflwyno deddfwriaeth ymarferol ar iechyd planhigion. Gwneir yr offeryn drwy arfer pwerau o dan y Ddeddf Ymadael i gywiro'r diffygion hyn.

Mae Llywodraeth y DU yn gwneud diwygiadau cyfatebol i is-ddeddfwriaeth gyfatebol sy'n berthnasol i Loegr drwy Reoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020.

5. Ymgynghori

Nid ymgynghorwyd â rhanddeiliaid ynghylch y diwygiadau a wnaed gan Reoliadau 2020 gan eu bod yn newidiadau technegol o ran gweithrediad yn hytrach na newidiadau polisi.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Wrth i'r UE ddod yn drydedd wlad ar ddiwedd y Cyfnod Pontio, bydd nwyddau rheoleiddiedig yr UE sy'n cael eu mewnfario i Brydain Fawr yn ddarostyngedig i reolaethau safonol trydydd gwledydd ar gyfer iechyd planhigion (darparu tystysgrif, rhoi gwybod ymlaen llaw am fewnforion o'r UE, mynd drwy ddogfennau, manylion adnabod ac archwiliadau ffisegol). Mae'r effeithiau uniongyrchol hyn ar fusnesau a'r sector cyhoeddus yn deillio o delerau'r Ddeddf Ymadael ac nid ydynt yn adlewyrchu unrhyw newid ym mholisi iechyd planhigion Prydain Fawr, felly nid oes asesiad effaith wedi'i baratoi ar gyfer yr offeryn hwn.

Atodiad: Datganiadau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Rhan 1: Tabl o Ddatganiadau o dan Ddeddf 2018

Mae'r tabl hwn yn nodi'r datganiadau a all fod yn ofynnol gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 2018. Mae'r tabl hefyd yn nodi'r datganiadau hynny a all fod yn ofynnol gan Weinidogion y Goron o dan Ddeddf 2018, y mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i'w darparu hefyd pan fo angen. Mae modd gweld y datganiadau gofynnol yn Rhan 2 o'r atodiad hwn.

Datganiad	Lle mae'r gofyniad wedi'i osod	I bwy mae'n berthnasol	Beth sydd ei angen arno
Priodolrwydd	Is-baragraff (2) o baragraff 28, Atodlen 7	Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad nad yw'r OS yn gwneud mwy nag sy'n briodol.
Rhesymau Da	Is-baragraff (3) o baragraff 28, Atodlen 7	Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad i esbonio'r rhesymau da dros wneud yr offeryn a bod yr hyn sy'n cael ei wneud yn ffordd resymol i weithredu.
Cydraddoldeb	Is-baragraffau (4) a (5) o baragraff 28, Atodlen 7	Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn	Datganiad i egluro pa ddiwygiadau, diddymiadau neu ddirymiadau, os o gwbl, sy'n cael eu gwneud i Ddeddfau Cydraddoldeb 2006 a 2010 a'r ddeddfwriaeth a wnaed oddi

		Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	tanynt. Datganiad bod y Gweinidog wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu ac ymddygiad o fath arall sydd wedi'i wahardd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
Esboniadau	Is-baragraff (6) o baragraff 28, Atodlen 7	Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad i egluro'r offeryn, nodi'r gyfraith berthnasol cyn y diwrnod ymadael, esbonio effaith yr offeryn ar gyfraith yr UE a ddargedwir a rhoi gwybodaeth am ddiben yr offeryn, ee a fwriedir gwneud mân newidiadau neu newidiadau technegol yn unig i gyfraith yr UE a ddargedwir.
Troseddau	Is-baragraffau (3) a (7) o baragraff 28, Atodlen 7	Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad yn nodi'r 'rhesymau da' dros greu trosedd, a'r gosb sydd ynghlwm â hynny.
Is-ddirprwyo	Paragraff 30, Atodlen 7	Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a pharagraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol na ellir ei arfer gan Weinidog y Goron neu Awdurdod Datganoledig. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr	Datganiad i esbonio pam ei bod yn briodol creu pŵer is-ddirprwyedig o'r fath.

		un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 neu baragraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol na ellir ei arfer gan Weinidog y Goron neu Awdurdod Datganoledig	
Brys	Is-baragraff (2) a (8) o baragraff 7, Atodlen 7	Gweinidogion Cymru sy'n arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 ond yn defnyddio'r weithdrefn frys ym mharagraff 7 o Atodlen 7	Datganiad bod Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr OS gan ddefnyddio'r weithdrefn frys a'r rhesymau dros y farn hon.

Rhan 2

Datganiadau sy'n ofynnol wrth ddefnyddio pwerau galluogi o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

1. Datganiad addasrwydd

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Yn fy marn i, nid yw Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 yn gwneud dim mwy nag sy'n briodol”.

Mae hyn yn wir oherwydd bod y newidiadau sy'n cael eu gwneud yn mynd i'r afael â diffygion sy'n codi o ymadael â'r UE ac mae'n sicrhau y bydd y drefn bresennol ar gyfer diogelu bioddiogelwch yn parhau i weithredu'n effeithiol.

2. Rhesymau da

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Yn fy marn i, mae rhesymau da dros y darpariaethau yn yr offeryn hwn, ac rwyf wedi dod i'r casgliad ei bod yn ffordd resymol i weithredu”.

Y rhain yw bod pryder ymysg y cyhoedd ynghylch bioddiogelwch a dylai'r Llywodraeth o leiaf gadw'r mesurau diogelu sy'n bodoli ar hyn o bryd.

3. Cydraddoldeb

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad canlynol:

“Nid yw Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 yn diwygio, yn diddymu nac yn dirymu darpariaeth neu ddarpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2006 na Deddf Cydraddoldeb 2010 nac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau hynny.”

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Mewn perthynas â Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020, rwyf i, Lesley Griffiths, wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad o fath arall sydd wedi'i wahardd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.”

4. Esboniadau

Mae'r datganiad esboniadau wedi'i wneud yn adran 4 (Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael) o brif gorff y memorandwm esboniadol hwn.

5. Troseddau

Nid yw'n berthnasol/angenrheidiol.

6. Is-ddirprwyo deddfwriaethol

Nid yw'n berthnasol/angenrheidiol.

7. Brys

Nid yw'n berthnasol/angenrheidiol.

Eitem 5.5

SL(5)672 – Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Diben y Rheoliadau hyn yw sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n effeithiol unwaith y bydd y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Rheoliadau yn diwygio cyfeiriadau diangen at gyfreithiau a systemau'r UE na fyddant bellach yn berthnasol ar ddiwedd y cyfnod gweithredu. Mae'r diwygiadau arfaethedig yn cael eu gwneud yn unol â'r Ddeddf Ymadael er mwyn sicrhau nad oes unrhyw rwystr deddfwriaethol i symud anifeiliaid byw (gan gynnwys ceffylau), a masnachu mewn cynhyrchion anifeiliaid (gan gynnwys cig) gyda'r UE a thrydydd gwledydd rhestredig eraill ar ddiwedd y cyfnod gweithredu.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau gweithredol i Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011 ("Rheoliadau 2011"). Mae Rhan 3 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i offerynnau statudol eraill sy'n berthnasol i'r fasnach mewn anifeiliaid a chynhyrchion perthynol.

Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno yn unol â Rheol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2 (v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae Rheoliad 3 (a)(i) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliad 2(1) o Reoliadau 2011 drwy ddarparu mai ystyr "*safle rheoli ar y ffin*" yw'r hyn a nodir yn Rheoliad 11 o Reoliadau 2011.

Gofynnir am eglurhad pam y gwneir y diwygiad hwn o gofio bod Rheoliad 2(3)(c) o Reoliadau 2011 yn barod yn darparu bod "*safle rheoli ar y ffin*" ("*border control post*") wedi'i ddiffinio yn Rheoliad 11.



Rhinweddau: craffu

Mae'r ddau bwynt a ganlyn wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt yn unol â Rheol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae Rheoliadau 2011, y mae'r Rheoliadau hyn yn eu diwygio, yn sefydlu system i fasnachu anifeiliaid byw a deunydd genetig ac i fewnforio anifeiliaid byw, deunydd genetig a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid. Nodir bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi lansio [ymgyngoriad yng Nghymru a Lloegr](#) ar 3 Rhagfyr am gyfnod o wyth wythnos, gan ofyn barn am sut i ddiogelu lles anifeiliaid wrth iddynt gael eu cludo. Mae'r ymgynghoriad yn bennaf yn trafod dirwyn i ben yr arfer o allforio anifeiliaid byw ar gyfer eu lladd a'u pesgi pan fo'r teithiau hynny'n cychwyn yng Nghymru neu Lloegr neu'n croesi'r gwledydd hyn, ac am ffyrdd o wella lles anifeiliaid wrth eu cludo yn fwy cyffredinol. Er nad yw'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn yn uniongyrchol, mae themâu cyffredin yn codi mewn perthynas â lles anifeiliaid a'r system ar gyfer masnachu anifeiliaid byw ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mewn [datganiad i'r wasg](#), mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn nodi ei bod yn cydnabod bod iechyd a lles anifeiliaid yn fater sydd wedi'i ddatganoli'n llawn, gan ychwanegu ei bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar yr ymgynghoriad hwn. O ran Llywodraeth yr Alban, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn nodi y bydd yn trafod canlyniadau'r ymgynghoriad â Llywodraeth yr Alban, gyda'r nod o sicrhau bod rheolau tebyg yn gymwys ledled Prydain Fawr ynghylch gwella'r camau a gymerir i ddiogelu anifeiliaid sy'n cael eu cludo.

O dan y rhaglen fframweithiau cyffredin, cytunodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig i weithio gyda'i gilydd i sefydlu dulliau cyffredin mewn rhai meysydd sydd wedi'u llywodraethu gan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd, ond eu bod fel arall o fewn cymhwysedd y gweinyddiaethau neu ddeddfwrfeydd datganoledig. Iechyd a lles anifeiliaid yw un o'r meysydd a nodwyd o dan y rhaglen fframweithiau cyffredin.

Mae'n nodedig bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cynnal ymgynghoriad ar ymwahaniad posibl i ffwrdd oddi wrth reolau'r Undeb Ewropeaidd ynghylch lles anifeiliaid yn absenoldeb cytundeb rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig ar fframwaith amgen.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodir bod Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol drwy lythyr a anfonwyd ar 17 Tachwedd 2020, yn unol â'r gofyniad o dan baragraff 4 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 fod Gweinidogion Cymru yn ymgynghori â'r



Ysgrifennydd Gwladol ar unrhyw ddarpariaethau a wneir o dan y pwerau hynny, y disgwylir iddynt ddod i rym cyn diwedd y cyfnod gweithredu.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ac eithrio'r materion a nodir uchod, ni nodir unrhyw oblygiadau eraill i gyflwyno adroddiad arnynt yn unol â Rheol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Ymateb gan Lywodraeth Cymru

Pwynt Craffu Technegol 1:

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwynt adrodd hwn ac yn nodi nad oes angen y diwygiad hwn gan fod rheoliad 2(3)(c) o Reoliadau 2011 eisoes yn darparu bod "safle rheoli ar y ffin" wedi ei ddiffinio yn rheoliad 11. Bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i gywiro hyn ar y cyfle addas nesaf.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 1:

Mae swyddogion o bob un o'r pedair Gweinyddiaeth ar y cyd wedi llunio'r Fframwaith Cyffredin dros dro ar lechyd a Lles Anifeiliaid, sy'n nodi'r trefniadau llywodraethu hirdymor mewn meysydd a fydd yn dychwelyd i'r DU ar ôl iddi ymadael â'r UE a'r meysydd sy'n gorgyffwrdd â chymhwysedd datganoledig. Mae'n adeiladu ar y berthynas dda sydd rhwng pob un o'r gweinyddiaethau datganoledig ym maes iechyd a lles anifeiliaid, ac yn defnyddio trefniadau llywodraethu megis cyrff ar y cyd y gweinyddiaethau datganoledig sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch polisi: y Grŵp Polisi Clefydau Anifeiliaid a'r Grŵp Polisi Lles Anifeiliaid.

Mae'r Fframwaith Cyffredin ar lechyd a Lles Anifeiliaid yn cynnwys ymrwymiad i beidio â gwyro oddi wrth safonau sylfaenol mewn modd sy'n niweidiol i fioddio gelwch, lles neu farchnad fewnol y DU ar draws meysydd polisi perthnasol pan fo hynny'n bygwth Egwyddorion y Fframwaith Cyffredin, ond gan gadw'r cymhwysedd i ddeddfu'n annibynnol.

Ni fydd hyn yn effeithio ar allu pob gweinyddiaeth i wyro uwchlaw'r safonau hyn, ond dylid hefyd hysbysu'r gweinyddiaethau eraill am benderfyniadau o'r fath, fel bod modd nodi unrhyw risg o wyro mewn modd niweidiol ac ymdrin â hynny'n unol â'r trefniadau a nodir yn y Fframwaith.

Bydd y pedair gweinyddiaeth ar y cyd yn ystyried unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid er mwyn sicrhau bod y safonau uchaf posibl yn parhau i gael eu harfer.

Mae'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i fewnforion anifeiliaid, cynhyrchion eginol anifeiliaid a chynhyrchion eraill, ond nid i allforion.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y cyd â Llywodraeth y DU ar gynigion i ddirwyn i ben allforio anifeiliaid byw (ac eithrio dofednod) i'w cigyddu a'u pesgi pan fo'r siwrneiau'n cychwyn yng Nghymru neu yn Lloegr neu'n teithio drwy Gymru neu Loegr. Mae ymadael â'r UE wedi ein galluogi i fynd ar drywydd y cynigion hyn a fyddai'n atal anifeiliaid rhag dioddef



yn ddianghenraid wrth gael eu cludo. Rydym hefyd yn ymgynghori ar gynigion i wella lles anifeiliaid ymhellach wrth eu cludo yn fwy cyffredinol, megis: lleihau hyd y siwrneiau hiraf a ganiateir; mwy o le i'r anifeiliaid a mwy o le uwch eu pennau wrth eu cludo; rheolau llymach ar gludo anifeiliaid mewn tymheredd eithafol; a rheolau llymach ar gludo anifeiliaid byw ar y môr.

Daw'r ymgynghoriad ar y cyd rhwng Defra a Llywodraeth Cymru yn sgil galwad gynharach am dystiolaeth gan Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ym mis Ebrill 2018 ynghylch rheoli allforion anifeiliaid byw i'w cigydda a gwella lles anifeiliaid wrth eu cludo, a Barn y Pwyllgor Lles Anifeiliaid a Ffermir (Pwyllgor Lles Anifeiliaid (Prydain Fawr) bellach) ar Les Anifeiliaid wrth eu Cludo (2019). Dylid nodi, gan fod anifeiliaid at ei gilydd yn symud heb gyfyngiadau o fewn 'marchnad sengl' Prydain Fawr, fod angen i bob gweinyddiaeth gydweithio'n agos â'i gilydd, oherwydd gallai gwyro o ran cyfyngiadau mewn un wlad olygu bod y fasnach yn digwydd yn rhywle arall.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

4 Rhagfyr 2020



Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2020 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**IECHYD ANIFEILIAID,
CYMRU**

Rheoliadau'r Fasnach mewn
Anifeiliaid a Chynhyrchion
Perthynol (Cymru) (Diwygio)
(Ymadael â'r UE) 2020

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r fasnach mewn anifeiliaid a chynhyrchion perthynol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2020 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**IECHYD ANIFEILIAID,
CYMRU**

Rheoliadau'r Fasnach mewn
Anifeiliaid a Chynhyrchion
Perthynol (Cymru) (Diwygio)
(Ymadael â'r UE) 2020

Gwnaed

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 2(2) i'r Ddeddf honno, i'r graddau y daw'r Rheoliadau hyn i rym cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol.

Yn unol â pharagraff 1(9) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, mae drafft o'r offeryn hwn wedi ei osod

-
- (1) 2018 p. 16. Diwygiwyd paragraff 21 o Atodlen 7 gan baragraff 53 o Ran 2 o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1).
- (2) Diwygiwyd paragraff 4 o Atodlen 2 gan adran 27(7)(a) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1).

gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddi(1).

RHAN 1

Rhagarweiniol

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Daw Rhan 1 a Rhan 3 i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(3) Daw Rhan 2 i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

RHAN 2

Diwygio Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011

Diwygio Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011

2. Mae Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

3. Yn rheoliad 2—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn y lleoedd priodol mewnoder—

“mae i “DMIG” (“*CHED*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 10;”;

“mae i “safle rheoli ar y ffin” (“*border control post*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 11;”;

“ystyr “system rheoli gwybodaeth gyfrifiadurol briodol” (“*appropriate computerised information management system*”) yw'r system rheoli gwybodaeth gyfrifiadurol ar gyfer rheolaethau swyddogol y cyfeirir ati yn Erthygl 131 o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol;”;

(1) Mae'r cyfeiriad yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(2) O.S. 2011/2379 (Cy. 252), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/1152 (Cy. 234), O.S. 2018/1216 (Cy. 249), O.S. 2019/463 (Cy. 111), O.S. 2019/597 (Cy. 126), O.S. 2019/799 (Cy. 151), O.S. 2020/44 (Cy. 5) ac O.S. 2020/177 (Cy. 38).

“ystyr “trydedd wlad” (“*third country*”) yw unrhyw wlad neu diriogaeth heblaw Ynysoedd Prydain.”;

- (ii) yn y diffiniad o “mewnforiwr” (“*importer*”), yn lle “i’r Deyrnas Unedig” rhodder “i Ynysoedd Prydain”;
- (iii) yn y diffiniad o “rheolaethau swyddogol dwysach” (“*intensified official controls*”), yn lle “o Reoliad yr UE” rhodder “o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”;
- (iv) yn y diffiniad o “rheolaethau swyddogol” (“*official controls*”), yn lle “o Reoliad yr UE” rhodder “o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”;
- (v) yn y diffiniad o “cynnyrch” (“*product*”), yn lle “arolygfeydd ffin” rhodder “safleoedd rheoli ar y ffin”;

(b) hepgorer paragraff (2);

(c) ym mharagraff (3)—

- (i) yn is-baragraff (a), yn lle “mae “Rheoliad yr UE” (“*the EU Regulation*”)” rhodder “mae’r “Rheoliad Rheolaethau Swyddogol” (“*Official Controls Regulation*”)”;
- (ii) hepgorer is-baragraff (ch).

4. Yn rheoliad 3—

(a) yn lle’r pennawd rhodder “**Anifeiliaid anwes**”;

(b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

“(1A) Yn ychwanegol at ofynion y Rheoliadau hyn, ni chaniateir symud cŵn, cathod a ffuredau sydd heb eu hesemptio gan baragraff (1) i Gymru o drydedd wlad oni bai eu bod yn cydymffurfio â’r gofynion a nodir yn—

- (a) pwyntiau (a) i (d) o Erthygl 10(1) o’r Rheoliad Anifeiliaid Anwes, yn ddarostyngedig i baragraff (1) o Erthygl 12 i’r Rheoliad hwnnw; a
- (b) Penderfyniad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2019/294 yn nodi’r rhestr o diriogaethau a thrydydd gwledydd a awdurdodir o ran mewnfario cŵn, cathod a ffuredau a’r dystysgrif iechyd anifeiliaid enghreifftiol ar gyfer mewnfario o’r fath.”

5. Hpgorer rheoliad 4.

6. Hpgorer Rhan 2.

7. Yn rheoliad 9—

- (a) yn lle “Mae’r Rhan hon” rhodder “Yn ddarostyngedig i reoliad 26, mae’r Rhan hon”;
- (b) yn lle “o wlad sydd y tu allan i’r Undeb Ewropeaidd” rhodder “o drydedd wlad”.

8. Yn rheoliad 10(4), yn lle “o Reoliad yr UE” rhodder “o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”.

9. Yn rheoliad 11—

- (a) ym mharagraff (1), yn lle “o Reoliad yr UE” yn y lle cyntaf y mae’n digwydd hyd at y diwedd rhodder “o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”;
- (b) ym mharagraff (2), yn lle “o Reoliad yr UE” rhodder “o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”;
- (c) ym mharagraff (4), hepgorer “, a rhaid iddo hysbysu’r Comisiwn am yr ataliad dros dro a’r rheswm drosto”.

10. Yn rheoliad 14—

- (a) ym mharagraff (1), ar ôl “neu gynhyrchion” mewnosoder “, drwy’r system rheoli gwybodaeth gyfrifiadurol briodol,”;
- (b) ym mharagraff (3), yn lle “DMMG” rhodder “DMIG”.

11. Yn rheoliad 15—

- (a) ym mharagraff (1)—
 - (i) yn lle “â’r ddogfennaeth a bennir ar gyfer y llwyth hwnnw yn y ddeddfwriaeth berthnasol yn Atodlen 1” rhodder “â’r dystysgrif iechyd allforio berthnasol, yn y ffurf a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru neu’r Ysgrifennydd Gwladol, a dogfennaeth arall a bennir ar gyfer y llwyth hwnnw yng nghyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy’n ymwneud â mewnforio”;
 - (ii) yn is-baragraff (a), yn lle “o Reoliad yr UE” rhodder “o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”;
- (b) ym mharagraff (4)—
 - (i) yn is-baragraff (a), yn lle “yn y rhestri” hyd at y diwedd rhodder “mewn rhestr a lunnir yn unol â deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir ar gyfer y rhywogaeth dan sylw neu y gwaherddir mewnforyn ohoni fel arall o dan y ddeddfwriaeth honno o drydydd gwledydd a gymeradwywyd, neu os gwaherddir mewnforyn o’r wlad neu’r diriogaeth honno fel arall”;

- (ii) yn is-baragraff (c), yn lle “yn neddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd” rhodder “yn neddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy’n ymwneud â mewnfario”;
- (iii) yn is-baragraff (d), yn lle “deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd” rhodder “deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir”;
- (c) ym mharagraff (5)(b), ar ôl “gynnyrch arall” mewnosoder “neu anifail byw”.

12. Yn rheoliad 17—

- (a) yn lle “yn y Deyrnas Unedig neu mewn Aelod-wladwriaeth” rhodder “ym Mhrydain Fawr”;
- (b) yn lle “hysbysu Gweinidogion Cymru ar unwaith ei fod wedi cyrraedd” rhodder “hysbysu’r awdurdod priodol ar unwaith ei fod wedi cyrraedd, ac at y diben hwn ystyr “awdurdod priodol” (“*appropriate authority*”) yw Gweinidogion Cymru (o ran Cymru), yr Ysgrifennydd Gwladol (o ran Lloegr) a Gweinidogion yr Alban (o ran yr Alban)”.

13. Yn rheoliad 18—

- (a) ac eithrio yn y lle cyntaf y mae’n digwydd ym mharagraff (3), ym mhob lle arall, gan gynnwys yn y pennawd, yn lle “i’r Deyrnas Unedig” rhodder “i Brydain Fawr”;
- (b) ym mharagraff (2)—
 - (i) yn lle “anifail a draddodir i gyrchfan y tu allan i’r Undeb Ewropeaidd” rhodder “anifail a fewnforir”;
 - (ii) yn lle “y gyrchwlad” rhodder “y wlad neu’r diriogaeth a gyrchir”;
- (c) ym mharagraff (3), yn lle “sy’n cyrraedd safle rheoli ar y ffin sydd â chyrchfan derfynol y tu allan i’r Deyrnas Unedig” rhodder “a fewnforir”;
- (d) ym mharagraff (4)—
 - (i) yn lle “yn yr Undeb Ewropeaidd” rhodder “yn Ynysoedd Prydain”;
 - (ii) yn lle “i’r Undeb Ewropeaidd” rhodder “i unrhyw un o diriogaethau Ynysoedd Prydain”.

14. Yn rheoliad 19—

- (a) ym mharagraff (a), yn lle “arolygfa ffin” rhodder “safle rheoli ar y ffin”;
- (b) ym mharagraff (b), yn y testun Saesneg, ar ôl “CHED or” mewnosoder “without”.

15. Yn rheoliad 20—

- (a) ym mhob lle y mae'n digwydd, yn lle "o Reoliad yr UE" rhodder "o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol";
- (b) ym mharagraff (1), yn lle "yn Erthygl 1(2)" rhodder "ym Mhennod 5 o Deitl 2";
- (c) ym mharagraff (2)—
 - (i) ar ôl "gynrychiolydd y mewnoforiwr," mewnosoder "ac yn unol ag Erthygl 68(1)(b) o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol,";
 - (ii) yn lle "i'r Deyrnas Unedig" rhodder "i Gymru";
- (d) ym mharagraff (3)—
 - (i) yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), yn lle "Caiff y milfeddyg" rhodder "Rhaid i'r milfeddyg";
 - (ii) yn is-baragraff (a), yn lle "yn Erthygl 1(2)" rhodder "ym Mhennod 5 o Deitl 2";
 - (iii) yn is-baragraff (b)—
 - (aa) yn lle "i'r Undeb Ewropeaidd" rhodder "i Brydain Fawr";
 - (bb) yn lle "i gyrraedd" rhodder "o ddyddiad yr hysbysiad swyddogol o benderfyniad yr awdurdod gorfodi ar ôl i'r llwyth gyrraedd".

16. Yn rheoliad 21, yn lle "o Reoliad yr UE" rhodder "o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol".

17. Yn rheoliad 22—

- (a) ym mharagraff (1)—
 - (i) yn lle "i'r Deyrnas Unedig" rhodder "i Brydain Fawr";
 - (ii) yn lle "mae'r rheoliad hwn yn gymwys" hyd at y diwedd rhodder "caiff yr awdurdod gorfodi ofyn am wiriadau ffisegol ychwanegol a chymryd samplau i'w profi neu i'w dadansoddi o lwythi dilynol o'r ffynhonnell dan sylw a chymryd mesurau priodol yn unol ag Adran 3 o Bennod 5 o Deitl 2 o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol";
- (b) ym mharagraff (3), ar y diwedd mewnosoder "o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol";
- (c) yn lle paragraff (4) rhodder—

"(4) Pan hysbysir y person sy'n gyfrifol am lwythi y bydd angen gwiriadau ychwanegol yn unol â pharagraff (1), rhaid i'r person hwnnw, cyn i lwythi yn y dyfodol gyrraedd unrhyw safle rheoli ar y ffin, gyflwyno blaendal neu warant i'r awdurdod gorfodi perthnasol sy'n ddigon i dalu'r holl gostau y bydd yr awdurdod gorfodi

hwnnw'n mynd iddynt, gan gynnwys costau cymryd samplau a chynnal profion neu ddadansoddiadau.”

18. Yn rheoliad 23—

- (a) ym mharagraff (1), yn lle “yn Erthygl 1(2)” rhodder “ym Mhennod 5 o Deitl 2”;
- (b) ym mhob lle y mae'n digwydd, yn lle “o Reoliad yr UE” rhodder “o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”.

19. Yn rheoliad 26—

- (a) yn y pennawd, ar ôl “Eithrio” mewnosoder “, rhanddirymu ac addasiadau”;
- (b) daw'r testun presennol yn baragraff (1);
- (c) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—
 - “(2) Mae darpariaethau'r Rhan hon yn gymwys yn ddarostyngedig i'r rhanddirymiadau a'r addasiadau a nodir yn Atodlen 5.
 - (3) Mae paragraff (2) (ac Atodlen 5) yn cael effaith ac yn parhau mewn grym o'r adeg yn union ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu tan ddiwedd y dydd ar 31 Gorffennaf 2021.”

20. Yn rheoliad 27—

- (a) ym mhob lle y mae'n digwydd, yn lle “o'r Undeb” rhodder “o Brydain Fawr”;
- (b) hepgorer paragraff (1A);
- (c) ym mharagraff (3)(a)—
 - (i) hepgorer “yn yr Aelod-wladwriaeth lle y dyroddwyd y dystysgrif”;
 - (ii) yn lle “yr arolygfa ffin” rhodder “y safle rheoli ar y ffin”.

21. Yn lle rheoliad 28 rhodder—

“Derbyn cynhyrchion i warysau gan gydymffurfio â gweithdrefnau'r Tollau a gweithdrefnau storio

28. Ni chaiff neb ddod â llwyth o gynhyrchion i Brydain Fawr nad yw'n cydymffurfio â gofynion mewnforynau'r Rheoliadau hyn a gweithdrefnau'r Tollau a'r gweithdrefnau storio ar gyfer mewnforynion yn Neddf Trethiant (Masnach Drawsffiniol) 2018(1).”

22. Yn rheoliad 29—

- (a) ym mharagraff (1)—

(1) 2018 p. 22.

- (i) yn lle “i’r Deyrnas Unedig”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “i Brydain Fawr”;
 - (ii) yn is-baragraff (a), ar ôl “mewn gwlad” mewnosoder “neu diriogaeth”; ac ar ôl “o’r wlad”, yn y ddau le y mae’n digwydd, mewnosoder “neu’r diriogaeth”;
 - (iii) yn is-baragraff (b), yn lle “Reoliad yr UE” hyd at “Aelod-wladwriaeth” rhodder “y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol mewn perthynas â mewnfôrion”;
- (b) ym mharagraff (2)—
- (i) yn is-baragraff (a), ar ôl “wlad” mewnosoder “neu’r diriogaeth”;
 - (ii) yn is-baragraff (b)(ii)—
 - (aa) hepgorer “o’r Undeb Ewropeaidd”;
 - (bb) yn lle “Reoliad yr UE” rhodder “y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”;
 - (cc) yn lle “gwledydd eraill” rhodder “trydydd gwledydd”.

23. Yn rheoliad 32(4), yn lle “Erthygl 134 o Reoliad (EU) Rhif 952/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor sy’n nodi Cod Tollau’r Undeb” rhodder “Ddeddf Trethiant (Masnach Drawsffiniol) 2018”.

24. Yn rheoliad 34(f), yn lle “Reoliad yr UE” rhodder “y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”.

25. Yn rheoliad 35—

- (a) ym mharagraff (1)—
 - (i) yn y lle cyntaf y mae’n digwydd, yn lle “Weinidogion Cymru” rhodder “yr awdurdod gorfodi priodol”;
 - (ii) yn yr ail le y mae’n digwydd, yn lle “Weinidogion Cymru” rhodder “yr awdurdod gorfodi hwnnw”;
- (b) ym mharagraff (3)—
 - (i) yn lle “Gweinidogion Cymru” rhodder “yr awdurdod gorfodi priodol”;
 - (ii) yn lle “Weinidogion Cymru” rhodder “yr awdurdod gorfodi hwnnw”;
 - (iii) yn lle “yn unol ag Erthygl 1(2) o Reoliad yr UE” rhodder “yn unol â Phennod 5 o Deitl 2 o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”;
- (c) ym mharagraffau (4) i (6), ym mhob lle y mae’n digwydd, yn lle “Weinidogion Cymru” rhodder “yr awdurdod gorfodi”.

26. Yn rheoliad 36, ym mhob lle y mae'n digwydd, yn lle "neu Reoliad yr UE" rhodder "neu'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol".

27. Yn rheoliad 37(1), yn lle "i'r awdurdodau gorfodi yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon" rhodder "i awdurdod gorfodi mewn unrhyw un o diriogaethau Ynysoedd Prydain".

28. Yn rheoliad 38—

- (a) yn lle "Weinidogion Cymru" rhodder "awdurdod gorfodi";
- (b) yn lle "o Reoliad yr UE" rhodder "o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol".

29. Yn rheoliad 39, yn y tabl—

- (a) hepgorer y rhesi ar gyfer "rheoliad 5(1) ac (1A)" hyd at "rheoliad 7" (gan gynnwys y cofnodion cyfatebol yn yr ail golofn);
- (b) yn y rhesi ar gyfer "rheoliad 16(1)" a "rheoliad 16(2)", yn y cofnodion cyfatebol yn yr ail golofn yn lle "DMMG" rhodder "DMIG";
- (c) yn y rhes ar gyfer "rheoliad 28", yn lle'r cofnod cyfatebol yn yr ail golofn rhodder "Mewnforio cynnyrch nad yw'n cydymffurfio â gofynion mewnforio'r Rheoliadau hyn a gweithdrefnau'r Tollau a'r gweithdrefnau storio ar gyfer mewnforion yn Neddf Trethiant (Masnach Drawsffiniol) 2018";
- (d) yn yr adran ar gyfer Atodlen 2, hepgorer y rhesi ar gyfer "paragraff 5(1)" hyd at "paragraff 7" (gan gynnwys y cofnodion cyfatebol yn yr ail golofn);
- (e) hepgorer y rhes ar gyfer "Atodlen 3 paragraff 4(3)" (gan gynnwys y cofnod cyfatebol yn yr ail golofn).

30. Yn Atodlen 2—

- (a) yn lle'r cyfeirnod cwr tudalen, rhodder "Rheoliad 25";
- (b) hepgorer Rhan 1;
- (c) yn Rhan 2, hepgorer paragraff 10.

31. Yn Atodlen 3—

- (a) yn lle'r cyfeirnod cwr tudalen rhodder "Rheoliad 26(1)";
- (b) ym mharagraff 2, yn lle "o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn" hyd at y diwedd rhodder "o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2122";
- (c) ym mharagraff 4—

- (i) yn is-baragraff (1), yn lle “Reoliad (EU) Rhif 142/2011” rhodder “Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011”;
- (ii) hepgorer is-baragraff (2);
- (d) yn lle paragraff 5 rhodder—

“Achos 4: Llwythi a gliriwyd ym Mhrydain Fawr

5. Llwythi o anifeiliaid a chynhyrchion o drydydd gwledydd a gyflwynwyd i unrhyw safle rheoli ar y ffin ym Mhrydain Fawr ac a gliriwyd ar gyfer cylchrediad rhydd.”;

- (e) ym mharagraff 6(2)(ch), yn lle “mewn iaith swyddogol Aelod-wladwriaeth” rhodder “mewn Saesneg (p’un a yw’n ymddangos mewn unrhyw iaith arall ai peidio)”.

32. Ar ôl Atodlen 4 mewnosoder—

“ATODLEN 5 Rheoliad 26(2)

Cymhwyso Rhan 3, ei rhanddirymu a’u haddasu, mewn perthynas â thiriogaethau sy’n ddarostyngedig i drefniadau mewnforio trosiannol arbennig

RHAN 1

Rhagarweiniol

Cymhwyso

1. Mae’r Atodlen hon yn gymwys i gynhyrchion ac anifeiliaid byw sy’n tarddu o’r canlynol—

- (a) tiriogaeth sy’n ddarostyngedig i drefniadau mewnforio trosiannol arbennig; neu
- (b) trydedd wlad heblaw tiriogaeth sy’n ddarostyngedig i drefniadau mewnforio trosiannol arbennig lle bo’r cynhyrchion neu’r anifeiliaid byw dan sylw, cyn cael eu mewnforio i Gymru—
 - (i) wedi eu cyflwyno i safle rheoli ar y ffin mewn Aelod-wladwriaeth a gydnabyddir gan Weinidogion Cymru;
 - (ii) â DMIG yn cyd-fynd â hwy sydd wedi ei llenwi er boddhad yr awdurdod perthnasol; a
 - (iii) wedi eu rhaghysbysu.

Dehongli

2. At ddibenion yr Atodlen hon—

ystyr “diwrnod gwaith” (“*working day*”) yw diwrnod heblaw dydd Sadwrn neu ddydd Sul nad yw’n ddydd Nadolig, dydd Gwener y Groglith neu ŵyl banc o dan adran 1 o Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(1);

ystyr “nwyddau perthnasol” (“*relevant goods*”) yw cynhyrchion ac anifeiliaid byw sy’n dod o fewn paragraff 1;

ystyr “rhanghysbysu” (“*pre-notified*”) yw hysbysu gan ddefnyddio’r system rheoli gwybodaeth gyfrifiadurol briodol;

ystyr “tiriogaeth sy’n ddarostyngedig i drefniadau mewnforio trosiannol arbennig” (“*territory subject to special transitional import arrangements*”) yw—

- (a) un o Aelod-wladwriaethau’r UE;
- (b) Ynysoedd Ffaröe;
- (c) Yr Ynys Las;
- (d) Gwlad yr Iâ;
- (e) Liechtenstein;
- (f) Norwy;
- (g) Y Swistir.

Cymhwyso Rhan 3 o’r Rheoliadau hyn, ei rhanddirymu a’u haddasu

3. Mae darpariaethau Rhan 3 o’r Rheoliadau hyn yn gymwys i nwyddau perthnasol gyda’r rhanddirymiadau a’r addasiadau a bennir yn Rhan 2 o’r Atodlen hon.

RHAN 2

Rhanddirymu Rhan 3 o’r Rheoliadau hyn a’i haddasu

Rhanddirymu rheoliad 13: lle mewnforio

4.—(1) Nid yw rheoliad 13 yn gymwys i nwyddau perthnasol.

(2) Nid yw’n ofynnol i nwyddau perthnasol ddod i Gymru drwy safle rheoli ar y ffin a chaniateir iddynt ddod i Gymru drwy unrhyw bwynt mynediad.

(1) 1971 p. 80.

Rhanddirymu rheoliad 14: amseru hysbysiad mewnforio

5.—(1) Nid yw rheoliad 14 yn gymwys i nwyddau perthnasol.

(2) O 1 Ionawr 2021 ymlaen, rhaid i nwyddau perthnasol o'r disgrifiadau a ganlyn gael eu rhaghysbysu o leiaf un diwrnod gwaith cyn yr amser y disgwylir iddynt gyrraedd pwynt mynediad i Gymru—

- (a) anifeiliaid byw;
- (b) cynhyrchion eginol;
- (c) sgil-gynhyrchion anifeiliaid sy'n ffurfio—
 - (i) deunydd Categori 1;
 - (ii) deunydd Categori 2;
 - (iii) protein anifeiliaid wedi ei brosesu sy'n deillio o ddeunydd Categori 3,

ond pan all y mewnforiwr ddarparu tystiolaeth o gyfyngiad logistaidd sy'n atal hysbysiad o'r fath, caniateir i'r gofyniad hwnnw gael ei fodloni drwy hysbysu'r amser y disgwylir iddynt gyrraedd o leiaf bedair awr ymlaen llaw.

(3) O 1 Ebrill 2021 ymlaen, rhaid i nwyddau perthnasol sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid gael eu rhaghysbysu o leiaf un diwrnod gwaith cyn yr amser y disgwylir iddynt gyrraedd pwynt mynediad i Gymru; ond pan all y mewnforiwr ddarparu tystiolaeth o gyfyngiad logistaidd sy'n atal hysbysiad o'r fath, caniateir i'r gofyniad hwnnw gael ei fodloni drwy hysbysu'r amser y disgwylir iddynt gyrraedd o leiaf bedair awr ymlaen llaw.

(4) At ddibenion y paragraff hwn—

- (a) mae i “deunydd Categori 1”, “deunydd Categori 2” a “deunydd Categori 3” yr ystyr a roddir i “Category 1 material”, “Category 2 material” a “Category 3 material” yn Erthyglau 8 i 10 o Reoliad (EC) Rhif 1069/2009;
- (b) mae i “protein anifeiliaid wedi ei brosesu” yr ystyr a roddir i “processed animal protein” ym mhwynt 5 o Atodiad 1 i Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011.

Rhanddirymu rheoliad 15: gweithdrefn wrth fewnforio

6.—(1) Nid yw rheoliad 15 yn gymwys i nwyddau perthnasol ond—

- (a) rhaid i reolaethau swyddogol ddigwydd yn y gyrchfan a nodir yn y dogfennau mewnforio cysylltiedig perthnasol ar hap neu ar sail y risg, ac yn unol â rheoliad 29 a 35;
- (b) o 1 Ionawr 2021 ymlaen, o ran nwyddau perthnasol sy'n cynnwys—

- (i) anifeiliaid byw neu gynhyrchion eginol ni chaniateir eu mewnfurio i Gymru oni bai bod y dystysgrif iechyd briodol ar gyfer mewnfurion o drydedd wlad yn cyd-fynd â hwy, ar y ffurf a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol;
- (ii) cynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid a sgil-gynhyrchion anifeiliaid rhaid iddynt gael dogfennau masnachol perthnasol yn cyd-fynd â hwy sydd o leiaf yn nodi'r fangre wreiddiol a'r gyrchfan ac sy'n cynnwys disgrifiad o'r cynnyrch a swm y cynnyrch; ac
- (c) o 1 Ebrill 2021 ymlaen, ni chaniateir mewnfurio nwyddau perthnasol sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid i Gymru oni bai bod y dystysgrif iechyd briodol ar gyfer mewnfurion o drydedd gwlad yn cyd-fynd â hwy, ar y ffurf a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol.

(2) Rhaid i'r dogfennau a ddisgrifir yn is-baragraff (1)(b) ac (c) gyd-fynd â'r llwyth o nwyddau perthnasol o dan sylw i'w gyrchfan.

Rhanddirymu rheoliad 19(a): llwythi heb eu gwirio

7. Nid yw rheoliad 19(a) yn gymwys i nwyddau perthnasol sydd wedi dod i Gymru drwy bwynt mynediad heblaw safle rheoli ar y ffin yn unol â'r Atodlen hon.

Addasu rheoliad 20: gweithredu yn dilyn methiant gwiriadau neu yn dilyn cipio – cynhyrchion

8. Mae rheoliad 20 yn gymwys fel pe bai—

- (a) ym mharagraff (1), “neu, yn achos nwyddau perthnasol, nad yw'n cydymffurfio â darpariaethau Atodlen 5” wedi ei fewnosod ar ôl “Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”;
- (b) ym mharagraff (3)(b)—
 - (i) “o'r un safle rheoli ar y ffin” wedi ei hepgor;
 - (ii) “Cymru” wedi ei roi yn lle “y safle rheoli ar y ffin”.

Addasu rheoliad 23: gweithredu yn dilyn methiant gwiriadau neu yn dilyn cipio – anifeiliaid

9. Mae rheoliad 23 yn gymwys fel pe bai, ym mharagraff (1), “neu, yn achos nwyddau perthnasol, nad yw'n cydymffurfio â darpariaethau Atodlen 5” wedi ei fewnosod ar ôl “Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”.

Rhanddirymu rheoliad 27: aifewnforio anifeiliaid a chynhyrchion

10.—(1) Nid yw rheoliad 27 yn gymwys o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn is-baragraff (2).

(2) Nid yw'n ofynnol i gynhyrchion ac anifeiliaid byw sy'n tarddu o Gymru ac y gwrthodwyd iddynt fynd i'r Undeb Ewropeaidd mewn un o safleoedd rheoli'r Undeb Ewropeaidd ar y ffin ddod i mewn i Gymru eto drwy safle rheoli ar y ffin—

- (a) yn achos cynhyrchion ac anifeiliaid byw nad ydynt yn peri risg uchel, os oes hysbysiad wedi ei roi i Weinidogion Cymru neu i'r Asiantaeth Safonau Bwyd eu bod yn dod i mewn i Gymru eto;
- (b) yn achos cynhyrchion ac anifeiliaid byw sydd yn peri risg uchel, os yw Gweinidogion Cymru neu'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi rhoi awdurdod mewn ysgrifen iddynt ddod i mewn eto cyn eu bod i fod i ddod i mewn eto.

(3) Yn y paragraff hwn, ystyr “risg uchel” yw yr amheuir bod y cynhyrchion neu'r anifeiliaid byw yn peri risg ddifrifol i iechyd pobl neu anifeiliaid neu i les anifeiliaid.

RHAN 3

Rheolau ychwanegol mewn perthynas â nwyddau perthnasol sy'n anifeiliaid byw

Anifeiliaid byw

11.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â nwyddau perthnasol sy'n anifeiliaid byw.

(2) Rhaid i'r anifeiliaid byw barhau i gael eu symud dan gyfyngiadau yn y gyrchfan a nodir yn y dystysgrif iechyd hyd nes y bydd y dystysgrif iechyd wedi ei chwblhau ac wedi ei llofnodi wedi cael ei huwchlwytho i'r system rheoli gwybodaeth gyfrifiadurol briodol.

(3) Rhaid i'r person sy'n gyfrifol am gludo'r anifeiliaid byw i'r gyrchfan fod â'r awdurdod priodol ganddo yn unol â Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005.”

RHAN 3

Diwygiadau canlyniadol i offerynnau statudol eraill

Diwygio Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003

33. Yng Ngorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003(1), ym mharagraff 7 o Atodlen 1, hepgorer “a gymeradwywyd o dan Ran 1 o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011”.

Diwygio Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

34. Yn Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019(2), hepgorer rheoliad 3.

Diwygio Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

35. Yn Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019(3), hepgorer rheoliad 3.

Diwygio Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019

36. Yn Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019(4), hepgorer rheoliad 2.

Diwygio Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020

37. Yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020(5), hepgorer rheoliad 29.

-
- (1) O.S. 2003/1966 (Cy. 211), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/674 (Cy. 156).
(2) O.S. 2019/597 (Cy. 126).
(3) O.S. 2019/737 (Cy. 140).
(4) O.S. 2019/1334 (Cy. 232).
(5) O.S. 2020/44 (Cy. 5).

Enw

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gweldig,
un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Datblygu Gwledig a Deddfwriaeth o fewn Adran yr Amgylchedd, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Rwyf wedi gwneud y datganiadau sy'n ofynnol gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae'r datganiadau hyn i'w gweld yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm hwn.

Lesley Griffiths AS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
24 Tachwedd 2020

Rhan 1

1. Disgrifiad

Bydd Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 (yr "offeryn") yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth, sy'n gymwys o ran Cymru a pharth Cymru, mewn perthynas â'r fasnach mewn anifeiliaid a chynhyrchion perthynol.

Bydd Rhan 1 a Rhan 3 o'r offeryn hwn yn dod i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu a bydd Rhan 2 o'r offeryn hwn yn dod i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae'r offeryn yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ('y Ddeddf Ymadael'), er mwyn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig (DU) â'r Undeb Ewropeaidd (UE).

Fel y nodir yn natganiad y Gweinidog yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol hwn, cynigir bod yr offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. Mae'r offeryn yn gwneud mân newidiadau technegol ac felly dylai fod yn destun cael ei ddirymu.

Mae'n ofynnol o dan baragraff 4 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol ar unrhyw ddarpariaethau sydd i ddod i rym cyn bod y cyfnod gweithredu'n dod i ben. Yn unol â'r gofyniad hwn, ymgynghorwyd â'r Ysgrifennydd Gwladol drwy lythyr ar wahân a gyhoeddwyd ar 17 Tachwedd 2020.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae angen diwygio deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o gyfraith yr UE er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mae'r Ddeddf Ymadael yn trosi'r rhan fwyaf o gyfraith yr UE sy'n uniongyrchol gymwys fel y saif yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn gyfraith ddomestig ac yn cadw cyfreithiau a wneir yn y DU sy'n gweithredu rhwymedigaethau'r UE. Mae'r Ddeddf Ymadael hefyd yn creu pwerau dros dro i wneud is-ddeddfwriaeth i ddelio â diffygion a fyddai'n deillio o ymadawiad y DU. Mae adran 11 o'r Ddeddf Ymadael a pharagraff 1 o Atodlen 2 iddi yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru fynd i'r afael â diffygion.

Yn unol â gofynion y Ddeddf Ymadael, mae Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, wedi gwneud y datganiadau perthnasol fel y nodir yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm Esboniadol hwn.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Diben yr offeryn yw sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n effeithiol unwaith y bydd y DU yn ymadael â'r UE. Bydd yn diwygio cyfeiriadau diangen at gyfreithiau a systemau'r UE na fyddant bellach yn berthnasol ar ddiwedd y cyfnod gweithredu ac sy'n angenrheidiol i sicrhau system sy'n gweithio ar gyfer mewnfurio anifeiliaid byw (gan gynnwys ceffylau), cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid (gan gynnwys cig), sgil-gynhyrchion anifeiliaid, a phlasm cenhedlu tra'n cynnal safonau bioddiogelwch a lles.

Nod y diwygiadau arfaethedig yw cynnal y drefn fewnfurio bresennol a byddant yn sicrhau y bydd gan Gymru system fewnforion y gellir ei chyflawni ac sy'n gweithio'n dda ar gyfer anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid ar ddiwedd y cyfnod gweithredu. Bydd y diwygiadau arfaethedig hefyd yn cyflwyno trefniadau trosiannol ar gyfer tiriogaethau penodedig (drwy fewnosod Atodlen 5 newydd i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011) i gyflawni penderfyniad Llywodraeth y DU i gyflwyno rheolaethau swyddogol ar fewnforion o'r gwledydd hynny yn amodol ar fesurau trosiannol arbennig.

Bydd y dull gweithredu fesul cam o 1 Ebrill 2021 yn caniatáu i Brydain Fawr amddiffyn ei hun rhag mewnforion yr UE o Gynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid ("POAO") a allai fod yn risg bioddiogelwch. O ystyried bod Prydain Fawr ar hyn o bryd yn rhan o drefn yr UE i sicrhau iechyd anifeiliaid ac iechyd planhigion ("SPS"), mae'r risg hon yn isel iawn ar hyn o bryd. Yn ogystal, drwy'r gofyniad cyn-hysbysu, bydd y drefn newydd yn darparu data ar y risg a achosir gan fewnforion yr UE. Bydd y data hyn yn gallu llywio penderfyniadau ar reolaethau yn y dyfodol, gan arwain at drefn fwy effeithlon.

Bydd cam olaf y dull gweithredu fesul cam yn golygu y bydd pob POAP ac Anifail Byw yn dod i mewn ac yn cael eu gwirio mewn Safle Rheoli Ffiniau (BCP) o 1 Gorffennaf 2021 ymlaen. Mae Swyddogion Llywodraeth Cymru ar y cyd ag asiantaethau cyflawni eraill wrthi'n asesu effaith y newid hwn ac yn cynllunio'r gwaith o adeiladu a darparu'r safleoedd hyn. Bydd y diwygiadau a wneir gan yr offeryn hwn yn gweithio ar y cyd â Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020 a Rheoliad (EU) 2017/625 i sicrhau bod gan ein Safleoedd Rheoli Ffiniau fframwaith deddfwriaethol gweithredol i weithredu ynddo.

Mae'r diwygiadau arfaethedig yn cael eu gwneud yn unol â'r Ddeddf Ymadael er mwyn sicrhau nad oes unrhyw rwystr deddfwriaethol i symud anifeiliaid byw gan gynnwys ceffylau, a masnachu mewn cynhyrchion anifeiliaid gan gynnwys cig gyda'r UE a thrydydd gwledydd rhestredig eraill, ar ddiwedd y cyfnod gweithredu.

Beth mae'r offeryn yn ei wneud

Mae Rhan 2 o'r offeryn (rheoliadau 2 hyd at 32) yn gwneud diwygiadau gweithredol i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011.

Mae Rhan 3 o'r offeryn (Rheoliad 33 hyd at 37) yn gwneud diwygiadau canlyniadol i offerynnau statudol eraill er mwyn ystyried y diwygiadau yn Rhan 2.

5. Ymgynghori

Ni chafwyd ymgynghoriad cyhoeddus. Diben yr offeryn yw galluogi'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi domestig presennol i aros yn ddigyfnewid drwy ymadawiad y DU â'r UE.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

Ni chynhyrchwyd asesiad effaith mewn perthynas â'r offeryn hwn gan na ragwelir unrhyw effaith ar y sectorau preifat, gwirfoddol na chyhoeddus.

Atodiad: Datganiadau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Rhan 1: Tabl Datganiadau o dan Ddeddf 2018

Mae'r tabl hwn yn nodi'r datganiadau y gallai fod eu hangen ar Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 2018. Mae'r tabl hefyd yn nodi'r datganiadau hynny y gallai fod eu hangen ar Weinidogion y Goron o dan Ddeddf 2018, y mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i'w darparu hefyd pan fo angen. Mae'r datganiadau gofynnol i'w gweld yn Rhan 2 o'r atodiad hwn.

Datganiad	Lle mae'r gofyn	I bwy y mae'n berthnasol	Beth sy'n ofynnol
Priodoldeb	Is-baragraff (2) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2.	Datganiad nad yw'r OS yn gwneud mwy na'r hyn sy'n briodol.
Rhesymau da	Is-baragraff (3) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad i esbonio'r rhesymau da dros wneud yr offeryn a bod yr hyn sy'n cael ei wneud yn gam gweithredu rhesymol.
Cydraddoldeb	Is-baragraffau (4) a (5) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae	Datganiad i egluro pa ddiwygiadau, diddymadau neu ddirymadau, os o gwbl, sy'n cael eu gwneud i Ddeddfau Cydraddoldeb 2006 a 2010 a deddfwriaeth a wneir oddi tanynt.

		Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad y mae'r Gweinidog wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu ac ymddygiad arall a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
Esboniadau	Is-baragraff (6) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad i esbonio'r offeryn, nodi'r gyfraith berthnasol cyn y diwrnod ymadael, esbonio effaith yr offeryn ar gyfraith yr UE a ddargedwir a rhoi gwybodaeth am ddiben yr offeryn, e.e. a fwriedir newidiadau bach neu dechnegol i gyfraith yr UE a ddargedwir yn unig
Troseddau	Is-baragraffau (3) a (7) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad yn nodi'r 'rhesymau da' dros greu trosedd, a'r gosb gysylltiedig.
Is-ddirprwyo	Paragraff 30, Atodlen 7	Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a pharagraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol na chaiff un o Weinidogion y Goron nac Awdurdod Datganoledig eu harfer. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr	Datganiad i esbonion pam mae creu pŵer is-ddirprwyo o'r fath yn briodol.

		un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 neu baragraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol na chaiff un o Weinidogion y Goron neu Awdurdod Datganoledig eu harfer.	
Brys	Is-baragraff (2) ac (8) o baragraff 7, Atodlen 7	Gweinidogion Cymru yn arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 ond yn defnyddio'r weithdrefn frys ym mharagraff 7 o Atodlen 7	Datganiad

Rhan 2

Datganiadau sydd eu hangen wrth ddefnyddio pwerau galluogi o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

1. Datganiad ynghylch priodoldeb

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

"Yn fy marn i, nid yw Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 yn gwneud dim mwy nag sy'n briodol. Mae hyn yn wir oherwydd gwneir yr holl newidiadau er mwyn mynd i'r afael â diffygion sy'n deillio o ymadael â'r UE yn unig."

2. Rhesymau da

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

"Yn fy marn i, mae rhesymau da dros y darpariaethau yn yr offeryn hwn, ac rwyf wedi dod i'r casgliad eu bod yn gamau gweithredu rhesymol".

3. Cydraddoldeb

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad canlynol:

"Nid yw Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 yn diwygio, diddymu na dirymu darpariaeth neu ddarpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2006 na Deddf Cydraddoldeb 2010 neu is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau hynny."

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

"Mewn perthynas â Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020, rwyf i, Lesley Griffiths, wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth

ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010."

4. Esboniadau

Gwnaed y datganiad o ran esboniadau yn adran 4 (Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael) o brif gorff y memorandwm esboniadol hwn.

5. Troseddau

Ddim yn gymwys/ddim ei angen.

6. Is-dirprwyo deddfwriaethol

Ddim yn gymwys/ddim ei angen.

7. Brys

Ddim yn gymwys/ddim ei angen.

SL(5)673 – Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir a chyfraith ddomestig sy'n llywodraethu cynlluniau taliadau uniongyrchol ar gyfer sicrhau parhad cynllun y taliad sylfaenol yng Nghymru y tu hwnt i 2020 a sicrhau ei fod yn effeithiol ac yn effeithlon.

Mae'r Offeryn hefyd yn diwygio'r ddeddfwriaeth hon i:

- symleiddio dull gweinyddu'r cynllun a gwneud ei weithrediad yn fwy effeithlon ac effeithiol;
- dileu darpariaethau sydd wedi darfod neu nad ydynt yn cael eu defnyddio;
- dileu neu leihau'r beichiau ar bersonau sy'n gwneud cais am daliadau uniongyrchol o dan y cynllun;
- gwella'r ffordd y mae'r cynllun yn gweithredu;
- sicrhau bod sancsiynau a chosbau a osodir o dan y cynllun yn briodol a chymesur;
- cyfyngu ar gymhwysiad y cynllun i dir yng Nghymru yn unig.

Yn ogystal â hynny, mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau i fynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, ac i gywiro gwallau mewn offerynnau statudol presennol sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE.

Daw Rhannau 1, 5 a 6, a rheoliad 7(4) o'r Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud, a daw gweddill y darpariaethau i rym ar ddiwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu (11 p.m. ar 31 Rhagfyr 2020.)

Mae Rhannau 2, 3, a 4 o'r Offeryn yn cael eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraffau 2(1), 3(1) a (2) a 4(1) a (2) o Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2004, a oedd yn destun gwaith craffu gan y Pwyllgor drwy broses y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn gynharach eleni.

Mae Rhannau 5 a 6 o'r Offeryn yn cael eu gwneud drwy arfer y pŵer a roddwyd gan baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mewn perthynas â Rhannau 5 a 6, mae'r gofyniad ym mharagraff 4(a) o Atodlen 2 i Ddeddf 2018, sy'n ymwneud ag ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol, wedi'i fodloni.



Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud nifer o ddiwygiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir, gan gynnwys hepgor darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i'r graddau y maent yn ymwneud â thaliadau uniongyrchol. Er bod rhai darpariaethau wedi'u hepgor, mae cyfeiriadau at rai o'r darpariaethau hynny sydd wedi'u hepgor yn parhau i fodoli yng nghyfraith yr UE a ddargedwir.

Mae'r darpariaethau perthnasol fel a ganlyn:

- Mae Rheoliad 2(12) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 i hepgor Erthygl 77(6). Er bod Erthygl 77(6) wedi'i hepgor, mae cyfeiriad ati yn parhau i fodoli yn Erthygl 77(7)(a) o Reoliad (UE) Rhif 1306/2013.
- Mae Rheoliad 3(7) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliad (UE) Rhif 640/2014 i hepgor Erthygl 10. Er bod Erthygl 10 wedi'i hepgor, mae cyfeiriad ati yn parhau i fodoli yn is-baragraff olaf Erthygl 9(1) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 640/2014.
- Mae Rheoliad 3(8) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 640/2014 i hepgor yr ail is-baragraff ym mharagraff 1 o Erthygl 13. Mae hyn yn golygu bod y trydydd is-baragraff yn dod yn ail is-baragraff. Mae cyfeiriad at drydydd is-baragraff Erthygl 13(1) yn parhau i fodoli ym mharagraff (b) o Erthygl 12 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 640/2014, er bod yr un cyfeiriad wedi'i ddisodli yn yr ail is-baragraff ym mharagraff 3 o Erthygl 13.
- Mae Rheoliad 4(7)(a) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 809/2014 i hepgor Erthygl 17(2). Er bod Erthygl 17(2) wedi'i hepgor, mae cyfeiriad ati yn parhau i fodoli yn ail is-baragraff Erthygl 36(2) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 809/2014.

2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol



Mae Rheoliad 7(6)(c) o'r Rheoliadau hyn yn hepgor paragraffau 6 i 8 yn Erthygl 9 o Reoliad (UE) Rhif 1307/2013. Ar y diwrnod ymadael, cafodd paragraff 6 ei hepgor o Erthygl 9 o Reoliad (UE) Rhif 1307/2013, yn unol â Rheoliad 4(10)(f) o Reoliadau'r Rheolau ar gyfer Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020 (OS 2020/91).

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Noder fod y Memorandwm Esboniadol yn egluro'r ffaith nad yw'r Rheoliadau hyn:

"yn gwneud newidiadau sylfaenol i'r trefniadau cyllid presennol ar gyfer cymorth amaethyddol ac na fyddant yn cael effaith sylweddol ar y sector cyhoeddus na'r sector preifat, ar elusennau na sectorau gwirfoddol."

Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn egluro bod y Rheoliadau hyn yn "symleiddio dull gweinyddu'r cynllun", yn "dileu neu leihau'r beichiau ar bersonau sy'n gwneud cais am daliadau uniongyrchol o dan y cynllun", yn "gwella'r ffordd y mae'r cynllun yn gweithredu", ac yn "sicrhau bod sancsiynau a chosbau a osodir o dan y cynllun yn briodol a chymesur".

Mae'r Cod Ymarfer ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys yr eithriad a ganlyn i'r drefn o gynnal asesiad effaith rheoleiddiol:

"Lle bo angen gwneud diwygiadau technegol neu ddiwygiadau ffeithiol er mwyn diweddarau rheoliadau ac ati nad ydynt yn effeithio'n fawr ar bolisi".

Er ei bod yn ymddangos bod yr eithriad hwn yn berthnasol i rai o'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn, ymddengys fod darpariaethau eraill, yn enwedig yng ngoleuni'r esboniad y cyfeirir ato uchod, yn golygu mwy na diwygiadau arferol neu ffeithiol. Nid yw'n glir bod unrhyw un o'r eithriadau eraill o dan y Cod yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau pa eithriad o dan y Cod sy'n berthnasol i'r penderfyniad i beidio â chynhyrchu asesiad effaith rheoleiddiol.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ar y Diwrnod Ymadael, cafodd deddfwriaeth y UE sy'n llywodraethu cynlluniau taliadau uniongyrchol 2020 y Polisi Amaethyddol Cyffredin ei hymgorffori mewn cyfraith y DU drwy'r Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020. Roedd hyn yn angenrheidiol yn sgil y ffaith mai effaith Erthygl 137 o'r Cytundeb Ymadael oedd eithrio deddfwriaeth ar daliadau uniongyrchol ar gyfer blwyddyn hawlio 2020.



Mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau y gall y cynlluniau taliadau uniongyrchol presennol ar gyfer ffermwyr yng Nghymru barhau i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol y tu hwnt i flwyddyn hawlio 2020, sy'n para tan 31 Rhagfyr 2020.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Craffu Technegol

Pwynt 1

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod y cyfeiriadau y tynnwyd sylw atynt yn wallau drafftio. Bydd Llywodraeth Cymru yn cywiro'r rhain y tro nesaf y bydd cyfle addas yn codi.

Pwynt 2

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod paragraff 6 o Erthygl 9 o Reoliad (EU) Rhif 1307/2013 eisoes wedi ei hepgor gan Reoliadau Rheolau ar gyfer Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/91). Ar y sail hon, nid oes unrhyw effaith gyfreithiol i'r hepgoriad yn rheoliad 7(6)(c). Nid oes gan Lywodraeth Cymru bwerau i wneud rheoliadau brys o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 2020, felly nid yw'n bosibl diwygio'r ddarpariaeth cyn diwedd y Cyfnod Gweithredu. Pe bai offeryn addas yn cael ei gyflwyno byddai Llywodraeth Cymru wedi diwygio'r offeryn, ond nid oes digon o amser i'w dynnu yn ôl a'i ddiwygio.

Craffu ar Rinweddau

Pwynt 3

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y newidiadau yn ddiwygiadau technegol arferol i weithrediad y cynllun sydd, er enghraifft, yn lleihau cymhwysiad sancsiynau neu gosbau, o gymharu â fersiynau'r UE o'r cynlluniau.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad 7 Rhagfyr 2020



Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 50(6)(c) ac (8) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020, a pharagraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2020 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

**Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol
i Ffermwyr a Materion Gwledig
(Diwygiadau Amrywiol etc.)
(Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhannau 2, 3 a 4 o'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraffau 2(1), 3(1) a (2) a 4(1) a (2) o Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 (p. 21) er mwyn gwneud darpariaeth yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sy'n llywodraethu'r cynlluniau taliadau uniongyrchol ar gyfer sicrhau parhad cynllun y taliad sylfaenol yng Nghymru y tu hwnt i 2020.

Mae rheoliadau 2, 3, 4, 5 a 6 yn addasu Rheoliadau (EU) Rhif 1306/2013, 809/2014, 640/2014, 907/2014 a 908/2014 i'r graddau y mae'n angenrheidiol i gynllun y taliad sylfaenol weithredu'n effeithiol y tu hwnt i 2020. Mae'r Rheoliadau UE hynny'n cynnwys rhai o'r rheolau sy'n llywodraethu'r cynlluniau taliadau uniongyrchol yn ogystal â chynlluniau eraill o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r corff hwnnw o gyfreithiau i'r graddau ag y mae'n ymwneud â chynlluniau taliadau uniongyrchol yn unig.

Mae rheoliadau 7, 8 a 9 yn diwygio Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 ("y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol"), Rheoliadau (EU) Rhif 639/2014 a 641/2014. Mae'r newidiadau hyn yn caniatáu i gynllun

y taliad sylfaenol weithredu'n effeithiol y tu hwnt i 2020. Mae rheoliad 7(4) yn cyflwyno i'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Erthygl 5A newydd sy'n darparu'r modd ar gyfer penderfynu terfyn y taliadau uniongyrchol y tu hwnt i 2020.

Mae rheoliadau 2 i 9 hefyd yn diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â'r cynlluniau taliadau uniongyrchol er mwyn—

- (a) symleiddio dull gweinyddu'r cynllun a gwneud ei weithrediad yn fwy effeithlon ac effeithiol,
- (b) dileu darpariaethau sydd wedi darfod neu nad ydynt yn cael eu defnyddio,
- (c) dileu neu leihau'r beichiau ar bersonau sy'n gwneud cais am daliadau uniongyrchol o dan y cynllun neu y mae ganddynt hawl i'w cael,
- (d) gwella'r ffordd y mae'r cynllun yn gweithredu mewn perthynas â phersonau sy'n gwneud cais am daliadau uniongyrchol o dan y cynllun neu y mae ganddynt hawl i'w cael,
- (e) sicrhau bod sancsiynau a chosbau a osodir o dan y cynllun yn briodol a chymesur, ac
- (f) cyfyngu ar gymhwysiad y cynllun i dir yng Nghymru yn unig.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth ddomestig sy'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol.

Mae rheoliad 10 yn diwygio Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014 (O.S. 2014/3223 (Cy. 328)), er mwyn sicrhau bod modd ei weithredu ar gyfer cynllun y taliad sylfaenol yng Nghymru y tu hwnt i 2020. Mae rheoliad 10 hefyd yn mewnosod paragraff newydd yn Atodlen 1 (*Safonau ar gyfer Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da*) sy'n rhoi manylion am y cyfyngiadau ar drosi, aredig neu ailhadu glaswelltir parhaol amgylcheddol-sensitif. Mae hyn yn sicrhau bod cydweddu â'r newidiadau a wnaed gan reoliad 2 i Reoliad (EU) Rhif 1306/2013.

Mae rheoliad 11 yn diwygio Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Rheoli a Gorfodi, Trawsgydymffurfio, Craffu ar Drafodiadau ac Apelau) 2014 (O.S. 2014/3263), ac mae'n gymwys o ran Cymru. Mae rheoliad 3 (awdurdod cymwys) y Rheoliadau hynny wedi ei ddiwygio i sicrhau ei fod yn cydweddu â chyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol.

Mae rheoliad 12 yn diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1252 (Cy. 84)) i sicrhau ei fod yn cydweddu â'r

newidiadau sy'n cael eu gwneud i gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol gan y Rheoliadau hyn.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn wedi ei gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae rheoliad 13 yn diwygio Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/688 (Cy. 132)), sy'n ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae rheoliad 13 yn dirymu rheoliadau 2, 4(2) a 5(2) a (3) i gydweddu â'r newidiadau a wnaed gan y Rheoliadau hyn a chan Reoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/104 (Cy. 17)).

Mae Rhan 6 o'r Rheoliadau hyn wedi ei gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 er mwyn cywiro gwallau yn Rheoliadau Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/1281 (Cy. 225)) a Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 3) 2019 (O.S. 2019/1376 (Cy. 242)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 50(6)(c) ac (8) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020, a pharagraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2020 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

**Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol
i Ffermwyr a Materion Gwledig
(Diwygiadau Amrywiol etc.)
(Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020**

Gwnaed

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt—

- (a) mewn perthynas â Rhan 1, gan y darpariaethau a grybwyllir ym mharagraffau (b) ac (c);
- (b) mewn perthynas â Rhannau 2, 3 a 4, gan baragraffau 2(1), 3(1) a (2), a 4(1) a (2) o Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020(1);
- (c) mewn perthynas â Rhannau 5 a 6, gan baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(2) (“Deddf 2018”).

Mewn perthynas â Rhannau 5 a 6, mae'r gofyniad ym mharagraff 4(a) o Atodlen 2 (sy'n ymwneud ag

(1) 2020 p. 21. Gweler paragraff 3(4) o Atodlen 5 am y diffiniad o “specified”.

(2) 2018 p. 16. Gweler adran 20(1) am y diffiniad o “devolved authority”.

ymgyngori â'r Ysgrifennydd Gwladol) i Ddeddf 2018 wedi ei fodloni.

Yn unol ag adran 50(6)(c) ac (8) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020, a pharagraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf 2018, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru, ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

RHAN 1

Rhagarweiniol

Enwi, cychwyn a chymhwysu

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Maent yn dod i rym fel a ganlyn—

- (a) ac eithrio fel y darperir ar ei gyfer gan is-baragraff (b), daw'r Rheoliadau hyn i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu;
- (b) mae Rhannau 1, 5 a 6 a rheoliad 7(4) yn dod i rym drannoeth y diwrnod y gwneir y Rheoliadau hyn.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

RHAN 2

Taliadau Uniongyrchol: Deddfwriaeth Lorweddol

Diwygio Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013

2.—(1) Mae Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ariannu, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin⁽¹⁾ wedi ei ddiwygio, i'r graddau y mae'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol, fel a ganlyn.

(2) Yn lle Erthygl 2(1)(m) rhodder—

“(m)“appropriate authority” means the relevant authority for the constituent nation in which the regulations apply.”

(1) EUR 2013/1306, a ddiwygiwyd mewn perthynas â chynlluniau taliadau uniongyrchol gan O.S. 2020/90 a 576. Mae EUR 2013/1306 wedi ei ddiwygio hefyd yn rhagolygol gydag effaith o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan O.S. 2019/748 (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2019/831), 763 (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2019/812), 831 a 1402. Er hynny, yn rhinwedd y diwygiadau yn Rheoliadau Amaethyddiaeth (Taliadau) (Diwygio, etc.) (Ymadael â'r UE) 2020, nid yw'r diwygiadau rhagolygol hyn yn cael effaith mewn perthynas â chynlluniau taliadau uniongyrchol.

(3) Yn Erthygl 12—

- (a) yn lle “must” rhodder “may”;
- (b) yn lle “shall”, yn yr ail frawddeg, rhodder “may”;
- (c) yn lle’r drydedd frawddeg rhodder—

“That system may cover the maintenance of the agricultural area as referred to in point (c) of Article 4(1) of Regulation (EU) No. 1307/2013.”

(4) Hepgorer Erthygl 26.

(5) Yn Erthygl 54—

- (a) ym mharagraff 1, hepgorer “within 18 months”;
- (b) ym mharagraff 3(a)—
 - (i) ym mhwynt (i), yn lle “EUR 100” rhodder “£100”;
 - (ii) ym mhwynt (ii)—
 - (aa) yn lle “EUR 100” rhodder “£100”;
 - (bb) yn lle “EUR 250” rhodder “£250”.

(6) Hepgorer Erthygl 55.

(7) Yn Erthygl 67—

- (a) ym mharagraff 4(a), ar ôl “continuous area of land” mewnosoder “within Wales”;
- (b) ym mharagraff 4(b), hepgorer “the payment for agricultural practices beneficial for the climate and the environment referred to in Chapter 3 of Title III of Regulation (EU) No 1307/2013;”.

(8) Yn Erthygl 69—

- (a) hepgorer brawddeg derfynol paragraff 1;
- (b) hepgorer paragraff 2.

(9) Yn Erthygl 70—

- (a) ym mharagraff 1—
 - (i) hepgorer “and, as from 2016, at a scale of 1: 5 000,”;
 - (ii) hepgorer yr ail is-baragraff;
- (b) hepgorer paragraff 2.

(10) Hepgorer Erthygl 71(2).

(11) Yn Erthygl 75—

- (a) ym mharagraff 1, ar ôl “calendar year” mewnosoder “or in cases where it has not been possible to complete the verification of eligibility conditions by 30 June, upon completion.”;
- (b) ym mharagraff 1(a)—
 - (i) hepgorer “but not before 16 October”;

(ii) ar ôl “direct payments” mewnosoder “before the verification of eligibility conditions, to be carried out by the relevant authority pursuant to Article 74, has been finalised”;

(c) ym mharagraff 2, ar ôl “paragraph 1” mewnosoder “(excluding advances for direct payments under paragraph 1(a))”.

(12) Hepgorer Erthygl 77(6).

(13) Yn Erthygl 91—

(a) hepgorer ail is-baragraff paragraff 2;

(b) ym mharagraff 3(a), yn lle “the United Kingdom” rhodder “Wales”.

(14) Yn nheitl Erthygl 94, hepgorer “of Member States”.

(15) Yn Erthygl 97(3), yn lle “EUR 100” rhodder “£100”.

(16) Hepgorer Erthyglau 105 a 106.

(17) Hepgorer Erthygl 108.

(18) Hepgorer is-baragraff terfynol Erthygl 111(1).

(19) Yn Erthygl 112, yn yr is-baragraff cyntaf, yn lle’r geiriau o “the Funds” hyd at y diwedd, rhodder “received in one year by a beneficiary is equal to or less than £1250.”

(20) Yn Atodiad II, yn y rhes “Landscape, minimum level of maintenance”, yn y bedwaredd golofn, ar ôl “measures for avoiding invasive plant species” mewnosoder—

“. Restrictions on converting, ploughing or reseeded environmentally sensitive permanent grassland.”

Diwygio Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 640/2014

3.—(1) Mae Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 640/2014 sy’n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor o ran y system integredig gweinyddu a rheoli a’r amodau ar gyfer gwrthod taliadau neu eu tynnu yn ôl a chosbau gweinyddol sy’n gymwys i daliadau uniongyrchol, cymorth ar gyfer datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio⁽¹⁾, wedi ei ddiwygio, i’r graddau

(1) EUR 2014/640, a ddiwygiwyd mewn perthynas â chynlluniau taliadau uniongyrchol gan O.S. 2020/90 ac mewn perthynas â chynlluniau taliadau uniongyrchol yn Lloegr gan O.S. 2020/551. Diwygiwyd EUR 2014/640 hefyd yn rhagolygol gydag effaith o ddiwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu gan O.S. 2019/765. Er hynny, yn rhinwedd y diwygiadau yn Rheoliadau Amaethyddiaeth (Taliadau) (Diwygio, etc.) (Ymadael â’r UE) 2020, nid yw’r diwygiadau rhagolygol hyn yn cael effaith mewn perthynas â chynlluniau taliadau uniongyrchol.

y mae'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol, fel a ganlyn.

(2) Yn Erthygl 2(1), yn lle pwynt (22) rhodder—

“(22) ‘use’ in relation to area means the use of area in terms of the type of permanent grassland as defined in Article 4(1)(h) of Regulation (EU) No. 1307/2013, or areas of grassland, other than permanent grassland, or ground cover or the absence of a crop.”;

(3) Yn Erthygl 5(2)—

- (a) hepgorer pwynt (c);
- (b) ym mhwynt (d), hepgorer y geiriau o “areas designated” hyd at y diwedd.

(4) Yn Erthygl 6—

(a) yn lle paragraff 1 rhodder—

“1. The relevant authority shall annually assess the quality of the identification system for agricultural parcels. Where the results of the quality assessment reveal deficiencies in the system, the relevant authority shall take appropriate remedial action.”;

(b) yn lle paragraff 2 rhodder—

“2. The relevant authority shall perform the assessment referred to in paragraph 1 on the basis of a sample of reference parcels.”;

(c) ym mharagraff 3, hepgorer “by 31 January 2021”.

(5) Yn Erthygl 7(1), hepgorer “at United Kingdom level”.

(6) Hpgorer is-baragraff terfynol Erthygl 9(3).

(7) Hpgorer Erthygl 10.

(8) Yn Erthygl 13—

- (a) hepgorer ail is-baragraff paragraff 1;
- (b) ar ôl is-baragraff terfynol paragraff 1 mewnosoder—

“All documents in support of an aid application, must be submitted by 31 December of that calendar year.”;

(c) yn ail is-baragraff paragraff 3, yn lle “third” rhodder “second”.

(9) Hpgorer ail is-baragraff Erthygl 16(1).

(10) Yn Erthygl 18(2), hepgorer “and (8)”.

(11) Yn Erthygl 19a—

(a) yn lle paragraff 2 rhodder—

“2. The administrative penalty referred to in paragraph 1 shall be reduced by 50% if the difference between the area declared and the

area determined does not exceed 10% of the area determined.”;

(b) hepgorer paragraffau 3 a 4.

(12) Hepgorer Erthyglau 22 i 29.

(13) Hepgorer brawddeg derfynol Erthygl 38(1).

Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014

4.—(1) Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwysio Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y system integredig gweinyddu a rheoli, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio⁽¹⁾, wedi ei ddiwygio, i'r graddau y mae'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol, fel a ganlyn.

(2) Hepgorer Erthygl 2.

(3) Hepgorer ail baragraff Erthygl 4.

(4) Yn Erthygl 6—

(a) ym mharagraff 2(f)(v), yn lle “national” rhodder “total”;

(b) hepgorer paragraff 3(b).

(5) Yn Erthygl 14(1), hepgorer pwynt (h).

(6) Yn Erthygl 15—

(a) hepgorer paragraff 1b;

(b) ym mharagraff 2—

(i) yn yr ail is-baragraff, yn lle “Member States” rhodder “the relevant authority”;

(ii) yn y trydydd is-baragraff, hepgorer y geiriau o “the payment for agricultural practices” hyd at “Regulation (EU) No. 1307/2013 or”;

(c) hepgorer paragraff 2b;

(d) ym mharagraff 3, hepgorer yr ail is-baragraff.

(7) Yn Erthygl 17—

(a) hepgorer paragraff 2;

(b) yn ail is-baragraff paragraff 4, hepgorer y frawddeg derfynol;

(c) yn lle paragraff 5 rhodder—

(1) EUR 2014/809, a ddiwygiwyd mewn perthynas â chynlluniau taliadau uniongyrchol gan O.S. 2020/90 a 576. Mae EUR 2014/809 wedi ei ddiwygio hefyd mewn perthynas â chynlluniau taliadau uniongyrchol yn Lloegr gan O.S. 2020/510 a 575. Mae EUR 2014/809 hefyd wedi ei ddiwygio'n rhagolygol gydag effaith o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan O.S. 2019/765. Er hynny, yn rhinwedd y diwygiadau yn Rheoliadau Amaethyddiaeth (Taliadau) (Diwygio, etc.) (Ymadael â'r UE) 2020, nid yw'r diwygiadau rhagolygol hyn yn cael effaith mewn perthynas â chynlluniau taliadau uniongyrchol.

“5. The beneficiary shall unambiguously identify and declare the area of each agricultural parcel.”;

(d) hepgorer paragraff 6.

(8) Hepgorer Erthygl 18.

(9) Yn Erthygl 25, hepgorer “and shall not exceed 14 days”.

(10) Hepgorer Erthygl 26(4).

(11) Hepgorer ail a thrydydd paragraff Erthygl 27.

(12) Yn Erthygl 29(1)(d), yn lle “(6)” rhodder “(4)”.

(13) Ym mhennawd Erthygl 30, hepgorer “other than the payment for agricultural practices beneficial for the climate and environment”.

(14) Yn lle Erthygl 30 rhodder—

“For area-related aid schemes the control sample for on-the-spot checks carried out each year shall cover at least:

(a) 3% of all beneficiaries applying for the basic payment scheme in accordance with Title III of Regulation (EU) No. 1307/2013 (which includes the redistributive payment, and the payment for young farmers); and

(b) 5% of all beneficiaries applying for area-related payments under voluntary coupled support in accordance with Chapter 1 of Title IV of Regulation (EU) No 1307/2013.”

(15) Hepgorer Erthygl 31.

(16) Yn lle Erthygl 33 rhodder—

“For animal aid schemes, the control sample for on-the-spot checks carried out each year shall for each of the aid schemes cover at least 5% of all beneficiaries applying for that respective aid scheme.”

(17) Hepgorer Erthygl 33a.

(18) Yn Erthygl 34—

(a) yn lle paragraff 2 rhodder—

“2. For the purposes of Article 30, the sample selection shall ensure that:

(a) a proportion of the control population is selected randomly;

(b) the remaining number of beneficiaries in the control sample is selected on the basis of a risk analysis.”;

(b) hepgorer paragraffau 3, 4 a 4a;

(c) ym mharagraff 5—

(i) yn lle “shall” rhodder “may”;

- (ii) ym mhwynt (d) ar ôl “that” mewnosoder “may”.
- (19) Yn Erthygl 36—
- (a) ym mharagraff 2—
 - (i) hepgorer “and (b)”;
 - (ii) yn lle “3%” rhodder “1%”;
 - (b) ym mharagraff 3—
 - (i) hepgorer “and (b)”;
 - (ii) hepgorer yr ail, trydydd a phedwerydd is-baragraff;
 - (c) ym mharagraff 5—
 - (i) yn lle “2, 3 and 4” rhodder “2 and 3”;
 - (ii) hepgorer “and (b)”.
- (20) Hepgorer Erthygl 37(3).
- (21) Yn Erthygl 38—
- (a) hepgorer y frawddeg derfynol ym mharagraff 5;
 - (b) hepgorer paragraff 6;
 - (c) hepgorer paragraff 9;
 - (d) ym mharagraff 10, hepgorer “or permanent pastures”.
- (22) Yn Erthygl 39—
- (a) hepgorer brawddeg gyntaf paragraff 2;
 - (b) hepgorer paragraff 3.
- (23) Hepgorer Erthygl 40a.
- (24) Yn Erthygl 41—
- (a) hepgorer is-baragraff terfynol paragraff 1;
 - (b) yn is-baragraff terfynol paragraff 2—
 - (i) hepgorer “or by means of monitoring in accordance with Article 40a,”;
 - (ii) hepgorer “or by monitoring” yn y ddau le y mae’n digwydd;
 - (iii) hepgorer y frawddeg derfynol.
- (25) Yn Erthygl 42(1), yn yr ail is-baragraff—
- (a) hepgorer “at least 50% of”;
 - (b) yn lle “shall”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “may”.
- (26) Hepgorer Erthygl 44.
- (27) Yn Erthygl 68—
- (a) ym mharagraff 1—
 - (i) yn yr is-baragraff cyntaf, hepgorer “, as it has effect in EU law”;
 - (ii) hepgorer yr ail is-baragraff;
 - (b) ym mharagraff 4, yn lle “shall” rhodder “may”.

(28) Yn Erthygl 69(1), hepgorer brawddeg derfynol yr is-baragraff cyntaf.

(29) Yn Erthygl 70—

- (a) ym mharagraff 3, hepgorer y geiriau o “or by using” hyd at “equivalent value”;
- (b) hepgorer paragraff 4.

(30) Hepgorer Erthyglau 70a a 70b.

(31) Yn Erthygl 72—

- (a) hepgorer is-baragraff terfynol paragraff 1;
- (b) ym mharagraff 2, hepgorer “checked by monitoring in accordance with Article 70a.”;
- (c) ym mharagraff 3, hepgorer y frawddeg derfynol yn yr is-baragraff cyntaf;
- (d) ym mharagraff 4, hepgorer ail frawddeg yr is-baragraff cyntaf.

Diwygio Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 907/2014

5. Yn Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 907/2014 dyddiedig 11 Mawrth 2014 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran asiantaethau talu a chyrff eraill, rheolaeth ariannol, clirio cyfrifon, gwarannau a defnyddio'r ewro(1), hepgorer Erthygl 11, i'r graddau y mae'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol.

Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 908/2014

6.—(1) Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 908/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwysio Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran asiantaethau talu a chyrff eraill, rheolaeth ariannol, clirio cyfrifon, rheolau ar wiriadau, gwarannau a thryloywder(2) wedi ei ddiwygio, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r taliadau uniongyrchol, fel a ganlyn.

(2) Yn Erthygl 4(1)—

-
- (1) EUR 2014/907, a ddiwygiwyd mewn perthynas â chynlluniau taliadau uniongyrchol gan O.S. 2020/90. Mae EUR 2014/907 hefyd wedi ei ddiwygio'n rhagolygol gydag effaith o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan O.S. 2019/765. Er hynny, yn rhinwedd y diwygiadau yn Rheoliadau Amaethyddiaeth (Taliadau) (Diwygio, etc.) (Ymadael â'r UE) 2020, nid yw'r diwygiadau rhagolygol hyn yn cael effaith mewn perthynas â chynlluniau taliadau uniongyrchol.
 - (2) EUR 2014/908, a ddiwygiwyd mewn perthynas â chynlluniau taliadau uniongyrchol gan O.S. 2020/90. Mae EUR 2014/907 hefyd wedi ei ddiwygio'n rhagolygol gydag effaith o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan O.S. 2019/765. Er hynny, yn rhinwedd y diwygiadau yn Rheoliadau Amaethyddiaeth (Taliadau) (Diwygio, etc.) (Ymadael â'r UE) 2020, nid yw'r diwygiadau rhagolygol hyn yn cael effaith mewn perthynas â chynlluniau taliadau uniongyrchol.

- (a) hepgorer pwynt (i);
 - (b) ym mhwynt (ii), hepgorer “on a single website”.
- (3) Hepgorer Erthygl 11.
- (4) Yn Erthygl 27(1), yn lle “EUR 5” rhodder “£5.00”.
- (5) Yn Erthygl 28—
- (a) hepgorer “established in accordance with national law”;
 - (b) hepgorer y geiriau o “under direct” hyd at “Development”.
- (6) Yn lle Erthygl 41(1) rhodder—
- “1. The relevant authorities may decide to reduce the minimum level of on-the-spot checks in accordance with Article 59(5) of Regulation (EU) No 1306/2013. For the reduced control rate to apply, the paying agency must confirm that—
- (a) the internal control system is functioning correctly; and
 - (b) the error rate for the population concerned was below the materiality threshold of 2.0%.”
- (7) Yn Erthygl 58, yn lle “third” rhodder “second”.
- (8) Hepgorer Erthygl 62.

RHAN 3

Taliadau Uniongyrchol: Deddfwriaeth Uniongyrchol a Ddargedwir

Diwygio Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013

7.—(1) Mae Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy’n sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin⁽¹⁾ wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

- (2) Yn Erthygl 1, hepgorer pwynt (b)(iv).
- (3) Yn Erthygl 4—
 - (a) ym mharagraff (1)—
 - (i) ym mhwyntiau (a), (b) ac (i), yn lle “the United Kingdom”, ym mhob lle y mae’n digwydd, rhodder “Wales”;

(1) EUR 2013/1307, a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/91, O.S. 2020/576 ac O.S. 2020/760. Ymgorfforwyd y Rheoliad hwn mewn cyfraith ddomestig gan adran 1 o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (p. 2).

- (ii) ym mhwynt (e), heggorer “and permanent pasture”;
 - (iii) ym mhwynt (g)—
 - (aa) heggorer “and permanent pasture”;
 - (bb) yn lle “occupy” rhodder “occupies”;
 - (iv) ym mhwynt (h), yn lle ““permanent grassland and permanent pasture” (together referred to as “permanent grassland”)” rhodder ““permanent grassland”” ;
 - (v) yn lle pwynt (s) rhodder—
 - “(s) “appropriate authority” means the relevant authority for the constituent nation in which the regulations apply;”;
 - (vi) ar ôl pwynt (s) mewnosoder—
 - “(t) “total ceiling” means the amount determined in accordance with Article 5A.”;
- (b) ym mharagraff 2, heggorer yr is-baragraff terfynol.
- (4) Ar ôl Erthygl 5 mewnosoder—

“Article 5A

The total ceiling for Wales

1. The Welsh Ministers must determine the total ceiling for Wales.

2. The Welsh Ministers must determine the total ceiling before the start of the relevant year.

3. The Welsh Ministers must publish the total ceiling as soon as practicable after they have determined it under paragraph 1.

4. The total ceiling, for any relevant year, must be distributed among all claimed payment entitlements, including the national reserve or the regional reserves, and ceilings set in accordance with Articles 42 and 51 and the amount allocated under Article 53.

5. In this Article, “relevant year” has the same meaning as in paragraph 3(4) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020.”

(5) Heggorer Erthyglau 6, 7 a 7A.

(6) Yn Erthygl 9—

- (a) heggorer paragraffau 2 i 4;
- (b) heggorer paragraff 5(b), (c) a (d);
- (c) heggorer paragraffau 6 i 8.

(7) Yn Erthygl 10(2), yn lle “EUR 100” rhodder “£100”.

(8) Yn Erthygl 11—

- (a) ym mharagraff 1, yn lle “EUR 150 000” rhodder “£150,000”;
- (b) ym mharagraff 3—
 - (i) hepgorer “of its share” yn y ddau le y mae’n digwydd;
 - (ii) yn lle “annual national”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “total”.

(9) Hepgorer Erthygl 14.

(10) Yn Erthygl 22—

- (a) hepgorer paragraff 1;
- (b) yn lle paragraff 2 rhodder—

“2. The basic payment scheme ceiling in Wales for any given year is the amount which remains for the basic payment scheme after deducting, from the total ceiling, the ceilings set in accordance with Articles 42 and 51 for that year, and the amount allocated under Article 53.”;

- (c) hepgorer paragraff 3;
- (d) yn lle paragraff 4 rhodder—

“4. The total value of all claimed payment entitlements in the constituent nation must equal the basic payment scheme ceiling in Wales.”;

- (e) yn lle paragraff 5 rhodder—

“5. If the ceiling calculated pursuant to paragraph 2 of this Article is different from the relevant authority’s share of the basic payment scheme ceiling in claim year 2020 as a result of any decision taken by the relevant authority, or the total value of all claimed payment entitlements (including those allocated and claimed from the national reserve or regional reserve) is different from the total value of claimed payment entitlements in claim year 2020, the relevant authority shall linearly reduce or increase the value of all claimed payment entitlements in order to ensure compliance with paragraph 4 of this Article.”

(11) Yn Erthygl 25—

- (a) hepgorer paragraffau 1 a 2;
- (b) hepgorer paragraff 8.

(12) Yn Erthygl 30—

- (a) ym mharagraff 7—
 - (i) hepgorer pwyntiau (a) a (b);
 - (ii) ym mhwynt (e), yn lle “relevant authority’s share of the basic payment scheme ceiling” rhodder “basic payment scheme ceiling in Wales”;

- (iii) ym mhwynt (f), hepgorer “and Article 65(1), (2) and (3)”;
 - (b) ym mharagraff 8—
 - (i) yn yr ail is-baragraff, yn lle “relevant authority’s share of the basic payment scheme ceiling” rhodder “basic payment scheme ceiling in Wales”;
 - (ii) hepgorer y trydydd is-baragraff;
 - (c) ym mharagraff 11(a), hepgorer “(3) and”.
- (13) Hepgorer Erthygl 31(1)(h).
- (14) Yn Erthygl 32—
- (a) ym mharagraff 1—
 - (i) hepgorer “of financial discipline.”;
 - (ii) hepgorer “Article 7 and”;
 - (b) hepgorer paragraff 5.
- (15) Yn Erthygl 34, hepgorer paragraff 4.
- (16) Yn Erthygl 35(1)—
- (a) ym mhwynt (g), hepgorer “and 7”;
 - (b) hepgorer pwynt (h).
- (17) Yn Erthygl 41—
- (a) ym mharagraff 1, hepgorer y geiriau o “, provided that” hyd at y diwedd;
 - (b) ym mharagraff 3—
 - (i) hepgorer “of financial discipline.”;
 - (ii) hepgorer “, of linear reductions as referred in Article 7”;
 - (c) ym mharagraff 4, yn lle’r ail frawddeg rhodder—

“The number of such payment entitlements or hectares shall not exceed a maximum level to be set by the relevant authority which shall not be higher than 54 hectares.”
- (18) Yn Erthygl 42—
- (a) hepgorer “, by the date referred to in Article 41(1)”;
 - (b) yn lle “its share of the annual national” rhodder “the total”.
- (19) Hepgorer Pennod 3 o Deitl III.
- (20) Yn Erthygl 50—
- (a) hepgorer paragraff 3;
 - (b) ym mharagraff 4, hepgorer “of financial discipline.”;
 - (c) hepgorer ail is-baragraff paragraff 5;
 - (d) hepgorer paragraffau 8 a 10A.
- (21) Yn Erthygl 51—

- (a) yn is-baragraff cyntaf paragraff 1, yn lle “its share of the annual national” rhodder “the total”;
- (b) ym mharagraff 2, yn lle “relevant authority’s share of the national” rhodder “total”;
- (c) ym mharagraff 3, yn lle “its share of the annual national” rhodder “the total”.

(22) Yn Erthygl 53—

- (a) yn lle paragraff 1 rhodder—
 - “1. Up to 10% of the total ceiling may be used to finance the coupled support. ”;
- (b) hepgorer paragraff 3;
- (c) ym mharagraff 5—
 - (i) yn lle “percentages set out in paragraphs 1 to 4” rhodder “percentage set out in paragraph 1”;
 - (ii) yn lle “EUR 3” rhodder “£3”;
- (d) hepgorer paragraff 6.

(23) Yn Erthygl 71A—

- (a) ym mharagraff 1, yn lle “paragraphs 2” rhodder “paragraphs 3”;
- (b) hepgorer paragraff 2.

(24) Yn Atodiad I, hepgorer y trydydd cofnod yn y tabl.

(25) Yn Atodiad II, yn y pennawd, yn lle “Article 6” rhodder “Article 5A”.

(26) Hefgorer Atodiadau III, IX a X.

Diwygio Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 639/2014

8.—(1) Mae Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 639/2014 dyddiedig 11 Mawrth 2014 sy’n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor sy’n sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin⁽¹⁾ wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

- (2) Hefgorer Erthygl 1(d).
- (3) Hefgorer Erthygl 8.
- (4) Hefgorer Erthyglau 11 i 13.
- (5) Hefgorer Erthygl 26.
- (6) Hefgorer Erthygl 29(4).

(1) EUR 2014/639, a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/91 a 576. Diwygiwyd EUR 2014/639 yn rhagolygol gydag effaith o ddiwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu gan O.S 2019/208 a 763 (fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2019/812), ond dirymwyd y diwygiadau rhagolygol hynny gan Rheoliadau Amaethyddiaeth (Taliadau) (Diwygio, etc.) (Ymadael â’r UE) 2020 yn union cyn ddiwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu.

(7) Hepgorer Erthygl 30(2).

(8) Hepgorer Pennod 3.

(9) Yn Erthygl 49(3)(a), hepgorer “,(8)”.

(10) Yn Erthygl 53(2), yn yr ail is-baragraff, ym mhwyntiau (a) a (b), ar ôl “Annex I to this Regulation”, yn y ddau le y mae’n digwydd, mewnosoder “as it had effect immediately before exit day”.

(11) Yn Erthygl 53a, hepgorer paragraff 4.

(12) Hepgorer Atodiad II.

Diwygio Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) Rhif 641/2014

9.—(1) Mae Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) Rhif 641/2014 dyddiedig 16 Mehefin 2014 sy’n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor sy’n sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin⁽¹⁾ wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer Atodlen 1(c).

(3) Yn Erthygl 8(1), hepgorer “prior to exit day”.

(4) Hepgorer Pennod 3.

RHAN 4

Taliadau Uniongyrchol: Deddfwriaeth Ddomestig

Diwygio Rheoliadau’r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014

10.—(1) Mae Rheoliadau’r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014⁽²⁾ wedi eu diwygio, i’r graddau y maent yn ymwneud â thaliadau uniongyrchol, fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2, hepgorer paragraff (1A).

(3) Yn rheoliad 5—

(1) EUR 2014/641, a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/91. Diwygiwyd EUR 2014/641 hefyd yn rhagolygol gydag effaith o ddiwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu gan O.S. 2019/208, er y dirymwyd yr offeryn hwnnw gan Rheoliadau Amaethyddiaeth (Taliadau) (Diwygio, etc.) (Ymadael â’r UE) 2020 yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu.

(2) O.S. 2014/3223 (Cy. 328), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/217 (Cy. 86), O.S. 2016/1154, O.S. 2017/565 (Cy. 134), O.S. 2019/688 (Cy. 132) o ddiwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu ymlaen, ac O.S. 2020/104 (Cy. 17).

- (a) yn lle paragraff (2)(b) rhodder—
 - “(b) yn cynnwys datganiad gan Weinidogion Cymru o’r gyfradd am y cyfnod hwnnw;”;
- (b) hepgorer paragraff (3).
- (4) Yn Atodlen 1, ar ôl paragraff 15 mewnosoder—

“Trosi, aredig neu ailhadu tir a ddynodwyd yn laswelltir parhaol amgylcheddol-sensitif

16.—(1) Ni chaiff buddiolwr drosi, aredig neu ailhadu darnau penodol o laswelltir parhaol amgylcheddol-sensitif ond—

- (a) os yw hysbysiad y safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig yn ei gwneud yn ofynnol neu’n caniatáu i’r buddiolwr aredig neu drosi darnau penodol o’r safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig; neu
- (b) os yw’r caniatâd i wneud hynny wedi ei roi gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

(2) Yn y paragraff hwn—

ystyr “glaswelltir parhaol amgylcheddol-sensitif” (*“environmentally sensitive permanent grassland”*) yw—

- (a) glaswelltir a leolir mewn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig; a
- (b) glaswelltir y mae’n ofynnol cael caniatâd ysgrifenedig i aredig mewn perthynas ag ef yn unol ag adran 28E(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(1) ond nad yw caniatâd o’r fath wedi ei gael;

mae i “safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig” yr ystyr a roddir i “*site of special scientific interest*” yn adran 52(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.”

Diwygio Rheoliadau’r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Rheoli a Gorfodi, Trawsgydymffurfio, Craffu ar Drafodiadau ac Apelau) 2014

11.—(1) Mae Rheoliadau’r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Rheoli a Gorfodi, Trawsgydymffurfio, Craffu ar Drafodiadau ac Apelau) 2014(2) wedi eu diwygio, i’r graddau ag y maent yn ymwneud â thaliadau uniongyrchol, fel a ganlyn.

(1) 1981 p. 69.

(2) O.S. 2014/3263, a ddiwygiwyd gan O.S. 2015/1325. Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli), yn y diffiniad o “competent authority”, hepgorer “, except as otherwise provided by regulation 3,”.

(3) Yn rheoliad 3 (awdurdod cymwys)—

(a) hepgorer paragraffau (2) i (3A);

(b) yn lle paragraff (4) rhodder—

“(4) In this regulation, “holding” has the meaning given by Article 4(1)(b) of the Direct Payments Regulation.”.

Diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015

12.—(1) Mae Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015(1) wedi eu diwygio, i’r graddau ag y maent yn ymwneud â thaliadau uniongyrchol, fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3—

(a) mae’r ddarpariaeth bresennol wedi ei hailrifo fel paragraff (1);

(b) ar ddechrau’r paragraff (1) a ailrifwyd, mewnosoder “Yn ddarostyngedig i baragraff (2),”;

(c) ar ôl y paragraff (1) a ailrifwyd mewnosoder—

“(2) Caniateir i daliadau uniongyrchol gael eu rhoi i ffermwr pan fo arwynebedd cymwys y daliad y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yn llai na 5 hectar os oedd taliadau uniongyrchol wedi eu hawlio gan y ffermwr hwnnw yn 2020 neu’n ddyledus iddo bryd hynny—

(a) cyn cymhwysiad Erthygl 63 o Reoliad (EU) Rhif 1306/2013; a

(b) mewn cysylltiad â daliad o’r fath (fel y’i diffinnir ar gyfer blwyddyn hawlio 2020)—

(i) a leolir yng Nghymru ac o leiaf un diriogaeth arall;

(ii) pan fo arwynebedd cymwys a leolir yng Nghymru y daliad hwnnw yn llai na 5 hectar; a

(iii) yr oedd taliad wedi ei hawlio neu’n ddyledus mewn cysylltiad â’r arwynebedd cymwys a leolir yng Nghymru.”

(3) Hpgorer rheoliad 9.

(1) O.S. 2015/1252 (Cy. 84), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/217 (Cy. 86), O.S. 2019/688 (Cy. 132) o ddiwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu ymlaen, ac O.S. 2020/104 (Cy. 17).

(4) Yn rheoliad 10—

(a) ym mharagraff (1), hepgorer “Erthygl 24 neu”;

(b) hepgorer paragraffau (3) a (4).

(5) Yn rheoliad 11(3), yn lle “30 Ebrill” rhodder “15 Mai”.

(6) Hepgorer rheoliadau 14 i 16, a 19.

RHAN 5

Taliadau Uniongyrchol: diwygio deddfwriaeth ddomestig o ganlyniad i ymadawriad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd

Diwygio Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

13.—(1) Mae Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer rheoliad 2.

(3) Hepgorer rheoliad 4(2).

(4) Hepgorer rheoliad 5(2) a (3).

RHAN 6

Diwygio deddfwriaeth ddomestig o ganlyniad i ymadawriad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd

Diwygio Rheoliadau Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

14. Yn rheoliad 1(3) o Reoliadau Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019(2), ar ôl “rheoliadau” mewnosoder “1,”.

Diwygio Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 3) 2019

15. Yn rheoliad 1(2) o Reoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 3) 2019(3), ar ôl “rheoliadau” mewnosoder “1,”.

(1) O.S. 2019/688 (Cy. 132).

(2) O.S. 2019/1281 (Cy. 225).

(3) O.S. 2019/1376 (Cy. 242).

Enw

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,
un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Memorandwm Esboniadol

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Is-adran yr Economi Wledig a Deddfwriaeth o fewn Adran yr Amgylchedd, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol ac fe'i gosodir gerbron y Senedd ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020.

Lesley Griffiths AS

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

24 Tachwedd 2020

1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 ("yr offeryn") yn diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir a chyfraith ddomestig sy'n llywodraethu cynlluniau taliadau uniongyrchol ar gyfer sicrhau parhad cynllun y taliad sylfaenol yng Nghymru y tu hwnt i 2020 a sicrhau ei fod yn effeithiol ac yn effeithlon.

Mae'r Offeryn hefyd yn diwygio'r ddeddfwriaeth hon i:

- symleiddio dull gweinyddu'r cynllun a gwneud ei weithrediad yn fwy effeithlon ac effeithiol;
- dileu darpariaethau sydd wedi darfod neu nad ydynt yn cael eu defnyddio;
- dileu neu leihau'r beichiau ar bersonau sy'n gwneud cais am daliadau uniongyrchol o dan y cynllun;
- gwella'r ffordd y mae'r cynllun yn gweithredu;
- sicrhau bod sancsiynau a chosbau a osodir o dan y cynllun yn briodol a chymesur; a
- cyfyngu ar gymhwysiad y cynllun i dir yng Nghymru yn unig.

Yn ogystal â hynny, mae'r Offeryn yn gwneud diwygiadau i fynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, ac i gywiro gwallau mewn offerynnau statudol presennol sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE.

Mae chwe rhan i'r Offeryn. Mae Rhan 1 yn gwneud darpariaethau cyflwyniadol i'r Offeryn. Mae Rhan 2 i 6 yn cynnwys diwygiadau o sylwedd sydd wedi'u manylu isod.

Rhan 2 – Taliadau Uniongyrchol: Deddfwriaeth Llorweddol

Mae Rhan 2 o'r Offeryn yn diwygio'r canlynol, i'r graddau y maent yn ymwneud â thaliadau uniongyrchol:

- Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ariannu, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin ("y Rheoliadau Llorweddol");
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 640/2014 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â'r system integredig gweinyddu a rheoli ac amodau ar gyfer gwrthod neu dynnu taliadau a chosbau gweinyddol sy'n gymwys i daliadau uniongyrchol, cymorth datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor

mewn perthynas â'r system integredig gweinyddu a rheoli, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio;

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 907/2014, 11 Mawrth 2014, sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran asiantaethau talu a chyrff eraill, rheolaeth ariannol, clirio cyfrifon, gwarantau a defnyddio'r ewro; a
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 908/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran asiantaethau talu a chyrff eraill, rheolaeth ariannol, clirio cyfrifon, rheolau ar wiriadau, gwarantau a thryloywder.

Rhan 3 – Taliadau Uniongyrchol: Deddfwriaeth Uniongyrchol a Ddargedwir

Mae Rhan 3 o'r Offeryn yn diwygio:

- Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy'n pennu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin ("y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol");
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 639/2014 dyddiedig 11 Mawrth 2014 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin; a
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 641/2014 dyddiedig 16 Mehefin 2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin.

Rhan 4 – Taliadau Uniongyrchol: Deddfwriaeth Ddomestig

Mae Rhan 4 o'r Offeryn yn diwygio'r canlynol i'r graddau y maent yn ymwneud â thaliadau uniongyrchol:

- Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014;
- Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Rheoli a Gorfodi, Thrawsgydymffurfio, Craffu ar Drafodiadau ac Apelau) 2014; a
- Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015.

Rhan 5 – Taliadau Uniongyrchol: Diwygio Deddfwriaeth Ddomestig o ganlyniad i Ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd

Mae Rhan 5 o'r Offeryn yn diwygio Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019.

Rhan 6 – Diwygio Deddfwriaeth Ddomestig o ganlyniad i Ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd

Mae Rhan 6 o'r Offeryn yn diwygio:

- Rheoliadau Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019; a
- Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 3) 2019.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Daw Rhannau 1, 5 a 6, a rheoliad 7(4) i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff yr Offeryn ei wneud, gyda gweddill yr Offeryn yn dod i rym ar ddiwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu. Mae Adran 39 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 yn diffinio diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu fel 11pm ar 31 Rhagfyr 2020.

Rhannau 2, 3, a 4 o'r Offeryn yn cael eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraffau 2(1), 3(1) a (2) a 4(1) a (2) o Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 (p.21) ("Deddf 2020") er mwyn gwneud darpariaeth yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sy'n llywodraethu'r cynlluniau taliadau uniongyrchol ar gyfer sicrhau parhad cynllun y taliad sylfaenol yng Nghymru y tu hwnt i 2020, ac i wneud newidiadau bach ond effeithiol i'r cynllun gan gynnwys symleiddio, a dileu beichiau gweinyddol.

Mae Rhannau 5 a 6 o'r Offeryn yn cael eu gwneud drwy arfer y pŵer a roddwyd gan baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p.16) ("Deddf 2018"). Mae Rhan 5 yn cynnwys diwygiadau sy'n dirymu darpariaethau yn Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/688 (Cy. 132)) i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed eisoes gan Reoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau

Uniongyrchol i Ffermwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/104 (Cy. 17)), a'r newidiadau sy'n cael eu gwneud gan yr Offeryn hwn.

Mae Rhan 6 yn cynnwys diwygiadau i gywiro gwallau yn Rheoliadau Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/1281 (Cy. 225)) a Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 3) 2019 (O.S. 2019/1376 (Cy. 242)).

Mewn perthynas â Rhannau 5 a 6 o'r Offeryn, mae'r gofyniad ym mharagraff 4(a) o Atodlen 2 (sy'n ymwneud ag ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol) i Ddeddf 2018 wedi'i fodloni.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Ar y Diwrnod Ymadael, ymgorfforodd Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 ("Deddf DPFLC") ddeddfwriaeth yr UE a oedd yn llywodraethu Cynlluniau Taliad Uniongyrchol Polisi Amaethyddol Cyffredin 2020 yng nghyfraith y DU.

Roedd hyn yn angenrheidiol oherwydd effaith Erthygl 137 o'r Cytundeb Ymadael oedd eithrio deddfwriaeth taliadau uniongyrchol ar gyfer y flwyddyn hawlio 2020 o ddeddfwriaeth a oedd yn rhan o'r cyfnod pontio.

Gwnaed Rheoliadau Ariannu, Rheoli a Monitro Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/90) a Rheoliadau Rheolau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/91) yn unol â phwerau yn adran 3 o Ddeddf DPFLC. Gwnaeth yr OSau hyn gywiriadau i'r ddeddfwriaeth taliadau uniongyrchol er mwyn sicrhau ei bod yn gweithredu'n effeithiol ar y Diwrnod Ymadael. Mae'r rheoliadau hyn yn parhau mewn grym ar ôl 31 Rhagfyr 2020 yn rhinwedd adran 3(8) o Ddeddf DPFLC.

Mae'r Offeryn hwn yn cael ei wneud yn unol â pharagraffau 2(1), 3(1) a (2) a 4(1) a (2) o Atodlen 5 i Ddeddf 2020, a pharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2018.

Mae'r Offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn unol ag adran 50(6)(c) ac (8) o Ddeddf 2020, a pharagraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf 2018.

Yn unol â gofynion Deddf 2018, mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiadau perthnasol fel y nodir yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm Esboniadol hwn.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Offeryn hwn yn sicrhau y gall cynlluniau presennol y Taliad Uniongyrchol ar gyfer ffermwyr yng Nghymru barhau i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol y tu hwnt i flwyddyn hawlio 2020, sy'n para tan 31 Rhagfyr 2020.

Taliadau Uniongyrchol fu'r prif gynlluniau cymhorthdal incwm i ffermwyr o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Ymgorfforwyd y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu cynlluniau Taliadau Uniongyrchol 2020 yng nghyfraith y DU ar y diwrnod ymadael a chafodd cynllun 2020 ei ariannu'n ddomestig.

Mae diben y ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio gan yr Offeryn fel a ganlyn:

Rhan 2 – Taliadau Uniongyrchol: Deddfwriaeth Llorweddol

- Mae Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ariannu, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin ("y Rheoliadau Llorweddol") yn nodi'r rheolau manwl o weithredu Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE ar gyfer cynlluniau Colofn 1 a Cholofn 2. Mae'r Rheoliadau Llorweddol yn darparu gofynion ar gyfer gweinyddu'r cynlluniau (gan gynnwys mesurau Archwilio a Rheoli) ac adrodd am gyllid o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin.
- Mae Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 640/2014 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y system integredig gweinyddu a rheoli ac amodau ar gyfer gwrthod neu dynnu taliadau yn ôl a chosbau gweinyddol sy'n gymwys i daliadau uniongyrchol, cymorth datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio yn nodi'r rheolau manwl mewn perthynas ag amodau ar gyfer gwrthod neu dynnu cymorth yn ôl yn rhannol neu'n gyfan gwbl, cosbau gweinyddol, y system integredig, ar gyfer y system adnabod ar gyfer parseli amaethyddol a thrawsgydymffurfio.
- Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â'r system integredig gweinyddu a rheoli, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio yn nodi'r rheolau manwl mewn perthynas â gwiriadau gweinyddol ac yn y hapwiriadau, adrodd am wiriadau a dilysiadau, mesurau rheoli penodol mewn perthynas â chywarch, achosion lle gellir cywiro ac addasu hawliadau talu, adennill taliadau a chosbau gormodol, trosglwyddo daliadau a thalu blaendaliadau.
- Mae Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 907/2014 ar 11 Mawrth 2014 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran talu asiantaethau a chyrrff eraill, rheolaeth ariannol, clirio cyfrifon, gwarantau a defnyddio'r ewro yn nodi rheolau manwl mewn perthynas ag asiantaethau talu a chyrrff cydlyn, achredu cyrrff o'r fath, rheolaeth ariannol a defnyddio'r Ewro.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 908/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran talu asiantaethau a chyrrff eraill, rheolaeth ariannol, clirio cyfrifon, rheolau ar wiriadau, gwarantau a thryloywder yn nodi rheolau manwl mewn perthynas ag asiantaethau talu, rheolaeth ariannol, gwiriadau, gwarantau a thryloywder.

Rhan 3 – Taliadau Uniongyrchol: Deddfwriaeth Uniongyrchol a Ddargedwir

- Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy'n gosod rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin;
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 639/2014 dyddiedig 11 Mawrth 2014 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin; a

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 641/2014 dyddiedig 16 Mehefin 2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin.

Rhan 4 – Taliadau Uniongyrchol: Deddfwriaeth Ddomestig

- Mae Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru, er mwyn gweithredu Rheoliadau Ewropeaidd (gan gynnwys y Rheoliadau Llorweddol a'r Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol a'r Rheoliadau Dirprwyedig a'r Rheoliadau Gweithredu cysylltiedig) sy'n ymwneud â gweinyddu polisi amaethyddol cyffredin yr UE. Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau ar reoli a gorfodi mewn perthynas â thaliadau a roddir yn uniongyrchol i ffermwyr o dan Taliadau Uniongyrchol, dyddiadau cymwys ar gyfer ceisiadau, isafswm maint daliad, gweithdrefnau ar gyfer dyledion, pwerau mynediad, troseddau a chosbau a rheolau ar drawsgydymffurfio.
- Mae Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Rheoli a Gorfodi, Trawsgydymffurfio, Craffu ar Drafodiadau ac Apelau) 2014 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweithredu yn Lloegr ac, at ddibenion penodol, yn y Deyrnas Unedig, y Rheoliadau Ewropeaidd sy'n ymwneud â gweinyddu Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE. Mae rheoliadau 3 a 4 yn rhychwantu'r DU. Mae rheoliad 3 yn nodi pa awdurdod cymwys fydd yn dyfarnu ar gais unigol ar gyfer taliadau uniongyrchol, ac mae rheoliad 4 yn caniatáu i awdurdodau cymwys ymrwymo i gytundebau asiantaeth gyda'i gilydd.
- Mae Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015 yn gwneud darpariaeth, mewn perthynas â Chymru, ar gyfer gweinyddu'r Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol a'r Rheoliadau Dirprwyedig a'r Rheoliadau Gweithredu cysylltiedig. Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi darpariaethau ar isafswm maint cymwys daliad, y dyddiad y mae rhaid i barseli tir fod ar gael i ffermwyr, y lefelau isaf o weithgarwch amaethyddol, coedlan cylchdro byr a'r cylchoedd cynaeafu uchaf, cyfrifo taliadau'r Cynllun Ffermwyr Ifanc, dyrannu hawliau i daliadau, trosglwyddo a phrydlesu a'r gofynion o ran Gwyrddu.

Rhan 5 – Taliadau Uniongyrchol: diwygio deddfwriaeth ddomestig o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd

- Mae Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 yn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru ac yn gwneud diwygiadau amrywiol i is-ddeddfwriaeth ynghylch y polisi amaethyddol cyffredin.

Rhan 6 – Diwygio deddfwriaeth ddomestig o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd

- Mae Rheoliadau Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 yn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau amrywiol i amryw o ddarnau o ddeddfwriaeth ddomestig gan gynnwys:
 - Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011;
 - Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019;
 - Rheoliadau Llifogydd a Dŵr (Diwygio) (Cymru a Lloegr) (Ymadael â'r UE) 2019; a
 - Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019.
- Mae Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 3) 2019 yn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth sy'n ymwneud â bwyd a garddwriaeth:
 - Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaeth Ffres (Cymru) 2009;
 - Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010;
 - Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011;
 - Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019; a
 - Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019.

Pam mae'n cael ei newid?

Mae'r Offeryn hwn yn caniatáu i'r cynlluniau Taliadau Uniongyrchol ar gyfer ffermwyr yng Nghymru barhau y tu hwnt i gynllun 2020 ddod i ben.

Mae'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol ar hyn o bryd yn cynnwys terfynau ariannol a ddefnyddir i gyfrifo Taliadau Uniongyrchol i ffermwyr ledled y DU. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys ond terfynau ariannol hyd at, ac yn cynnwys, blwyddyn hawlio 2020. Mae'r Offeryn hwn yn nodi'r ffordd y bydd Gweinidogion Cymru yn pennu'r terfyn ariannol blyneddol er mwyn cyfrifo taliadau y tu hwnt i 2020 yng Nghymru.

Mae'r Offeryn hwn yn dileu o gyfraith yr UE a ddargedwir ddarpariaethau nad ydynt yn gymwys yng Nghymru, a darpariaethau nad ydynt yn berthnasol y tu hwnt i gynllun 2020. Er enghraifft, mae'r Offeryn yn dileu'r rheolau sy'n ymwneud â throsglwyddo cyllid o gyllideb Taliadau Uniongyrchol 2020 i'w defnyddio ar gyfer mesurau datblygu gwledig (trosglwyddo o golofn i golofn).

Mae'r Offeryn hwn hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau a symleiddiadau, ond rhai a fydd yn cael effaith fawr, er mwyn sicrhau bod y cynllun yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol y tu hwnt i 2020. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, rhoi dyddiadau newydd yn lle'r dyddiadau sy'n rhai penodol ar gyfer cynllun 2020, dileu cyfeiriadau

at yr ewro a symleiddio i ddileu cymhlethdodau gweinyddol a theilwra cyfraith yr UE a ddargedwir er mwyn cefnogi ffermwyr Cymru wrth gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru.

Hefyd, mae'r Offeryn yn diwygio offerynnau statudol Cymru sy'n ymwneud ag Ymadael â'r UE i sicrhau eu bod yn gallu gweithredu ac i ymdrin â gwallau.

5. Ymgynghori

Mae'r diwygiadau yn Rhannau 2 – 5 o'r Offeryn wedi bod yn ddarostyngedig i ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol. Roedd 'Ffermio Cynaliadwy a'n Tir: Cynigion i gynnal a symleiddio Cymorth Amaethyddol i Ffermwyr a'r Economi Wledig' ar agor rhwng 31 Gorffennaf a 23 Hydref 2020.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r swyddogion yn ystyried nad yw'r diwygiadau hyn yn gwneud newidiadau sylfaenol i'r trefniadau cyllid presennol ar gyfer cymorth amaethyddol ac na fyddant yn cael effaith sylweddol ar y sector cyhoeddus na'r sector preifat, ar elusennau na sectorau gwirfoddol.

O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Atodiad

Datganiadau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Rhan 1

Tabl o Ddatganiadau o dan Ddeddf 2018

Datganiad	Lleoliad y gofyniad	I bwy y mae'n gymwys?	Yr hyn y mae'n ei wneud yn ofynnol
Sifftio	Paragraffau 3(3), 3(7) a 17(3) a 17(7) o Atodlen 7	Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 8(1), 9 a 23(1) i wneud OS Negyddol.	Rhaid cwblhau Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y ddeddfwriaeth arfaethedig a allai effeithio ar y sector cyhoeddus neu'r sector preifat, ar elusennau neu'r sector gwirfoddol.
Priodoldeb	Is-baragraff (2) o baragraff 28, Atodlen 7	Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer ar y cyd bwerau yn Atodlen 2.	Datganiad yn nodi nad yw'r OS yn gwneud mwy na'r hyn sy'n briodol.
Rhesymau Da	Is-baragraff (3) o baragraff 28, Atodlen 7	Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer ar y cyd bwerau yn Atodlen 2.	Egluro'r rhesymau da dros wneud yr offeryn ac egluro bod yr hyn a wneir yn ffordd resymol o weithredu.
Cydraddoldeb	Is-baragraffau (4) a (5) o baragraff 28, Atodlen 7	Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer ar y cyd bwerau yn Atodlen 2.	Egluro pa ddiwygiadau, ddiddymiadau neu ddirymiadau, os o gwbl, a wneir i Ddeddf Cydraddoldeb 2006 a Deddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth a wnaed o dan y Deddfau hynny. Nodi bod y Gweinidog wedi rhoi ystyriaeth ddilys i'r angen i gael gwared ar achosion o wahaniaethu ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2020.
Esboniadau	Is-baragraff (6) o baragraff 28, Atodlen 7	Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer ar y cyd bwerau yn Atodlen 2. Yn ogystal â'r rhwymedigaeth statudol, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo'n wleidyddol i gynnwys y datganiadau hyn ochr yn ochr â phob un o OSau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.	Egluro'r offeryn, nodi'r gyfraith berthnasol cyn y diwrnod ymadael, egluro effaith yr offeryn ar gyfraith yr UE a ddargedwir a rhoi gwybodaeth am ddiben yr offeryn, ee, ai mân newidiadau a newidiadau technegol yn unig y bwriedir eu gwneud i gyfraith yr UE a ddargedwir.

Troseddau	Is-baragraffau (3) a (7) o baragraff 28, Atodlen 7	Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 8(1), 9, a 23(1) neu sy'n arfer ar y cyd bwerau yn Atodlen 2 i greu trosedd.	Nodi'r 'rhesymau da' dros greu trosedd, a'r gosb gysylltiedig.
Pŵer a Is-ddirprwywyd	Paragraff 30, Atodlen 7	Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 10(1), 12 a rhan 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol sy'n arferadwy nid gan un o Weinidogion y Goron nac Awdurdod Datganoledig drwy Offeryn Statudol.	Nodi pam mae'n briodol greu pŵer is-ddirprwyedig o'r fath.
Brys	Paragraff 34, Atodlen 7	Gweinidogion y Goron sy'n defnyddio'r weithdrefn frys ym mharagraffau 4 neu 14, Atodlen 7.	Datganiad yn nodi pam mae'r Gweinidog yn credu bod yr OS yn un brys.
Esboniad pan fo rheoliadau o dan adran 2(2) o ECA 1972 yn cael eu diwygio	Paragraff 13, Atodlen 8	Unrhyw un sy'n gwneud OS ar ôl y diwrnod ymadael o dan bwerau y tu allan i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 sy'n addasu is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan adran 2(2) o ECA 1972	Datganiad yn egluro'r rhesymau da dros addasu'r offeryn a wnaed o dan adran 2(2) o ECA 1972, yn nodi'r gyfraith berthnasol cyn y diwrnod ymadael, ac yn egluro effaith yr offeryn ar gyfraith yr UE a ddargedwir .
Datganiad ar graffu pan fo rheoliadau o dan adran 2(2) o ECA 1972 yn cael eu diwygio	Paragraff 16, Atodlen 8	Unrhyw un sy'n gwneud OS ar ôl y diwrnod ymadael o dan bwerau y tu allan i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 sy'n addasu is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan adran 2(2) o ECA 1972.	Datganiad: a) yn nodi'r camau y mae rhaid i'r awdurdod priodol eu cymryd i sicrhau bod yr offeryn drafft a gyhoeddir yn unol â pharagraff 16(2), Atodlen 8 ar gael i ddau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig, b) yn cynnwys gwybodaeth am ymateb yr awdurdod priodol i— (i) unrhyw argymhellion a wneir gan bwyllgor naill Dŷ'r Senedd neu'r llall ynghylch yr offeryn drafft a gyhoeddwyd, ac (ii) unrhyw sylwadau eraill a wnaed i'r awdurdod priodol ynghylch yr offeryn drafft a gyhoeddwyd, ac c) yn cynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae'r awdurdod perthnasol yn ystyried ei bod yn briodol mewn perthynas â chraffu ar yr offeryn neu'r offeryn drafft sydd i'w osod.

Rhan 2

Datganiadau sy'n ofynnol wrth ddefnyddio pwerau galluogi o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

1. Datganiad(au) sifftio

Amherthnasol.

2. Datganiad priodoldeb

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad a ganlyn ynglŷn â defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Yn fy marn i, nid yw Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 yn gwneud mwy na'r hyn sy'n briodol.”

Mae hyn yn wir oherwydd mae'r Offeryn yn cywiro diffygion sy'n deillio o'r ymadawiad ac yn sicrhau bod y cynllun taliadau uniongyrchol yn parhau i weithredu'n effeithiol yng Nghymru ar ôl inni ymadael â'r UE. Mae'r Offeryn yn gwneud mân newidiadau a fydd yn cael effaith fawr, gan alluogi dull gweithredu sydd wedi ei deilwra ar gyfer darparu cyllid amaethyddol yng Nghymru ar ôl i'r Cyfnod Gweithredu ddod i ben. Mae'n sicrhau bod y deddfwriaeth yn parhau i gynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf ac yn parhau i weithredu'n effeithiol yng Nghymru yn dilyn y Cyfnod Gweithredu.

3. Rhesymau da

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad a ganlyn ynglŷn â defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Rwy'n credu bod rhesymau da dros y darpariaethau yn yr Offeryn hwn, ac rwyf wedi dod i gasgliad bod hon yn ffordd resymol o weithredu.”

Y rheswm am hyn yw bod y darpariaethau yn sicrhau bod deddfwriaeth a ddiwygir gan yr Offeryn hwn yn caniatáu inni bontio'n ddidrafferth o'r Cyfnod Gweithredu hyd nes y bydd cymorth amaethyddol wedi ei ddiwygio yn y dyfodol.

4. Cydraddoldeb

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad a ganlyn:

“Nid yw'r Offeryn yn diwygio, diddymu na dirymu darpariaeth na darpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2006 nac yn Neddf Cydraddoldeb 2010, nac mewn is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Deddfau hynny.”

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad a ganlyn ynglŷn â defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Mewn perthynas â’r Offeryn, rwyf i, Lesley Griffiths, wedi rhoi ystyriaeth ddilys i’r angen i gael gwared ar achosion o wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.”

5. Esboniadau

Mae’r datganiad sy’n cynnwys yr esboniadau wedi ei wneud ym mharagraff 4 (Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael) o brif gorff y Memorandwm Esboniadol hwn.

6. Troseddau

Amherthnasol/nid yn angenrheidiol.

7. Is-ddirprwyo deddfwriaethol

Amherthnasol/nid yn angenrheidiol.

8. Brys

Amherthnasol/nid yn angenrheidiol.

SL(5)682 – Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2021

Cefndir a Diben

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 13A(4) a (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, a pharagraffau 2 i 7 o Atodlen 1B i'r Ddeddf.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 (y cyfeirir atynt fel "Rheoliadau 2013"). Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS) yw'r dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i roi cymorth i aelwydydd ar incwm isel er mwyn iddynt dalu'r dreth gyngor.

Mae'r Rheoliadau'n uwchraddio rhai ffigurau a ddefnyddir i gyfrifo hawl ymgeisydd i ostyngiad o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a lefel y gostyngiad dilynol i adlewyrchu cynnydd o ran costau byw, ac yn gwneud diwygiadau technegol a chanlyniadol penodol.

Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Ni fu unrhyw ymgynghori ar y Rheoliadau hyn. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

"Ymgynghorwyd ar Reoliadau CTRS 2013 a darperir manylion yn yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau hynny."

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.



Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

8 Rhagfyr 2020



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 224

Legislation, Justice and Constitution Committee

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 13A(8) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif (Cy.)

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

**Rheoliadau Cynlluniau
Gostyngiadau'r Dreth Gyngor
(Gofynion Rhagnodedig a'r
Cynllun Diofyn) (Cymru)
(Diwygio) 2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig") a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau Cynllun Diofyn") a wnaed o dan adran 13A(4) a (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac Atodlen 1B iddi.

Mae'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod bilio yng Nghymru wneud cynllun sy'n pennu'r gostyngiadau sydd i fod yn gymwys i symiau o'r dreth gyngor sy'n daladwy gan bersonau, neu gan ddosbarthau o bersonau, y mae'r awdurdod yn ystyried eu bod mewn angen ariannol. Mae'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig hefyd yn nodi'r materion y mae rhaid eu cynnwys mewn cynllun o'r fath.

Mae'r Rheoliadau Cynllun Diofyn yn nodi cynllun a fydd yn cael effaith, mewn cysylltiad ag anheddau sydd wedi eu lleoli yn ardal awdurdod bilio, os yw'r awdurdod yn methu â gwneud ei gynllun ei hun.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a'r Rheoliadau Cynllun Diofyn.

Mae'r diwygiadau a wneir i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig gan reoliadau 3, 6, 9 a 10 yn darparu ar gyfer sut y mae taliadau o dan "Cynllun Digolledu Windrush" i gael eu cymryd i ystyriaeth wrth bennu cymhwysra ar gyfer gostyngiad a maint y gostyngiad. Gwneir yr un diwygiadau i'r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliadau 12, 15, 18 a 19.

Mae'r diwygiad a wneir i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig gan reoliad 4(2) yn darparu ar gyfer sut y mae taliadau'r credyd cynhwysol i hawl wyr sydd wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso ar gyfer credyd pensiwn y wladwriaeth i gael eu cymryd i ystyriaeth wrth bennu cymhwysra ar gyfer gostyngiad a maint y gostyngiad. Gwneir yr un diwygiad i'r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliad 14.

Mae'r diwygiadau i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a wneir gan reoliadau 4(1), 5, 7 ac 8 yn cynyddu rhai o'r ffigyrau a ddefnyddir wrth gyfrifo a oes gan berson hawl i gael gostyngiad ai peidio, a swm y gostyngiad hwnnw. Mae'r ffigyrau uwchraddedig yn ymwneud â didyniadau annibynyddion (sef addasiadau i uchafswm y gostyngiad y mae hawl gan berson i'w gael, er mwyn cymryd i ystyriaeth oedolion sy'n byw yn yr annedd nad ydynt yn ddibynyddion y ceisydd); ac â'r swm cymwysadwy mewn perthynas â chais am ostyngiad (sef y swm y cymherir incwm ceisydd ag ef, er mwyn pennu swm y gostyngiad y mae hawl gan y ceisydd i'w gael). Gwneir yr un diwygiadau i'r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliadau 13, 16 a 17.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 13A(8) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif (Cy.)

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

Rheoliadau Cynlluniau
Gostyngiadau'r Dreth Gyngor
(Gofynion Rhagnodedig a'r
Cynllun Diofyn) (Cymru)
(Diwygio) 2021

Gwnaed

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 13A(4) a (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(1) a pharagraffau 2 i 7 o Atodlen 1B iddi.

Yn unol ag adran 13A(8) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(2).

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

(1) 1992 p. 14. Amnewidiwyd adran 13A gan adran 10(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p. 17) a mewnosodwyd Atodlen 1B gan adran 10(2) o'r Ddeddf honno ac Atodlen 4 iddi.

(2) Mae'r cyfeiriad yn adran 13(A)(8) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), fel y'i diwygiwyd gan adran 9 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1) ac Atodlen 1 iddi.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â chynllun gostyngiadau'r dreth gyngor a wneir ar gyfer blwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021 neu ar ôl hynny.

(4) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor" yw cynllun a wneir gan awdurdod bilio yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013⁽¹⁾, neu'r cynllun sy'n gymwys yn ddiodyn yn rhinwedd paragraff 6(1)(e) o Atodlen 1B i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

Diwygiadau i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013

2. Mae Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 10.

3. Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "person cymwys", ar ôl "Cronfa Argyfwng We Love Manchester" mewnosoder "Cynllun Digolledu Windrush";

(b) yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "Cynllun Digolledu Windrush" (*the Windrush Compensation Scheme*) yw—

(a) y cynllun o'r enw "the Windrush Compensation Scheme"⁽²⁾ a weithredir gan yr Ysgrifennydd Gwladol at ddiben digolledu unigolion sydd wedi dioddef colled mewn cysylltiad â'r ffaith nad ydynt yn gallu dangos bod ganddynt statws cyfreithlon yn y Deyrnas Unedig; a

(b) y polisi o'r enw "Windrush Scheme: Support in urgent and exceptional

(1) O.S. 2013/3029 (Cy. 301), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2014/66 (Cy. 6), O.S. 2014/825 (Cy. 83), O.S. 2015/44 (Cy. 3), O.S. 2015/971, O.S. 2016/50 (Cy. 21), O.S. 2017/46 (Cy. 20), O.S. 2018/14 (Cy. 7), O.S. 2019/11 (Cy. 5) ac O.S. 2020/16 (Cy. 2).

(2) Mae Rheolau Cynllun Digolledu Windrush wedi eu cyhoeddi a gellir eu gweld ar https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/925385/Windrush_Compensation_Scheme_Full_Rules.pdf. Gellir cael copi caled ar gais drwy ysgrifennu at yr Is-adran Trethiant Lleol, Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2 Marsham Street, Llundain SW1P 4DF. Gellir cael rhagor o wybodaeth ynghylch Cynllun Digolledu Windrush ar <https://www.gov.uk/guidance/windrush-compensation-scheme>.

circumstances”(1) a weithredwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol at ddiben digolledu unigolion yr oedd angen iddynt, am resymau brys ac am resymau eithriadol, gael cymorth cyn i’r cynllun y cyfeirir ato ym mharagraff (a) o’r diffiniad hwn ddod yn weithredol;”.

4. Yn Atodlen 1 (penderfynu cymhwysra am ostyngiad: pensïynwyr)—

(1) ym mharagraff 3 (didyniadau annibynyddion: pensïynwyr)—

- (a) yn is-baragraff (1)(a) yn lle “£14.65” rhodder “£15.35”;
- (b) yn is-baragraff (1)(b) yn lle “£4.85” rhodder “£5.10”;
- (c) yn is-baragraff (2)(b) yn lle “£9.75” rhodder “£10.20”;
- (d) yn is-baragraff (2)(c) yn lle “£12.25” rhodder “£12.85”;

(2) ym mharagraff 10 (ystyr “incwm”: pensïynwyr) yn is-baragraff 1(j) mewnosoder “(xx) credyd cynhwysol;”.

5. Yn Atodlen 2 (symiau cymwysadwy: pensïynwyr)—

- (a) yng ngholofn (2) o’r Tabl ym mharagraff 1 (lwfans personol)—
 - (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£173.80” a “£187.80” rhodder “£177.10” ac “£191.15” yn y drefn honno;
 - (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£265.20” a “£280.85” rhodder “£270.30” a “£286.05” yn y drefn honno;
 - (iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£265.20” a “£91.40” rhodder “£270.30” a “£93.20” yn y drefn honno;
 - (iv) yn is-baragraff (4) yn lle “£280.85” a “£93.05” rhodder “£286.05” a “£94.90” yn y drefn honno;
- (b) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau’r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—
 - (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£66.95” ym mhob lle y mae’n digwydd rhodder

(1) Gellir gweld y polisi hwn ar https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/916834/Windrush_Scheme_-_Support_in_Urgent_and_Exceptional_Circumstances.pdf. Gellir cael copi caled ar gais drwy ysgrifennu at yr Is-adran Trethiant Lleol, Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2 Marsham Street, Llundain SW1P 4DF.

“£67.30” ac yn lle “£133.90” rhodder “£134.60”;

- (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£26.60” rhodder “£26.67”;
- (iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£65.52” rhodder “£65.94”;
- (iv) yn is-baragraff (4) yn lle “£37.50” rhodder “£37.70”.

6. Yn Atodlen 5 (diystyriadau cyfalaf: pensiynewyr), ym mharagraff 16(1)(a), ar ôl “Cronfa Argyfwng We Love Manchester” mewnosoder “, Cynllun Digolledu Windrush”.

7. Yn Atodlen 6 (penderfynu cymhwysra am ostyngiad o dan gynllun awdurdod, swm unrhyw ostyngiad, a chyfrifo incwm a chyfalaf: personau nad ydynt yn bensiynwyr) ym mharagraff 5 (didyniadau annibynyddion: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

- (a) yn is-baragraff (1)(a) yn lle “£14.65” rhodder “£15.35”;
- (b) yn is-baragraff (1)(b) yn lle “£4.85” rhodder “£5.10”;
- (c) yn is-baragraff (2)(b) yn lle “£9.75” rhodder “£10.20”;
- (d) yn is-baragraff (2)(c) yn lle “£12.25” rhodder “£12.85”.

8. Yn Atodlen 7 (symiau cymwysadwy: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

- (a) yng ngholofn (2) o’r Tabl ym mharagraff 1 (lwfansau personol)—
 - (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£79.20” ym mhob lle y mae’n digwydd rhodder “£79.60” ac yn lle “£62.75” rhodder “£63.05”;
 - (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£79.20” rhodder “£79.60”;
 - (iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£124.45” rhodder “£125.05”;
- (b) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau’r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—
 - (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£34.95” a “£49.80” rhodder “£35.10” a “£50.05” yn y drefn honno;
 - (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£66.95” ym mhob lle y mae’n digwydd rhodder “£67.30” ac yn lle “£133.90” rhodder “£134.60”;
 - (iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£65.52” rhodder “£65.94”;
 - (iv) yn is-baragraff (4) yn lle “£37.50” rhodder “£37.70”;

(v) yn is-baragraff (5) yn lle “£26.60”, “£17.10” a “£24.50” rhodder “£26.67”, “£17.20” a “£24.60” yn y drefn honno;

(c) yn Rhan 6 (symiau’r elfennau)—

(i) ym mharagraff 23 yn lle “£29.35” rhodder “£29.70”;

(ii) ym mharagraff 24 yn lle “£39.20” rhodder “£39.40”.

9. Yn Atodlen 10 (diystyriadau cyfalaf: personau nad ydynt yn bensynwyr)—

(a) ym mharagraff 29(1), ar ôl “Cronfa Argyfwng We Love Manchester” mewnosoder “, Cynllun Digolledu Windrush”;

(b) ym mharagraff 29(7), ar ôl “Cronfa Argyfwng We Love Manchester” mewnosoder “, Cynllun Digolledu Windrush”.

10. Yn Atodlen 13 (pob ceisydd: materion y mae’n rhaid eu cynnwys mewn cynllun awdurdod—materion eraill), ym mharagraff 5(7)(a)(ii), ar ôl “Cronfa Argyfwng We Love Manchester” mewnosoder “, Cynllun Digolledu Windrush”.

Diwygiadau i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013

11. Mae’r cynllun a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013(1) wedi ei ddiwygio yn unol â rheoliadau 12 i 19.

12. Ym mharagraff 2(1) (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o “person cymwys”, ar ôl “Cronfa Argyfwng We Love Manchester” mewnosoder “, Cynllun Digolledu Windrush”;

(b) yn y lle priodol mewnosoder—

“ystyr “Cynllun Digolledu Windrush” (“*the Windrush Compensation Scheme*”) yw—

(a) y cynllun o’r enw “the Windrush Compensation Scheme”(2) a weithredir

(1) O.S. 2013/3035 (Cy. 303), fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2014/66 (Cy. 6), O.S. 2014/825 (Cy. 83), O.S. 2015/44 (Cy. 3), O.S. 2015/971, O.S. 2016/50 (Cy. 21), O.S. 2017/46 (Cy. 20), O.S. 2018/14 (Cy. 7), O.S. 2019/11 (Cy. 5) ac O.S. 2020/16 (Cy. 2).

(2) Mae Rheolau Cynllun Digolledu Windrush wedi eu cyhoeddi a gellir eu gweld ar https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/925385/Windrush_Compensation_Scheme_Full_Rules.pdf. Gellir cael copi caled ar gais drwy ysgrifennu at yr Is-adran Trethiant Lleol, Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2 Marsham Street, Llundain SW1P 4DF. Gellir cael rhagor o wybodaeth ynghylch Cynllun Digolledu Windrush ar <https://www.gov.uk/guidance/windrush-compensation-scheme>.

gan yr Ysgrifennydd Gwladol at ddiben digolledu unigolion sydd wedi dioddef colled mewn cysylltiad â'r ffaith nad ydynt yn gallu dangos bod ganddynt statws cyfreithlon yn y Deyrnas Unedig; a

- (b) y polisi o'r enw "Windrush Scheme: Support in urgent and exceptional circumstances"⁽¹⁾ a weithredwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol at ddiben digolledu unigolion yr oedd angen iddynt, am resymau brys ac am resymau eithriadol, gael cymorth cyn i'r cynllun y cyfeirir ato ym mharagraff (a) o'r diffiniad hwn ddod yn weithredol;".

13. Ym mharagraff 28 (didyniadau annibynyddion: pensiynewyr a phersonau nad ydynt yn bensiynwyr)—

- (a) yn is-baragraff (1)(a) yn lle "£14.65" rhodder "£15.35";
- (b) yn is-baragraff (1)(b) yn lle "£4.85" rhodder "£5.10";
- (c) yn is-baragraff (2)(b) yn lle "£9.75" rhodder "£10.20";
- (d) yn is-baragraff (2)(c) yn lle "£12.25" rhodder "£12.85".

14. Ym mharagraff 36 (ystyr "incwm": pensiynewyr) yn is-baragraff 1(j) mewnosoder "(xx) credyd cynhwysol;".

15. Ym mharagraff 111(7)(a)(ii), ar ôl "Cronfa Argyfwng We Love Manchester" mewnosoder "Cynllun Digolledu Windrush".

16. Yn Atodlen 2 (symiau cymwysadwy: pensiynewyr)—

- (a) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 1 (lwfansau personol)—
- (i) yn is-baragraff (1) yn lle "£173.80" a "£187.80" rhodder "£177.10" ac "£191.15" yn y drefn honno;
- (ii) yn is-baragraff (2) yn lle "£265.20" a "£280.85" rhodder "£270.30" a "£286.05" yn y drefn honno;

(1) Gellir gweld y polisi hwn ar https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/916834/Windrush_Scheme_-_Support_in_Urgent_and_Exceptional_Circumstances.pdf. Gellir cael copi caled ar gais drwy ysgrifennu at yr Is-adran Trethiant Lleol, Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2 Marsham Street, Llundain SW1P 4DF.

- (iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£265.20” a “£91.40” rhodder “£270.30” a “£93.20” yn y drefn honno;
- (iv) yn is-baragraff (4) yn lle “£280.85” a “£93.05” rhodder “£286.05” a “£94.90” yn y drefn honno;
- (b) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau’r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—
 - (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£66.95” ym mhob lle y mae’n digwydd rhodder “£67.30” ac yn lle “£133.90” rhodder “£134.60”;
 - (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£26.60” rhodder “£26.67”;
 - (iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£65.52” rhodder “£65.94”;
 - (iv) yn is-baragraff (4) yn lle “£37.50” rhodder “£37.70”.

17. Yn Atodlen 3 (symiau cymwysadwy: personau nad ydynt yn bensynwyr)—

- (a) yng ngholofn (2) o’r Tabl ym mharagraff 1 (lwfansau personol)—
 - (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£79.20” ym mhob lle y mae’n digwydd rhodder “£79.60” ac yn lle “£62.75” rhodder “£63.05”;
 - (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£79.20” rhodder “£79.60”;
 - (iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£124.45” rhodder “£125.05”;
- (b) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau’r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—
 - (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£34.95” a “£49.80” rhodder “£35.10” a “£50.05” yn y drefn honno;
 - (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£66.95” ym mhob lle y mae’n digwydd rhodder “£67.30” ac yn lle “£133.90” rhodder “£134.60”;
 - (iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£65.52” rhodder “£65.94”;
 - (iv) yn is-baragraff (4) yn lle “£37.50” rhodder “£37.70”;
 - (v) yn is-baragraff (5) yn lle “£26.60”, “£17.10” a “£24.50” rhodder “£26.67”, “£17.20” a “£24.60” yn y drefn honno;
- (c) yn Rhan 6 (symiau’r elfennau)—
 - (i) ym mharagraff 23 yn lle “£29.35” rhodder “£29.70”;

(ii) ym mharagraff 24 yn lle “£39.20”
rhodder “£39.40”.

18. Yn Atodlen 8 (diystyriadau cyfalaf: pensïynwyr),
ym mharagraff 16(1)(a), ar ôl “Cronfa Argyfwng We
Love Manchester” mewnosoder “, Cynllun Digolledu
Windrush”.

19. Yn Atodlen 9 (diystyriadau cyfalaf: personau nad
ydynt yn bensïynwyr)—

- (a) ym mharagraff 29(1), ar ôl “Cronfa Argyfwng
We Love Manchester” mewnosoder “,
Cynllun Digolledu Windrush”;
- (b) ym mharagraff 29(8), ar ôl “Cronfa Argyfwng
We Love Manchester” mewnosoder “,
Cynllun Digolledu Windrush”.

Enw
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd, un o Weinidogion
Cymru
Dyddiad

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2021

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol ac fe'i cyflwynir gerbron y Senedd ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi barn deg a rhesymol am effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2021. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Rebecca Evans
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
1 Rhagfyr 2020

RHAN 1: DISGRIFIAD

1 Trosolwg

- 1.1 Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS) yw'r mecanwaith y mae awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio i ddarparu cymorth i aelwydydd incwm isel i gyflawni eu hatebolrwydd i dalu'r dreth gyngor.
- 1.2 Mae'r offeryn statudol hwn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 (y cyfeirir atynt ar y cyd yn y Memorandwm Esboniadol hwn fel 'Rheoliadau CTRS 2013'). Mae'n codi ffigurau penodol a ddefnyddir i gyfrifo hawl ymgeisydd i ostyngiad o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a lefel y gostyngiad dilynol ac mae'n gwneud diwygiadau technegol a chanlyniadol penodol.

2 Materion sydd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Nid oes unrhyw faterion o ddiddordeb arbennig.

3 Cefndir Deddfwriaethol

- 3.1 Mae Adran 10 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 ac Atodlen 4 iddi wedi mewnosod adran 13A ac Atodlen 1B newydd yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (Deddf 1992). Roedd y darpariaethau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS) yng Nghymru drwy reoliadau.
- 3.2 Roedd y darpariaethau perthnasol yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 yn destun Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 26 Mehefin 2012. Cafodd Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 Gydsyniad Brenhinol ar 1 Tachwedd 2012.
- 3.3 Gwneir yr offeryn statudol hwn yn unol â phwerau yn adran 13A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac Atodlen 1B iddi. Mae'r offeryn yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Senedd (y weithdrefn gadarnhaol) yn rhinwedd adran 13A(4) o Ddeddf 1992".

4 Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau CTRS 2013 i godi ffigurau penodol yn y Rheoliadau hynny a ddefnyddir i gyfrifo'r hawl i ostyngiad yn y dreth gyngor, a swm unrhyw ostyngiad a ddyfarnwyd i ymgeiswyr ym mlwyddyn ariannol 2021-22 i adlewyrchu cynnydd mewn costau byw. Mae hefyd yn gwneud mân newidiadau technegol a chanlyniadol i Reoliadau CTRS 2013.

Y Cefndir

- 4.2 Roedd Deddf Diwygio Lles 2012 yn cynnwys darpariaethau i ddiddymu Budd-dal y Dreth Gyngor o 31 Mawrth 2013. O 1 Ebrill 2013, cafodd y cyfrifoldeb am ddarparu cymorth ar gyfer y dreth gyngor ei ddatganoli i awdurdodau lleol yn Lloegr. Cafodd cyllid sefydlog, a ostyngwyd 10% o'i gymharu â chostau 2012-13, ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru ac i Lywodraeth yr Alban i ganiatáu i'r Gweinyddiaethau Datganoledig ddatblygu cynlluniau newydd.
- 4.3 Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU, ceisiodd Llywodraeth Cymru ddarpariaethau yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 a ddiwygiodd Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (Deddf 1992), i roi pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru i gyflwyno Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru drwy reoliadau.
- 4.4 Cymeradwywyd Rheoliadau CTRS 2013 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 26 Tachwedd 2013.
- 4.5 Darparodd Llywodraeth Cymru £244m yn y Setliad Llywodraeth Leol ar gyfer CTRS yn 2013-14. Ariannwyd hyn yn rhannol drwy'r gyllideb sefydlog o £222m a drosglwyddwyd o Lywodraeth y DU. Rhoddodd Llywodraeth Cymru £22 miliwn ychwanegol i alluogi awdurdodau lleol i barhau i roi'r cymorth llawn y mae gan bob ymgeisydd cymwys yr hawl i'w gael. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ddarparu £244m o fewn y setliad llywodraeth leol bob blwyddyn ers hynny.

Rheoliadau CTRS 2013

- 4.6 Ochr yn ochr â'r darpariaethau yn Neddf 1992, mae Rheoliadau CTRS 2013 yn rheoli gweithrediad CTRS yng Nghymru. Roedd y rheoliadau hyn wedi'u seilio'n agos ar reolau Budd-dal y Dreth Gyngor yn flaenorol i atal aelwydydd incwm isel rhag wynebu newidiadau sydyn yn lefel y cymorth a gawsant. Cafodd pob ymgeisydd cymwys ei drosglwyddo'n awtomatig ac yn ddi-dor o Fudd-dal y Dreth Gyngor i Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o 1 Ebrill 2013. Os bydd ymgeisydd yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar Sail Incwm, Credyd Pensiwn, neu Warrant Credyd Pensiwn, mae ganddo hawl i'r gostyngiad mwyaf, llawn, yn ei rwymedigaeth treth gyngor. Mae tua 70% o ymgeiswyr CTRS yng Nghymru yn cael y budd-daliadau pasbortio hyn.
- 4.7 Os nad yw ymgeisydd yn cael unrhyw un o'r budd-daliadau pasbortio, cyfrifir y swm wythnosol o arian y barnir y bydd ei angen i fyw arno. Gelwir hyn yn 'swm cymwysadwy' ac mae'n cynnwys dwy gydran:
- Y cyntaf yw'r lwfans personol – y swm sylfaenol y mae person ei angen i fyw arno, sy'n amrywio yn ôl amgylchiadau'r aelwyd. Er enghraifft, mae'r lwfans ar gyfer cwpl â phlant yn uwch nag ar gyfer person sengl heb

blant. Mae'r lwfansau hyn hefyd wedi'u pennu ar gyfraddau uwch ar gyfer y rhai sydd wedi cyrraedd Oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

- Yr ail gydran yw'r premiwm – ychwanegir symiau ychwanegol i adlewyrchu unrhyw amgylchiadau personol sy'n cynyddu costau byw, megis anabledd neu gyfrifoldebau gofalwr. Unwaith y bydd y swm perthnasol wedi'i bennu, cyfrifir lefel incwm yr ymgeisydd.
- 4.8 Ar gyfer CTRS, bydd unigolion sy'n cael Credyd Cynhwysol yn cael eu trin mewn ffordd debyg i ymgeiswyr heb eu pasbortio. Fodd bynnag, yn hytrach na bod 'swm cymwysadwy' yn cael ei gyfrifo, defnyddir yr 'uchafswm' (a gyfrifir yn eu cais Credyd Cynhwysol) yn lle hynny.
- 4.9 Os yw'r swm cymwysadwy (neu'r uchafswm) yn uwch nag incwm cyfrifedig yr ymgeisydd, mae ganddo hawl i'r gostyngiad mwyaf yn ei rwymedigaeth treth gyngor. Os yw'r incwm yn fwy na'r swm cymwysadwy, gostyngir yr hawl wythnosol 20c am bob £1 o incwm wythnosol dros ben, hyd nes y tynnir yr hawl yn ôl – y tapr yw'r enw ar hwn.
- 4.10 Gellir gwneud addasiadau i uchafswm y gostyngiad y gall person ei gael i ystyried oedolion sy'n byw yn yr annedd nad ydynt yn ddibynyddion yr ymgeisydd ac y tybir felly eu bod yn gwneud cyfraniad ariannol i'r aelwyd (didyniadau annibynyddion).
- 4.11 Gellir gwneud addasiadau hefyd i ystyried cynilon. Os oes gan ymgeisydd gyfalaf o £6,000 (neu £10,000 ar gyfer hawllyr oedran pensiwn) neu lai, anwybyddir hyn wrth benderfynu a oes ganddynt hawl i ostyngiad.
- 4.12 Os oes gan ymgeisydd o oedran gweithio gyfalaf o rhwng £6,000 a £16,000, bydd yr awdurdod lleol yn ei drin fel incwm. Gelwir hyn yn incwm tariff. Bydd yr awdurdod lleol yn cymryd yn ganiataol bod gan ymgeisydd incwm o £1 yr wythnos am bob £250 o gyfalaf rhwng £6,000 ac £16,000. Bydd hyn yn cael ei ychwanegu at incwm arall i weld a oes gan ymgeisydd hawl i ostyngiad a faint y mae ganddo hawl iddo.
- 4.13 Os oes gan ymgeisydd o oedran pensiwn gyfalaf o rhwng £10,000 a £16,000, bydd yr awdurdod lleol yn ei drin fel incwm. Bydd yr awdurdod lleol yn cymryd yn ganiataol bod gan ymgeisydd incwm o £1 yr wythnos am bob £500 o gyfalaf rhwng £10,000 a £16,000. Bydd hyn yn cael ei ychwanegu at incwm arall i weld a oes gan ymgeisydd hawl i ostyngiad a faint y mae ganddo hawl iddo.

Cynyddu ffigurau ar gyfer 2021-22

- 4.14 Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau CTRS 2013 i godi ffigurau ariannol a ddefnyddir i gyfrifo'r hawl i ostyngiad yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.
- 4.15 Mae'r offeryn statudol yn ceisio cynyddu nifer o ffigurau eraill sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau CTRS 2013. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Lwfansau personol mewn perthynas ag oedran gweithio, a phremiymau gofalwyr ac anabl
Mae'r ffigurau ariannol mewn perthynas â'r lwfansau hyn wedi'u diwygio ac wedi cynyddu yn unol â'r codiadau costau byw. Bydd y confensiwn yn codi'n unol â ffigur y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer mis Medi o'r flwyddyn flaenorol (2020), sef 0.5%.
- Lwfansau personol mewn perthynas â phensiynwyr
Mae'r ffigurau ariannol mewn perthynas â chyfraddau pensiynwyr wedi'u diwygio ac maent yn cyd-fynd â Budd-dal Tai. Cyfrifwyd y rhain gyda chymorth yr Adran Gwaith a Phensiynau ac maent wedi'u codi gan wahanol fecanweithiau. Er enghraifft, mae'r Warant Isafswm Safonol Credyd Pensiwn yn codi yn ôl enillion, tra bod y pensiwn ychwanegol a'r cynyddrannau yn cael codi yn ôl prisiau.
- Didyniadau annibynyddion
Mae'r ffigurau ariannol ar gyfer y bandiau incwm a'r didyniadau a wnaed mewn perthynas ag annibynyddion wedi'u codi. Os na wneir diwygiadau, ni fyddai'r didyniadau o ddyfarniadau CTRS yn briodol gan na fyddai'r trothwyon incwm bellach yn adlewyrchu enillion cyfartalog ac ni fyddai'r didyniad bellach yn adlewyrchu cost gyffredinol y dreth gyngor.

Gwelliannau Ychwanegol

4.16 Yn ogystal â diweddarau'r ffigurau ariannol, mae'r offeryn statudol hwn yn gwneud nifer o ddiwygiadau eraill i Reoliadau CTRS 2013. Mae'r rhain yn gwneud darpariaeth ar gyfer trin dau fath arall o daliadau ac yn sicrhau bod Rheoliadau 2013 yn parhau i fod yn gyfredol ac yn addas i'r diben.

Diwygiadau sy'n gysylltiedig â Chynllun Iawndal Windrush

4.17 Mae'r cynllun iawndal hwn ("y Cynllun") wedi'i gynllunio i ddigolledu unigolion sydd wedi dioddef colled mewn cysylltiad â methu â dangos eu statws cyfreithlon yn y Deyrnas Unedig.

4.18 Mae'r diwygiadau arfaethedig i Reoliadau CTRS 2013 yn gwneud darpariaeth y bydd taliadau digolledu a wneir o dan y Cynllun yn cael eu diystyru o gyfalaf wrth benderfynu a yw ymgeisydd yn gymwys i gael gostyngiad, a swm y gostyngiad hwnnw.

Diystyriad Credyd Cynhwysol Di-dor

4.19 Daw'r hawl i Gredyd Cynhwysol i ben pan fydd person (neu gwpl oedran cymysg) yn cyrraedd yr oedran cymhwys ar gyfer credyd pensiwn y wladwriaeth. O'r pwynt hwn, gall hawlwyr hawlio budd-daliadau oedran pensiwn fel Credyd Pensiwn yn lle hynny.

- 4.20 Yn flaenorol, roedd hawlwr a gyrhaeddodd oedran pensiwn y wladwriaeth yn ystod y cyfnod asesu mewn perygl o weld bwlch rhwng eu taliad credyd cynhwysol diwethaf a'u taliadau credyd pensiwn cyntaf (a budd-daliadau oedran pensiwn eraill). Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cymryd camau i bontio yn fwy llyfn o greddy cynhwysol i fudd-daliadau oedran pensiwn, heb unrhyw risg o fylchau yn yr hawl i hawlwr. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gwneud taliadau credyd cynhwysol di-dor ychwanegol ar gyfer y mis cyfan pan fydd hawliwr yn cyrraedd oedran pensiwn. I rai hawlwr, yn dibynnu ar ba ddyddiad o fewn y mis y maent yn cyrraedd yr oedran hwn, bydd gorgyffwrdd o ran derbyn y taliad credyd cynhwysol hwn a budd-daliadau oedran pensiwn.
- 4.21 Mae'r diwygiadau arfaethedig i Reoliadau 2013 yn darparu nad yw unrhyw 'incwm ychwanegol' sy'n deillio o orgyffwrdd o'r fath i'w ystyried yn incwm wrth benderfynu pwy sy'n gymwys i gael gostyngiad oedran pensiwn yn y dreth gyngor yng Nghymru.

RHAN 2: ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Yr Opsiynau

Opsiwn 1 – Gwneud dim

- 1 Pe bai'r ffigurau ariannol a ddefnyddiwyd i asesu lwfansau aelwydydd yn y prawf modd gostyngiadau'r dreth gyngor yn aros yn sefydlog, byddai'r meini prawf a ddefnyddiwyd ychydig yn llai hael ar gyfer ymgeiswyr heb eu pasbortio a byddai'n arwain at ostyngiadau bach mewn cymorth mewn termau real.
- 2 Byddai'r ffigurau ariannol a ddefnyddiwyd i asesu cymhwysedd aelwydydd ag unigolion nad ydynt yn ddibynnol wedi dyddio. Ni fyddai'r trothwyon incwm bellach yn adlewyrchu enillion cyfartalog ac ni fyddai'r addasiad a wnaed i ostyngiad terfynol y dreth gyngor bellach yn adlewyrchu cost gyffredinol y dreth gyngor.
- 3 Os na wneir diwygiadau canlyniadol i Reoliadau CTRS 2013, byddai hyn yn golygu na fyddent yn ystyried newidiadau i fudd-daliadau lles cysylltiedig a deddfwriaeth arall. Gallai hyn roi rhai ymgeiswyr dan anfantais drwy leihau neu atal eu hawl i gael cymorth. Gallai hefyd greu dryswch i ymgeiswyr a chynyddu'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol a darparwyr cyngor.

Opsiwn 2 – Diwygio'r Rheoliadau

- 4 Byddai'r opsiwn hwn yn golygu y byddai diwygiadau'n cael eu gwneud i godi'r ffigurau ariannol yn Rheoliadau CTRS 2013 yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, cynnydd mewn costau byw a newidiadau i fudd-daliadau cymwys.
- 5 Bydd y ffigurau ariannol mewn perthynas ag oedran gweithio, anabledd neu gyfraddau gofalwyr yn parhau i gynyddu gyda chostau byw ar gyfer 2020-21 (0.5%, fel y'u mesurir gan y CPI). Bydd y lwfansau personol ar gyfer pensynwyr yn cael eu codi i gyd-fynd â'r rhai ar gyfer Budd-dal Tai a'r system fudd-daliadau. Byddai'r cynnydd yn cyd-fynd â Gwarant Isafswm Safonol Llywodraeth y DU a Chredyd Cynilion.
- 6 Byddai'r ffigurau ariannol a ddefnyddir i gyfrifo'r addasiad ar gyfer didyniadau annibynyddion yn cael eu codi. Byddai'r trothwyon incwm mewn perthynas ag annibynyddion yn cael eu codi i adlewyrchu enillion cyfartalog a byddai'r didyniad annibynyddion o CTRS yn adlewyrchu'r cynnydd cyfartalog yn y dreth gyngor.
- 7 Byddai'r diwygiadau technegol a chanlyniadol angenrheidiol hefyd yn cael eu gwneud.

Costau a manteision

Costau

Opsiwn 1 – Gwneud dim

- 8 Os nad yw'r ffigurau ariannol ar gyfer lwfansau oedran gweithio a phensiynwyr yn cynyddu gyda chostau byw (fel y'u mesurir gan y CPI), byddai unigolion sy'n cael CTRS ychydig yn waeth eu byd mewn termau real.
- 9 Byddai'r ffigurau ariannol a ddefnyddir i asesu cymhwysedd aelwydydd â phobl nad ydynt yn ddibynnol hefyd wedi dyddio. Ni fyddai'r cyfrifiad bellach yn gwneud asesiad teg o incwm annibynyddion na chost gyffredinol y dreth gyngor. Mae perygl y byddai'r agwedd hon ar y cynllun yn cael ei hystyried yn annheg neu'n anghyfiawn.
- 10 Os na wneir y diwygiadau technegol a chanlyniadol i Reoliadau CTRS 2013, ni fyddent bellach yn cyd-fynd â darpariaethau Budd-dal Tai a budd-daliadau perthnasol eraill. Byddai'n arwain at fod yn anghyson â'r system fudd-daliadau gyffredinol a gallai roi rhai ymgeiswyr dan anfantais drwy leihau eu hawl i gymorth. Gallai hyn arwain o bosibl at faich gweinyddol ychwanegol ar awdurdodau lleol a darparwyr cyngor. Gall hefyd arwain at ddryswch i rai ymgeiswyr a allai, o ganlyniad, gael eu trin yn sylweddol wahanol o dan gynlluniau budd-daliadau.

Manteision

- 11 Byddai peidio â chodi ffigurau pensiynwyr ac oedran gweithio yn helpu i gyfyngu ar unrhyw gynnydd yng nghyfanswm y gostyngiadau o dan CTRS. Fodd bynnag, byddai peidio â chodi ffigurau mewn perthynas â didyniadau annibynyddion yn arwain at ostyngiadau uwch nag arfer yn y dreth gyngor i aelwydydd perthnasol.

Opsiwn 2 – Diwygio'r Rheoliadau

Costau

- 12 Byddai cynyddu'r ffigurau ariannol mewn perthynas â phensiynwyr a lwfansau oedran gweithio yn cynyddu cyfanswm y gostyngiadau o dan CTRS rywfaint. Fodd bynnag, pe bai'r ffigurau ariannol mewn perthynas â didyniadau nad ydynt yn ddibynnol hefyd yn cael eu codi, byddai hyn yn lliniaru rhywfaint o'r cynnydd yng nghyfanswm y gostyngiadau. O ganlyniad, ni ddisgwylir i gyfanswm gostyngiadau'r dreth gyngor godi'n sylweddol o ganlyniad i'r cynnydd.

Manteision

- 13 Bydd cynyddu'r ffigurau ariannol Rheoliadau CTRS 2013 yn sicrhau bod y lwfans personol ar gyfer ymgeiswyr o oedran gweithio yn parhau i gynyddu yn unol â'r CPI (0.5%).

- 14 Parheir i gynyddu'r ffigurau ariannol mewn perthynas â'r lwfans personol i bensiynwyr yn unol â'r Warrant Isafswm Safonol a'r Credyd Cynilion.
- 15 Os caiff y ffigurau ariannol mewn perthynas â chyfraddau didyniadau annibynyddion eu codi, bydd hyn yn sicrhau bod y cyfrifiad a ddefnyddir i asesu cymhwysedd aelwydydd nad ydynt yn ddibynnol yn parhau i fod yn gyfredol. Byddai'r cyfrifiad yn parhau i wneud asesiad teg o incwm annibynyddion a chost y dreth gyngor. Bydd hyn yn sicrhau bod y system yn parhau i fod yn deg ac yn gyfiawn.
- 16 Fel rhan o'r Rheoliadau hyn, gwneir diwygiadau canlyniadol a thechnegol sy'n gysylltiedig â newidiadau lles ehangach a wneir gan lywodraeth y DU. Byddai hyn yn sicrhau bod CTRS yn adlewyrchu newidiadau a wnaed i fudd-daliadau nawdd cymdeithasol cydberthynol sy'n aml yn pennu hawl i ostyngiad. Byddai hefyd yn osgoi unrhyw faich gweinyddol ychwanegol ar awdurdodau lleol neu ddarparwyr cyngor sy'n deillio o reoli gwahanol gyfundrefnau.

Sectorau

- 17 Ymgynghorwyd â llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol wrth ddatblygu cynigion i gyflwyno CTRS yng Nghymru. Mae rheoliadau drafft ar gyfer 2020-21 wedi'u rhannu gydag awdurdodau lleol.
- 18 Ni fydd y ddeddfwriaeth hon yn effeithio ar y sector busnes.

Dyletswyddau

- 19 Wrth ddrafftio'r Rheoliadau hyn rhoddwyd ystyriaeth i'r ddyletswydd sydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo cydraddoldeb a dileu gwahaniaethu.
- 20 Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer cyflwyno Rheoliadau CTRS 2013.
- 21 Darperir yr offeryn statudol hwn yn ddwyieithog. Caiff CTRS ei roi ar waith a'i weithredu gan awdurdodau lleol sydd o dan ddyletswyddau cyffredinol i gydymffurfio â dyletswyddau'r Gymraeg a datblygu cynaliadwy.
- 22 Ystyriwyd ymhellach a fyddai'n bosibl defnyddio CTRS i wella cyfleoedd personau i ddefnyddio'r Gymraeg gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gan mai unig ddiben CTRS yw rhoi cymorth i aelwydydd incwm isel wrth gyflawni eu hatebolrwydd i dalu'r dreth gyngor, ystyrir nad oes cyfleoedd o'r fath.
- 23 Bydd cynnal hawliau llawn i CTRS yn parhau i helpu aelwydydd incwm isel i gyflawni eu hatebolrwydd i dalu'r dreth gyngor ac, o'r herwydd, bydd yn cyfrannu at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wneud y dreth gyngor yn decach.

Asesu'r Gystadleuaeth

- 24 Mae'r Rheoliadau hyn wedi'u sgorio yn erbyn y prawf hidlo cystadleuaeth a ddangosodd na fydd unrhyw effaith andwyol ar gystadleuaeth.

Ymgynghori

- 25 Nid oes ymgynghoriad wedi'i gynnal mewn perthynas â'r offeryn statudol hwn. Ymgynghorwyd ar Reoliadau CTRS 2013 a darperir manylion yn yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau hynny.

Adolygu ar ôl gweithredu

- 26 Gofynnir am ddiwygiadau yn flynyddol i godi'r ffigurau ariannol a ddefnyddir i gyfrifo'r hawl i ostyngiadau. Mae hyn yn rhoi cyfle i adolygu'r ddeddfwriaeth.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Gosod Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor
(Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2021

DYDDIAD 1 Rhagfyr 2020

GAN Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Heddiw, rwyf wedi [gosod Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor \(Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn\) \(Cymru\) \(Diwygio\) 2021](#) gerbron y Senedd.

Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Senedd, bydd y Rheoliadau hyn yn uwchraddio'r ffigurau ariannol yn Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 i sicrhau bod y cynllun sydd yn ei le ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22 yn adlewyrchu codiadau yng nghost byw. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y cynllun yn cadw hawliadau ar gyfer 280,000 o aelwydydd ledled Cymru sy'n dibynnu ar y cymorth hwn.

Edrychaf ymlaen at y ddatl ar y rheoliadau ar ddechrau'r flwyddyn newydd.

Eitem 5.8 SL(5)685 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws a Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau") a hefyd yn gwneud diwygiadau technegol i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws)(Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol").

Diwygiadau i'r Prif Reoliadau

Gosododd y prif Reoliadau gyfyngiadau a gofynion ar sail Cymru gyfan yn dilyn y "cyfnod atal byr" a oedd ar waith yng Nghymru rhwng 23 Hydref ac 8 Tachwedd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i'r Rheoliadau hynny er mwyn:

- ei gwneud yn ofynnol i fariau, caffis, ffreuturau, bwytaï a thafarndai fod ar gau i gwsmeriaid rhwng 6.00 p.m. a 6.00 a.m. (ond mae'r cyfyngiad hwn yn ddarostyngedig i eithriadau penodol yn rheoliad newydd 19B, gan gynnwys mewn perthynas â llety gwyliau neu lety teithio ac ar gyfer gwleddoedd priodasau neu bartneriaethau sifil a archebwyd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym);
- atal unrhyw alcohol rhag cael ei werthu i'w yfed, neu rhag cael ei yfed, mewn bariau, caffis, ffreuturau, bwytaï a thafarndai (ond nid yw hyn yn atal alcohol rhag cael ei werthu i breswylwyr mewn llety gwyliau neu lety teithio fel rhan o wasanaeth ystafell (yn ddarostyngedig i'r gofynion yn rheoliad 20), nac yn atal preswylwyr rhag yfed alcohol yn eu hystafelloedd preifat);
- ei gwneud yn ofynnol i fangreoedd o dan do mewn lleoliadau adloniant ac atyniadau i ymwelwyr gau;
- gwahardd pobl rhag teithio i Gymru o ardaloedd sy'n ddarostyngedig i'r lefelau uchaf o gyfyngiadau yn Lloegr a'r Alban, a Gogledd Iwerddon hefyd, neu allan o Gymru i'r ardaloedd hynny.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio darpariaethau gorfodi amrywiol (gan gynnwys, er enghraifft, egluro na chaiff pŵer swyddog gorfodi i fynd i mewn i annedd breifat ond ei arfer gan gwnstabl yr heddlu) a darparu ei bod yn drosedd methu, heb esgus rhesymol, â chymryd mesurau a bennir mewn hysbysiad gwella mangre a gyflwynir o dan Atodlen 3 i'r prif Reoliadau.

Diwygiadau i'r Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol

Gwnaed Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 ar 17 Medi 2020 a daethant i rym y diwrnod canlynol. Maent yn cynnwys 'darpariaeth fachlud', fel y bydd y Rheoliadau hynny yn dod i ben ar ddiwedd 8 Ionawr 2021. Bydd y prif Reoliadau y mae'r Rheoliadau hynny'n ymwneud â hwy yn dod i ben ar ddiwedd 19 Chwefror 2021. Y diwygiad cyntaf a wneir yn y Rheoliadau hyn, felly, yw cysoni'r dyddiadau dod i ben rhwng y ddwy set o Reoliadau, fel bod y ddwy set yn dod i ben ar ddiwedd 19 Chwefror 2021.



Mae Rheoliad 6 o'r Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol gyflwyno cyfarwyddydau ("cyfarwyddydau digwyddiadau") sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddigwyddiad ddod i ben neu beidio â chael ei gynnal, neu osod cyfyngiadau neu ofynion mewn perthynas â chynnal y digwyddiad. Ni allant ond wneud hyn os bodlonir amodau penodol ac ar ôl ystyried a fydd pobl yn ymgynnull yn anghyfreithlon yn y digwyddiad. Gwneir dau fân ddiwygiad i'r rheoliad hwn, sef –

-diwygio croesgyfeiriad;

-ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, wrth benderfynu pa un ai i roi cyfarwyddyd digwyddiad, roi sylw hefyd i a oes mwy na 15 o bobl (os yw'r digwyddiad o dan do) neu 30 o bobl yn bresennol (os yw'r digwyddiad yn yr awyr agored).

Er bod Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020 wedi dod i ben, mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid ystyried hysbysiadau cosb a ddyroddwyd o dan y Rheoliadau hynny wrth bennu swm hysbysiad cosb benodedig i'w ddyroddi o dan reoliad 19 o'r Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol.

Mae rheoliad 46 o'r prif Reoliadau yn caniatáu i awdurdodau lleol ddwyn erlyniadau o dan y Rheoliadau hynny eu hunain, ond ni ddarperir ar gyfer hyn ar hyn o bryd o dan y Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol. Gwneir diwygiad, felly, i reoliad 20 i ddarparu ar gyfer hyn, a hynny er mwyn sicrhau cysondeb o ran pwerau erlyn awdurdodau lleol.

Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Er bod y diwygiadau sydd yn y Rheoliadau hyn yn parhau'n berthnasol o dan y prif Reoliadau a Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol i hawliau unigolion o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal



lledaenu clefydau heintus a/neu bod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Wrth benderfynu a oedd angen y cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau hyn, a phennu manylion y cyfyngiadau a'r gofynion hynny, rwyf i, ynghyd â Gweinidogion a swyddogion eraill Llywodraeth Cymru, wedi cynnal trafodaethau gyda sectorau a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys arweinwyr llywodraeth leol a busnesau ac undebau llafur yng Nghymru ac rydym yn parhau i wneud hynny. Yn fy natganiad i'r Aelodau ar 1 Rhagfyr, cyhoeddais fwrriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r newidiadau a gyflawnir yn y Rheoliadau hyn, sydd wedi'u hadrodd yn eang ers hynny."

Bu llawer o sôn yn y cyfryngau am y ffaith bod y Rheoliadau hyn wedi cael effaith economaidd uniongyrchol sylweddol ar fusnesau, yn enwedig busnesau yn y sector lletygarwch a busnesau sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau i'r sector hwnnw. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ffaith y cafodd y cyhoeddiad ynghylch y newidiadau polisi a chyfreithiol a fyddai'n digwydd yn sgil y Rheoliadau hyn ei wneud ar 1 Rhagfyr, dim ond pedwar diwrnod cyn iddynt ddod i rym. O ystyried y ffaith y byddai llawer o'r busnesau yr effeithir arnynt wedi gwneud buddsoddiadau helaeth ar yr adeg hon o'r flwyddyn, er enghraifft, mewn stoc ddarfodus, pa fesurau cymorth ariannol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi ar waith i liniaru'r effaith economaidd, a pha ystyriaeth a roddwyd i ddewisiadau polisi eraill?

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r Nodyn Esboniadol i'r rheoliadau hyn yn cynnwys gwallau. Mae'r Nodyn Esboniadol yn nodi: "Mae'r diwygiadau i'r Rheoliadau swyddogaethau awdurdodau lleol (a) yn darparu i'r Rheoliadau ddod i ben ar 19 Chwefror 2020 yn lle 8 Ionawr 2020, er mwyn bod yn gyson â dyddiad dod i ben y prif Rheoliadau." Dylai'r dyddiadau machlud newydd sy'n cael eu nodi fod ym mlwyddyn 2021, nid ym mlwyddyn 2020. Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r dyddiadau cywir.

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ffaith nad oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn, a bod y Memorandwm Esboniadol yn egluro bod hyn "oherwydd bod angen eu rhoi ar waith ar frys i fynd i'r afael â'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd." Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi bod "crynodeb o asesiad effaith integredig wedi'i lunio a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan LLYW.cymru: <https://llyw.cymru/asesiadau-o-effaith-coronafeirws>". Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu'r papur hwn (9 Rhagfyr), nid oedd unrhyw grynodedd wedi'i gyhoeddi. Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau pryd y disgwyllir i unrhyw grynodedd o'r fath gael ei gyhoeddi.



Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i bwyntiau rhinweddau 2, 3 a 4 uchod.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

9 Rhagfyr 2020



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 249

Legislation, Justice and Constitution Committee

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1409 (Cy. 311)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws a
Swyddogaethau Awdurdodau Lleol)
(Diwygio) (Cymru) 2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1219 (Cy. 276)) (y "prif Reoliadau") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1011 (Cy. 225)) (y "Rheoliadau swyddogaethau awdurdodau lleol").

Mae'r diwygiadau i'r prif Reoliadau—

- (a) yn ei gwneud yn ofynnol, yn rheoliad newydd 19A(1) o'r prif Reoliadau, i fariau, caffis, ffreuturau, bwytaï a thafarndai fod ar gau i gwsmeriaid rhwng 6.00 p.m. a 6.00 a.m. (ond mae'r cyfyngiad hwn yn ddarostyngedig i eithriadau penodol yn rheoliad newydd 19B, gan gynnwys mewn perthynas â llety gwyliau neu lety teithio ac ar gyfer gwleddoedd priodasau neu bartneriaethau sifil a archebwyd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym);
- (b) yn atal, yn rheoliad newydd 19A(2), unrhyw alcohol rhag cael ei werthu i'w yfed, neu rhag cael ei yfed, mewn bariau, caffis, ffreuturau,

bwytaï a thafarndai (ond nid yw hyn yn atal alcohol rhag cael ei werthu i breswylwyr mewn llety gwyliau neu lety teithio fel rhan o wasanaeth ystafell (yn ddarostyngedig i'r gofynion yn rheoliad 20), nac yn atal preswylwyr rhag yfed alcohol yn eu hystafelloedd preifat);

- (c) yn ei gwneud yn ofynnol i fangreoedd o dan do mewn lleoliadau adloniant ac atyniadau i ymwelwyr gau;
- (d) yn gwneud diwygiadau canlyniadol, mân ddiwygiadau neu ddiwygiadau technegol, gan gynnwys dirymu darpariaethau diangen a diwygio darpariaethau gorfodi amrywiol (gan gynnwys er mwyn darparu ei bod yn drosedd methu, heb esgus rhesymol, â chymryd mesurau a bennir mewn hysbysiad gwella mangre a ddyroddir o dan Atodlen 3 i'r prif Reoliadau).

Mae'r diwygiadau i'r Rheoliadau swyddogaethau awdurdodau lleol—

- (a) yn darparu i'r Rheoliadau ddod i ben ar 19 Chwefror 2020 yn lle 8 Ionawr 2020, er mwyn bod yn gyson â dyddiad dod i ben y prif Reoliadau;
- (b) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, wrth benderfynu pa un ai i roi cyfarwyddyd digwyddiad, roi sylw i a all y digwyddiad arwain at bobl yn ymgynnull yn groes i reoliad 6 o'r prif Reoliadau a rhoi sylw i a all mwy na 15 o bobl (pan fo'r digwyddiad o dan do) neu 30 o bobl (pan fo yn yr awyr agored) fod yn bresennol yn y digwyddiad ar unrhyw un adeg;
- (c) yn rhoi y tu hwnt i amheuaeth, er bod Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020 wedi dod i ben, fod rhaid ystyried hysbysiadau cosb a ddyroddwyd o dan y Rheoliadau hynny wrth bennu swm hysbysiad cosb benodedig i'w ddyroddi o dan reoliad 19 o'r Rheoliadau swyddogaethau awdurdodau lleol;
- (d) yn caniatáu i awdurdodau lleol ddwyn achosion am droseddau o dan y Rheoliadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1409 (Cy. 311)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws a
Swyddogaethau Awdurdodau Lleol)
(Diwygio) (Cymru) 2020**

Gwnaed 2 Rhagfyr 2020

Gosodwyd gerbron *Senedd*
Cymru 3 Rhagfyr 2020

Yn dod i rym am 6.00 p.m. ar 4 Rhagfyr 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws a Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 6.00 p.m. ar 4 Rhagfyr 2020.

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020⁽¹⁾ wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 9—

- (a) ym mharagraff (1), yn lle “y tu allan i Gymru” rhodder “mewn ardal o'r DU sydd o dan gyfyngiadau”;
- (b) ym mharagraff (2), ar ôl “ymadael â Chymru” mewnosoder “at ddibenion mynd i ardal o'r DU sydd o dan gyfyngiadau neu aros mewn ardal o'r fath”;
- (c) ar y diwedd mewnosoder—

“(6) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr “ardal o'r DU sydd o dan gyfyngiadau” yw —

- (a) ardal o Loegr y pennir neu y disgrifir am y tro yn Rhan 2 o Atodlen 4 i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau) (Pob Haen) (Lloegr) 2020⁽²⁾ ei bod o fewn ardal Haen 3;
- (b) ardal o'r Alban a bennir am y tro yn y tabl yn Atodlen 6 i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws) (Cyfyngiadau a Gofynion) (Lefelau Lleol) (Yr Alban)

⁽¹⁾ O.S. 2020/1219 (Cy. 276) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1237 (Cy. 279) ac O.S. 2020/1288 (Cy. 286).

⁽²⁾ O.S. 2020/1374.

2020(1), pan fo'r tabl yn nodi ei bod yn ardal Lefel 3 neu Lefel 4;

(c) Gogledd Iwerddon.”

(3) Yn Rhan 4, hepgorer Pennod 3.

(4) Yn rheoliad 19, ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

“(1A) O ran ei gymhwysiad i fusnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraffau 10 i 12 o Atodlen 1, nid yw paragraff (1) ond yn gymwys i fangre sydd o dan do.”

(5) Ar ôl rheoliad 19 mewnosoder—

“Cyfyngiadau ar fusnesau bwyd a diod

19A.—(1) O ran person sy'n gyfrifol am gynnal busnes neu ddarparu gwasanaeth a restrir ym mharagraffau 5 i 7 o Atodlen 2—

- (a) ni chaiff agor ei fangre i gwsmeriaid cyn 6.00 a.m. bob dydd;
- (b) rhaid iddo gau'r fangre i gwsmeriaid am neu cyn 6.00 p.m. bob dydd.

(2) Ni chaiff y person sy'n gyfrifol am y busnes—

- (a) gwerthu na chyflenwi alcohol i'w yfed yn ei fangre;
- (b) caniatáu i alcohol gael ei yfed yn y fangre.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn, mae ardal sy'n gyfagos i fangre'r busnes lle y mae seddi yn cael eu rhoi ar gael i gwsmeriaid y busnes (pa un ai gan y busnes ai peidio) i'w thrin fel rhan o fangre'r busnes hwnnw.

(4) Pan fo—

- (a) person sy'n gyfrifol am gynnal busnes a restrir ym mharagraffau 5 i 7 o Atodlen 2 (“busnes A”) yn ddarostyngedig i ofyniad neu gyfyngiad o dan y rheoliad hwn, a
- (b) busnes A yn ffurfio rhan o fusnes mwy (“busnes B”),

cydymffurfir â'r gofyniad neu'r cyfyngiad os yw'r person sy'n gyfrifol am gynnal busnes B yn cydymffurfio â'r gofyniad neu'r cyfyngiad.

(1) O.S.A. 2020/344 fel y'i diwygiwyd gan O.S.A. 2020/347, O.S.A. 2020/374, O.S.A. 2020/389, O.S.A. 2020/392 ac O.S.A. 2020/400.

**Cyfyngiadau ar fusnesau bwyd a diod:
eithriadau**

19B.—(1) Nid yw rheoliad 19A(1) yn gymwys i—

- (a) mangre mewn—
 - (i) porthladd môr;
 - (ii) maes awyr;
 - (iii) sefydliad addysgol;
 - (iv) ysbyty neu gartref gofal;
- (b) ffreuturau yn y gweithle, pan na fo dewis ymarferol arall i bobl yn y gweithle hwnnw gael bwyd rhwng 6.00 p.m. a 6.00 a.m.;
- (c) mangre a ddefnyddir ar gyfer darparu bwyd neu ddiod i bersonau digartref.

(2) Nid yw rheoliad 19A(1) yn atal mangre rhag cael ei defnyddio i werthu neu gyflenwi bwyd neu ddiod i'w fwyta neu i'w hyfed oddi ar y fangre.

(3) Os—

- (a) yw dathliad priodas neu ffurfiad partneriaeth sifil yn cael ei gynnal mewn mangre y mae rheoliad 19A yn gymwys iddi, a
- (b) archebwyd y dathliad cyn 6.00 p.m. ar 4 Rhagfyr 2020,

caiff y fangre, er gwaethaf rheoliad 19A(1)(b), aros ar agor tan 10.00 p.m. at ddibenion cynnal y dathliad.

(4) Mae paragraffau (5) a (6) yn gymwys pan fo mangre busnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraffau 5 i 7 o Atodlen 2 (“y fangre o dan gyfyngiadau”) yn ffurfio rhan o fangre llety gwyliau neu lety teithio.

(5) Nid yw rheoliad 19A(1)—

- (a) yn ei gwneud yn ofynnol i'r fangre o dan gyfyngiadau fod ar gau i breswylwyr y llety gwyliau neu'r llety teithio;
- (b) yn atal gwerthu bwyd neu ddiod i breswylwyr—
 - (i) fel rhan o wasanaeth ystafell, neu
 - (ii) rhwng 6.00 a.m. a 10.00 p.m. mewn unrhyw ran o fangre'r llety gwyliau neu'r llety teithio.

(6) Nid yw rheoliad 19A(1) na (2)—

- (a) yn atal preswylwyr rhag bwyta bwyd neu yfed diod (gan gynnwys alcohol) ar unrhyw adeg yn eu hystafell breifat;

(b) yn atal gwerthu alcohol i breswylwyr fel rhan o wasanaeth ystafell (ond gweler rheoliad 20).”

(6) Yn rheoliad 20—

- (a) hepgorer paragraffau (2) i (5);
- (b) ym mharagraff (6), yn lle “Nid yw paragraffau (1) a (2) yn caniatáu i’r fangre fod ar agor, nac” rhodder “Nid yw paragraff (1) yn caniatáu”;
- (c) hepgorer paragraff (7).

(7) Yn rheoliad 25(3)—

- (a) ar ôl “19(1),” mewnosoder “19A(1) neu (2),”;
- (b) yn lle “20(1) neu (2)” rhodder “20(1)”.

(8) Yn rheoliad 28(4), yn lle “, 14(2) neu 18A(3)” rhodder “neu 14(2)”.

(9) Yn rheoliad 31(4), yn lle “, 14(2) neu 18A(3)” rhodder “neu 14(2)”.

(10) Yn rheoliad 32, ar y diwedd mewnosoder—

“(4) Ni chaiff swyddog gorfodaeth fynd i fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu’n bennaf fel annedd breifat onid yw’r swyddog gorfodaeth yn gwnstabl.”

(11) Yn rheoliad 34—

- (a) ym mharagraff (1), hepgorer “, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson roi unrhyw wybodaeth neu ateb unrhyw gwestiwn y mae’r swyddog yn ystyried ei bod neu ei fod yn berthnasol i arfer y pŵer”;

(b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

“(1A) Caiff camau gweithredu a gymerir o dan baragraff (1) gynnwys ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson roi unrhyw wybodaeth neu ateb unrhyw gwestiwn y mae’r swyddog yn ystyried—

- (a) ei bod neu ei fod yn angenrheidiol er mwyn galluogi’r swyddog i benderfynu pa un ai i arfer pŵer a roddir i’r swyddog gan y Rhan hon, neu
- (b) ei bod neu ei fod yn berthnasol fel arall i arfer pŵer o’r fath.”

(12) Yn rheoliad 35—

(a) ym mharagraff (1)—

- (i) yn is-baragraff (a), hepgorer “18A(3),”;
- (ii) yn is-baragraff (b)—
 - (aa) ar ôl “19(1),” mewnosoder “19A(1) neu (2),”;
 - (bb) yn lle “20(1) neu (2)” rhodder “20(1)”;

- (b) ym mharagraff (5), o flaen is-baragraff (a) mewnosoder—

“(za) heb esgus rhesymol, yn methu â chymryd y mesurau a bennir mewn hysbysiad gwella mangre a ddyroddir o dan baragraff 1(1) o Atodlen 3 o fewn y terfyn amser a bennir yn yr hysbysiad.”.

- (13) Yn lle rheoliad 42(1) rhodder—

“**42.**—(1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys i hysbysiad cosb benodedig a ddyroddir mewn cysylltiad â throstedd honedig—

- (a) o dorri—

(i) rheoliad 19(1), 19A(1) neu (2), neu 20(1), neu

(i) paragraff 3(1) o Atodlen 3, neu

- (b) o dan reoliad 35(5)(za),

(y cyfeirir ati yn y rheoliad hwn fel “trostedd busnes honedig”).”

- (14) Yn rheoliad 46(1)(c)(i), yn lle “neu 20(1) neu (2)” rhodder “, 19A(1) neu (2), neu 20(1)”.

- (15) Yn Atodlen 1, ar y diwedd mewnosoder—

“**5.** Neuaddau bingo.

6. Aliau bowlio, arcedau diddanu a mannau chwarae o dan do.

7. Casinos.

8. Sinemâu.

9. Canolfannau sglefrio.

10. Ffeiriau pleser, parciau diddanu a pharciau thema.

11. Amgueddfeydd ac orielau.

12. Atyniadau i ymwelwyr.”

- (16) Yn Atodlen 2—

- (a) hepgorer paragraffau 13, 14, 17, 18, 25, 33 a 38;

- (b) ym mharagraff 30, ar ôl “Llyfrgelloedd” mewnosoder “a gwasanaethau archifau”;

- (c) ym mharagraff 45, yn lle “Atyniadau i ymwelwyr a busnesau” rhodder “Busnesau”;

- (d) ar ôl paragraff 45 mewnosoder—

“**45A.** Busnes neu wasanaeth a restrir yn Atodlen 1 i’r graddau y caniateir i’r fangre—

- (a) bod ar agor yn rhinwedd rheoliad 19(1A), neu

- (b) cael ei defnyddio yn rhinwedd rheoliad 19(2).”

(17) Yn Atodlen 3, ym mharagraff 2, ar y diwedd mewnosoder—

“(8) Pan fo—

- (a) swyddog gorfodaeth yn ystyried bod person cyfrifol wedi methu â chymryd y mesurau a bennir mewn hysbysiad gwella mangre o fewn y terfyn amser penodedig, a

- (b) naill ai—

- (i) hysbysiad cosb benodedig wedi ei ddyroddi mewn cysylltiad â throedd honedig o dan reoliad 35(5)(za), neu

- (ii) achos wedi ei ddwyn am drosedd o’r fath,

mewn perthynas â’r methiant hwnnw,

caiff y swyddog gorfodaeth serch hynny ddyroddi hysbysiad cau mangre o dan is-baragraff (1).”

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020

3.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(1), yn lle “8 Ionawr” rhodder “19 Chwefror”.

(3) Yn rheoliad 6—

(a) yn lle paragraff (2) rhodder—

“(2) Wrth ystyried a yw’r amodau iechyd y cyhoedd wedi eu bodloni, rhaid i awdurdod lleol, yn benodol, roi sylw i—

- (a) a yw pobl yn ymgynnull, neu’n debygol o ymgynnull, yn y digwyddiad yn groes i reoliad 6 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020;

- (b) pan fo’r digwyddiad yn cael ei gynnal yn gyfan gwbl neu’n bennaf o dan do, a yw mwy na 15 o bobl yn bresennol neu’n debygol o fod yn bresennol;

- (c) pan fo’r digwyddiad yn cael ei gynnal yn gyfan gwbl neu’n bennaf yn yr awyr

(1) O.S. 2020/1011 (Cy. 225) fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2020/1100 (Cy. 250), O.S. 2020/1149 (Cy. 261) ac O.S. 2020/1219 (Cy. 276).

agored, a yw mwy na 30 o bobl yn bresennol neu'n debygol o fod yn bresennol.”;

(b) ar ôl paragraff (7), mewnosoder—

“(8) At ddibenion paragraff (2), mae digwyddiad i'w drin fel pe bai'n cael ei gynnal o dan do os yw'n cael ei gynnal mewn mangre sy'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 2 o Reoliadau Mangreodd etc. Di-fwg (Cymru) 2007(1).”

(4) Yn rheoliad 17, ar y diwedd mewnosoder—

“(4) Ni chaiff swyddog gorfodaeth fynd i fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd breifat onid yw'r swyddog gorfodaeth yn gwnstabl.”

(5) Yn rheoliad 19(10), ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

“(c) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020(2);”

(6) Yn rheoliad 20, ar ôl “Cyhoeddus” mewnosoder “, awdurdod lleol”.

Mark Drakeford

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
2 Rhagfyr 2020

(1) O.S. 2007/787 (Cy. 68).

(2) O.S. 2020/1149 (Cy. 261).

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws a Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws a Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2020.

Mark Drakeford
Y Prif Weinidog

3 Rhagfyr 2020

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau") a hefyd yn gwneud diwygiadau technegol i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys a amlinellir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i drafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y Rheoliadau hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a achosir gan y coronafeirws.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y diwygiadau sydd yn y Rheoliadau hyn yn parhau'n berthnasol o dan y prif Reoliadau a Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol i hawliau unigolion o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu bod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a'r rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy arfer y pwerau yn adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984.

Mae'r rheoliadau a wneir o dan adrannau 45B a 45C o Ddeddf 1984 yn ddarostyngedig i weithdrefn wahanol yn y Senedd. Fodd bynnag, yn unol ag adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, mae'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' fel yr amlinellir yn adrannau 45Q a 45R o Ddeddf 1984.

Mae Memoranda Esboniadol y prif Reoliadau a Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol yn darparu rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

4. Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i'r prif Reoliadau a Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol fel y nodir isod.

Diwygiadau i'r prif Reoliadau

Gosododd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 gyfyngiadau a gofynion ar sail Cymru gyfan yn dilyn y "cyfnod atal byr" yng Nghymru rhwng 23 Hydref ac 8 Tachwedd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i'r Rheoliadau hynny er mwyn:

- ei gwneud yn ofynnol i fariâu, caffis, ffreuturau, bwytaï a thafarndai fod ar gau i gwsmeriaid rhwng 6.00 p.m. a 6.00 a.m.;
- atal unrhyw alcohol rhag cael ei werthu i'w yfed, neu rhag cael ei yfed, mewn bariau, caffis, ffreuturau, bwytaï a thafarndai;
- ei gwneud yn ofynnol i fangreoedd dan do mewn lleoliadau adloniant ac atyniadau i ymwelwyr gau;
- gwahardd pobl rhag teithio i Gymru o ardaloedd sy'n ddarostyngedig i'r lefelau uchaf o gyfyngiadau yn Lloegr a'r Alban, a Gogledd Iwerddon hefyd, neu allan o Gymru i'r ardaloedd hynny.

Mae'r Gell Cyngor Technegol wedi nodi bod tystiolaeth wyddonol ac arsylwadol gynyddol bod cysylltiad rhwng lleoliadau lletygarwch a throsglwyddiad y clefyd. Mae pryder hefyd am yr effaith y mae cymdeithasu'n fwy cyffredinol yn ei chael ar ledaeniad y feirws, gyda mynd allan i leoliadau lletygarwch yn aml yn sbarduno ymddygiad peryglus (ac yn aml anghyfreithlon) arall fel cwrdd ag eraill yng nghartrefi pobl cyn ac ar ôl mynd allan, peidio â gwisgo gorchuddion wyneb (gan gynnwys ar drafnidiaeth gyhoeddus) a pheidio â dilyn arferion cadw pellter cymdeithasol. Bydd yn ofynnol i dafarndai, bariau, bwytaï a chaffis gau erbyn 6 p.m. ac ni fydd hawl ganddynt weini alcohol. Ar ôl 6 p.m., dim ond gwasanaeth tecawê y byddant yn gallu ei ddarparu.

Bwriad y cwmpas cyfyngedig i agor yw peidio ag annog cymdeithasu, ond un fantais yw ei fod yn rhoi cyfle i bobl gwrdd ag eraill i liniaru'r effaith andwyol ar iechyd meddwl a all godi o unigrwydd ac ynysigrwydd. Mae hyn yn debygol o fod yn arbennig o bwysig i bobl nad ydynt yn rhan o aelwyd estynedig na fyddai fel arall, oherwydd y cyfyngiadau ehangach, yn gallu cwrdd dan do ag unrhyw un arall.

Mae'r sector lletygarwch eisoes wedi cyflwyno mesurau lliniaru i leihau'r risg o ledaenu coronafeirws yn eu mangre yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion i gwsmeriaid archebu, cael eu gweini a bwyta eu bwyd a'u diod pan fyddant yn eistedd yn unig (nid mewn unrhyw far yn y fangre). Bydd y gofynion hyn yn parhau.

Ni fydd gwestai a llety teithio arall yn gallu gweini bwyd i gwsmeriaid nad ydynt yn breswylwyr ar ôl 6 p.m. na gweini alcohol. Fodd bynnag, bydd modd gweini bwyd i breswylwyr yn y manau bwyta tan 10 p.m. Bydd gwasanaeth ystafell yn dal i fod ar gael a gall y gwasanaeth hwnnw gynnwys alcohol, ond bydd yn dod i ben am 10 p.m. yn unol â'r cyfyngiadau ehangach ar allwerthu alcohol.

Nid yw'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r cyfyngiad presennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i fangreoedd â thrwydded allwerthu ar gyfer alcohol roi'r gorau i werthu alcohol erbyn 10 p.m.

Yn yr un modd â phob gweithgaredd dan do, mae risg uwch o drosglwyddo mewn lleoliadau adloniant fel sinemâu, neuaddau bingo, alïau bowlio, canolfannau ac ardaloedd chwarae dan do, casinos, canolfannau sglefrio, arcedau diddanu a chanolfannau gemau i oedolion, theatrau a neuaddau cyngerdd. Y rheswm am hyn yw'r potensial i nifer mawr o bobl fod yn agos at ei gilydd, yn aml am gyfnodau hir o amser. Yn ogystal, mae arwynebau a rennir yn aml yn peri risgiau.

Yn sgil y risgiau uwch hyn, o 6 p.m. ddydd Gwener 4 Rhagfyr, bydd yn ofynnol i atyniadau i ymwelwyr a lleoliadau adloniant dan do gau.

Caiff atyniadau awyr agored aros ar agor. Pan fo gan leoliad elfennau dan do ac awyr agored, rhaid atal mynediad i'r ardaloedd dan do yn y lleoliad hwnnw.

Caiff y prif Reoliadau eu diwygio hefyd i wahardd personau sy'n byw yng Nghymru rhag gadael Cymru a mynd i ardal dan gyfyngiadau yn y Deyrnas Unedig¹, a phersonau sy'n byw mewn ardal dan gyfyngiadau yn y Deyrnas Unedig rhag dod i Gymru heb esgus rhesymol. Y rheswm am hyn yw risgiau a gyflwynir gan bobl sy'n symud rhwng ardaloedd lle mae nifer yr achosion o'r haint yn uchel, gyda mwy o debygolrwydd o risgiau yn sgil ei drosglwyddo. Caniateir teithio o fewn Cymru o hyd, ond nid yw'n cael ei annog.

Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol neu ddiwygiadau technegol, gan gynnwys dirymu darpariaethau diangen – er enghraifft, roedd y darpariaethau yn rheoliad 18A yn ymwneud â phersonau a oedd wedi cyrraedd Cymru o Ddenmarc yn gymwys rhwng 7 Tachwedd a 21 Tachwedd yn unig. Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio darpariaethau gorfodi amrywiol (gan gynnwys er enghraifft, egluro na chaiff pŵer swyddog gorfodi i fynd i mewn i annedd breifat ond ei arfer gan gwnstabl yr heddlu) a darparu ei bod yn drosedd methu, heb esgus rhesymol, â chymryd mesurau a bennir mewn hysbysiad gwella mangre a gyflwynir o dan Atodlen 3 i'r prif Reoliadau.

Diwygiadau i'r Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol

Gwnaed Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 ar 17 Medi 2020 a daethant i rym y diwrnod canlynol². Maent yn cynnwys 'darpariaeth fachlud', fel y bydd y Rheoliadau hynny yn dod i ben ar ddiwedd 8 Ionawr 2021. Bydd y prif Reoliadau y mae'r Rheoliadau hynny'n ymwneud â hwy yn dod i ben ar ddiwedd 19 Chwefror 2021. Y diwygiad cyntaf a wneir yn y Rheoliadau hyn, felly, yw cysoni'r dyddiadau dod i ben rhwng y ddwy set o Reoliadau, fel bod y ddwy set yn dod i ben ar ddiwedd 19 Chwefror 2021.

¹ Ardal Haen 3 yn Lloegr yw hon (gweler Rhan 2 o Atodlen 4 i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Pob Haen) (Lloegr) 2020 (O.S. 2020/1374), ac ardal Lefel 3 neu 4 yn yr Alban (gweler Atodlen 6 i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws) (Cyfyngiadau a Gofynion) (Lefelau Lleol) (Yr Alban) 2020 (O.S yr Alban 2020/344 fel y'i diwygiwyd) neu yng Ngoledd Iwerddon

² Gan diddymu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 a wnaed yn flaenorol

Mae Rheoliad 6 o'r Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol gyflwyno cyfarwyddydau ("cyfarwyddydau digwyddiadau") sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddigwyddiad ddod i ben neu beidio â chael ei gynnal, neu osod cyfyngiadau neu ofynion mewn perthynas â chynnal y digwyddiad. Ni allant ond wneud hyn os bodlonir amodau penodol ac ar ôl ystyried a fydd pobl yn ymgynnull yn anghyfreithlon yn y digwyddiad. Gwneir dau fân ddiwygiad i'r rheoliad hwn –

- diwygio rheoliad 6(2) sydd ar hyn o bryd yn cynnwys croesgyfeiriad at reoliadau 14 a 14A o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 a ddylai fod yn gyfeiriad at reoliad 6 o'r prif Reoliadau. (Ystyrir bod rheoliadau 14 a 14A o Reoliadau Rhif 2 wedi'u haildeddfu gydag addasiadau yn rheoliad 6 o Reoliadau Rhif 4). Mae adran 35 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn ei gwneud yn ofynnol darllen cyfeiriad at ddarpariaeth sydd wedi'i dirymu sydd wedi cael ei haildeddfu fel pe bai'n cynnwys cyfeiriad at y ddarpariaeth sydd wedi'i haildeddfu. Fodd bynnag, drwy ddiweddarau'r croesgyfeiriad hwn drwy ddiwygio, bydd yn ei gwneud yn haws i'r darllenydd ddeall sut mae'r ddeddfwriaeth yn gweithio.
- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, wrth benderfynu pa un ai i roi cyfarwyddyd digwyddiad, roi sylw hefyd i a oes mwy na 15 o bobl (os yw'r digwyddiad o dan do) neu 30 o bobl yn bresennol (os yw'r digwyddiad yn yr awyr agored).

Mae rheoliad 46 o'r prif Reoliadau yn caniatáu i awdurdodau lleol ddwyn erlyniadau o dan y Rheoliadau hynny eu hunain, ond ni ddarperir ar gyfer hyn ar hyn o bryd o dan y Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol. Gwneir diwygiad, felly, i reoliad 20 i ddarparu ar gyfer hyn, er mwyn sicrhau cysondeb o ran pwerau erlyn awdurdodau lleol.

5. Ymgynghori

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Wrth benderfynu a oedd angen y cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau hyn, a phennu manylion y cyfyngiadau a'r gofynion hynny, rwyf i, ynghyd â Gweinidogion a swyddogion eraill Llywodraeth Cymru, wedi cynnal trafodaethau gyda sectorau a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys arweinwyr llywodraeth leol a busnesau ac undebau llafur yng Nghymru ac rydym yn parhau i wneud hynny. Yn fy natganiad i'r Aelodau ar 1 Rhagfyr, cyhoeddais fwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r newidiadau a gyflawnir yn y Rheoliadau hyn, sydd wedi'u hadrodd yn eang ers hynny.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd bod angen eu rhoi ar waith ar frys i fynd i'r afael â'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Mae crynodeb o asesiad effaith integredig wedi'i lunio a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan LLYW.cymru: <https://llyw.cymru/asesiadau-o-effaith-coronafeirws>.



Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

2 Rhagfyr 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws a Swyddogaethau
Awdurdodau Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws a Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2020 o dan adrannau 45B, 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 6 p.m. ar 4 Rhagfyr 2020. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 19 Ionawr 2021 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Rhagfyr 2020.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Adolygu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020

DYDDIAD 3 Rhagfyr 2020

GAN Mark Drakeford AS, Y Prif Weinidog

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 yn gosod cyfres o gyfyngiadau ar gynullïadau, symudiad pobl a'r modd y caiff busnesau weithredu. Eu nod yw diogelu pobl rhag lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

Ar 30 Tachwedd amlinellais gyfyngiadau ychwanegol ar gyfer Cymru gyfan, gan gynnwys ynglŷn â'r sector lletygarwch. Nod y cyfyngiadau hyn yw diogelu iechyd pobl a lleihau cyflymder a lledaeniad y coronafeirws, gan greu cymaint o hyblygrwydd â phosibl wrth i gyfnod y Nadolig nesáu.

Rhoddais wybod i'r Aelodau y byddem hefyd yn ystyried y cyfyngiadau teithio presennol i sicrhau mai dyma'r rhai cywir i Gymru, yn sgil diwedd y mis o gyfyngiadau cenedlaethol yn Lloegr.

Mae cyfyngiadau teithio yn rhan bwysig o'n pecyn cyffredinol i leihau lledaeniad y feirws. Bydd cyfuniad o reoliadau a chanllawiau felly'n ceisio mynd ati mewn ffordd gymesur i leihau'r risg o allforio a mewnfario achosion o ardaloedd sydd â niferoedd uchel o'r feirws.

Bydd y rheoliadau yng Nghymru yn cyfyngu ar deithio i ardaloedd yn Haen 3 yn Lloegr a Lefel 3 ac uwch yn yr Alban, ac ar deithio o'r ardaloedd hyn (mae Gogledd Iwerddon yn parhau o dan gyfyngiadau symud cenedlaethol).

Bydd y canllawiau yn parhau i bwysleisio'r risg o ledaenu'r feirws os bydd pobl yn teithio i ardaloedd yn Haen 2 / Lefel 2 neu is mewn rhannau eraill o'r DU, ac os byddant yn teithio o'r ardaloedd hyn. Felly, ni fydd teithio i'r ardaloedd hyn, nac ohonynt, yn cael ei gynghori o hyd. Bydd angen i deithwyr fod yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol yn y gwledydd hynny, a chadw atynt.

Bydd y cyfyngiadau teithio rhyngwladol yn parhau ac maent yn debygol o aros mewn grym tan o leiaf fis Ionawr ond byddant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Ynghyd â'n mesurau eraill, bydd y cyfyngiadau angenrheidiol hyn yn helpu i Ddiogelu Cymru.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Adolygu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020

DYDDIAD 30 Tachwedd 2020

GAN Mark Drakeford AS, Y Prif Weinidog

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 yn gosod cyfres o gyfyngiadau ar gynulladau, symudiad pobl a'r modd y caiff busnesau weithredu. Fe'i cynlluniwyd i ddiogelu pobl rhag lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

Gweithiom gyda llywodraethau'r Alban, Gogledd Iwerddon a'r DU i gytuno ar gynllun cyffredin ar gyfer y pedair gwlad dros gyfnod yr ŵyl.

Ni fydd y Nadolig hwn yn un "arferol". Ond, ar ôl blwyddyn hir ac anodd, yn sgil dod i gytundeb ar set o fesurau cyffredin rhwng 23 Rhagfyr a 27 Rhagfyr, a gaiff eu hadlewyrchu yn rheoliadau Cymru, bydd pob un yn cael cyfle i dreulio rhywfaint o amser gyda ffrindiau agos a theulu:

- Bydd cyfyngiadau teithio rhwng y pedair gwlad a rhwng y gwahanol haenau yn cael eu codi yn ystod y cyfnod hwn.
- Bydd hyd at dair aelwyd yn gallu creu 'swigen' ddethol ar gyfer y Nadolig i gyfarfod gartref yn ystod y cyfnod hwn. Er mwyn cydnabod y perygl y bydd unigolion yn teimlo'n unig ac yn ynysig bydd aelwydydd sy'n cynnwys un oedolyn sengl hefyd yn gallu ymuno â swigen, fel yn Lloegr.
- Gall pob swigen a gaiff ei chreu ar gyfer y Nadolig gyfarfod gartref, mewn man addoli neu mewn man cyhoeddus yn yr awyr agored.

Mae'r coronafeirws yn ffynnu pan fyddwn yn dod at ein gilydd ac mae risg bob amser wrth i bobl ddod ynghyd i ddathlu'r Nadolig y byddant yn dal y feirws neu'n ei

ledaenu. Mae'n bwysig felly, yn y cyfnod hyd at 23 Rhagfyr, ein bod yn gwneud popeth y gallwn i sicrhau bod cyfraddau yn isel.

Yn anffodus, mae'r coronafeirws yn dechrau cyflymu unwaith yn rhagor ar draws Cymru. Mae unrhyw gynnydd a wnaed gennym yn ystod y cyfnod atal byr yn dechrau erydu. Mae'r gyfradd ar gyfer Cymru gyfan wedi codi i bron i 210 o achosion fesul 100,000 o bobl ac mae 1,000 o unigolion y cadarnhawyd bod ganddynt y coronafeirws yn ein hysbytai ar hyn o bryd.

Mae'r ffigurau hyn yn destun cryn bryder a rhaid inni gymryd camau pellach, wedi'u targedu, i ddiogelu iechyd pobl a lleihau cyflymder a lledaeniad y coronafeirws. Mae angen inni hefyd sicrhau ein bod yn creu cymaint o gyfle â phosibl wrth inni agosáu at gyfnod y Nadolig i ganiatáu inni lacio'r cyfyngiadau.

Bydd y cyfyngiadau yn cael eu hatgyfnerthu er mwyn canolbwyntio ar fannau lle rydym yn cyfarfod â'n gilydd a lle mae'r coronafeirws yn ffynnu. Rydym wedi tynnu oddi ar dystiolaeth ddiweddar gan Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau'r DU, sydd wedi ymchwilio i weld pa gyfyngiadau sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar y feirws. Tynnwyd sylw yn y dystiolaeth honno at effaith gadarnhaol y mesurau yn system lefel tri'r Alban a chyfyngiadau haen tri Lloegr. Mae llawer o'r cyfyngiadau hynny ar waith gennym eisoes yng Nghymru a byddwn yn addasu mesurau eraill at amgylchiadau penodol Cymru.

O 6pm ddydd Gwener, bydd ein mesurau cenedlaethol yn cael eu diwygio i gyflwyno cyfyngiadau newydd ar gyfer busnesau lletygarwch ac atyniadau dan do.

- Rhaid i dafarndai, bariau, bwytai a chaffis gau erbyn 6pm, ac ni fyddant yn cael gweini alcohol. Ar ôl 6pm, dim ond gwasanaethau tecawê y gallant eu darparu.
- Rhaid i leoliadau adloniant dan do, gan gynnwys sinemâu, neuaddau bingo, alïau bowlïo, canolfannau chwarae meddal, casinos, lloriau sglefrio ac arcedau difyrion, gau.
- Bydd yn rhaid cau atyniadau i ymwelwyr, megis amgueddfeydd, orielau, a safleoedd treftadaeth hefyd. Bydd atyniadau i ymwelwyr yn yr awyr agored yn aros ar agor.

Bydd y gweddill o'r mesurau cenedlaethol yn aros yr un fath – ni fydd unrhyw newidiadau i swigod aelwydydd, faint o bobl sy'n gallu cyfarfod mewn mannau cyhoeddus o dan do neu yn yr awyr agored, neu gyfyngiadau ar fusnesau eraill.

Rydym yn edrych ar y cyfyngiadau teithio presennol i sicrhau eu bod yn iawn i Gymru, yng ngoleuni'r ffaith fod y cyfyngiadau symud am gyfnod o fis yn Lloegr ar fin dod i ben. Byddwn yn gwneud cyhoeddiad pellach yn ddiweddarach yr wythnos hon.

Mae'r sectorau lletygarwch a thwristiaeth wedi gweithio'n galed i gydymffurfio â'r rheoliadau niferus i sicrhau bod eu busnesau'n cydymffurfio ac i ddiogelu cwsmeriaid rhag bygythiad y coronafeirws. Rwy'n ddiolchgar iawn am bopeth y mae'r sector wedi'i wneud. Gwn y bydd y cyfyngiadau newydd hyn yn anodd wrth iddynt ddod ar un o adegau prysuraf y flwyddyn.

I gefnogi busnesau byddwn yn sicrhau bod pecyn cymorth ychwanegol gwerth £340m ar gael drwy'r Gronfa Cadernid Economaidd. Mae hwnnw'n cynnwys cronfa o £180m sy'n targedu busnesau lletygarwch a thwristiaeth.

Gyda'i gilydd mae'r mesurau hyn yn parhau â'n penderfyniad i ddiogelu bywydau a ffyrdd o fyw yn ystod argyfwng y coronafeirws yng Nghymru.

Rwy'n gofyn am gymorth pobl Cymru i wneud gwahaniaeth gwirioneddol unwaith eto i hynt y feirws hwn – ac yn y pen draw i achub bywydau. Gyda'n gilydd byddwn yn diogelu Cymru.

Edrychaf ymlaen at wneud datganiad pellach yn y Senedd yfory.

Eitem 5.9

SL(5)690 – The Health Protection (Coronavirus, International Travel and Restrictions) (Amendment) (No. 3) (Wales) Regulations 2020

Background and Purpose

These Regulations amend the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020 (“the International Travel Regulations”) and the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 4) (Wales) Regulations 2020 (“the No. 4 Regulations”).

In particular, these Regulations amend:

- the International Travel Regulations and the No. 4 Regulations to:
 - reduce the period for which a person is required to isolate from 14 days to 10 days; and
 - permit a child who is required to isolate to move to another household during the period of isolation, if this is in line with existing arrangements relating to custody and contact with the child’s parents; and
- the No. 4 Regulations to:
 - remove the ability for a contact tracer to disclose information about fixed penalties issued or criminal proceedings.

Procedure

Made Affirmative

These Regulations were made by the Welsh Ministers before they were laid before the Senedd.

The Senedd must approve the Regulations within 28 days (excluding any days when the Senedd is: (i) dissolved, or (ii) in recess for more than four days) of the date they were made for them to continue to have effect.

Technical Scrutiny

No points are identified for reporting under Standing Order 21.2 in respect of this instrument.

Merits Scrutiny

The following three points are identified for reporting under Standing Order 21.3 in respect of this instrument.



1. Standing Order 21.3(ii) – that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd.

We note the Welsh Government’s justification for any potential interference with human rights. In particular, we note the following paragraph in the Explanatory Memorandum:

“The amendments contained in these Regulations do not change the engagement under the International Travel Regulations or the No. 4 Regulations of individual rights under the Human Rights Act 1998 and the European Charter of Fundamental Rights; the Government considers that they are justified for the purpose of preventing the spreading of infectious diseases and/or the interference is permitted on the basis that it is in pursuit of a legitimate aim, namely of protecting public health, and are proportionate.”

2. Standing Order 21.3(ii) – that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd.

We note there has been no formal consultation on these Regulations. In particular, we note the following paragraph in the Explanatory Memorandum:

“Given the serious and imminent threat arising from coronavirus and the need for an urgent public health response, there has been no public consultation in relation to these Regulations.”

3. Standing Order 21.3(ii) – that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd.

We note that there is no equality impact assessment for these Regulations. However, we note the following paragraph in the Explanatory Memorandum:

“There has been no regulatory impact assessment in relation to these Regulations due to the need to put them in place urgently to deal with a serious and imminent threat to public health. A summary of the impacts relating to the original self isolation duty can be found [here](#). The reduction in the self-isolation period is anticipated to have a positive equality and children’s rights impact. It is anticipated to reduce the length of time children and young people spend away from face to face learning, reduce the impact on those with caring responsibilities (disproportionately women) and help to relieve the disruption for businesses.”

Implications arising from exiting the European Union

None.

Welsh Government response

A Welsh Government response is not required.



Legal Advisers
Legislation, Justice and Constitution Committee
11 November 2020



Y Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1477 (Cy. 316)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol a Chyfyngiadau)
(Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1219 (Cy. 276)) ("Rheoliadau Rhif 4").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn lleihau'r cyfnod pan fo'n ofynnol i berson ynysu o 14 o ddiwrnodau i 10 niwrnod.

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth drosiannol sydd â'r effaith na fydd ond yn ofynnol i berson sy'n ddarostyngedig i ofyniad i ynysu o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ynysu am 10 niwrnod, pan ddaw'r diwygiadau yn rheoliad 2 i rym. Os yw'r person eisoes wedi mynd heibio 10^{fed} diwrnod ei ynysiad ar y pwynt hwnnw, caiff roi'r gorau i ynysu ar unwaith.

Mae rheoliad 4 yn diwygio Rheoliadau Rhif 4 er mwyn—

- (a) darparu bod cyfnod ynysu person yn dechrau ar y diwrnod ar ôl y digwyddiad sy'n sbarduno'r gofyniad (er enghraifft – prawf positif, y diwrnod cyntaf y profir symptomau, neu'r diwrnod pan ddaethpwyd i gysylltiad agos â person sydd wedi cael prawf positif);
- (b) darparu bod rhaid i berson sy'n ddarostyngedig i ofyniad i ynysu o dan reoliad 13 neu 14 o Reoliadau Rhif 4 o ganlyniad i fod wedi dod i gysylltiad agos â pherson sydd wedi cael prawf positif am y coronafeirws ynysu am 10 niwrnod yn hytrach na 14 o ddiwrnodau;
- (c) caniatáu i blentyn y mae'n ofynnol iddo ynysu o dan reoliad 12 neu 14 o Reoliadau Rhif 4 symud rhwng aelwydydd ei rieni yn ystod y cyfnod ynysu os yw hyn yn cyd-fynd â threfniadau sydd eisoes yn bodoli yn ymwneud â gwarchodaeth a chyswllt â rhieni'r plentyn;
- (d) hepgor y gallu i swyddog olrhain cysylltiadau ddatgelu gwybodaeth am gosbau penodedig neu achosion troseddol a ddygir mewn perthynas â chyflawni trosedd o dorri'r gofynion a osodir gan ddarpariaethau Rheoliadau Rhif 4 yn ymwneud â gofynion ynysu (nid yw'r wybodaeth honno ar gael i swyddogion olrhain cysylltiadau felly nid oedd angen y ddarpariaeth hon).

Mae rheoliad 5 yn darparu bod person sy'n ddarostyngedig i ofyniad i ynysu o dan Reoliadau Rhif 4 pan ddaw'r diwygiadau yn rheoliad 4(2) i rym yn ddarostyngedig i'r gofynion hynny fel y'u diwygir gan reoliad 4(2). Er enghraifft, os yw'r person yn ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau caiff y cyfnod hwnnw ei ostwng i 10 niwrnod pan ddaw'r diwygiadau i rym. Os yw'r person eisoes wedi mynd heibio 10^{fed} diwrnod ei ynysiad ar y pwynt hwnnw, caiff roi'r gorau i ynysu ar unwaith.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau

hyn.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1477 (Cy. 316)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol a Chyfyngiadau)
(Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020**

Gwnaed am 3.52 p.m. ar 8 Rhagfyr 2020

Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru am 6.00 p.m. ar 8 Rhagfyr 2020

Yn dod i rym 10 Rhagfyr 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

Enwi, dod i rym a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym 10 Rhagfyr 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr y “Rheoliadau Teithio Rhyngwladol” yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(1), a

(b) ystyr “Rheoliadau Rhif 4” yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) 2020(2).

Diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

2. Yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol—

(a) yn y manau a ganlyn, yn lle “14” rhodder “10” (gan dreiglo yn ôl yr angen)—

(i) rheoliad 3(1)(b)(ii);

(ii) rheoliad 7(1)(b)(ii);

(iii) rheoliad 8(1)(b);

(iv) Atodlen 1, paragraff 2(ia);

(v) Atodlen 2, paragraffau 2(1)(a), 3(1)(b), 4(a), a 38(2)(c);

(b) yn rheoliad 10(4), ar ôl paragraff (e) mewnosoder—

“(ea) pan fo P yn blentyn nad yw'n byw ar yr un aelwyd â rhieni P, neu ag un o rieni P, i barhau â threfniant sydd eisoes yn bodoli er mwyn cael mynediad at, a chyswllt rhwng, P a rhieni P, ac at ddibenion yr is-baragraff

(1) O.S. 2020/574 (Cy. 132) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/942, O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295) ac O.S. 2020/1362 (Cy. 301).

(2) O.S. 2020/1219 (Cy. 276) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286) ac O.S. 2020/1409 (Cy. 311).

hwn, mae “rhiant” yn cynnwys person nad yw’n rhiant i P, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros P, neu sy’n gofalu amdano;”

- (c) yn rheoliad 12, yn lle “14 o ddiwrnodau sy’n dechrau ar” rhodder “10 niwrnod sy’n dechrau ar y diwrnod ar ôl”.

Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2

3.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan, yn union cyn 10 Rhagfyr 2020—

- (a) oedd person (“P”) yn ddarostyngedig i ofyniad i ynysu, a
- (b) byddai diwrnod olaf ynysiad P, oni bai am baragraff (2), yn 10 Rhagfyr 2020 neu wedi hynny.

(2) Mae rheoliad 12 o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gymwys i P fel pe bai “10 niwrnod sy’n dechrau ar y diwrnod ar ôl” wedi ei roi yn lle “14 o ddiwrnodau sy’n dechrau ar”.

(3) Ym mharagraff (1)—

- (a) mae i “gofyniad i ynysu” yr ystyr a roddir gan reoliad 10(2) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, a
- (b) mae’r cyfeiriad at ddiwrnod olaf ynysiad P i’w ddehongli yn unol â rheoliad 12 o’r Rheoliadau hynny.

Diwygio Rheoliadau Rhif 4

4.—(1) Mae Rheoliadau Rhif 4 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 11—

- (a) ym mharagraff (4), yn lle “â” rhodder “â’r diwrnod ar ôl”;
- (b) ym mharagraff (5), ar ôl “dechrau â’r” mewnosoder “diwrnod ar ôl y”.

(3) Yn rheoliad 12—

- (a) ym mharagraff (4), yn lle “â” rhodder “â’r diwrnod ar ôl”;
- (b) ym mharagraff (5), ar ôl “dechrau â’r” mewnosoder “diwrnod ar ôl y”.

(4) Yn rheoliad 13—

- (a) ym mharagraff (4), yn lle “14 o ddiwrnodau sy’n dechrau â’r” rhodder “10 niwrnod sy’n dechrau â’r diwrnod ar ôl y”;
- (b) ym mharagraff (5)—
- (i) yn is-baragraff (a), yn lle “14 o ddiwrnodau sy’n dechrau â’r” rhodder

“10 niwrnod sy’n dechrau â’r diwrnod ar ôl y”;

- (ii) yn is-baragraff (b), yn lle “14 o ddiwrnodau sy’n dechrau â” rhodder “10 niwrnod sy’n dechrau â’r diwrnod ar ôl”.

(5) Yn rheoliad 14—

- (a) ym mharagraff (4), yn lle “14 o ddiwrnodau sy’n dechrau â’r” rhodder “10 niwrnod sy’n dechrau â’r diwrnod ar ôl y”;

- (b) ym mharagraff (5)—

- (i) yn is-baragraff (a), yn lle “14 o ddiwrnodau sy’n dechrau â’r” rhodder “10 niwrnod sy’n dechrau â’r diwrnod ar ôl y”;

- (ii) yn is-baragraff (b), yn lle “14 o ddiwrnodau sy’n dechrau â” rhodder “10 niwrnod sy’n dechrau â’r diwrnod ar ôl”.

(6) Yn rheoliad 15(2), ar ôl is-baragraff (h) mewnosoder—

“(i) pan fo’r person yn blentyn nad yw’n byw ar yr un aelwyd â rhieni’r plentyn, neu ag un o rieni’r plentyn, parhau â threfniant sydd eisoes yn bodoli er mwyn cael mynediad at, a chyswllt rhwng, y plentyn a rhieni’r plentyn, ac at ddibenion yr is-baragraff hwn, mae “rhiant” yn cynnwys person nad yw’n rhiant i’r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, neu sy’n gofalu amdano.”

(7) Yn rheoliad 18(2)(a), hepgorer paragraff (iv).

5.Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 4 Pan fo person, yn union cyn 10 Rhagfyr 2020, yn ddarostyngedig i ofyniad yn rheoliad 11(2), 12(2), 13(2) neu 14(2) o Reoliadau Rhif 4, mae Rhan 4 o’r Rheoliadau hynny yn gymwys i’r person sy’n ddarostyngedig i’r diwygiadau a wneir yn rheoliad 4 o 10 Rhagfyr 2020.

Vaughan Gething

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru

Am 3.52 p.m. ar 8 Rhagfyr 2020

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020.

Vaughan Gething

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

8 Rhagfyr 2020

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau Rhif 4").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys a nodir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i drafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a berir gan y coronafeirws.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Nid yw'r diwygiadau sydd yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a Rheoliadau Rhif 4 yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop; mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i'r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd 1984 ("Deddf 1984"), a'r Rheoliadau a wneir oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mewnosodwyd Rhan 2A o Ddeddf 1984 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, ac mae'n darparu sail gyfreithiol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau sy'n deillio o glefydau heintus.

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud gan ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984.

Mae rheoliadau a wneir o dan adrannau 45B a 45C o Ddeddf 1984 yn ddarostyngedig i weithdrefn wahanol yn y Senedd. Fodd bynnag, yn unol ag adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' fel y'i nodir yn adrannau 45Q a 45R o Ddeddf 1984.

Rhoddir y swyddogaethau o dan yr adrannau hyn i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, ystyr y Gweinidog priodol, mewn perthynas â Chymru, yw Gweinidogion Cymru.

Mae'r Memoranda Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a Rheoliadau Rhif 4 yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a Rheoliadau Rhif 4 fel y nodir isod.

Y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Mae'r Rheoliadau hyn yn digwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn:

- a) darparu bod rhaid i berson sy'n ddarostyngedig i ofyniad i hunanynysu o dan y Rheoliadau hyn hunanynysu am 10 niwrnod yn hytrach na 14 o ddiwrnodau, a gwneud darpariaeth drosiannol ar gyfer y rhai sydd eisoes yn hunanynysu. Er enghraifft, os yw person eisoes wedi mynd heibio 10fed diwrnod ei gyfnod hunanynysu bryd hynny, caiff roi'r gorau i hunanynysu ar unwaith;
- b) caniatáu i blentyn y mae'n ofynnol iddo hunanynysu symud i aelwyd arall yn ystod y cyfnod ynysu, os yw hyn yn unol â'r trefniadau sydd eisoes yn bodoli yn ymwneud â gwarchodaeth a chyswllt â rhieni'r plentyn.

Rheoliadau Rhif 4

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Rhif 4 er mwyn:

- a) darparu bod rhaid i berson sy'n ddarostyngedig i ofyniad i hunanynysu o ganlyniad i fod wedi cael cyswllt agos â pherson sydd wedi cael prawf positif ar gyfer y coronafeirws hunanynysu am 10 niwrnod yn hytrach na 14 o ddiwrnodau ac er mwyn gwneud darpariaeth drosiannol ar gyfer y rhai sydd eisoes yn hunanynysu. Er enghraifft, os yw person eisoes wedi mynd heibio 10fed diwrnod ei gyfnod hunanynysu bryd hynny, caiff roi'r gorau i hunanynysu ar unwaith;
- b) caniatáu i blentyn y mae'n ofynnol iddo hunanynysu symud i aelwyd arall yn ystod y cyfnod ynysu os yw hyn yn unol â'r trefniadau sydd eisoes yn bodoli yn ymwneud â gwarchodaeth a chyswllt â rhieni'r plentyn;
- (a) hepgor y gallu i swyddog olrhain cysylltiadau ddatgelu gwybodaeth am gosbau penodedig neu achosion troseddol a ddygir mewn perthynas â chyflawni trosedd o dorri'r gofynion yn ymwneud â gofynion hunanynysu; nid yw'r wybodaeth honno ar gael i swyddogion olrhain cysylltiadau, felly nid oedd angen y ddarpariaeth hon.

Mae Prif Swyddogion Meddygol y Deyrnas Unedig yn cymeradwyo lleihau'r cyfnod hunanynysu i 10 niwrnod ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ynghylch y tebygolrwydd o fod yn heintus fel cyswllt ar ôl 10 niwrnod. Diben y diwygiadau eraill i Rheoliadau Rhif 4 yw sicrhau bod trefniadau gwarchodaeth yn cael eu parchu a dileu darpariaeth ddiangen.

5. Ymgynghori

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus ar y Rheoliadau hyn.

6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol

Ni luniwyd aseiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ddelio â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd. Mae crynodeb o'r aseiad effaith integredig yn ymwneud â'r ddyletswydd wreiddiol i hunanynysu ar gael [yma](#). Rhagwelir y bydd y gostyngiad yn y cyfnod hunanynysu yn cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb a hawliau plant. Rhagwelir y bydd yn lleihau'r amser y mae plant a phobl ifanc yn ei dreulio i ffwrdd oddi wrth ddysgu wyneb yn wyneb, yn lleihau'r effaith ar y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu (sef menywod i raddau anghymesur) ac yn helpu i leihau'r tarfu ar fusnesau.



Ein cyf/Our ref MA-P/VG/4224/20

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

8 Rhagfyr 2020

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau)
(Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020**

Rwyf heddiw wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020 o dan adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac rwy'n bwriadu gosod yr offeryn a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig unwaith y bydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 25 Ionawr 2021 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol. Bydd trefniadau'n cael eu gwneud i gynnal dadl ar y Rheoliadau hyn yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Rhagfyr 2020.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Vaughan Gething AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 284
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Newidiadau i'r cyfnod hunanynysu

DYDDIAD 09 Rhagfyr 2020

GAN Vaughan Gething AS, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Heddiw rwyf wedi gosod rheoliadau i wneud diwygiadau pellach i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020.

Yn dilyn cyngor y Prif Swyddog Meddygol a Grŵp Cyngori Gwyddonol Llywodraeth y DU ar Argyfyngau, mae'r rheoliadau hyn:

- yn darparu bod yn rhaid i berson y mae'n ofynnol iddo hunanynysu o ganlyniad i fod mewn cysylltiad agos â pherson sydd wedi cael prawf positif ar gyfer y coronafeirws hunanynysu am 10 niwrnod yn hytrach nag 14, ac yn gwneud darpariaeth drosiannol ar gyfer y rhai sydd eisoes yn hunanynysu;
- yn caniatáu i blentyn y mae'n ofynnol iddo hunanynysu symud i aelwyd arall yn ystod y cyfnod hunanynysu os yw hyn yn unol â'r trefniadau presennol yn ymwneud â gwarchodaeth a chyswllt â rhieni'r plentyn;

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol hefyd wedi'u diwygio i leihau'r cyfnod y mae'n ofynnol i berson hunanynysu o 14 o ddiwrnodau i 10 niwrnod ac i ganiatáu i blentyn y mae'n ofynnol iddo hunanynysu symud i aelwyd arall yn ystod y cyfnod hunanynysu os yw hyn yn unol â'r trefniadau presennol yn ymwneud â gwarchodaeth a chyswllt â rhieni'r plentyn;

Mae'r rheoliadau hyn wedi'u gwneud cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn dilyn y cyngor iechyd cyhoeddus, y cytunwyd arno gan bedwar Prif Swyddog Meddygol y DU, a oedd yn dangos mai ychydig o risg gwirioneddol oedd yn gysylltiedig â lleihau'r cyfnod hunanynysu i 10 niwrnod o'i gymharu â'r cyfnod o 14 diwrnod y gwyddir bod y lefelau cydymffurfio ag ef yn isel.

Yn yr asesiad effaith a gyhoeddwyd ar gyfer y ddyletswydd hunanynysu, roeddem yn cydnabod bod y gofyniad i hunanynysu am 14 diwrnod yn debygol o gael effaith negyddol mewn ystod eang o amgylchiadau, ac ar grwpiau gwarchodedig. Bydd lleihau'r

cyfnod hunanynysu i 10 diwrnod mewn modd diogel yn lleihau'r niwed cymharol hwn. Mae'r newid hwn yn lleihau'r amser y mae plant a phobl ifanc yn ei dreulio i ffwrdd oddi wrth ddysgu wyneb yn wyneb, yn lleihau'r effaith ar y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu (sef menywod, i raddau anghymesur) ac yn helpu i leihau'r tarfu ar fusnesau a'n gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

Nid yw'r newidiadau hyn yn effeithio ar y taliad o £500 drwy'r cynllun cymorth hunanynysu.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1490 (Cy. 319)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd
(Gwarchodaeth Rhag Troi Allan)
(Cymru) (Coronafeirws) 2020

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae adran 45C o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru fel "The appropriate Minister", drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn atal, ac eithrio o dan amgylchiadau penodedig, bod yn bresennol mewn tŷ annedd at ddiben gweithredu gwrit neu warant meddiant, gweithredu gwrit neu warant adfer neu ddanfôn hysbysiad troi arall.

Yr amgylchiadau penodedig yw pan fo'r llys wedi ei fodloni bod yr hawliad yn un yn erbyn tresmaswyr sy'n bersonau anhysbys neu pan y'i gwnaed yn llwyr neu'n rhannol ar sail trais domestig, troseddau difrifol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, niwsans neu, mewn achosion pan fo'r person sy'n bresennol wedi ei

fodloni nad yw'r tŷ annedd wedi ei feddiannau ar yr adeg pan fo'n bresennol, farwolaeth y meddiannydd.

Daw'r Rheoliadau hyn i ben ar 11 Ionawr 2021.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1490 (Cy. 319)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd
(Gwarchodaeth Rhag Troi Allan)
(Cymru) (Coronafeirws) 2020**

Gwnaed 9 Rhagfyr 2020

Gosodwyd gerbron *Senedd*
Cymru 10 Rhagfyr 2020

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45C(1), (2), (3)(c) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "The appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym drannoeth y diwrnod y'u gosodir.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, mae i "tŷ annedd" yr un ystyr ag a roddir i "dwelling-house" yn Neddf Tai 1985, Deddf Tai 1988 neu Ddeddf Rhenti 1977, yn ôl y digwydd.

Tenantiaethau Preswyl (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan)

2.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), ni chaiff unrhyw berson fod yn bresennol mewn tŷ annedd at ddiben—

- (a) gweithredu gwrit neu warant meddiant;
- (b) gweithredu gwrit neu warant adfer; neu
- (c) danfon hysbysiad troi allan.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys pan fo'r llys wedi ei fodloni bod yr hysbysiad, y writ neu'r warant yn ymwneud â gorchymyn meddiant a wneir—

- (a) yn erbyn tresmaswyr yn unol â hawliad y mae rheol 55.6 (cyflwyno hawliadau yn erbyn tresmaswyr) o Reolau'r Drefniadaeth Sifil 1998(1) yn gymwys iddo;
- (b) yn llwyr neu'n rhannol o dan adran 84A (sail absoliwt ar gyfer meddiannu am ymddygiad gwrthgymdeithasol) o Ddeddf Tai 1985(2);
- (c) yn llwyr neu'n rhannol ar Sail 2 neu Sail 2A yn Atodlen 2 (seiliau ar gyfer meddiannu tai annedd sy'n cael eu gosod o dan denantiaethau diogel) i Ddeddf Tai 1985(3);

(1) O.S. 1998/3132. Mewnosodwyd rheol 55.6 gan O.S. 2001/256 rh 17, Atodlen 1.

(2) 1985 p. 68, mewnosodwyd adran 84A gan adran 94(1) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 ("Deddf 2014").

(3) Amnewidiwyd Sail 2 gan adran 144 o Ddeddf Tai 1996 (p. 52) ("Deddf 1996") ac fe'i diwygiwyd gan adran 98(1) o Ddeddf 2014 ac Atodlen 7 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15) ("Deddf 2005").

- (d) yn llwyr neu'n rhannol ar Sail 7A, Sail 14 neu Sail 14A yn Atodlen 2 (seiliau ar gyfer meddiannu tai annedd sy'n cael eu gosod o dan denantiaethau sicr) i Ddeddf Tai 1988(1);
- (e) yn llwyr neu'n rhannol ar Sail 7 yn Atodlen 2 (sail ar gyfer meddiannu pan fo tenant yn marw ac na cheir hawl olyniaeth) i Ddeddf Tai 1988(2); neu
- (f) yn llwyr neu'n rhannol o dan achos 2 o Atodlen 15 (sail ar gyfer meddiannu tai annedd sy'n cael eu gosod o dan denantiaethau gwarchoddedig neu statudol, neu sy'n ddarostyngedig iddynt) i Ddeddf Rhenti 1977(3).

(3) Pan fo paragraff 2(e) yn gymwys, rhaid i'r person sy'n bresennol yn y tŷ annedd gymryd camau rhesymol i'w fodloni ei hun nad yw'r tŷ annedd wedi ei feddiannu cyn cyflawni'r materion hynny a nodir yn rheoliad 2(1)(a), (b) neu (c).

Y Rheoliadau yn dod i ben

3.—(1) Daw'r Rheoliadau hyn i ben ar 11 Ionawr 2021.

(2) Nid yw'r ffaith bod y Rheoliadau hyn wedi dod i ben yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir neu nas gwneir yn unol â'r Rheoliadau hyn cyn iddynt ddod i ben.

Julie James

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o
Weinidogion Cymru
9 Rhagfyr 2020

-
- (1) Mewnosodwyd Sail 2A gan adran 145 o Ddeddf 1996 ac fe'i diwygiwyd gan Atodlen 8 i Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 (p. 33) ("Deddf 2004") a chan Atodlen 3 i O.S. 2019/1458. 1988 p. 50. Mewnosodwyd Sail 7A gan adran 97(1) o Ddeddf 2014. Amnewidiwyd Sail 14 gan adran 148 o Ddeddf 1996 ac fe'i diwygiwyd gan adran 98(2) o Ddeddf 2014 ac Atodlen 7 i Ddeddf 2005. Mewnosodwyd Sail 14A gan adran 149 o Ddeddf 1996 ac fe'i diwygiwyd gan Atodlen 8 i Ddeddf 2004, O.S. 2019/1458, O.S. 2010/866 ac O.S. 2011/1396.
 - (2) Diwygiwyd Sail 7 gan adran 162 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20) ac Atodlen 25 iddi.
 - (3) 1977 p. 42.

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Julie James
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
10 Rhagfyr 2020

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn atal, ac eithrio o dan amgylchiadau penodedig, bod yn bresennol mewn tŷ annedd at ddiben gweithredu gwrit neu warant meddiant, gweithredu gwrit neu warant adfer neu ddanfôn hysbysiad troi arall. Yr amgylchiadau penodedig yw pan fo'r llys wedi ei fodloni bod yr hawliad yn un yn erbyn tresmaswyr sy'n bersonau anhysbys neu pan y'i gwnaed yn llwyr neu'n rhannol ar sail trais domestig, troseddau difrifol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, niwsans neu, mewn achosion pan fo'r person sy'n bresennol wedi ei fodloni nad yw'r tŷ annedd wedi ei feddiannau ar yr adeg pan fo'n bresennol, farwolaeth y meddiannydd. Daw'r rheoliadau hyn i ben ar 11 Ionawr 2021

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Mae angen brys i sicrhau bod cyn lleied o achosion o droi allan â phosibl dros gyfnod y Nadolig a chanol y gaeaf. Gan fod y mynediad at wasanaethau a llety amgen yn aml yn gyfyngedig yn ystod y cyfnod hwn, mae mwy o risg y bydd achos o droi allan yn arwain at ddigartrefedd, a fydd yn ei dro yn cynyddu'r risg y bydd yr unigolyn yn dal COVID-19 ac yn ei drosglwyddo. Yng ngoleuni hyn, gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefyd) 1984 ("Deddf 1984" ac fe'u gwnaed heb fod drafft wedi ei osod yn gyntaf ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Senedd, fel y byddai'n ofynnol fel arfer o dan adran 45Q o'r Ddeddf. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau hyn heb fod drafft wedi ei osod felly na'i gymeradwyo fel y gall camau iechyd y cyhoedd gael eu cymryd mewn ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad COVID-19. Daw'r Rheoliadau i rym drannoeth y diwrnod y'u gosodir. Gan eu bod wedi eu gwneud o dan y weithdrefn frys, byddant yn peidio â bod yn weithredol ar ddiwedd 28 diwrnod i'r diwrnod y'u gwneir oni chânt eu cymeradwyo gan y Senedd yn ystod y cyfnod hwnnw.

3. Cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 45C o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 i alluogi cymryd camau iechyd y cyhoedd er mwyn lleihau'r risgiau i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad COVID-19. Mae adran 45C o'r Ddeddf honno yn galluogi Gweinidogion Cymru (fel yr "appropriate Minister"), drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru. Bydd y Rheoliadau yn atal achosion o droi allan yng nghanol y gaeaf i denantiaid preswyl. Yn unol ag adran 45R o Ddeddf 1984, mae Gweinidogion Cymru

o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb fod drafft wedi ei osod gerbron y Senedd ac wedi ei gymeradwyo ganddi.

- 3.2 Mae mesurau deddfwriaethol wedi cael eu rhoi ar waith yn flaenorol er mwyn atal tenantiaid rhag cael eu troi allan yn ystod pandemig y coronafeirws. Mae Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 ("Deddf 2020") yn rhoi gwarchodaeth rhag troi allan mewn perthynas â'r rhan fwyaf o denantiaethau preswyl a hysbysiadau¹ a gyflwynir yn ystod y 'cyfnod perthnasol' (y diffiniwyd y byddai'n dod i ben ar 30 Medi 2020 i ddechrau ond sydd wedyn wedi cael ei ymestyn tan 31 Mawrth 2021). Gwna hyn drwy gynyddu, yn y rhan fwyaf o achosion, gyfnod yr hysbysiad y mae'n rhaid ei gyflwyno cyn y gellir dechrau gweithrediadau meddiant yn y llysoedd.
- 3.3. Er bod cyfnodau hysbysiadau landlordiaid wedi cynyddu, daeth yr ataliad dros dro ar weithrediadau llys yng Nghymru a Lloegr a ddechreuodd ym mis Mawrth i ben ar 20 Medi. Ers hynny bu'n bosibl cychwyn gweithrediadau meddiant drwy'r llysoedd pan fo cyfnod gofynnol yr hysbysiad wedi mynd heibio, ac, os gwneir gorchymyn, i'r landlord geisio gorfodi'r gorchymyn hwnnw drwy wneud cais i'r llys am writ neu warant meddiant, a allai arwain at droi allan gan feiliod Llys Sirol neu swyddogion gorfodi'r Uchel Lys.
- 3.4 Mae Llywodraeth y DU wedi ceisio atal achosion o droi allan (yng Nghymru a Lloegr) pan dybiwyd bod y rhain yn anghyson â mesurau iechyd y cyhoedd drwy roi arweiniad i feiliod llysoedd sirol a thrwy lythyr gan yr Arglwydd Ganghellor at Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys. Mae hyn wedi bod yn gymwys yn ystod y cyfnod atal yng Nghymru a'r cyfyngiadau symud cenedlaethol diweddar yn Lloegr. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi dweud yn y gorffennol na fyddai gorchmynion meddiant yng Nghymru a Lloegr yn cael eu gorfodi gan feiliod rhwng 11 Rhagfyr 2020 a 11 Ionawr 2021.
- 3.5 Ar 16 Tachwedd, gosododd Llywodraeth y DU reoliadau gerbron Senedd y DU – Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Coronafeirws) (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan a Chymryd Rheolaeth dros Nwyddau) (Lloegr) 2020. Ymhlith pethau eraill, mae'r rheoliadau hynny yn atal yn Lloegr, ac eithrio o dan amgylchiadau penodedig, fod yn bresennol mewn tŷ annedd at ddiben gweithredu gwrit neu warant meddiant, gweithredu gwrit neu warant adfer neu gyflwyno hysbysiad troi allan yn ystod y cyfnod hyd at 11 Ionawr 2021.

4. Diben ac effaith fwriadedig y ddeddfwriaeth

¹ Yr hysbysiadau perthnasol yw'r rhai a gyflwynir o dan Ddeddf Gwarchodaeth Rhag Troi Allan 1977, Deddf Rhenti 1977, Deddf Tai 1985, Deddf Tai 1988 a Deddf Tai 1996.

- 4.1 Diben y Rheoliadau yw rhoi ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder a lledaeniad COVID-19 dros gyfnod y Nadolig ac yng nghanol y gaeaf drwy atal achosion o orfodi troi allan yng Nghymru ac eithrio o dan yr amgylchiadau mwyaf difrifol. Daw'r Rheoliadau i rym drannoeth y diwrnod y'u gosodir.
- 4.2 Hyd at 20 Medi, ac felly drwy gydol ton gyntaf y pandemig, ataliwyd achosion o droi allan drwy ddiwygiadau i'r Rheolau Trefniadaeth Sifil a ataliodd achosion o feddiannu. O ystyried yr ataliad, nid oedd angen ystyried cymryd camau i atal gorfodi troi allan yn ystod y cyfnod hwnnw drwy ddefnyddio'r pwerau a nodwyd yn Neddf 1984 ar y pryd hwnnw. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa honno wedi newid yn sgil codi'r ataliad, ynghyd â dechreuad ail don o'r pandemig a phwysau cynyddol ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill yn ystod y gaeaf.
- 4.3 Dros gyfnod y Nadolig a chanol y gaeaf, ar adeg pan fo'r risg o drosglwyddo'r feirws yn uchel unwaith eto, mae angen amlwg am gamau deddfwriaethol er mwyn sicrhau na chaiff pobl eu troi allan, ar y sail na fyddai dull gweithredu anneddfwriaethol Llywodraeth y DU yn ddigon i gyflawni hyn o bosibl.
- 4.4 Yn ystod y cyfnod hwn, bydd yn mynd yn fwy anodd i'r rhai sy'n wynebu'r risg o gael eu troi allan a mynd yn ddigartref gael gafael ar wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cynghori. At hynny, efallai y bydd busnesau wedi cau neu'n cynnig gwasanaeth cyfyngedig ac efallai y bydd pobl yn wynebu anawsterau ymarferol cynyddol i ddod o hyd i lety amgen. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd troi allan yn fwy tebygol o arwain at ddigartrefedd.
- 4.5 Mae digartrefedd yn rhoi pobl mewn sefyllfaoedd lle maent yn wynebu llawer mwy o risg o ddal y feirws a'i drosglwyddo i eraill. Bydd hyn yn debygol o osod beichiau ychwanegol ar y GIG a rhwystro awdurdodau lleol yn eu hymateb iechyd y cyhoedd, a hynny yn ystod cyfnod pan fydd pwysau'r gaeaf ar wasanaethau cyhoeddus perthnasol yn debygol o fod ar eu hanterth. Mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu bod angen deddfu er mwyn atal achosion o droi allan yn Lloegr ac mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod angen atgyfnerthu'r polisi ar atal troi allan drwy statud yn yr un modd yng nghanol y gaeaf yng Nghymru.
- 4.6 Er mwyn sicrhau bod y mesur yn parhau'n gymesur â'r risg gynyddol o drosglwyddo'r feirws i iechyd y cyhoedd dros y gaeaf, mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod angen rhai eithriadau i'r gwaharddiad ar orfodi gorchmynion meddiant. Mae hyn yn cynnwys achosion lle y bernir bod buddiannau atal niwed i drydydd partiön a gweithredu yn erbyn ymddygiad dybryd yn ddigon i fod yn drech na'r risgiau i iechyd y cyhoedd a berir gan droi allan. Yn benodol, mae'r rhain yn:

- achosion lle mae'r llys wedi'i fodloni bod y gorchymyn meddiant wedi cael ei wneud yn llwyr neu'n rhannol ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol; niwsans; a/neu drais domestig mewn tenantiaethau cymdeithasol; neu
- achosion lle mae'r llys wedi'i fodloni bod yr hawliad yn un yn erbyn tresmaswyr sy'n bersonau anhysbys.

- 4.7 Wrth gymhwyso'r amgylchiadau penodedig hyn lle bydd modd gorfodi, mae Gweinidogion Cymru yn nodi y bydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn aml yn arwain at effaith negyddol sylweddol ar iechyd meddwl a llesiant cymdogion. Os nad oes modd troi allan ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans a mellith gall landlordiaid fod mewn sefyllfa lle mae'n rhaid iddynt ailgartrefu'r cymdogion hynny yr effeithir fwyaf ar eu llesiant neu efallai y bydd preswylwyr agos yn cymryd camau eu hunain i ddod o hyd i lety newydd a symud iddo. O dan amgylchiadau eithriadol, gall unigolion sy'n agored i niwed hyd yn oed ddewis mynd yn ddigartref yn hytrach na pharhau i ddioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd ailgartrefu cymdogion oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r camau a gymerir gan y cymdogion eu hunain i ddod o hyd i gartref newydd a symud iddo amlygu'r unigolion hynny o bosibl i sefyllfaoedd lle maent yn wynebu mwy o risg o drosglwyddo'r feirws. Yn achos y rhai sy'n dewis mynd yn ddigartref, mae'r risgiau hynny yn debygol o fod hyd yn oed yn waeth. Gall achosion sy'n ymwneud â thresmaswyr yn aml fod yn gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd.
- 4.8 Yn yr achosion hyn, gall caniatáu i orchmynion meddiant gael eu gorfodi arwain at lai o risg y caiff y feirws ei ddal a'i ledaenu na chaniatáu i'r rhai sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol aros yn eu cartrefi. Er bod hyn yn golygu y bydd rhai pobl yn cael eu troi allan yng nghanol y gaeaf, bydd atal achosion o orfodi troi allan ac eithrio yn yr achosion mwyaf dybryd yn lleihau'n sylweddol nifer y gweithrediadau gorfodi yn ystod y gaeaf pan fydd trosglwyddiad y feirws yn cynyddu.
- 4.9 Un o'r amgylchiadau penodedig eraill lle bydd modd gorfodi yw pan fydd y tenant wedi marw ac nad oes unrhyw hawl etifeddu. Yn yr achos hwn, mae'n rhaid i'r person sy'n mynd i'r tŷ annedd gymryd camau rhesymol i fodloni ei hun nad yw'r tŷ annedd wedi'i feddiannu cyn gweithredu gwrit neu warant meddiant neu adfer neu ddanfon hysbysiad troi allan. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad yw meddiannu eiddo gwag yn peri unrhyw risg i iechyd y cyhoedd.

5. Ymgynghoriad

- 5.1 O ystyried yr argyfwng iechyd y cyhoedd, ni fu modd cynnal unrhyw ymgynghoriad ar y Rheoliadau hyn ac nid oes gofyniad statudol i wneud hynny.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

- 6.1 Mae'r argyfwng COVID-19 a brys gwneud y Rheoliadau hyn yn golygu fu modd paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i feintio. Fodd bynnag, mae'r adran ganlynol yn rhoi disgrifiad ansoddol o'r effeithiau tebygol.

Opsiynau

- 6.2 Ystyriwyd dau opsiwn:

Opsiwn A – Gwneud dim

Opsiwn B – Deddfu i atal y rhan fwyaf o achosion o droi allan rhag digwydd rhwng 11 Rhagfyr 2020 a 11 Ionawr 2021

Costau a Manteision

Opsiwn A – Gwneud dim

- 6.3 Os na weithredir, byddai angen dibynnu ar arweiniad Llywodraeth y DU i feilliod llysoedd sirol ac ar lythyr yr Arglwydd Ganghellor at Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys i atal achosion o droi allan dros y Nadolig a chanol y gaeaf. Fodd bynnag, nid yw'n sicr a fyddai'r arweiniad yn cael ei roi nac a ellir dibynnu arno, gan nodi bod y polisi ar atal troi allan dros y cyfnod hwn wedi cael ei roi ar sail statudol yn Lloegr.
- 6.4 Er nad oes unrhyw gostau ychwanegol uniongyrchol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn, ni fydd yn sicrhau'r fantais i iechyd y cyhoedd na rheoli'r feirws a fyddai'n codi drwy atal achosion o droi allan dros y Nadolig a chanol y gaeaf os na fydd Llywodraeth y DU yn gweithredu dull anneddfwriaethol neu os nad yw hynny'n effeithiol. O ganlyniad i'r olaf, bydd cost sylweddol o bosibl yn y tymor canolig i'r tymor hwy, o ran niwed posibl i iechyd y cyhoedd a'r effaith ar wasanaethau sy'n gorfod ymdrin â'r rhai sy'n wynebu'r risg o gael eu troi allan a mynd yn ddigartref.

Opsiwn B – Deddfu i atal y rhan fwyaf o achosion o droi allan rhag digwydd rhwng 11 Rhagfyr 2020 a 11 Ionawr 2021

- 6.4 O dan yr opsiwn hwn, byddai rheoliadau yn atal gorfodi gorchmynion meddiant oni bai bod y sail dros feddiant yn un o'r amgylchiadau penodedig lle y gellir gorfodi gorchmyn yng nghanol y gaeaf. O

ganlyniad, byddai'r manteision i iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig ag atal cynnydd yn nifer y bobl sy'n ddiartref ac unrhyw gynnydd cysylltiedig ym mynychder a throsglwyddiad y feirws yn cael eu gwireddu. Byddai arbediad hefyd i awdurdodau lleol a sefydliadau sy'n rhoi cymorth i unigolion sy'n wynebu'r risg o gael eu troi allan, gyda'u llwythi achosion yn lleihau dros dro, a fyddai o bosibl yn eu galluogi i gyfeirio adnoddau at feysydd eraill.

- 6.5 Nid oes unrhyw gostau gweinyddol na throsiannol amlwg yn gysylltiedig ag atal achosion o droi allan dros y cyfnod dros dro hwn. Pan fo landlord yn ceisio meddiannu eiddo nad yw'r rhent amdano yn cael ei dalu, mae cost ychwanegol bosibl i landlordiaid sy'n codi o'r oedi ychwanegol cyn y gall y landlord ailfeddiannu'r eiddo ac adennill yr ôl-ddyledion a all gronni o bosibl yn ystod y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, mae natur dros dro y Rheoliadau, a fyddai'n para am un mis yn unig, yn golygu y byddai cyfyngu ar oedi – ac unrhyw gostau cysylltiedig.

Asesu'r Gystadleuaeth

- 6.6 Ni fu modd asesu'r gystadleuaeth yn llawn mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, o ystyried bod terfyn amser i'w cymhwyso, mae'n annhebygol y byddant yn cael effaith niweidiol ar gystadleuaeth.

Profion Effaith Penodol

Cyfleoedd cyfartal

- 6.7 Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gwahaniaethu yn erbyn personau sy'n rhannu unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. I'r gwrthwyneb, gall y darpariaethau a geir yn y rheoliadau fod yn fuddiol iawn i unigolion sy'n agored i niwed a allai fel arall wynebu'r risg o gael eu troi allan a'u gorfodi i ddod o hyd i lety amgen yn ystod cyfnod pan fyddai ceisio dod o hyd i lety o'r fath yn heriol iawn. Mae'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig penodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn debygol o gael eu cynrychioli'n ymhlith y rhai sy'n byw yn y sector rhentu ac felly'n debygol o fod yn fwy agored i gael eu troi allan.

Hawliau plant

- 6.8 Ni nodwyd unrhyw wrthdaro â CCUHP ac ni ddisgwylir i unrhyw effeithiau negyddol ar blant na phobl ifanc godi o ganlyniad i'r Rheoliadau hyn. Ar gyfer teuluoedd sydd â phlant dibynnol, gall atal troi allan dros dro yng nghanol y gaeaf helpu i leihau'r tarfu ar blant pan fydd cartref yn symud drwy roi mwy o amser i rieni ddod o hyd i lety amgen gerllaw, neu roi digon o amser i wneud trefniadau i symud ymhellach i ffwrdd pan fo hynny'n angenrheidiol neu'n ddymunol.

Y Gymraeg

- 6.9 Ni ddylai'r Rheoliadau hyn arwain at unrhyw effeithiau negyddol mewn perthynas â llesiant diwylliannol y Gymraeg.

Llywodraeth Leol

- 6.10 Gall y Rheoliadau hyn gael effaith gadarnhaol, gyfyngedig ar awdurdodau lleol o ganlyniad i'r lleihad yn y galw am wasanaethau digartrefedd mewn argyfwng o ganlyniad i lai o achosion o droi allan dros gyfnod y Nadolig a chanol y gaeaf.

Effeithiau economaidd

- 6.11 Fel y nodir uchod, er y byddai landlordiaid yn gallu ailfeddiannu eiddo o hyd pe bai tenant yn methu â thalu'r rhent, neu fel arall yn torri telerau ei denantiaeth, ac y byddai benthycwyr yn gallu adfeddiannu eiddo o hyd pe bai'r landlord yn methu â thalu'r morgais, mae cost ychwanegol bosibl iddynt o ganlyniad i'r oedi a achosir drwy atal troi allan dros dro. Fodd bynnag, mae natur dros dro y rheoliadau a fyddai'n para am fis yn unig yn golygu y dylai unrhyw effaith economaidd negyddol a achosir fod yn gyfyngedig.

Effaith ar Breifatrwydd

- 6.12 Nid yw'r Rheoliadau yn creu unrhyw ofynion newydd o ran preifatrwydd na rhannu gwybodaeth.

Prawfesur gwledig

- 6.13 Bydd y Rheoliadau yn gymwys yn yr un modd i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol. Fel y cyfryw, ni ddylai'r effeithiau – na'r manteision – fod yn wahanol rhwng y ddau.

Iechyd a llesiant

- 6.14 Yn ogystal â'r manteision penodol i iechyd y cyhoedd a fyddai'n deillio o leihau nifer y bobl sy'n cael eu troi allan ac yn mynd yn ddigartref yng nghanol y gaeaf, dylai'r Rheoliadau hefyd gefnogi iechyd a llesiant unigolion sy'n agored i gael eu troi allan drwy roi sicrwydd na fyddant yn wynebu'r risg o gael eu troi allan dros y Nadolig a chanol y gaeaf.

Effaith ar y System Gyfiawnder

- 6.15 Bydd y Rheoliadau yn effeithio ar y system gyfiawnder yn yr ystyr y byddant yn atal gweithredu gorchmynion llys dros y Nadolig a chanol y gaeaf. Fodd bynnag, mae natur dros dro y Rheoliadau yn golygu na ddylai fod effaith hirhoedlog.



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

9 Rhagfyr 2020

Annwyl Elin

Rheoliadau lechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau lechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 o dan adrannau 45C(1), (2), (3)(c) a 45P o Ddeddf lechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar ddechrau 11 Rhagfyr 2020. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf lechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 26 Ionawr 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Fodd bynnag, sylwch y bydd y Rheoliadau hyn yn dod i ben ar 11 Ionawr 2021

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 300
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Adran 45C o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020
DYDDIAD	10 Rhagfyr 2020
GAN	Julie James, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Mae adran 45C o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ('Deddf 1984') yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at y diben o atal, diogelu yn erbyn, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Fel y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, a chan ddefnyddio'r pwerau o dan adran 45C Deddf 1984, rwyf heddiw wedi gosod gerbron y Senedd reoliadau mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad Covid 19.

Daw'r Rheoliadau i rym ar 11 Rhagfyr a byddant yn dod i ben ar 11 Ionawr 2021.

Mae'r Rheoliadau yn atal, ac eithrio mewn amgylchiadau penodedig, mynd i dŷ annedd at ddibenion gweithredu gwrit neu warant meddiannu, gweithredu gwrit neu warant adferiad neu i roi hysbysiad troi allan. Yr amgylchiadau penodedig yw pan fo'r llys wedi'i fodloni bod yr hawliad yn erbyn tresmaswyr sy'n bersonau anhysbys neu lle cafodd ei wneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau difrifol, niwsans, trais domestig neu, mewn achosion lle mae'r person sy'n bresennol wedi'i fodloni bod y tŷ annedd yn wag, farwolaeth y preswlydd.

Diben y Rheoliadau yw sicrhau bod cyn lleied â phosibl o denantiaid yn cael eu troi allan yn ystod cyfnod y Nadolig a chanol y gaeaf. Gyda mynediad at wasanaethau a llety amgen yn aml yn gyfyngedig yn ystod y cyfnod hwn, mae mwy o risg y bydd troi allan yn arwain at ddiartrefedd, sydd yn ei dro yn cynyddu'r risg y bydd y feirws yn cael ei drosglwyddo. Mae'r Rheoliadau'n gwneud cyfraniad pwysig at ddiwallu'r angen brys hwnnw. Byddant yn dod i rym ar 11 Rhagfyr 2020 ac yn dod i ben ar 11 Ionawr 2021.

Gellir gweld copi o'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig [yma](#) ac [yma](#).

Eitem 6.1

SL(5)674 – Rheoliadau Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymwysterau) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau, yn dilyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu y bydd y fframwaith rheoleiddio presennol ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol ar y cyd – a darparu gwasanaethau proffesiynol dros dro, ac yn achlysurol, fel gweithiwr cymdeithasol neu reolwr gofal cymdeithasol – yn parhau i weithredu'n effeithiol yng Nghymru.

Mae'r rheoliadau'n gwneud y newidiadau hyn i'r graddau eu bod yn ymwneud â darparu gwasanaethau o'r fath gan bobl a gwmpesir gan y cytundebau y mae'r Deyrnas Unedig wedi ymrwymo iddynt gyda'r Swistir, a gwledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a Chymdeithas Masnach Rydd Ewrop, i amddiffyn hawliau dinasyddion.

Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Nodwn fod y Rheoliadau hyn yn gweithredu cytundebau yr ymrwymwyd iddynt rhwng y Deyrnas Unedig ac:

- Y Swistir a
- Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy (gwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a Chymdeithas Masnach Rydd Ewrop),



ar hawliau dinasyddion, i'r graddau bod y cytundebau hynny'n ymwneud â chydabod cymwysterau proffesiynol ar y cyd, a darparu gwasanaethau proffesiynol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

8 Rhagfyr 2020



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee

Tudalen y pecyn 303

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a pharagraff 3(5) o Atodlen 4 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2020 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

**CYMWYSTERAU
PROFFESIYNOL, CYMRU**

Rheoliadau Rheoleiddio ac Arolygu
Gofal Cymdeithasol
(Cymwysterau) (Cymru) (Diwygio)
(Ymadael â'r UE) 2020

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymwysterau) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/761 (Cy. 144) ("Rheoliadau 2019") er mwyn cywiro mân wallau drafftio a rhoi cyfeiriadau at "diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu" yn lle cyfeiriadau at "y diwrnod ymadael".

Maent hefyd wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir yn adrannau 12 a 14 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) a pharagraff 12 o Atodlen 4 iddi er mwyn gweithredu a gwneud darpariaeth drosiannol ychwanegol yn Rheoliadau 2019 sy'n ymwneud â'r canlynol—

- cytundeb hawliau dinasyddion Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop (EFTA) yr AEE a lofnodwyd yn Llundain ar 2 Ebrill 2019 rhwng Gwlad yr Iâ, Tywysogaeth Liechtenstein, Teyrnas Norwy a Theyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon ar drefniadau ynghylch hawliau dinasyddion yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd a Chytundeb yr AEE, ac

- y cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd a lofnodwyd yn Bern ar 25 Chwefror 2019 rhwng y Deyrnas Unedig a Chydffederasiwn y Swistir ar hawliau dinasyddion yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd a'r cytundeb ar symudiad rhydd personau,

i'r graddau y mae'r cytundebau hynny yn ymwneud â chydabod cymwysterau proffesiynol yn gilyddol a darparu gwasanaethau proffesiynol dros dro ac yn achlysurol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a pharagraff 3(5) o Atodlen 4 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2020 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

**CYMWYSTERAU
PROFFESIYNOL, CYMRU**

Rheoliadau Rheoleiddio ac Arolygu
Gofal Cymdeithasol
(Cymwysterau) (Cymru) (Diwygio)
(Ymadael â'r UE) 2020

Gwnaed

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1) ("Deddf 2018") ac adrannau 12 a 14 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020(2) ("Deddf 2020") a pharagraff 12 o Atodlen 4 iddi.

-
- (1) 2018 p. 16 ("Deddf 2018"). *Gweler* adran 20(1) o Ddeddf 2018 am y diffiniad o "devolved authority". Diwygiwyd paragraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf 2018 gan adran 41(4) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 a pharagraff 53(1) a (2) o Atodlen 5 iddi.
- (2) 2020 p. 1 ("Deddf 2020"). *Gweler* adrannau 12(8) a 14(6) o Ddeddf 2020 am y diffiniad o "appropriate authority" ac adran 39(1) o'r Ddeddf honno am y diffiniad o "devolved authority".

Yn unol â pharagraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf 2018 a pharagraff 3(5) o Atodlen 4 i Ddeddf 2020, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

Fel sy'n ofynnol gan baragraff 4(a) o Atodlen 2 i Ddeddf 2018, ymgynghorwyd â'r Ysgrifennydd Gwladol wrth lunio'r Rheoliadau hyn.

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymwysterau) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu⁽¹⁾.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2019" yw Rheoliadau Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymwysterau) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019⁽²⁾.

Diwygio Rheoliadau 2019

2. Mae Rheoliadau 2019 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

3. Yn rheoliad 1 (enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli)—

- (a) ym mharagraff (2) hepgorer "Yn ddarostyngedig i baragraff (3),";
- (b) hepgorer paragraff (3).

4. Yn Rhan 1 (diwygiadau i ddeddfwriaeth), yn lle rheoliad 14 rhodder—

"14. Yn Atodlen 1 (gwasanaethau rheoleiddiedig: diffiniadau), ym mharagraff 7(4) (gwasanaethau eirioli), yn lle paragraff (b) rhodder—

"(b) yn berson y mae un o'r darpariaethau a ganlyn yn cael effaith ar ei gyfer er mwyn caniatáu i'r person hwnnw barhau i ymarfer fel cyfreithiwr yng Nghymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon, neu'r Alban, ar neu ar ôl

(1) Mae i "diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu" yr un ystyr ag "IP completion day" yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020, gweler adran 39(1) i (5) o'r Ddeddf honno.

(2) O.S. 2019/761 (Cy. 144) ("Rheoliadau 2019"). Mae'r cyfeiriad at "y diwrnod ymadael" yn rheoliad 1(2) o Rheoliadau 2019 i'w ddarllen fel cyfeiriad at "diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu" yn rhinwedd paragraff 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2020.

diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu—

- (i) rheoliad 5 (darpariaeth drosiannol: Gorchymyn 1978 a'r Swistir) o Reoliadau Gwasanaethau Cyfreithwyr ac Ymarfer Cyfreithwyr (Dirymu etc.) (Ymadael â'r UE) 2020(1) (“Rheoliadau 2020”);
- (ii) rheoliad 5 (darpariaeth drosiannol: Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Gwasanaethau Cyfreithwyr) 1978 a'r Swistir) o Reoliadau Gwasanaethau Cyfreithwyr ac Ymarfer Cyfreithwyr (Ymadael â'r UE) (Yr Alban) (Diwygio etc.) 2019(2) (“Rheoliadau 2019”);
